



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 2 Tachwedd 2010
Tuesday, 2 November 2010

Cynnwys Contents

- 4 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister
- 34 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement
- 45 Dadl Cyfnod 1 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.24 ar y Mesur Arfaethedig Ynghylch Hawliau
Plant a Phobl Ifanc (Cymru)
Stage 1 Standing Order No. 23.24 Debate on the Proposed Rights of Children and Young
Persons (Wales) Measure
- 71 Penderfyniad Ariannol ynghylch y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc
(Cymru)
Financial Resolution regarding the Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales)
Measure
- 72 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.57 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff
(Cymru)
Stage 3 Standing Order No. 23.57 Debate on the Proposed Waste (Wales) Measure
- 72 Grŵp 1: Bagiau Siopa Untro—Cymhwyso Rheoliadau yn y Dyfodol (Gwelliant 1)
Group 1: Single Use Carrier Bags—Application of Future Regulations (Amendment 1)
- 73 Grŵp 2: Bagiau Siopa Untro—Sbardun ar Gyfer Cynllun Gorfodol (Gwelliant 5)
Group 2: Single Use Carrier Bags—Trigger for Mandatory Scheme (Amendment 5)
- 80 Grŵp 3: Targedau Gwastraff—Rheoliadau i Osod Targedau Gwastraff (Gwelliant 4)
Group 3: Waste Targets—Regulations to Set Waste Targets (Amendment 4)
- 86 Grŵp 4: Targedau Gwastraff—Canllawiau (Gwelliant 6)
Group 4: Waste Targets—Guidance (Amendment 6)
- 92 Grŵp 5: Tirlenwi—Gorfodi (Gwelliannau 7 ac 8)
Group 5: Landfill—Enforcement (Amendments 7 and 8)
- 100 Grŵp 6: Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle—Awdurdodau Gorfodi (Gwelliannau 9, 10 ac 11)
Group 6: Site Waste Management Plans—Enforcement Authorities (Amendments 9, 10 and
11)

- 106 Grŵp 7: Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle—Cychwyn (Gwelliant 2)
Group 7: Site Waste Management Plans—Commencement (Amendment 2)
- 112 Grŵp 8: Targedau Gwastraff—Cydlafurio (Gwelliant 3)
Group 8: Waste Targets—Collaboration (Amendment 3)
- 118 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.58 i Gymeradwyo'r Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru)
Stage 4 Standing Order No. 23.58 Motion to Approve the Proposed Waste (Wales) Measure
- 122 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.57 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Iechyd Meddwl (Cymru)
Stage 3 Standing Order No. 23.57 Debate on the Proposed Mental Health (Wales) Measure
- 122 Grŵp 1: Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol—Gofyniad Ieithyddol (Gwelliannau 7 a 6)
Group 1: Local Primary Mental Health Services—Linguistic Requirement (Amendments 7 and 6)
- 129 Grŵp 2: Cynllunio Gofal a Thriniaeth (Gwelliannau 4, 3, 5)
Group 2: Care and Treatment Planning (Amendments 4, 3, 5)
- 139 Grŵp 3: Dyletswydd i Adolygu'r Mesur (1A, 1B, 1C, 1D, 1)
Group 3: Duty to Review the Measure (1A, 1B, 1C, 1D, 1)
- 147 Grŵp 4: Cyfeillion Achos (Gwelliant 2)
Group 4: Case Friends (Amendment 2)
- 152 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.58 i Gymeradwyo'r Mesur Arfaethedig ynghylch Iechyd Meddwl (Cymru)
Stage 4 Standing Order No. 23.58 Motion to Approve the Proposed Mental Health (Wales) Measure

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Prif Weinidog.

The Presiding Officer: Order for questions to the First Minister.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Preifateiddio Swyddfa'r Post

I. David Lloyd: *Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael ynghylch cynigion i breifateiddio swyddfa'r post. OAQ(3)3188(FM)*

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Yr wyf yn gwybod, wrth gwrs, am y cynlluniau hyn, ond gan law rhywbeth nas datganolwyd ydyw, nid ydym wedi bod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r cynigion, er bod gennym bryderon mawr ynglŷn â'r effaith y gallai hyn ei chael ar y gwasanaeth yng Nghymru.

David Lloyd: I thank you for that answer, First Minister. It is true to say that as regards the London Government's attitude towards Wales, the betrayals are stacking up: there is S4C; there was the VAT increase bombshell; the child trust fund is disappearing; tuition fees are spiralling out of control; and the Newport passport office is closing, to name but a few—and now there is the privatisation of the Royal Mail. Moving forward, what discussions do you envisage happening with UK Ministers as regards specifically preserving the universal service obligation, whereby a first-class stamp costs the same regardless of where you post it, and we still have daily delivery of letters in Wales?

The First Minister: We will as a Government form a view as to what submissions we should make to the UK Government as its proposals proceed. However, it is absolutely essential that there should be a universal service and that service levels should be unaffected for all parts of Wales, whether they be urban or rural.

Mark Isherwood: There are no proposals to

Post Office Privatisation

I. David Lloyd: *What discussions has the Welsh Assembly Government had regarding post office privatisation proposals. OAQ(3)3188(FM)*

The First Minister (Carwyn Jones): I am of course aware of the these plans, but as it concerns a non-devolved matter, we have not been involved in the process of developing the proposals, although we have major concerns regarding the impact that this could have on the service in Wales.

David Lloyd: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Mae'n wir dweud, o ran agwedd Llywodraeth Llundain tuag at Gymru, bod yr achosion o frad yn cynyddu; gydag S4C; yr ergyd ysgytwol bod TAW yn codi; y gronfa ymddiriedolaeth plant yn diflannu; ffioedd dysgu yn mynd y tu hwnt i bob rheolaeth; a swyddfa basbort Casnewydd yn cau, i enwi dim ond ychydig—ac yn awr, mae'r Post Brenhinol yn cael ei breifateiddio. Wrth symud ymlaen, pa drafodaethau rydych yn rhagweld a fydd yn cael eu cynnal â Gweinidogion y DU ynghylch gwarchod y ddyletswydd i ddarparu gwasanaeth unffurf yn benodol, lle mae stamp dosbarth cyntaf yn costio'r un faint ni waeth ble rydych yn ei bostio, a llythyrau yn dal i gael eu danfon yn ddyddiol yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Byddwn yn penderfynu fel Llywodraeth pa sylwadau y dylem eu cyflwyno i Lywodraeth y DU wrth i'r cynigion fynd rhagddynt. Fodd bynnag, mae'n gwbl hanfodol y dylid cael gwasanaeth unffurf a bod lefelau'r gwasanaeth hwnnw'n gyson ar gyfer pob rhan o Gymru, boed yn ardal drefol ynteu'n ardal wledig.

Mark Isherwood: Nid oes unrhyw gynigion

privatise the Post Office, as the First Minister, I am sure, has been advised. The proposals are to introduce a co-operative or mutual structure that would give sub-postmasters, communities, customers and employees a far greater say. I know that your party is a great supporter of the co-operative movement. My previous career was in the mutual sector. In fact, over 1,000 sub-post offices are already in the mutual sector, including one in my area and Darren Millar's, at the Raven Inn in Llanarmon-yn-Iâl. Consultation is ongoing as to what form of co-operative structure should be put in place. Will your Government be contributing to that to ensure that the voice of the community, the customer and the sub-postmaster or sub-postmistress in Wales is factored in?

The First Minister: There are suggestions that a mutual organisation will be put in place for the post offices, but we have not seen any detail of that yet. However, we are talking about the privatisation of Royal Mail—that is what the Government has said. In doing that, I can only see that it would lead to a worse service, putting it bluntly. Looking at the other mail and package carriers around the country, their service is not as good as the Royal Mail's. Quite often, people who are not around to receive a delivery have to travel up to 30 miles to pick up a package that has not been delivered by one of those companies. If Royal Mail is privatised, there is no doubt that great care will have to be taken to ensure, first, that the universal service continues, and secondly, that the service remains the same across the whole of the UK.

Joyce Watson: With the post office coming under increasing pressure by the Westminster coalition Government, calls will be made to merge post offices in rural communities in order to alleviate financial concerns. Such a move is likely to adversely impact on rural communities in Wales, where post offices provide a vital service. From London, it might look like post offices in two communities, with relatively low usage, should be able to share a post office.

i breifateiddio Swyddfa'r Post, fel mae'r Prif Weinidog yn gwybod, rwyf yn siŵr. Y cynigion yw cyflwyno strwythur cydweithredol neu gydfuddiannol a fyddai'n rhoi llawer mwy o lais i is-bostfeistri, i gymunedau, i gwsmeriaid ac i gyflogeion. Gwn fod eich plaid yn gefnogol iawn o'r mudiad cydweithredol. Yn fy ngyrfa flaenorol, roeddwn yn arfer gweithio yn y sector cydfuddiannol. Yn wir, mae'r sector cydfuddiannol eisoes yn cynnwys dros 1,000 o is-swyddfeydd post, gan gynnwys un yn fy ardal i a Darren Millar, yn Raven Inn yn Llanarmon-yn-Iâl. Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ynghylch pa fath o strwythur cydweithredol y dylid ei roi ar waith. A fydd eich Llywodraeth yn cyfrannu at yr ymgynghoriad hwnnw er mwyn sicrhau bod llais y gymuned, y cwsmer a'r is-bostfeistr neu'r is-bostfeistres yng Nghymru yn cael ei ystyried?

Y Prif Weinidog: Ceir awgrymiadau y bydd mudiad cydfuddiannol yn cael ei roi ar waith ar gyfer y swyddfeydd post, ond nid ydym wedi gweld unrhyw fanylion ynghylch hynny eto. Fodd bynnag, rydym yn sôn am breifateiddio'r Post Brenhinol—dyna mae'r Llywodraeth wedi'i ddweud. Ni allaf weld sut na fyddai hynny yn arwain at wasanaeth gwaeth, a siarad yn blaen. Wrth edrych ar y cludwyr post a phecynnau eraill o amgylch y wlad, nid yw eu gwasanaeth hwy cystal â gwasanaeth y Post Brenhinol. Yn bur aml, mae pobl nad ydynt ar gael i dderbyn post neu becyn yn gorfod teithio hyd at 30 milltir i gasglu pecyn nad yw un o'r cwmnïau hynny wedi'i ddanfôn. Os caiff y Post Brenhinol ei breifateiddio, yn sicr bydd yn rhaid bod yn ofalus iawn er mwyn sicrhau, yn gyntaf, bod y gwasanaeth unffurf yn parhau, ac yn ail, bod y gwasanaeth yn aros yr un fath ar draws y DU gyfan.

Joyce Watson: Wrth i'r Llywodraeth glymblaid yn San Steffan roi mwy a mwy o bwysau ar swyddfa'r post, bydd galw am uno swyddfeydd post mewn cymunedau gwledig er mwyn lliniaru pryderon ariannol. Mae cam o'r fath yn debygol o gael effaith andwyol ar gymunedau gwledig yng Nghymru, lle mae swyddfeydd post yn darparu gwasanaeth hollbwysig. O Lundain, gallai ymddangos y dylai swyddfeydd post mewn dwy gymuned—nad ydynt yn cael eu defnyddio

However, do you agree that this ignores local considerations and will lead to people from one town having to travel a considerable distance to access services, and that this is not acceptable?

The First Minister: What is difficult to predict at this stage is what effect these proposals will have. As I have said, there is very little information on what the mutual model might look like. When that information comes to light, we will be able to express a view on it.

Blaenoriaethau Gwario

2. Nick Ramsay: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau gwario Llywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)3169(FM)*

The First Minister: Our priorities are contained in 'One Wales', and they will be reflected in the draft budget, which will be published on 17 November.

Nick Ramsay: I thank the First Minister for that answer. There is pressure on spending priorities because of the financial situation in which we find ourselves. I wish to ask about spending on the NHS in Wales. As you will no doubt be aware, my party has stated that we would safeguard the NHS budget, as is happening in England. Sadly, your Government has made no such commitment. It was brought to my attention recently that a patient at the Royal Gwent Hospital who is suffering from actinic keratosis, which can be a forerunner to cancer, has seen waiting lists for a dermatologist at that hospital lengthen from 10 to 26 weeks. My concern is that, if we are seeing waiting lists in areas such as dermatology lengthening, at a time when your Government is refusing—unlike the coalition Government in Westminster—to protect the health budget, we will see even more pressure on medical services in Wales, and ultimately, we are risking the lives of patients. Will you reconsider your Government's decision not to fund the NHS in Wales properly?

The First Minister: I will not comment on

rhyw lawer—allu rhannu swyddfa bost. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno bod hyn yn anwybyddu ystyriaethau lleol ac y bydd yn golygu y bydd rhaid i bobl o un dref deithio cryn bellter i gael mynediad at wasanaethau, ac nad yw hyn yn dderbyniol?

Y Prif Weinidog: Yr hyn sy'n anodd ei ragweld ar hyn o bryd yw beth fydd effaith y cynigion hyn. Fel rwyf wedi'i ddweud, nid oes llawer o wybodaeth ar gael am gyfansoddiad posibl y model cydfuddiannol. Pan ddaw'r wybodaeth honno i'r amlwg, byddwn yn gallu mynegi barn ar hynny.

Spending Priorities

2. Nick Ramsay: *Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's spending priorities. OAQ(3)3169(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae ein blaenoriaethau wedi cael eu nodi yn 'Cymru'n Un', a byddant yn cael eu hadlewyrchu yn y gyllideb ddrafft, a gaiff ei chyhoeddi ar 17 Tachwedd.

Nick Ramsay: Diolch i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. Ceir pwysau ar flaenoriaethau gwario oherwydd ein sefyllfa ariannol. Hoffwn holi am wario ar y GIG yng Nghymru. Fel y gwyddoch yn siŵr, mae fy mhlyd i wedi datgan y byddem yn diogelu cyllideb y GIG, fel sy'n digwydd yn Lloegr. Yn anffodus, nid yw eich Llywodraeth chi wedi gwneud unrhyw ymrwymiad o'r fath. Cefais wybod yn ddiweddar fod claf yn Ysbyty Brenhinol Gwent sy'n dioddef o actinic keratosis, sy'n gallu arwain at ganser, wedi gweld rhestrau aros i weld dermatolegydd yn yr ysbyty hwnnw yn cynyddu o 10 wythnos i 26 wythnos. Os ydym yn gweld rhestrau aros mewn meysydd fel dermatoleg yn cynyddu ar adeg pan mae eich Llywodraeth chi—yn wahanol i'r Llywodraeth glymblaid yn San Steffan—yn gwrthod amddiffyn y gyllideb iechyd, fy mhryder i yw y byddwn yn gweld mwy fyth o bwysau ar wasanaethau meddygol yng Nghymru. Yn y pen draw, rydym yn peryglu bywydau cleifion. A wnewch ailystyried penderfyniad eich Llywodraeth i beidio â chyllido'r GIG yng Nghymru yn briodol?

Y Prif Weinidog: Nid wyf am wneud

individual cases. However, the suggestion that NHS funding has been protected in England is absolute nonsense, frankly. They have based their assumptions in England on an increase of 2 per cent a year in inflation; however, everyone who works in the health service knows that the increase is closer to 5 to 6 per cent a year. There is no way that NHS spending in England will keep pace with the demands made on it. As far as Wales is concerned, you must remember that, even though NHS spending in England appears to be rising in real terms by 1.3 per cent over five years, the Welsh budget has been cut by 7.5 per cent, including for health. Therefore, the Welsh health budget has, in effect, been cut by the Government in London. As we said we would, we will protect areas such as schools, skills and hospitals, regardless of the money that we have available. That will become clear from the budget that we shall produce on 17 November. What we cannot do, however, is, for example, to slash areas such as building social housing, which has happened in England, because we know that that will be important in Wales, particularly as we see the effect of the cut in housing benefit.

Lynne Neagle: The changes to housing benefit that have been announced by the UK Government will leave 50,000 private sector tenants in Wales an average of £9 per week worse off, and many could lose their homes. On top of this, the scandalous decision to reduce the housing benefit of jobseekers' allowance claimants who have been unemployed for a year will make it harder, not easier, for them to find work, which will risk making them homeless as well as jobless. What assurances can you offer my constituents that the Assembly Government will do everything that it can to mitigate the worst effects of these draconian and unfair changes to housing benefits?

The First Minister: It means that we will have to look carefully at the social housing

sylwadau am achosion unigol. Fodd bynnag, mae'r awgrym bod cyllid y GIG wedi cael ei amddiffyn yn Lloegr yn nonsens llwyr, a siarad yn blwmp ac yn blaen. Maent wedi seilio eu rhagdybiaethau yn Lloegr ar 2 y cant o gynnydd y flwyddyn mewn chwyddiant; fodd bynnag, mae pawb sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd yn gwybod bod y cynnydd yn nes at 5 neu 6 y cant y flwyddyn. Ni fydd modd i'r lefelau gwario ar y GIG yn Lloegr gynyddu yn unol â'r galw am y gwasanaeth. O ran sefyllfa Cymru, er bod y lefelau gwario ar y GIG yn Lloegr i'w weld yn codi 1.3 y cant dros bum mlynedd mewn termau real, mae'n rhaid ichi gofio bod cyllideb Cymru wedi cael ei chwtogi 7.5 y cant, gan gynnwys ar gyfer iechyd. Felly mae'r Llywodraeth yn Llundain, i bob pwrpas, wedi cwtogi cyllideb iechyd Cymru. Fel y dywedom y byddem yn ei wneud, byddwn yn amddiffyn meysydd fel ysgolion, sgiliau ac ysbytai, ni waeth faint o arian sydd ar gael inni. Bydd hynny i'w weld yn amlwg yn y gyllideb y byddwn yn ei chyhoeddi ar 17 Tachwedd. Fodd bynnag, yr hyn na allwn ei wneud, er enghraifft, yw gwneud toriadau mewn meysydd fel adeiladu tai cymdeithasol—sydd wedi digwydd yn Lloegr—gan ein bod yn gwybod y bydd hynny'n bwysig yng Nghymru, yn enwedig wrth inni weld effaith y toriadau budd-daliadau tai.

Lynne Neagle: O ganlyniad i'r newidiadau mewn budd-daliadau tai sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth y DU, bydd 50,000 o denantiaid yn y sector preifat yng Nghymru ar eu colled o £9 yr wythnos ar gyfartaledd, a gallai llawer golli eu cartrefi. Ar ben hyn, bydd y penderfyniad gwarthus i leihau budd-dal tai y rheini sy'n hawlio'r lwfans ceisio gwaith sy'n ddi-waith ers blwyddyn yn ei gwneud yn anos, nid yn haws, iddynt ddod o hyd i waith, a bydd perygl iddynt fynd yn ddigartref yn ogystal ag yn ddi-waith. Pa sicrwydd y gallwch ei gynnig i'm hetholwyr y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud popeth o fewn ei gallu i liniaru effeithiau gwaethaf y newidiadau llym ac annheg hyn mewn budd-daliadau tai?

Y Prif Weinidog: Mae'n golygu y bydd yn rhaid inni edrych yn ofalus ar y gyllideb tai

budget. This is potentially a serious problem for us, in the sense that, if people are made homeless because they cannot afford their accommodation because of cuts in housing benefit, despite it effectively being a saving for the UK Government, it is potentially a financial burden on the Welsh Assembly Government. Therefore, it is a direct transfer of money from Wales to Westminster, from that point of view. We will have to wait and see what the effect is on Wales, but it is important that we continue to ensure that accommodation is available through social housing in a way that, looking at the cuts that are proposed in England, will not be case there.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): The years of plenty have come to an end. They were the words of Andrew Davies, your Minister for finance when he stated them in February 2009. Would you therefore not accept that the budget that we have is very much the sort of budget that we would have had from Westminster, given the preparations that you were making previously? Would you not also acknowledge that this is a tough but fair budget, in line with what Andrew Davies said he was expecting in February 2009?

The First Minister: Let us look at the comparisons with Scotland and Northern Ireland. First, we know, through the evidence to the Holtham commission, that Wales is underfunded—that issue has not been addressed. Scotland and Northern Ireland are going to face smaller cuts than Wales. There is no question of that, as the cuts in capital funding in Wales are far higher than those in Scotland and Northern Ireland. On top of that, there is no movement on rural broadband or on rail electrification, the military training academy at St Athan has effectively been scrapped, and the passport office at Newport is threatened with closure. There is a list of areas where Wales is losing out beyond the settlement, difficult though that is, from the UK Government. However, to suggest in some way that this is a good settlement when compared to that given to Scotland and Northern Ireland clearly is not right. The Treasury's own figures make it clear that Scotland and Northern Ireland will face capital and revenue cuts that are lower

cymdeithasol. Gallai hyn fod yn broblem ddifrifol inni, yn yr ystyr os bydd pobl yn cael eu gwneud yn ddigartref oherwydd na allant fforddio eu llety oherwydd toriadau mewn budd-daliadau tai er bod hynny, i bob pwrpas, yn gwneud arbedion i Lywodraeth y DU, gallai fod yn faich ariannol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru. Felly, o'r safbwynt hwnnw, mae'n golygu trosglwyddo arian yn uniongyrchol o Gymru i San Steffan. Bydd yn rhaid inni aros i weld beth fydd yr effaith ar Gymru, ond mae'n bwysig ein bod yn parhau i sicrhau bod llety ar gael ar ffurf tai cymdeithasol mewn ffordd na fydd, gan edrych ar y toriadau sydd ar y gweill yn Lloegr, yn digwydd yno.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Mae'r blynyddoedd o ddigonedd wedi dod i ben. Andrew Davies, eich Gweinidog dros Gyllid, ddywedodd hynny ym mis Chwefror 2009. Oni wnewch dderbyn, felly, fod y gyllideb sydd gennym yn debyg iawn i'r math o gyllideb y byddem wedi'i chael gan San Steffan, wrth ystyried y paratodau ymlaen llaw roeddech yn eu gwneud? Oni wnewch gydnabod hefyd fod hon yn gyllideb anodd ond yn deg, sy'n cyd-fynd â'r hyn a ddywedodd Andrew Davies yr oedd yn ei ddisgwyl ym mis Chwefror 2009?

Y Prif Weinidog: Gadewch inni edrych ar y cymariaethau â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Yn gyntaf, yn sgîl y dystiolaeth i gomisiwn Holtham, rydym yn gwybod bod Cymru yn cael ei thangyllido—nid yw'r mater hwnnw wedi cael sylw. Mae'r Alban a Gogledd Iwerddon yn mynd i wynebu toriadau llai na Chymru. Nid oes unrhyw amheuaeth ynghylch hynny, gan fod y toriadau mewn cyllid cyfalaf yng Nghymru yn llawer uwch na'r rheini yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon. Ar ben hynny, nid oes dim byd yn digwydd yng nghyswllt band eang yng nghefn gwlad nac yng nghyswllt trydaneiddio'r rheilffyrdd, mae'r academi hyfforddiant milwrol yn Sain Tathan wedi cael ei rhoi o'i neilltu i bob pwrpas, ac mae'r swyddfa basbort yng Nghasnewydd mewn perygl o gau. Ceir rhestr o'r meysydd lle mae Cymru ar ei cholled y tu hwnt i'r setliad, mor anodd ag yw hynny, oherwydd Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae awgrymu mewn rhyw ffordd bod hwn yn setliad da, o'i gymharu â'r hyn a roddwyd i'r Alban ac i

than those that Wales will face.

Ogledd Iwerddon, yn amlwg yn gyfeiliornus. Mae ffigurau'r Trysorlys ei hun yn dangos yn glir y bydd yr Alban a Gogledd Iwerddon yn wynebu toriadau cyfalaf a refeniw is na'r rheini y bydd Cymru yn eu hwynebu.

1.40 p.m.

Nick Bourne: That was an answer to a question that I did not ask. I was not asking for a comparison with Scotland and Northern Ireland. That is an issue for another day and, as you know very well, it is connected to business rates, because they are not devolved to Wales, and that is the difference on the revenue side.

Nick Bourne: Roedd hwnnw'n ateb i gwestiwn na wneuthum ei ofyn. Nid oeddwn yn gofyn am gymariaethau â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Mater ar gyfer diwrnod arall yw hwnnw ac, fel y gwyddoch yn iawn, mae a wnelo hynny ag ardrethi busnes oherwydd nad ydynt wedi'u datganoli i Gymru, a dyna'r gwahaniaeth o ran yr elfen refeniw.

I will take you back to a point that was addressed by Nick Ramsay on protecting the health budget. You know very well that it was a commitment of the Westminster Government that health budgets would be protected in line with the retail price index, just as they will be under us in Wales. Are you making a similar commitment or a commitment on the schools budget, or are they both things that you are not seeking to protect in this budget round?

Af â chi yn ôl at bwynt y rhoddodd Nick Ramsay sylw iddo ynghylch amddiffyn y gyllideb iechyd. Gwyddoch yn iawn fod Llywodraeth San Steffan wedi ymrwymo i amddiffyn cyllidebau iechyd yn unol â'r mynegai prisiau manwerthu, fel y byddwn ninnau'n ei wneud yng Nghymru. A ydych yn gwneud ymrwymiad tebyg neu ymrwymiad ynghylch y gyllideb ysgolion, neu a yw'r ddau beth yn bethau nad ydych yn ceisio eu hamddiffyn yng nghylch y gyllideb hon?

The First Minister: As I have said many times, we have sought to protect schools, skills and hospitals, and all will become clear when the budget is published in draft form on 17 November.

Y Prif Weinidog: Fel rwyf wedi'i ddweud droeon, rydym wedi ceisio amddiffyn ysgolion, sgiliau ac ysbytai, a bydd popeth yn dod yn glir pan gaiff y gyllideb ddrafft ei chyhoeddi ar 17 Tachwedd.

Nick Bourne: The First Minister has asked for co-operation during the budget process, and I have made it clear many times—well in advance of the general election—that we were happy to co-operate with an independent budget review. They have such a cross-party review in Scotland that looks at options for spending. I am very willing to do that. I am making that clear, once again, as I have done in the past. Previously, you have said that you did not see that as a way forward; you did not welcome such co-operation. I make that offer once again: we are willing to co-operate during the budget process, which is what we have asked for. Will you accept that co-operation?

Nick Bourne: Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn am gydweithrediad yn ystod proses y gyllideb, ac rwyf wedi dweud yn glir sawl gwaith—ymhell cyn yr etholiad cyffredinol—ein bod yn fodlon cydweithredu ag adolygiad annibynnol o'r gyllideb. Mae ganddynt adolygiad trawsbleidiol o'r fath yn yr Alban sy'n edrych ar opsiynau gwario. Rwyf yn fwy na bodlon gwneud hynny. Rwyf yn dweud hynny'n glir, unwaith eto, fel yr wyf wedi'i wneud yn y gorffennol. Yn y gorffennol, rydych wedi dweud nad oeddech yn gweld hynny fel ffordd ymlaen; nid oeddech yn croesawu cydweithrediad o'r fath. Rwyf yn cynnig hynny unwaith eto: rydym yn fodlon cydweithredu yn ystod proses y gyllideb, sef yr hyn rydym wedi gofyn amdano. A wnewch dderbyn y

cydweithrediad hwnnw?

The First Minister: I am more than happy to accept co-operation with the budget process. I do not, however, see the point of an independent budget review. A body would need to be set up to do it, which comes at a cost. Also, I think that it seems to suggest that Members are not able to scrutinise the budget themselves, but I think that they can. Members on all sides of the Chamber have experience of scrutinising budgets. The draft budget will be tabled on 17 November and there will be ample opportunity for Members to scrutinise that budget in the way that they see fit.

Nick Bourne: It would not be a body; it would be a panel of three experts. The issue clearly would be that those three experts would put forward policy options. They would not be making the decisions; they would go through the policy options and say how savings could be made, making the policy options available to the Government and the other parties. Once again, I make that offer. Three experts do not come at a great cost. If they are experts, they will help us in that budget process. Will you accept that offer?

The First Minister: I do not see how value could be added in that way. That is the job of Members, quite frankly. Members have the ability and the desire to scrutinise the budget intensely, and I am sure that that is true of members of the parties opposite, as well as us on this side of the Chamber. I take the view that our budget scrutiny process is robust and open. Certainly, Governments past have known to their cost that that can be an uncomfortable process, but that is part of democracy.

Helen Mary Jones: First Minister, do you agree that one potentially serious threat to the health budget in Wales and over the border—although, of course, that is not a matter for us—is the decision that the Westminster Government has taken effectively to deregulate medicines? It has decided to remove from the National Institute for Health and Clinical Excellence its right to determine value for money, and that could potentially

Y Prif Weinidog: Rwyf yn fwy na pharod i dderbyn cydweithrediad â phroses y gyllideb. Ond nid wyf yn gweld pwrpas cael adolygiad annibynnol o'r gyllideb. Byddai angen sefydlu corff i wneud hynny, ac mae hynny'n costio. Hefyd, credaf fod hynny i'w weld yn awgrymu nad yw'r Aelodau yn gallu craffu ar y gyllideb eu hunain, ond rwyf fi'n credu eu bod yn gallu gwneud hynny. Mae gan Aelodau ar bob ochr i'r Siambr brofiad o graffu ar gyllidebau. Bydd y gyllideb ddrafft yn cael ei chyflwyno ar 17 Tachwedd, a bydd digon o gyfle i'r Aelodau graffu ar y gyllideb honno mewn ffordd y maent yn ystyried yn briodol.

Nick Bourne: Nid corff fyddai hwnnw, ond panel o dri arbenigwr. Yn amlwg, byddai'r tri arbenigwr hynny yn cynnig opsiynau polisi. Nid nhw fyddai'n gwneud y penderfyniadau; byddent yn ystyried yr opsiynau polisi ac yn dweud sut y gellid gwneud arbedion, gan gyflwyno'r opsiynau polisi i'r Llywodraeth a'r pleidiau eraill. Unwaith eto, rwyf yn gwneud y cynnig hwnnw. Nid yw tri arbenigwr yn costio llawer. Os ydynt yn arbenigwyr, byddant yn ein helpu gyda phroses y gyllideb. A wnewch dderbyn y cynnig hwnnw?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn gweld sut y gallai hynny ychwanegu gwerth. Dyna yw gwaith yr Aelodau, a siarad yn blwmp ac yn blaen. Mae'r Aelodau yn gallu, ac yn dymuno, craffu ar y gyllideb yn fanwl, ac rwyf yn siŵr bod hynny'n wir am aelodau o'r pleidiau gyferbyn yn ogystal â ni ar yr ochr hon i'r Siambr. Rwyf fi o'r farn ein bod yn defnyddio proses gadarn ac agored i graffu ar y gyllideb. Yn sicr, roedd Llywodraethau yn y gorffennol yn gwybod y gall hynny fod yn broses anghyfforddus ac wedi talu am hynny, ond mae hynny'n rhan o ddemocratiaeth.

Helen Mary Jones: Brif Weinidog, a ydych yn cytuno mai un bygythiad difrifol posibl i'r gyllideb iechyd yng Nghymru a dros y ffin—er, wrth gwrs, nid yw hynny'n fater i ni—yw'r penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth San Steffan a fydd, i bob pwrpas, yn arwain at ddadroleiddio meddyginiaethau? Mae wedi penderfynu diddymu hawl y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol i bennu gwerth am arian, a gallai

lead to a complete free-for-all. While it might have some benefits for some individual patients, it will overall benefit the wealthy pharmaceutical companies much more. Will you undertake to discuss with the Minister for Health and Social Services how we can ensure that whatever is done to deregulate the provision of medicines in England, we are not forced down the same path here in Wales?

The First Minister: We were not aware of what was happening with NICE, even though it is an England-and-Wales body, and that raises several issues. First, the idea behind NICE was that it would approve drugs that, in a way, went beyond the marketing of those drugs by the drug companies. As someone who knows many GPs, I know full well that the marketing was pretty generous to GPs at one time. The idea behind NICE was to take that element away. The difficulty for GPs in England now is that they will not be able to refer to an independent body that has approved a particular drug or not, and they will get the blame if they are not able to prescribe certain drugs. I do not think that GPs in Wales would welcome being put in that position.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): First Minister, research released by the University of Bristol today states that Welsh schools are less effective than schools in England. Why has Welsh GCSE performance fallen by nearly two GCSE grades per student per year in Wales?

The First Minister: Welsh performance has not fallen; performance in Wales has risen, as has performance in England and Northern Ireland. There is no question about that. It is to do with the investment that we have made as a Government in capital and revenue expenditure. Via the school effectiveness framework, we will continue to see results improving in Wales.

hynny arwain at rwydd hynt i bawb. Er y gallai fod yn fanteisiol i rai cleifion unigol, yn gyffredinol bydd yn fwy manteisiol o lawer i'r cwmnïau fferyllol cyfoethog. A wnewch ymrwymo i drafod â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sut y gallwn sicrhau na fyddwn ni yma yng Nghymru, beth bynnag a wneir i ddadroleiddio'r broses o ddarparu meddyginiaethau yn Lloegr, yn cael ein gorfodi i ddilyn yr un llwybr.

Y Prif Weinidog: Nid oeddem yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn digwydd yn achos NICE, er ei fod yn gorff sy'n cynrychioli Cymru a Lloegr, ac mae hynny'n codi nifer o faterion. Yn gyntaf, y syniad a oedd wrth wraidd NICE oedd y byddai'n cymeradwyo cyffuriau a oedd, mewn ffordd, yn mynd y tu hwnt i brosesau marchnata'r cwmnïau cyffuriau ar gyfer y cyffuriau hynny. Fel rhywun sy'n adnabod llawer o feddygon teulu, gwn yn iawn fod y prosesau marchnata wedi bod yn eithaf hael i feddygon teulu ar un adeg. Y syniad a oedd wrth wraidd NICE oedd cael gwared ar yr elfen honno. Yr anhawster i feddygon teulu yn Lloegr yn awr yw na fyddant yn gallu troi at gorff annibynnol i weld a yw cyffur penodol wedi cael ei gymeradwyo ai peidio, a nhw fydd yn cael y bai os na fyddant yn gallu rhagnodi rhai cyffuriau. Nid wyf yn credu y byddai meddygon teulu yng Nghymru yn croesawu cael eu rhoi yn y sefyllfa honno.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Brif Weinidog, mae ymchwil a ryddhawyd gan Brifysgol Bryste heddiw yn dweud bod ysgolion yng Nghymru yn llai effeithiol nag ysgolion yn Lloegr. Pam y mae cyflawniad TGAU Cymraeg wedi gostwng bron i ddwy radd TGAU ar gyfer pob myfyriwr bob blwyddyn yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Nid yw perfformiad Cymru wedi gostwng; mae perfformiad Cymru wedi gwella, fel y mae perfformiad Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi gwella. Nid oes amheuaeth am hynny. Mae a wnelo hynny â'r buddsoddiad rydym wedi'i wneud fel Llywodraeth mewn gwariant cyfalaf a refeniw. Drwy gyfrwng y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, byddwn yn parhau i weld canlyniadau'n gwella yng Nghymru.

Kirsty Williams: Indeed, First Minister, grades in Wales have gone up, but as you have acknowledged, grades across the UK are going up. Your Minister for education is quoted as saying that we will see in December, when the international comparisons of school performance are reported, whether the Government's approach has paid off. I assume that he is referring to the Organisation for Economic Co-operation and Development's programme for international student assessment. Are you confident that when the assessment has been published, Wales will be shown to be outperforming schools and pupils in England?

The First Minister: You began by saying that performance has dropped, and then you agreed with me that performance has improved. It is either one or the other.

The question you asked is whether we are confident that, in December, the PISA figures will show that our approach has paid off. That is our intention, and we hope to see that performance in Wales continues to rise, as it has for a number of years.

Kirsty Williams: It is clear from the report published this morning that Welsh pupils are not doing as well as their English counterparts. Given that the last PISA report for Wales was poor, I sincerely hope that you are correct and that the report will show improvements when it is published later this year.

Your Government has funded pupils in Wales at a level that is lower than that received by their English counterparts. The poorest Welsh children are almost three times less likely to leave school with five good GCSEs than their more affluent classmates. Now, for the first time since devolution, a gap is opening up as English students outperform their Welsh counterparts in GCSE and A-level results.

Kirsty Williams: Yn wir, Brif Weinidog, mae graddau yng Nghymru wedi codi, ond fel rydych wedi cydnabod, mae graddau'n codi ar draws y DU. Mae eich Gweinidog dros Addysg eich hun wedi cael ei glywed yn dweud y cawn weld ym mis Rhagfyr a yw ymagwedd y Llywodraeth wedi talu ar ei chanfed, pan fydd y cymariaethau rhwngwladol o berfformiad ysgolion yn cael eu cyhoeddi. Tybiaf ei fod yn cyfeirio at raglen ryngwladol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar gyfer asesu myfyrwyr. Pan fydd yr asesiad wedi cael ei gyhoeddi, a ydych yn ffyddiog y bydd yn dangos bod Cymru'n perfformio'n well nag ysgolion a disgyblion yn Lloegr?

Y Prif Weinidog: Gwnaethoch gychwyn drwy ddweud bod y perfformiad wedi gostwng, ac yna roeddech yn cytuno â mi fod y perfformiad wedi gwella. Mae'n naill ai un neu'r llall.

Y cwestiwn a ofynnodd yw a ydym yn hyderus y bydd y ffigurau PISA ym mis Rhagfyr yn dangos bod ein hymagwedd wedi talu ar ei chanfed. Dyna yw ein bwriad, ac rydym yn gobeithio gweld bod perfformiad Cymru yn parhau i wella, fel y mae wedi gwneud ers blynyddoedd lawer.

Kirsty Williams: Mae'n amlwg o'r adroddiad a gyhoeddwyd y bore yma nad yw disgyblion yng Nghymru yn gwneud cystal â disgyblion yn Lloegr. Wrth ystyried bod Cymru wedi cael adroddiad gwael gan PISA y tro diwethaf, rwyf wir yn gobeithio eich bod yn gywir ac y bydd yr adroddiad yn dangos gwelliannau pan gaiff ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Mae eich Llywodraeth wedi rhoi llai o gyllid ar gyfer disgyblion yng Nghymru na'r hyn y mae disgyblion yn Lloegr yn ei gael. Mae'r plant tlotaf yng Nghymru bron i dair gwaith yn llai tebygol o adael yr ysgol gyda phum TGAU da na'u cyd-ddisgyblion mwy cefnog. Yn awr, am y tro cyntaf ers datganoli, mae bwlch yn agor wrth i fyfyrwyr yn Lloegr wneud yn well na myfyrwyr yng Nghymru yn eu canlyniadau TGAU a Safon Uwch.

This morning, another academic, Professor Reynolds from Plymouth University, said that you and your Government should re-evaluate and think again. It is clear that our schoolchildren are not doing as well as they could. First Minister, is it not time that you listen to these experts and think again about your approach?

The First Minister: Their view seems to be that we should reintroduce league tables. I do not agree that that would help performance in any way. I looked at this during the summer, and in England and Northern Ireland, they enter fewer students for GCSEs, which suggests to me that they are not entering those students regarded as ones who would not perform well at GCSE. We do that, and as a result, it is natural that our performance levels should be slightly lower than those of England and Northern Ireland, where they do not enter certain students in the first place.

It is difficult to make comparisons with England and Northern Ireland, but it is inevitable that people will do so, which is why we want to ensure that we close the gap on England and, ultimately, on Northern Ireland. If you want to look at a fragmented education system, Northern Ireland is a prime example. It is not a system that I want to see copied in Wales at all.

Kirsty Williams: First Minister, no-one is asking you to copy the situation in Northern Ireland. What we are asking is for your Government to take action to address a widening gap in performance between Welsh schoolchildren and their English counterparts. We as a nation have prided ourselves over the past century on being a country that has invested in education and which has seen education as the crucial tool to allow people the social mobility that you and I aspire to for our population. Your own spokesperson today said that there needed to be robust self-evaluation, to play a vital role in promoting continuing improvements. Is it not time for your Government to indulge in that self-evaluation to ensure that we do not find ourselves in this situation next year?

Y bore yma mae academydd arall, yr Athro Reynolds o Brifysgol Plymouth, wedi dweud y dylech chi a'ch Llywodraeth ailedrych ar y sefyllfa ac ailystyried. Mae'n amlwg nad yw ein plant ysgol yn gwneud cystal ag y gallent. Brif Weinidog, onid yw'n bryd ichi wrando ar yr arbenigwyr hyn ac ailystyried eich ymagwedd?

Y Prif Weinidog: Eu barn nhw yn ôl pob golwg yw y dylem ailgyflwyno tablau cynghrair. Nid wyf yn cytuno y byddai hynny'n helpu perfformiad mewn unrhyw ffordd. Bûm yn edrych ar hyn yn ystod yr haf. Yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon, maent yn cofrestru llai o fyfyrwyr ar gyfer TGAU, sy'n awgrymu i mi nad ydynt yn cofrestru'r myfyrwyr hynny nad ydynt yn credu y byddent yn gwneud yn dda yn eu harholiadau TGAU. Rydym ni yn gwneud hynny, ac o ganlyniad, mae'n naturiol bod ein lefelau perfformiad ychydig yn is na rhai Lloegr a Gogledd Iwerddon, lle nad ydynt yn cofrestru rhai myfyrwyr yn y lle cyntaf.

Mae'n anodd gwneud cymariaethau â Lloegr a Gogledd Iwerddon, ond mae'n anochel y bydd pobl yn gwneud hynny, a dyna pam rydym am sicrhau ein bod yn cau'r bwlch rhyngom ni a Lloegr, a'r bwlch rhyngom ni a Gogledd Iwerddon yn y pen draw. Os hoffech gael system addysg dameidiog, mae Gogledd Iwerddon yn enghraifft berffaith. Nid wyf am weld y system honno'n cael ei hefelychu yng Nghymru o gwbl.

Kirsty Williams: Brif Weinidog, nid oes neb yn gofyn ichi efelychu sefyllfa Gogledd Iwerddon. Yr hyn rydym yn ei ofyn yw bod eich Llywodraeth yn cymryd camau i fynd i'r afael â bwlch cynyddol rhwng perfformiad plant ysgol yng Nghymru a phlant ysgol yn Lloegr. Rydym ni fel cenedl wedi ymfalchïo dros y ganrif ddiwethaf yn y ffaith ein bod yn wlad sydd wedi buddsoddi mewn addysg ac sydd wedi ystyried addysg yn offeryn hanfodol i sicrhau'r mudoledd cymdeithasol rydych chi a minnau yn dyheu amdano ar gyfer ein poblogaeth. Dywedodd eich llefarydd eich hun heddiw fod angen system hunanwerthuso gadarn, a fydd yn hanfodol wrth hyrwyddo gwelliannau parhaus. Onid yw'n bryd i'ch Llywodraeth fynd ati i werthuso ei hun er mwyn sicrhau na fyddwn yn y sefyllfa hon y flwyddyn nesaf?

The First Minister: As someone who proudly went to a comprehensive school, comprehensive education and public education, to me, count for a great deal. I agree with you that it is important that we have an education system that promotes social mobility. I think that we have done that, and we continue to do that.

As I have said many times before in the Chamber, we will look to protect the schools budget in a difficult financial settlement over the next few years. Our aim, in the short term initially, is to see an improvement in our performance when the PISA figures are produced in December.

Irene James: Young people leaving care disproportionately experience homelessness, unemployment, poverty and a range of other disadvantages. At a time when it is difficult for many young people to find employment, especially with the reckless gamble being taken by the Conservative-Liberal Government, will you make it one of your priorities to help these young people to find employment?

1.50 p.m.

The First Minister: Yes. Youth unemployment was a scourge of the 1980s, and we want to do all that we can to ensure that it does not become a scourge in this decade. It has not helped to see that some of the schemes that help people to find work have been done away with by the UK Government. The key to ensuring that youth unemployment comes down in a sustainable fashion is to ensure that our young people have the skills that they need to compete in the world marketplace. We are doing that, for example, through the Learning and Skills (Wales) Measure 2009.

Val Lloyd: First Minister, staying with the subject of spending priorities, I have recently been contacted by a constituent who is concerned about the future of free bus passes in Wales. As you know, the eligibility criteria for those passes will soon change in England so that only those aged over 75 can benefit from the worthwhile scheme. In light of the negative impact of the Westminster coalition Government's comprehensive spending review, can you assure my constituents and

Y Prif Weinidog: Fel rhywun a fu'n mynychu ysgol gyfun, mae addysg gyfun ac addysg gyhoeddus yn bwysig iawn i mi. Rwyf yn cytuno â chi ei bod yn bwysig bod gennym system addysg sy'n hyrwyddo mudoledd cymdeithasol. Rwyf yn credu ein bod wedi gwneud hynny, ac rydym yn parhau i wneud hynny.

Fel rwyf wedi'i ddweud droeon yn y Siambr, byddwn yn ceisio amddiffyn y gyllideb ysgolion mewn setliad ariannol anodd yn ystod y blynyddoedd nesaf. Ein nod, yn y tymor byr i ddechrau, yw gweld bod ein perfformiad wedi gwella pan fydd ffigurau PISA yn cael eu cyhoeddi fis Rhagfyr.

Irene James: Mae lefel anghymesur o bobl ifanc yn gadael gofal ac yn wynebu digartrefedd, diweithdra, tlodi ac amrywiaeth o anafteision eraill. Ar adeg pan mae'n anodd i lawer o bobl ifanc ddod o hyd i waith, yn enwedig gyda gambl ddi-hid y Llywodraeth Geidwadol-Ryddfrydol, a wnewch sicrhau bod helpu'r bobl ifanc hyn i ddod o hyd i waith yn un o'ch blaenoriaethau?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Diweithdra ymysg pobl ifanc oedd pla'r 1980au, ac rydym am wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau nad yw'n dod yn bla yn y degawd hwn. Nid yw'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi cael gwared â rhai o'r cynlluniau sy'n helpu pobl i ddod o hyd i waith wedi helpu pethau. Yr allwedd i sicrhau bod diweithdra ymysg pobl ifanc yn lleihau mewn modd cynaliadwy yw sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau y mae eu hangen arnynt i gystadlu yn y farchnad fyd-eang. Rydym yn gwneud hynny drwy Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, er enghraifft.

Val Lloyd: Brif Weinidog, gan aros gyda'r pwnc blaenoriaethau gwario, mae etholwr sy'n poeni am ddyfodol tocynnau bws am ddim yng Nghymru wedi cysylltu â mi'n ddiweddar. Fel y gwyddoch, bydd y meini prawf cymhwyso ar gyfer y tocynnau hynny yn newid yn Lloegr yn fuan, fel mai dim ond y bobl hynny sydd dros 75 oed fydd yn gallu elwa o'r cynllun gwerth chweil. Yn sgîl effaith negyddol adolygiad cynhwysfawr o wariant Llywodraeth glymblaid San Steffan,

older people throughout Wales that the Welsh Assembly Government will be doing all that it can to protect free bus passes for pensioners?

The First Minister: I can give you an assurance that it is not our plan to reduce eligibility levels for bus passes in Wales.

Toriadau Gwariant

3. Alun Davies: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drafodaethau sy'n cael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn y DU ynghylch toriadau Llywodraeth y DU mewn gwariant. OAQ(3)3191(FM)*

The First Minister: The Welsh Assembly Government has had a number of discussions, as you would imagine, with the other devolved administrations and the UK Government in the run-up to the announcement on 20 October.

Alun Davies: Over the past few months, we have learned that the opposition party leaders here in the Chamber have absolutely no influence on their parties in London. We have also learned that the coalition Government in London pays no attention to Welsh needs and circumstances. You have already listed issues such as the passport office, St Athan's defence academy, rail electrification and the Holtham commission, all of which show how Wales is being treated differently from, and far worse than, the other devolved administrations. We saw this morning that 48 per cent of people in Wales agree with you and your analysis. First Minister, will you represent those people and the opinion of those in Wales who feel poorly treated and let down by the promises made by the opposition parties here and the coalition parties in London? Will you take the case for Wales to London to make sure that we are not forgotten, as would happen if we had to rely on the parties opposite? [*Interruption.*]

a allwch dawelu meddyliau fy etholwyr a phobl hŷn ar hyd a lled Cymru y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud ei gorau glas i amddiffyn tocynnau bws am ddim i bensynwyr?

Y Prif Weinidog: Gallaf eich sicrhau nad ydym yn bwriadu gostwng lefelau cymhwyster ar gyfer tocynnau bws yng Nghymru.

Spending Cuts

3. Alun Davies: *Will the First Minister make a statement on discussions taking place between the Welsh Assembly Government and the other devolved administrations within the UK in relation to spending cuts imposed by the UK Government. OAQ(3)3191(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael nifer o drafodaethau, fel y byddech yn ei ddychmygu, â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill a Llywodraeth y DU yn ystod y cyfnod a oedd yn arwain at y cyhoeddiad ar 20 Hydref.

Alun Davies: Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi dysgu nad oes gan arweinwyr y gwrthbleidiau yma yn y Siambr unrhyw ddylanwad o gwbl ar eu pleidiau yn Llundain. Rydym hefyd wedi dysgu nad yw'r Llywodraeth glymblaid yn Llundain yn rhoi unrhyw sylw o gwbl i anghenion ac amgylchiadau Cymru. Rydych eisoes wedi rhestru materion fel y swyddfa basbort, academi amddiffyn Sain Tathan, trydaneiddio rheilffyrdd a chomisiwn Holtham—mae pob un ohonynt yn dangos sut mae Cymru yn cael ei thrin yn wahanol, ac yn llawer gwaeth na'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Gwelsom y bore yma fod 48 y cant o bobl yng Nghymru yn cytuno â chi a'ch dadansoddiad. Brif Weinidog, a wnewch gynrychioli'r bobl hynny a barn y bobl hynny yng Nghymru sy'n teimlo eu bod yn cael eu trin yn wael, ac yn cael eu siomi gan addewidion y gwrthbleidiau yma a phleidiau'r glymblaid yn Llundain? A wnewch bledio achos Cymru yn Llundain i wneud yn siŵr nad ydym yn angof, fel y byddai'n digwydd pe bai'n rhaid inni ddibynnu ar y pleidiau gyferbyn? [*Torri ar draws.*]

The First Minister: Unfortunately, the more noise they make, the more uncomfortable they are. A fortnight ago, I was asked my view on why Wales had done relatively badly from the comprehensive spending review, and I used the phrase that I believed that there was a 'lack of clout' around the Cabinet table. Some thought that I was criticising the Secretary of State for Wales, but I was not. The Secretary of State has assured me that she has done all that she can to represent Wales at the Cabinet table, and I take her at her word. The problem is that none of the other Ministers around the table has taken heed of what she has been saying. That is the difficulty. However, let us see what happens with the plans for the electrification of the south Wales main line. That, to me, is the big test. We know that there were plans to electrify the main line as far as Swansea. Going as far as Bristol would be a calculated insult, in my view, and going only as far as Cardiff would, in effect, isolate those communities west of Cardiff from future inter-city services. However, let us see. If the Government can deliver a London to Swansea electrified rail link, it would certainly help to alleviate the concerns shared not only by those of us on this side of the Chamber, but all the people of Wales.

Angela Burns: I am amazed at the collective amnesia of Members on that side of the Chamber. After all, it was Labour that brought this country to the brink of bankruptcy, and it was Labour that racked up a debt of £5,000 per second. [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order.

Angela Burns: At the end of the day, public spending per head in Wales will remain higher than that in any region of England, apart from London. Labour and Plaid received a far better budget settlement than they expected, and so, First Minister, instead of complaining, why do you not apologise to the people of Wales for not changing the council house rent scheme, which has lost this country £1 billion?

Y Prif Weinidog: Yn anffodus, po fwyaf o sŵn a wnânt, y mwyaf anghyfforddus y maent yn teimlo. Bythefnos yn ôl, gofynnwyd imi beth oedd fy marn ynghylch pam mae Cymru wedi gwneud yn eithaf gwael o'r adolygiad cynhwysfawr o wariant, a dywedais fy mod yn credu nad oedd 'digon o ddylanwad' o amgylch bwrdd y Cabinet. Roedd rhai'n meddwl fy mod yn beirniadu Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ond nid oeddwn yn gwneud hynny. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi fy sicrhau ei bod wedi gwneud popeth o fewn ei gallu i gynrychioli Cymru wrth fwrdd y Cabinet, ac rwyf yn derbyn ei gair. Y broblem yw nad oes dim un o'r Gweinidogion eraill o amgylch y bwrdd wedi cymryd sylw o'r hyn y mae wedi bod yn ei ddweud. Dyna'r broblem. Fodd bynnag, gadewch inni weld beth wnaiff ddigwydd gyda'r cynlluniau i drydaneiddio prif reilffordd y de. I mi, dyna fydd y prawf go iawn. Rydym yn gwybod y bu cynlluniau i drydaneiddio'r brif reilffordd cyn belled ag Abertawe. Byddai mynd cyn belled â Bryste yn sarhad bwriadol, yn fy marn i, a byddai mynd cyn belled â Chaerdydd yn unig, i bob pwrpas, yn eithrio'r cymunedau hynny i'r gorllewin o Gaerdydd o wasanaethau rhwng dinasoedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, gadewch inni weld. Os gall y Llywodraeth ddarparu cyswllt rheilffordd wedi'i drydaneiddio rhwng Llundain ac Abertawe, byddai'n sicr yn helpu i leddfu pryderon y rheini ohonom ar yr ochr hon i'r Siambr, yn ogystal â phobl Cymru i gyd.

Angela Burns: Rwyf yn rhyfeddu at amnesia'r holl Aelodau ar yr ochr honno i'r Siambr. Wedi'r cyfan, Llafur fu bron â gwneud i'r wlad hon fynd i'r wal, a Llafur lwyddodd i fynd i ddyled o £5,000 yr eiliad. [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn.

Angela Burns: Yn y pen draw, bydd gwariant cyhoeddus y pen yng Nghymru yn dal yn uwch nag mewn unrhyw ranbarth yn Lloegr, ar wahân i Lundain. Mae Llafur a Plaid wedi cael setliad cyllideb llawer gwell nag roeddent yn ei ddisgwyl. Felly, Brif Weinidog, yn hytrach na chwyno, pam nad ydych yn ymddiheuro i bobl Cymru am beidio â newid y cynllun rhent tai cyngor, sydd wedi colli £1 biliwn i'r wlad hon?

The First Minister: The idea that the recession in the UK was somehow entirely and exclusively the fault of the previous Government betrays to me an understanding of economics that goes little beyond being able to spell the word. You said that we have amnesia, but if you remember, there was a recession throughout the entire world, not in the UK alone. It was because of the steps taken by the UK Labour Government that we rode out the recession. Had we listened to the party opposite, the banks would have collapsed, people would have lost their savings and the country would have gone to the dogs. I know that there were three years when they were not able to do that, and they are now trying to make up for those three years that they have lost and trying to put 1.6 million people on the dole. The reality is that, had there been a Conservative Government in 2007, banks would have closed, people would have lost their savings, and we would have seen mass unemployment across the whole of the UK. That is the kind of amnesia that we need to talk about. [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. I do not know what the problem is today. I have had a fine week's holiday myself.

Rhodri Glyn Thomas: Credaf y byddai'r rhan fwyaf o bobl Cymru yn dweud nad pwy a greodd y sefyllfa hon sy'n eu pryderu ar hyn o bryd, ond yr hyn a fydd yn digwydd iddynt hwy a'u teuluoedd o ganlyniad i'r toriadau a fydd yn cael eu cyflwyno yng Nghymru. Cyfeiriasoch yn gynharach at rai o'r toriadau, ac yn hytrach na bod y toriadau yn cael eu trafod gyda'r Llywodraethau datganoledig, maent yn cael eu cyhoeddi drwy'r cyfryngau. Clywsom am yr holl doriadau drwy'r cyfryngau, yn hytrach na bod trafodaeth gyda'r Llywodraeth hon a chyda Llywodraethau datganoledig eraill. A gytunech fod y sôn am agenda o barch rhwng y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan a'r Llywodraethau datganoledig wedi troi yn ffars? Mae perygl y bydd yr un peth yn digwydd o ran trydaneiddio rheilffyrdd. Mae'n fater sydd o bwys enfawr i economi Cymru, ond byddwn yn clywed am benderfyniad y glymblaid yn San Steffan ar y mater hwnnw drwy'r cyfryngau, yn hytrach na drwy drafodaethau gyda'r Llywodraethau

Y Prif Weinidog: Mae'r syniad mai'r Llywodraeth flaenorol oedd yn gwbl gyfrifol am y dirwasgiad yn y DU i mi yn dangos diffyg dealltwriaeth o economeg—dealltwriaeth nad yw prin yn gallu sillafu'r gair. Dywedoch fod gennym amnesia, ond os cofiwch, roedd dirwasgiad ar draws y byd i gyd, nid dim ond yn y DU. Diolch i'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Lafur y DU, llwyddom i oroesi'r dirwasgiad. Pe baem wedi gwrando ar y blaid gyferbyn, byddai'r banciau wedi cwmpo, byddai pobl wedi colli eu cynilion a byddai'r wlad wedi mynd â'i phen iddi. Gwn nad oeddent yn gallu gwneud hynny am ryw dair blynedd, ac maent yn awr yn ceisio gwneud iawn am y tair blynedd hynny a gollwyd ac yn ceisio rhoi 1.6 miliwn o bobl ar y dôl. Y realiti yw, pe bai gennym Lywodraeth Geidwadol yn 2007, byddai banciau wedi cau, byddai pobl wedi colli eu cynilion, a byddem wedi gweld diweithdra ar lefel enfawr ar draws y DU gyfan. Dyna'r math o amnesia y mae angen inni sôn amdano. [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Nid wyf yn gwybod beth yw'r problem heddiw. Rwyf fi wedi cael wythnos o wyliau braf fy hun.

Rhodri Glyn Thomas: I believe that the majority of people in Wales would say that what concerns them at present is not who created this situation, but what will happen to them and their families as a result of the cuts that will be introduced in Wales. You referred earlier to some of the cuts, and rather than these cuts being discussed with the devolved Governments, they are announced through the media. We heard of all of these cuts through the media, rather than there being discussion with the Government here and with other devolved Governments. Would you agree that talk of a respect agenda between the coalition Government in Westminster and the devolved Governments has become a farce? There is a danger that the same thing will happen with regard to the electrification of the railways. It is a matter that is of great importance to Wales's economy, but we will hear about the decision of the coalition Government in Westminster on that matter through the media, rather than through discussions with the devolved

datganoledig.

Y Prif Weinidog: Yr wyf wedi meddwl am hyn yn fanwl. A yw'n wir bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwneud pethau fel hyn i sicrhau nad ydym yn gwybod amdanynt, hynny yw, yn fwriadol, ynteu a yw'n gwneud datganiadau heb feddwl am Gymru? Credaf mai'r ail sy'n wir. Yr ydym wedi gweld hyn yn digwydd sawl gwaith, o ran NICE, Sain Tathan ac S4C. Drwy'r amser, mae cyhoeddiadau yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU ar faterion sydd yn effeithio ar Gymru heb inni gael gwybod amdanynt o flaen llaw. Nid yw hynny'n ffordd gall na phroffesiynol o ddelio gyda phobl. Credaf fod yr agenda o barch wedi cael ei bwrw yn galed iawn. Fodd bynnag, fel y dywedais, byddai datganiad positif ynghylch rheilffyrdd yn hwb i ailadeiladu'r berthynas.

Peter Black: First Minister, you know that the settlement that Wales had from the spending review was the product of the Barnett formula, which your Government has failed to do anything about over the last 13 years. You also know that, although the Metrix bid has been ruled out, there are still discussions ongoing and a possibility of things happening at St Athan that will create jobs. You know that a decision on electrification has not yet been taken, and you also know that there is an ongoing review of alternative energy, which could yet involve options on the Severn estuary. In the light of all those positives, is your Government continuing to make active representations to the UK Government in order to ensure that Wales's voice continues to be heard and to try to get the best possible deal for Wales with regard to all of those issues?

The First Minister: Well, yes, but we need to ensure that there are people listening at the other end of the M4, and that is not immediately apparent, given the financial settlement that we face. You mentioned the Barnett formula, Peter: you were in Government, and you did not mention it then. There was good reason for the Barnett formula then, because at the beginning of the last decade the Barnett formula still served

Governments.

The First Minister: I have thought about this in detail. Is it true that the UK Government is doing such things to ensure that we are kept in the dark, that is, deliberately, or is it making announcements without thinking about Wales? I think that it is the latter. We have seen this happen several times, in relation to NICE, St Athan and S4C. All the time, announcements are being made by the UK Government on matters that impact on Wales without our being told about them beforehand. That is not a sensible or business-like way to deal with people. I think that the respect agenda has suffered a serious blow. However, as I said, a positive statement regarding railways would be a boost to rebuilding the relationship.

Peter Black: Brif Weinidog, gwyddoch fod y setliad y mae Cymru wedi'i gael yn sgîl yr adolygiad o wariant yn deillio o fformiwla Barnett, rhywbeth y mae eich Llywodraeth chi wedi methu â gwneud dim byd yn ei gylch dros y 13 mlynedd diwethaf. Rydych hefyd yn gwybod, er bod cais Metrix wedi cael ei ddiystyru, bod trafodaethau yn cael eu cynnal o hyd a phosibilrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd yn Sain Tathan a fydd yn creu swyddi. Rydych yn gwybod nad oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch trydaneiddio eto, ac rydych hefyd yn gwybod bod adolygiad o ynni amgen yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a allai eto gynnig opsiynau ar gyfer aber afon Hafren. Yng ngoleuni'r holl bethau cadarnhaol hynny, a yw eich Llywodraeth yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed o hyd, ac er mwyn ceisio cael y fargen orau bosibl i Gymru o ran yr holl faterion hynny?

Y Prif Weinidog: Wel ydy, ond mae angen inni sicrhau bod pobl ar ben arall yr M4 yn gwranddo, ac nid yw hynny i'w weld yn digwydd ar hyn o bryd o ystyried y setliad ariannol rydym yn ei wynebu. Gwnaethoch sôn am fformiwla Barnett, Peter: roeddech chi yn y Llywodraeth, ac ni wnaethoch sôn am hynny ar y pryd. Roedd rheswm da dros fformiwla Barnett ar y pryd, oherwydd ar ddechrau'r degawd diwethaf roedd fformiwla

Wales pretty well. As the decade has progressed, that has become less true. We know that the Holtham commission has made that very clear. You talk about money. I have in front of me a document on stabilising Britain's finances, published by the Welsh Liberal Democrats at the beginning of the year. According to it, we only need a reduction of £15 million in the budget for the coming financial year. We know that the reduction will be much more than that, but, according to your own document, you have got your figures completely wrong. It would help if we also had a fair bit of transparency from the Liberal Democrats.

2.00 p.m.

Gwariant ar Addysg

4. Chris Franks: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wariant ar addysg. OAQ(3)3173(FM)*

The First Minister: The education department's budget for 2010-11 was approved by the Assembly in early December 2009. The draft budget will be published on 17 November.

Chris Franks: Do you agree that Wales has an unacceptably high level of under-25s not in education, employment or training? There are hot spots in some areas, such as Rhondda Cynon Taf, where large numbers of young people have little prospect of finding work. A generation of young people has been failed by the system, and it is staggering that so many youngsters leave school with such poor literacy or numeracy skills. What assurances can you give that spending on our schools will not be unduly affected by the cuts imposed by the UK Government? If we were to follow the Conservatives' advice, our schools would face even greater cuts as a result of its policies.

Further, I am concerned about the capital funding available for schemes such as the revamping of St Cyres School. You will be aware of the massive problems that the pupils

Barnett yn dal i wasanaethu Cymru yn eithaf da. Wrth i'r degawd fynd rhagddo, nid yw hynny mor wir mwyach. Rydym yn gwybod bod comisiwn Holtham wedi dweud hynny'n glir iawn. Rydych yn sôn am arian. O fy mlaen, mae gennyf ddogfen sy'n sôn am sefydlogi sefyllfa ariannol Prydain, a gyhoeddwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ar ddechrau'r flwyddyn. Yn ôl y ddogfen honno, dim ond £15 miliwn o ostyngiad y mae arnom ei angen yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Gwyddom y bydd y gostyngiad yn llawer mwy na hynny, ond yn ôl eich dogfen eich hun, mae eich ffigurau'n gwbl anghywir. Byddai'n help pe baem hefyd yn cael rhywfaint o dryloywder gan y Democratiaid Rhyddfrydol.

Education Spending

4. Chris Franks: *Will the First Minister make a statement on education spending. OAQ(3)3173(FM)*

Y Prif Weinidog: Cafodd cyllideb yr adran addysg ar gyfer 2010-11 ei chymeradwyo gan y Cynulliad ddechrau mis Rhagfyr 2009. Bydd y gyllideb ddrafft yn cael ei chyhoeddi ar 17 Tachwedd.

Chris Franks: A ydych yn cytuno bod gan Gymru lefel annerbyniol o uchel o oedolion o dan 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant? Mae'r broblem hon yn waeth mewn rhai ardaloedd, fel Rhondda Cynon Taf, lle nad oes gan nifer helaeth o bobl ifanc lawer o obaith dod o hyd i waith. Mae'r system wedi methu cenhedlaeth o bobl ifanc, ac mae'n syfrdanol bod cynifer o bobl ifanc yn gadael yr ysgol gyda sgiliau llythrennedd neu rifedd mor wael. Pa sicrwydd y gallwch ei roi na fydd y toriadau a bennir gan Lywodraeth y DU yn effeithio'n ormodol ar y lefelau gwariant ar ein hysgolion? Pe baem yn dilyn cyngor y Ceidwadwyr, byddai ein hysgolion yn wynebu hyd yn oed mwy o doriadau o ganlyniad i'w polisiau.

Hefyd, rwyf yn poeni am y cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer cynlluniau fel ailwampio Ysgol St Cyres. Byddwch yn ymwybodol o'r problemau enfawr y mae

and staff of that school face because of the poor condition of the buildings. What hope can you give that we will be able to allocate capital funds to that project?

The First Minister: As I have said before, schools and skills are two areas that we are looking to protect in difficult financial circumstances. We know that there will be a 41 per cent decrease in capital funding over the next four years, and so it is not possible at the moment to give promises or guarantees to any particular project. However, the situation regarding capital and revenue funding will become clearer in a fortnight's time.

Darren Millar: First Minister, I am pleased to hear you say that you want to protect schools and skills as part of your budget proposals, because you will be aware that there are concerns about the future of many small schools in parts of north Wales, particularly in Conwy and Denbighshire, in my constituency. Parents, teachers and governors are alarmed about proposals that could result in the closure of the schools in their local communities. We know that rural schools are often at the heart of their communities, and they deserve for that to be recognised as part of the review that is taking place in those local authority areas. You will know that the Chancellor of the Exchequer made it clear in his statement a few weeks ago that the health budget would be ring-fenced and would receive continued investment, and that schools' budgets would also receive continued investment. That has obviously been Barnettised, so will you give serious consideration to ring-fencing the budget for schools in Wales to ensure that there is protection for schools, particularly in rural communities, where they are currently threatened with closure?

The First Minister: It is not quite right to say that spending on schools has been protected. For example, we know that the pupil premium will now be paid out of the general budget for schools, so there will be a reduction for many schools in England. There is a legitimate question to be asked, however.

disgyblion a staff yr ysgol honno'n eu hwynebu oherwydd cyflwr gwael yr adeiladau. Pa obaith y gallwch ei gynnig y byddwn yn gallu dyrannu cyllid cyfalaf i'r prosiect hwnnw?

Y Prif Weinidog: Fel rwyf wedi'i ddweud o'r blaen, mae ysgolion a sgiliau yn ddau faes rydym yn bwriadu eu hamddiffyn mewn amgylchiadau ariannol anodd. Gwyddom y bydd 41 y cant o ostyngiad mewn cyllid cyfalaf dros y pedair blynedd nesaf, ac felly nid yw'n bosibl gwneud addewidion ar hyn o bryd na gwarantu unrhyw beth i unrhyw brosiect penodol. Fodd bynnag, bydd y sefyllfa o ran cyfalaf a referniw yn dod yn gliriach ymhnen pythefnos.

Darren Millar: Brif Weinidog, rwyf yn falch o'ch clywed yn dweud eich bod am amddiffyn ysgolion a sgiliau fel rhan o'ch cynlluniau ar gyfer y gyllideb, oherwydd byddwch yn ymwybodol bod pryderon ynghylch dyfodol nifer o ysgolion bach mewn rhannau o'r gogledd, yn enwedig yng Nghonwy a sir Ddinbych yn fy etholaeth. Mae rhieni, athrawon a llywodraethwyr yn pryderu am gynlluniau a allai arwain at gau ysgolion yn eu cymunedau lleol. Gwyddom fod ysgolion gwledig wrth galon cymunedau yn aml, ac maent yn haeddu i hynny gael ei gydnabod fel rhan o'r adolygiad sy'n cael ei gynnal yn yr ardaloedd awdurdod lleol hynny. Byddwch yn gwybod fod Canghellor y Trysorlys wedi dangos yn glir yn ei ddatganiad ychydig wythnosau'n ôl y byddai'r gyllideb iechyd yn cael ei chlustnodi ac yn cael buddsoddiad parhaus, ac y byddai cyllidebau ysgolion hefyd yn cael buddsoddiad parhaus. Mae hynny'n amlwg yn ganlyniad i fformiwla Barnett, felly a wnewch fynd ati o ddifrif i ystyried neilltuo'r arian ar gyfer y gyllideb ysgolion yng Nghymru i sicrhau y bydd ysgolion yn cael eu hamddiffyn, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, lle maent mewn perygl o gau ar hyn o bryd?

Y Prif Weinidog: Nid yw'n gwbl gywir dweud bod gwariant ar ysgolion wedi cael ei amddiffyn. Er enghraifft, rydym yn gwybod mai'r gyllideb gyffredinol ar gyfer ysgolion fydd yn talu am y premiwm disgyblion yn awr, felly bydd gostyngiad i lawer o ysgolion yn Lloegr. Ond, mae cwestiwn teg i'w ofyn.

If we are looking to protect the budget for schools, as we are, we will have to be satisfied as a Government that the money goes to schools. We are looking at mechanisms to ensure that. That said, we still have many thousands of surplus places in Welsh schools, which must be dealt with. A rural area may have to lose a school to which many communities are deeply attached, but if a school has a small number of pupils, there will be questions about whether it can deliver a full curriculum. These are matters for local authorities, but school closures will be inevitable in the future because of the changing nature of the population demographic in rural and urban Wales, and it is essential that local authorities get to grips with ensuring that their local education systems are fit for purpose.

Jeff Cuthbert: I am sure that the people of Wales are getting fed up with the crocodile tears that we see continually from Members on that side of the Chamber, especially on the issue of capital investment. We face a 40 per cent reduction in real terms over the next four years, which will have serious implications for improving schools and hospitals in the future. In light of that, I was pleased to see the Minister for Children, Education and Lifelong Learning officially open the £7 million learning resource centre and refectory at Coleg Ystrad Mynach in my constituency last week, £5 million of which was capital funding provided by the Welsh Assembly Government. Therefore, do you agree that the scale and speed of the Conservative and Lib Dem cuts make it all the more important that we continue to drive efficiency and innovation, which make institutions such as the new learning resource centre at Coleg Ystrad Mynach so important?

The First Minister: Governments should strive to promote efficiency and innovation at all times, not just when finances are more difficult. As far as we are concerned, we will look to ensure that front-line services deliver as much as possible in difficult financial times. You have given one example of how

Os ydym am amddiffyn y gyllideb ar gyfer ysgolion, fel rydym yn ei wneud, bydd rhaid inni fod yn fodlon fel Llywodraeth bod yr arian yn mynd i ysgolion. Rydym yn edrych ar fecanweithiau i sicrhau hynny. Wedi dweud hynny, mae gennym filoedd lawer o leoedd gwag o hyd yn ysgolion Cymru, ac mae'n rhaid ymdrin â hynny. Efallai y bydd yn rhaid i ardal wledig golli ysgol y mae gan lawer o gymunedau gysylltiad dwfn â hi, ond os oes nifer bach o ddisgyblion mewn ysgol, bydd cwestiynau ynghylch a all ddarparu cwricwlwm llawn. Mae'r rhain yn faterion i'r awdurdodau lleol, ond mae'n anochel y bydd ysgolion yn cau yn y dyfodol oherwydd natur newidiol demograffeg y boblogaeth yng Nghymru wledig ac yng Nghymru drefol, ac mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn mynd ati i sicrhau bod eu systemau addysg lleol yn addas i'r diben.

Jeff Cuthbert: Rwyf yn siŵr bod pobl Cymru yn cael llond bol ar y dagrau ffug rydym yn eu gweld drwy'r amser gan yr Aelodau ar yr ochr honno i'r Siambr, yn enwedig ynghylch buddsoddiad cyfalaf. Rydym yn wynebu gostyngiad o 40 y cant mewn termau real dros y pedair blynedd nesaf, a bydd goblygiadau difrifol i hynny o ran gwella ysgolion ac ysbytai yn y dyfodol. Yng ngoleuni hynny, roeddwn yn falch o weld y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn agor yn swyddogol y ganolfan adnoddau dysgu a ffreutur gwerth £7 miliwn yng Ngholeg Ystrad Mynach yn fy etholaeth yr wythnos diwethaf, ac arian cyfalaf a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru oedd £5 miliwn o'r arian hwnnw. Felly, a ydych yn cytuno bod graddfa a chyflymder toriadau'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei gwneud yn bwysicach fyth ein bod yn parhau i hyrwyddo effeithlonrwydd ac arloesedd, sy'n gwneud sefydliadau fel y ganolfan adnoddau dysgu newydd yng Ngholeg Ystrad Mynach mor bwysig?

Y Prif Weinidog: Dylai llywodraethau ymdrechu i hyrwyddo effeithlonrwydd ac arloesedd bob amser, nid dim ond mewn sefyllfa ariannol anodd. O'n safbwynt ni, byddwn yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau rheng-flaen yn cyflawni cymaint ag y bo modd mewn cyfnod ariannol anodd. Rydych wedi rhoi un enghraifft o sut y gall hynny

that can work.

Jenny Randerson: Not only has the gap between the results of English and Welsh pupils been widening, but the gap in funding has also been steadily widening since Labour formed a Government on its own in 2003. The problem is considerable. You acknowledged it during your leadership campaign, when you promised that you would narrow the gap. I will ask you not just for the assurances that Darren Millar asked for, namely to ring-fence and protect the schools budget, but also to commit to honour the promises that you made in your leadership campaign and to reduce the gap in funding between Wales and England for the pupils in our schools.

The First Minister: It cannot be reduced in one year, but it remains the intention to reduce it. As I said last year, I want to ensure that spending on schools particularly increases by 1 per cent above the block in the future. The problem is that, if the block goes down, that is 1 per cent above a reducing block. However, the situation remains the same, and the budget on 17 November will make clear how that might be put into practice.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 5, OAQ(3)3170(FM), yn ôl, ac felly ymlaen â ni at gwestiwn 6.

Blaenoriaethau Addysg

6. Paul Davies: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg dros weddill y Trydydd Cynulliad. OAQ(3)3185(FM)*

Y Prif Weinidog: Nid dyna'r cwestiwn cywir. Mae cwestiwn 6 i fod am yr economi.

Y Llywydd: Na, mae'r cwestiwn 6 a gyflwynwyd yn gofyn am flaenoriaethau addysg, a dyna'r cwestiwn a ofynnwyd.

Y Prif Weinidog: Nid dyna'r hyn sydd ger

weithio.

Jenny Randerson: Nid yn unig y mae'r bwlch rhwng canlyniadau disgyblion yng Nghymru a Lloegr wedi cynyddu, mae'r bwlch mewn cyllid hefyd wedi bod yn cynyddu'n gyson ers i Lafur ffurfio Llywodraeth ar ei phen ei hun yn 2003. Mae hon yn broblem fawr. Gwnaethoch gydnabod hynny yn ystod eich ymgyrch am yr arweinyddiaeth, pan wnaethoch addo y byddech yn lleihau'r bwlch. Gofynnaf nid yn unig ichi am y sicrwydd y gofynnodd Darren Millar amdano—sef clustnodi ac amddiffyn y gyllideb ysgolion—ond hefyd i ymrwymo i anrhydeddu'r addewidion a wnaethoch yn eich ymgyrch am yr arweinyddiaeth ac i leihau'r bwlch mewn cyllid rhwng Cymru a Lloegr ar gyfer y disgyblion yn ein hysgolion.

Y Prif Weinidog: Ni ellir ei leihau mewn blwyddyn, ond rydym yn dal yn bwriadu ei leihau. Fel y dywedais y llynedd, rwyf am sicrhau bod gwariant ar ysgolion yn arbennig yn cynyddu ar raddfa o 1 y cant yn uwch na'r bloc yn y dyfodol. Y broblem yw, os bydd y bloc yn lleihau, mae hynny'n 1 y cant yn uwch na bloc sy'n lleihau. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n dal yr un fath, a bydd y gyllideb ar 17 Tachwedd yn dweud yn glir sut y gellid mynd ati i wneud hynny.

The Presiding Officer: Question 5, OAQ(3)3170(FM), has been withdrawn, and so we will move straight to question 6.

Education Priorities

6. Paul Davies: *Will the First Minister outline the Welsh Assembly Government's priorities for education for the remainder of the Third Assembly. OAQ(3)3185(FM)*

The First Minister: That is not the right question. Question 6 should be about the economy.

The Presiding Officer: No, the question 6 that was tabled asked about education priorities, and that is the question that was asked.

The First Minister: That is not what I have

fy mron i, ond nid oes ots. Atebaf y cwestiwn beth bynnag.

Y Llywydd: Yr wyf yn siŵr y bydd y Prif Weinidog yn gallu gwneud.

Y Prif Weinidog: Mae'n flaenoriaeth gennym ddiogelu cyllid ysgolion a sgiliau a sicrhau bod y cynnydd yng nghanlyniadau Cymru yn parhau.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. Mae gan y Llywodraeth nifer o strategaethau i wella ein system addysg, er enghraifft y strategaeth i blant ifanc ar ffurf y cyfnod sylfaen, a'r llwybrau dysgu i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed. Fodd bynnag, mae rhai yn poeni nad oes strategaeth benodol i blant rhwng saith a 14 oed a bod diffyg ffocws ar blant yr oedran hwnnw. A all y Prif Weinidog ddweud wrthym beth yw strategaeth Llywodraeth y Cynulliad i blant yr oeddrannau hynny a beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau eu bod yn cael yr un sylw mewn polisi â phlant o oeddrannau eraill?

Y Prif Weinidog: Yn gyntaf, gallaf eich sicrhau bod digon o ddewis a chyfleoedd ar gael iddynt. Gwyddom fod plant o 11 oed ymlaen yn tueddu i gwmpo yn ôl yng Nghymru o'u cymharu â phlant yn Lloegr. Maent yn gwneud yn well hyd at 11 oed ond yn cwmpo yn ôl wedi hynny. Mae'n flaenoriaeth gennym sicrhau bod plant sy'n mynd o'r ysgol gynradd i'r ysgol gyfun yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i sicrhau bod y newid hwnnw yn hawdd. Yr wyf yn siŵr y bydd y gwaith hwnnw'n cael ei adlewyrchu dros y blynyddoedd ar ffurf perfformiad gwell gan blant 11 i 14 oed.

Nerys Evans: Yr wyf newydd fod mewn cyfarfod lle lansiodd y Gweinidog addysg ysgoloriaethau newydd i fyfyrwyr addysg uwch sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hynny'n rhan hynod bwysig o wireddu amcan 'Cymru'n Un' i sefydlu coleg ffederal, neu, o dan ei enw newydd, fel y clywsom yn y cyfarfod, y coleg Cymraeg cenedlaethol. Hoffwn longyfarch Llywodraeth Cymru'n Un am wireddu'r addewid hwn. Mae nifer fawr ohonom wedi bod yn ymgyrchu ers blynyddoedd i sefydlu rhwydwaith o ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg,

before me, but it does not matter. I will answer the question regardless.

The Presiding Officer: I am sure that the First Minister will be able to do so.

The First Minister: Our priorities are to safeguard the funding for schools and skills and to ensure that the improvement in results in Wales continues.

Paul Davies: I am grateful to the First Minister for that answer. The Government has a number of strategies to improve our education system, for example the strategy for young children, known as the foundation phase, and the learning pathways for young people between 14 and 19 years of age. However, some worry that there is no specific strategy for children between seven and 14 years of age and that there is a lack of focus on children of that age. Can the First Minister tell us what the Assembly Government's strategy is for children of those ages and what the Government is doing to ensure that they receive the same attention in policy as children of other ages?

The First Minister: First, I can assure you that there are plenty of choices and opportunities available to them. We know that children from age 11 onwards tend to fall behind in Wales compared with children in England. They do better up to 11 years of age, but fall back after that. It is a priority to ensure that children moving from primary school to secondary school are given the support that they need to ensure that that transition goes smoothly. I am sure that that work will be reflected over the years in the form of better performance on the part of children aged 11 to 14.

Nerys Evans: I have just been to a meeting where the Minister for education launched new scholarships for higher education students who are studying through the medium of Welsh. That is an extremely important part of realising the 'One Wales' objective of establishing a federal college, or, under its new name, as we heard at the meeting, the Welsh national college. I congratulate the One Wales Government on delivering on that promise. Many of us have been campaigning for years to establish a network of Welsh-medium higher education

a hynny er mwyn diwallu'r angen amdani, sicrhau cyfleoedd cyfartal, a chreu manteision economaidd i'n pobl ifanc. Yn y lansiad, clywsom gan ddarlithydd ym maes y gwyddorau biofeddygol a oedd yn canmol y cynllun ac yn egluro nad oedd yn bosibl astudio'r gwyddorau biofeddygol pan aeth hi i'r brifysgol, ddegawd yn ôl, ac eithrio drwy gyfrwng y Saesneg. Ar ôl cael addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg, cafodd hithau broblemau yn addasu i gwrs cyfrwng Saesneg. Mae hi yn awr yn darlithio yn y cwrs hwnnw o ganlyniad i gymorth gan y coleg sydd ar fin cael ei sefydlu.

2.10 p.m.

Gan fod rhyw chwe wythnos yn unig ar ôl gan ddarpar fyfyrwyr i ymgeisio am yr ysgoloriaethau hyn ar gyfer y flwyddyn academiaidd nesaf, a ydych yn cytuno bod gennym oll rôl i'w chwarae o ran hyrwyddo'r ysgoloriaethau hyn ymysg ein hetholwyr i sicrhau llwyddiant y coleg ffederal? Yr ydym i gyd yn edrych ymlaen at weld y coleg ffederal—neu'r coleg Cymraeg cenedlaethol—yn dod yn gwbl weithredol y flwyddyn nesaf.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cyd-fynd â phopeth a ddywedwyd gennych, Nerys. Mae'n bwysig dros ben ein bod yn estyn y cyfleoedd sydd ar gael i bobl astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig mewn addysg uwch.

Diogelwch ar y Ffyrdd i Oedolion

7. William Graham: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i hybu gwell ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd i oedolion. OAQ(3)3172(FM)*

The First Minister: Making roads safer is a key priority for us all, not only for the Government. We support national road safety campaigns targeting young drivers, drink driving and mobile phone use and promoting seat belts. Grant funding is allocated to local authorities for initiatives and projects that raise awareness of road safety locally.

provision, in order to meet the need for it, to ensure equal opportunities, and to create economic advantages for our young people. At the launch, we heard from a lecturer in the field of biomedical sciences who praised the plan and explained that when she went to university a decade ago, it was not possible to study biomedical sciences except through the medium of English. After receiving Welsh-medium primary and secondary education, she had problems adapting to an English-language course. She now lectures on that course as a result of assistance from the college that is about to be established.

As prospective students have only about six weeks left to apply for these scholarships for the coming academic year, do you agree that we all have a role to play in promoting these scholarships among our constituents to ensure the success of the federal college? We all look forward to the federal college—or the national Welsh college—becoming fully operational next year.

The First Minister: I concur with everything that you said, Nerys. It is very important that we extend the opportunities that are available for people to study through the medium of Welsh, especially in higher education.

Road Safety for Adults

7. William Graham: *Will the First Minister outline Welsh Assembly Government policies to promote greater awareness of road safety for adults. OAQ(3)3172(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae gwneud ffyrdd yn fwy diogel yn flaenoriaeth allweddol i bob un ohonom, nid dim ond i'r Llywodraeth. Rydym yn cefnogi ymgyrchoedd diogelwch ar y ffyrdd cenedlaethol sy'n targedu gyrrwyr ifanc, yfed a gyrru, defnyddio ffonau symudol, a hyrwyddo gwregysau diogelwch. Mae cyllid grant yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol ar gyfer mentrau a phrosiectau sy'n codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd yn lleol.

William Graham: Thank you for your answer, First Minister. As you will know, there has been a number of tragic road accidents in South Wales East in recent weeks—in fact, in recent days. Young motorists have died on stretches of road that were already regarded by local people as being dangerous and in need of new speed restrictions, particularly the B4235 at Shirenewton and the B4239 at St Brides. Could you describe how your Government intends to publicise those excellent strategies that you are trying to recommend to local authorities to reduce speeds on certain dangerous roads?

The First Minister: There is an onus on all levels of government to take steps to reduce speed, whether through the use of speed cameras, flashing electronic signs that light up when people are speeding, or such things as rumble strips and engineering dangerous curves out of roads. These are all ways in which traffic speeds can be reduced. However, it is important that people are made fully aware if they are approaching a dangerous stretch of road, through static and electronic signs. We know that such measures are effective, as the number of road deaths has dropped dramatically over the past 40 years.

Gareth Jones: A hoffai'r Prif Weinidog ddatgan ei fod yn croesawu'r ffigurau diweddaraf am ddamweiniau ffyrdd yn 2009? Cawsant eu cyhoeddi ym mis Mehefin. Mae'r ffigurau hynny'n dangos y nifer isaf o bobl sydd wedi'u lladd neu eu hanafu ar ffyrdd Cymru ers i gofnodion ddechrau ym 1968. Yr wyf yn deall bod y tueddiad yn debygol o barhau, gyda'r ffigurau dros dro ar gyfer chwarter cyntaf 2010 yn dangos gostyngiadau pellach flwyddyn ar flwyddyn, gyda chyfanswm y nifer a ddioddefodd ddamweiniau i lawr 7 y cant. A wnaiff y Prif Weinidog ategu sylwadau'r Dirprwy Brif Weinidog, a ddywedodd y dylem oll dalu teyrnged i'r holl sefydliadau sy'n ymwneud â diogelwch ffyrdd a gyfrannodd at y llwyddiant hwn? A wnaiff y Prif Weinidog hefyd roi i ni'r sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys a'r grwpiau diogelwch

William Graham: Diolch ichi am eich ateb, Brif Weinidog. Fel y gwyddoch, bu nifer o ddamweiniau ffordd trasig yn Nwyrain De Cymru yn ystod yr wythnosau diwethaf—yn wir, yn ystod y dyddiau diwethaf. Mae modurwyr ifanc wedi marw ar rannau o ffordd yr oedd pobl leol eisoes yn meddwl eu bod yn beryglus a bod angen cyfyngiadau cyflymder newydd ar eu cyfer, yn enwedig y B4235 yn Drenewydd Gelli-farch a'r B4239 yn Saint-y-brid. A allech ddisgrifio sut mae eich Llywodraeth yn bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd i'r strategaethau gwych hynny rydych yn ceisio eu hargymell i awdurdodau lleol i arafu traffig ar rai ffyrdd peryglus?

Y Prif Weinidog: Mae cyfrifoldeb ar bob lefel o lywodraeth i gymryd camau i arafu traffig drwy ddefnyddio camerâu cyflymder, arwyddion electronig sy'n fflachio ac yn goleuo pan fydd pobl yn goryrru, neu bethau fel sribedi arafu a chael gwared ar droeon mewn ffyrdd. Mae'r rhain i gyd yn ffyrdd o arafu traffig. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod pobl yn gwybod yn iawn os ydynt yn agosáu at ddarn peryglus o'r ffordd, drwy arwyddion sefydlog ac electronig. Gwyddom fod mesurau o'r fath yn effeithiol, gan fod nifer y marwolaethau ar y ffyrdd wedi lleihau'n ddramatig yn ystod y 40 mlynedd diwethaf.

Gareth Jones: Would the First Minister like to declare that he welcomes the latest figures for road accidents in 2009, which were published in June? Those figures show the lowest number of people killed or injured on Welsh roads since records began in 1968. I understand that the trend is likely to continue, with provisional figures for the first quarter of 2010 showing further reductions year on year, with the total number of victims of accidents down by 7 per cent. Will the First Minister support the comments of the Deputy First Minister, who said that we should all pay tribute to all the institutions concerned with road safety that contributed to that success? Will the First Minister also give us an assurance that the Government of Wales will continue to work in partnership with local authorities, emergency services and road safety groups? The work has received investment of more than £30 million since 2007 to highlight the importance of road

ffyrdd? Mae'r gwaith wedi cael buddsoddiad o dros £30 miliwn ers 2007 i amlygu pwysigrwydd diogelwch ar y ffyrdd ac atgoffa pawb sy'n defnyddio'r ffyrdd o'u cyfrifoldeb atynt hwy eu hunain ac at eraill.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cyd-fynd â hynny, ac mae'n bwysig gweithio gyda phawb i sicrhau bod y gwelliant hwnnw yn parhau. Yn ôl ym 1968, yr oedd llawer mwy o bobl yn yfed a gyrru. Nid wyf yn cofio hynny fy hun, ond yr wyf yn siŵr bod hynny'n iawn o'r hyn yr wyf wedi'i glywed. Hefyd, yr oedd ceir lawer yn llai nag ydynt yn awr. Er bod ceir heddiw yn fwy pwerus na cheir y 1960au, maent hefyd yn fwy diogel o lawer. Mae hynny'n dangos ei bod yn bosibl lleihau nifer y damweiniau ar y ffyrdd drwy wella addysg gyhoeddus a gweithio i sicrhau bod pobl yn deall mor beryglus y gall car fod os nad yw'n cael ei yrru mewn ffordd ddiogel. Mae'n bwysig bod y lleihad yn nifer y damweiniau yn parhau yn y dyfodol, ac yr ydym eisiau sicrhau bod hynny'n digwydd.

Yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

8. Leanne Wood: *Pa drafodaethau diweddar y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. OAQ(3)3186(FM)*

The First Minister: We have had a number of discussions with UK Government Ministers in the run-up to the spending review, including bilateral meetings on my part with the Secretary of State for Wales, and a finance Ministers' quadrilateral meeting on 15 September, which involved Jane Hutt.

Leanne Wood: According to press reports today, most people see the comprehensive spending review as unfair to Wales. However, it is not only unfair, but unjust, potentially. If child poverty levels were to become worse as a result of the cuts imposed by the CSR, I am sure that you would agree that that would be an incredible injustice. Have you therefore considered, First Minister, what options you have to challenge the UK Government on its unjust comprehensive spending review settlement as it applies to Wales?

safety and to remind all road users of their responsibilities towards themselves and others.

The First Minister: I concur with that, and it is important to work with everyone to ensure that that improvement continues. Back in 1968, many more people were drinking and driving. I do not remember it myself, but I am sure that that is right from what I have heard. In addition, cars were far smaller than they are now. Although today's cars are more powerful than the cars of the 1960s, they are also far safer. That shows that it is possible to reduce the number of accidents on the roads by improving public education and working to ensure that people understand how dangerous a car can be if it is not driven in a safe manner. It is important that the reduction in the number of accidents continues in the future, and we want to ensure that that happens.

The Comprehensive Spending Review

8. Leanne Wood: *What recent discussions has the Welsh Assembly Government had with the UK Government regarding the Comprehensive Spending Review. OAQ(3)3186(FM)*

Y Prif Weinidog: Rydym wedi cael nifer o drafodaethau â Gweinidogion Llywodraeth y DU yn ystod y cyfnod a oedd yn arwain at yr adolygiad o wariant, gan gynnwys cyfarfodydd dwyochrog yn fy achos i ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a chyfarfod pedairochrog rhwng y Gweinidogion Cyllid ar 15 Medi, a oedd yn cynnwys Jane Hutt.

Leanne Wood: Yn ôl adroddiadau yn y wasg heddiw, mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu bod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn annheg i Gymru. Ond, yn ogystal â bod yn annheg, mae'n bosibl ei fod yn anghyfiawn hefyd. Pe bai lefelau tlodi plant yn gwaethygu o ganlyniad i'r toriadau a bennir gan yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno y byddai hynny'n anghyfiawnder aruthrol. Felly a ydych wedi ystyried, Brif Weinidog, pa opsiynau sydd gennych i herio Llywodraeth y DU ynghylch ei setliad adolygiad cynhwysfawr o wariant anghyfiawn, o ran y

modd y mae'n berthnasol i Gymru?

The First Minister: The only challenge available is the political challenge; no legal challenge can be applied. You are right that the view of the majority in Wales chimes with the view of the Government here in Cardiff. We made the point that we believed that the cuts were too deep and too fast, and that many of the projects that will benefit other parts of the UK, and Scotland in particular, will not be available in Wales. For example, we hear that the offshore wind fund that was to be made available across the whole of the UK will now be available in England only. That does not help. The people of Wales are receptive to the message that we as a Government have sent out about the difficulties that we face over the next few years in achieving social justice through the Welsh budget.

Andrew R.T. Davies: Now that the comprehensive spending review is over, and the various allocations are understood, one initiative that the Department of Health in London is undertaking, with the resources that it has, is the creation of a specialist cancer drugs fund for exceptional cases of drugs funding. I am sure that you, as a constituency Assembly Member, have, like me as a regional Assembly Member, dealt with the many cases of constituents who are unable to access certain cancer drugs. Is your Government minded to take up the Department of Health's initiative in Wales and to create a cancer drugs fund to improve access to drugs for these patients, who are placed in difficult circumstances when access is refused but a clinical diagnosis supports them having those drugs?

The First Minister: The difficulty is that this is bound up with the reform of NICE. Until we know what the future of NICE will be, and what we will have to do in Wales to approve the use of drugs here, it is difficult to make that kind of commitment. Ideally, you want people to be able to access the drugs that they need to have a good chance of surviving more than five years with cancer—that is the definition of a cure for many forms of cancer. Until the issue of drug approval

Y Prif Weinidog: Yr unig her sydd ar gael yw'r her wleidyddol; ni ellir defnyddio unrhyw her gyfreithiol. Rydych yn iawn fod barn y mwyafrif o bobl yng Nghymru yn cyd-fynd â barn y Llywodraeth yma yng Nghaerdydd. Gwnaethom y pwynt ein bod yn credu bod y toriadau yn rhy gyflym ac yn rhy llym, ac na fydd llawer o'r prosiectau a fydd o fudd i rannau eraill o'r DU—a'r Alban yn arbennig—ar gael yng Nghymru. Er enghraifft, rydym yn clywed na fydd y gronfa gwynt ar y môr, a oedd fod ar gael i'r DU gyfan, ond ar gael yn Lloegr erbyn hyn. Nid yw hynny'n help. Mae pobl Cymru yn derbyn y neges rydym ni fel Llywodraeth wedi'i datgan am yr anawsterau sy'n ein hwynebu yn ystod y blynyddoedd nesaf er mwyn sicrhau cyfiawnder cymdeithasol gyda chyllideb Cymru.

Andrew R.T. Davies: Gan fod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant wedi dod i ben a'n bod yn gwybod beth yw'r dyraniadau gwahanol erbyn hyn, un fenter y mae'r Adran Iechyd yn Llundain yn ymgymryd â hi—gyda'r adnoddau sydd ganddi—yw creu cronfa o gyffuriau canser arbenigol ar gyfer achosion eithriadol o gyllid ar gyfer cyffuriau. Rwyf yn siŵr eich bod chi, fel Aelod Cynulliad etholaethol, fel finnau, Aelod Cynulliad rhanbarthol, wedi ymdrin ag achosion niferus o etholwyr yn methu cael gafael ar gyffuriau canser penodol. A yw eich Llywodraeth yn bwriadu manteisio ar fenter yr Adran Iechyd yng Nghymru a chreu cronfa o gyffuriau canser i wella mynediad y cleifion hyn at gyffuriau—cleifion sydd mewn amgylchiadau anodd pan wrthodir y cyffuriau hynny iddynt ond bod diagnosis clinigol yn cadarnhau y dylent gael y cyffuriau hynny?

Y Prif Weinidog: Y broblem yw bod hyn ynghlwm wrth ddiwygio NICE. Nes y byddwn yn gwybod beth fydd dyfodol NICE, a beth fydd yn rhaid inni ei wneud yng Nghymru i gymeradwyo'r cyffuriau a gaiff eu defnyddio yma, mae'n anodd gwneud y math hwnnw o ymrwymiad. Yn ddelfrydol, mae arnoch eisiau i bobl allu cael mynediad at y cyffuriau y mae eu hangen arnynt er mwyn cael siawns dda o oroesi mwy na phum mlynedd gyda chanser—dyna yw'r

and NICE is dealt with for Wales, and we have a better understanding of what is being proposed in England, it is difficult to move ahead and create that kind of fund, if the money were available. In the meantime, however, we would expect people to be able to access those drugs anyway.

Brian Gibbons: I am concerned about the announcement on NICE in England. A number of serious safety concerns have been raised about widely prescribed drugs—for example, Vioxx, and, in the last few months, a popular anti-diabetic drug. It would be a massive backwards step if we were to get to a situation along the lines of what Andrew R.T. Davies was proposing, and the rigour of evaluation that NICE applies to treatment, linked to the recommendations for treatment, were to be diluted in any way. Were we to take such a road in Wales, we would run the risk of putting hundreds, if not thousands, of lives at risk.

The First Minister: As I have said before, drug companies promote their products subtly, in many ways, to the public. A member of the public might have heard about a particular drug, or read about it in a newspaper, and so they want access to it, even though the efficacy of that drug is not necessarily proven. That is why NICE is there—to make that independent assessment. What seems to be happening in England is that that assessment will now be made by general practitioners, who will then cop the blame for not prescribing particular drugs. They will also come under a fair bit of marketing pressure, I would expect, to prescribe certain drugs, because of the marketing expertise of drug companies. That is what drug companies do. We need somebody who can provide an independent, cost-benefit analysis of drugs. It seems that that will disappear in England, but we in Wales will need to examine this carefully to ensure that that remains.

diffiniad o iachâd ar gyfer sawl math o ganser. Nes bydd y mater ynghylch cymeradwyo cyffuriau a NICE yn cael ei ddatrys yng nghyswllt Cymru, a bod gennym well dealltwriaeth o'r hyn y bwriedir ei wneud yn Lloegr, mae'n anodd symud ymlaen i greu'r math hwnnw o gronfa, pe bai'r arian ar gael. Fodd bynnag, yn y cyfamser byddem yn disgwyl i bobl allu cael mynediad at y cyffuriau hynny beth bynnag.

Brian Gibbons: Rwyf yn poeni am y cyhoeddiad ynghylch NICE yn Lloegr. Mae nifer o bryderon diogelwch difrifol wedi cael eu codi ynghylch cyffuriau sy'n cael eu rhagnodi'n helaeth—Vioxx, er enghraifft, ac, yn ystod y misoedd diwethaf, cyffur gwrth-diabetes poblogaidd. Byddai'n gam yn ôl enfawr pe baem yn cyrraedd sefyllfa debyg i'r hyn roedd Andrew R.T. Davies yn ei awgrymu, a phe bai prosesau gwerthuso trylwyr NICE ar gyfer triniaethau, sy'n cydfynd ag argymhellion ar gyfer triniaethau, yn cael eu gwanhau mewn unrhyw ffordd. Pe baem yn dilyn llwybr o'r fath yng Nghymru, gallem fod yn peryglu bywydau cannoedd, os nad miloedd, o bobl.

Y Prif Weinidog: Fel rwyf wedi'i ddweud o'r blaen, mae cwmnïau cyffuriau yn hyrwyddo eu cynnyrch i'r cyhoedd mewn ffordd gynnil, mewn sawl ffordd. Efallai fod aelod o'r cyhoedd wedi clywed am gyffur penodol, neu wedi darllen amdano mewn papur newydd, a'i fod felly'n dymuno cael y cyffur hwnnw, er nad yw effeithiolrwydd y cyffur hwnnw wedi cael ei brofi o reidrwydd. Dyna pam mae NICE yn bodoli—i wneud yr asesiad annibynnol hwnnw. Yr hyn sydd i'w weld yn digwydd yn Lloegr yw y bydd yr asesiad hwnnw'n cael ei wneud gan ymarferwyr cyffredinol yn awr, a fydd wedyn yn cael y bai am beidio â rhagnodi cyffuriau penodol. Byddwn hefyd yn disgwyl iddynt fod o dan gryn dipyn o bwysau marchnata i ragnodi cyffuriau penodol, oherwydd arbenigedd marchnata cwmnïau cyffuriau. Dyna mae cwmnïau cyffuriau yn ei wneud. Mae arnom angen rhywun sy'n gallu darparu dadansoddiad cost a budd ac annibynnol o gyffuriau. Mae'n ymddangos y bydd hynny'n diflannu yn Lloegr, ond bydd angen i ni yng Nghymru edrych ar hyn yn ofalus er mwyn sicrhau bod hynny'n parhau.

2.20 p.m.

Yr Review Cynhwysfawr o Wariant

9. Gareth Jones: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU ar Lywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)3190(FM)*

Y Prif Weinidog: Dyma'r toriadau mwyaf i gyllideb Cymru mewn o leiaf genhedlaeth.

Gareth Jones: A allwch chi gadarnhau y byddwch, mewn unrhyw drafodaethau â Llywodraeth glymblaid San Steffan, yn atgoffa'r Gweinidogion hynny o'r angen dybryd i ddiwygio fformiwla hynod annheg Barnett cyn iddynt weithredu eu cynlluniau am doriadau milain i wario cyhoeddus yng Nghymru ac i gyllideb Cymru? A bwysleiswch nad oes unrhyw gysylltiad rhwng yr angen taer am ddiwygio'r fformiwla a refferendwm am fwy o bwerau i'r Cynulliad, a bod y glymblaid yn dangos dirmyg llwyr at y Cynulliad hwn, at Lywodraeth Cymru, ac at bobl Cymru, wrth beidio â chytuno i ddiwygio'r ffordd y mae Cymru yn cael ei hariannu?

Y Prif Weinidog: Yr hyn sy'n hynod ryfedd o ran yr hyn sydd wedi digwydd ynghylch cysylltiad rhwng y refferendwm a chyllido Cymru yw'r ffaith bod sawl aelod o'r Cabinet yn Llundain wedi dweud na fyddant yn ystyried sefyllfa ariannol Cymru hyd nes ar ôl y refferendwm, gan ddibynnu ar ganlyniad y refferendwm. Ni allwn ond dehongli o hynny y bydd Holtham yn cael ei weithredu os oes pleidlais 'ie' yn y refferendwm. Nid pwynt gwleidyddol yw hwnnw, na phwynt yn erbyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ond mae'r Cabinet wedi dweud sawl gwaith nad oes cysylltiad, er ei fod wedi gwneud y cysylltiad. Mae hynny, wrth gwrs, yn help o ran ymgyrch 'ie' ar gyfer mis Mawrth.

Mark Isherwood: The leader of Her Majesty's opposition in Westminster, Mr E. Miliband, has announced spending plans almost equivalent to those that Mr G. Osborne, the current Chancellor, announced in the comprehensive spending review. However, what he has not done yet is to tell

The Comprehensive Spending Review

9. Gareth Jones: *Will the First Minister make a statement on the impact of the UK Government's Comprehensive Spending Review on the Welsh Assembly Government. OAQ(3)3190(FM)*

The First Minister: These are the largest cuts to the Welsh budget in at least a generation.

Gareth Jones: Can you confirm that you will, in any discussions with the Westminster coalition Government, remind Ministers of the urgent need to reform the grossly unfair Barnett formula before they implement their plans for savage cuts to public spending in Wales and to the Welsh budget? Will you emphasise that there is no connection between the desperate need for reform of the formula and a referendum on more powers for the Assembly, and that the coalition is showing utter contempt for this Assembly, the Welsh Government and the people of Wales in not agreeing to amend the way in which Wales is funded?

Y Prif Weinidog: What is extremely odd about what has happened regarding the connection between the referendum and the funding of Wales is the fact that several members of the Cabinet in London have said that they will not consider the financial position of Wales until after the referendum, depending on the outcome of the referendum. We can only interpret that as being that Holtham will be implemented if there is a 'yes' vote in the referendum. That is not a political point, or a point against the Government of the United Kingdom, but the Cabinet has said several times that there is no connection, despite making the connection. That, of course, is of assistance to a 'yes' campaign for March.

Mark Isherwood: Mae arweinydd gwrthblaid Ei Mawrhydi yn San Steffan, Mr E. Miliband, wedi cyhoeddi cynlluniau gwariant a oedd bron yr un fath â'r rheini a gyhoeddwyd gan Mr G. Osborne, y Canghellor presennol, yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Fodd bynnag, yr hyn

us where the cuts or tax rises would fall. Will you nonetheless join me in welcoming the announcement of funding in the comprehensive spending review for the future strategic tanker aircraft, based on the A330, whose wings will be built at Airbus in Broughton, and the A400M, whose wings will be built just across the south Wales border in Filton? Will you also welcome the news that funding has been provided for the contract with the south-Wales based General Dynamics, with an initial demonstration phase worth £500 million, and much more investment to follow in a whole new family of vehicles for Her Majesty's armed forces?

The First Minister: We welcome any kind of investment into Wales. It is a shame that we did not get the development at St Athan, which would have been a substantial investment, and we want to work with the UK Government to ensure that something comes in its place. I hope that that will be the case.

It is the UK Government's responsibility to outline its plans, and it has already said that it will increase tax through value added tax. I have made the point many times in this Chamber that I do not take issue with the need to reduce the deficit. I never have. However, I take issue with what Wales has had as a financial settlement. All parties in this Chamber have signed up to the Holtham commission's recommendations and have agreed that Wales is underfunded. The difficulty is that this comprehensive spending review makes the situation worse, and, on top of that, there are no large capital projects such as the green energy fund for Scotland, anything to help with offshore wind, or any rural broadband projects in Wales at all, although there are a few in England and one in Scotland. When all these things mount up, it is not at all possible to say that this has been a good deal for Wales.

Eleanor Burnham: It is absolutely fascinating that, for the past 10 years, the

nad yw wedi'i wneud hyd yma yw dweud wrthym ble y byddai'n gwneud y toriadau neu'n cynyddu'r dreth. Serch hynny, a wnewch ymuno â mi i groesawu'r cyhoeddiad yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant ynghylch cyllid ar gyfer awyren tancer strategol y dyfodol, sy'n seiliedig ar yr A330, a bydd ei hadenydd yn cael eu hadeiladu yn Airbus ym Mrychdyn, a'r A400M, y bydd ei hadenydd yn cael eu hadeiladu ychydig dros y ffin â de Cymru yn Filton? A wnewch hefyd groesawu'r newyddion bod cyllid wedi cael ei ddarparu ar gyfer y contract gyda General Dynamics—sydd wedi'i leoli yn y de—gyda chyfnod arddangos cychwynnol gwerth £500 miliwn, a bod llawer mwy o fuddsoddiad i ddod mewn teulu newydd sbon o gerbydau ar gyfer lluoedd arfog Ei Mawrhydi?

Y Prif Weinidog: Rydym yn croesawu unrhyw fath o fuddsoddiad i mewn i Gymru. Mae'n drueni na chawsom y datblygiad yn Sain Tathan, a fyddai wedi bod yn fuddsoddiad sylweddol, ac rydym am weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod rhywbeth yn dod yn lle hynny. Gobeithio y bydd hynny'n digwydd.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw amlinellu ei chynlluniau, ac mae wedi dweud yn barod y bydd yn cynyddu treth drwy dreth ar werth. Rwyf wedi gwneud y pwynt lawer gwaith yn y Siambr hon nad wyf yn anghytuno â'r angen i leihau'r diffyg. Nid wyf erioed wedi anghytuno â hynny. Fodd bynnag, rwyf yn anghytuno â'r setliad ariannol y mae Cymru wedi'i gael. Mae pob plaid yn y Siambr hon wedi ymrwymo i argymhellion comisiwn Holtham, ac wedi cytuno bod Cymru yn cael ei thangyllido. Yr anhawster yw bod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant hwn yn gwneud y sefyllfa'n waeth. Ar ben hynny, nid oes unrhyw brosiectau cyfalaf mawr fel y gronfa ynni gwyrdd ar gyfer yr Alban, dim byd i helpu gyda gwynt ar y môr, nac unrhyw brosiectau band eang yng nghefn gwlad Cymru o gwbl, er bod rhai yn Lloegr ac un yn yr Alban. Pan fydd yr holl bethau hyn yn cael eu pentyrru, nid yw'n bosibl o gwbl dweud bod hyn wedi bod yn fargen dda i Gymru.

Eleanor Burnham: Mae'n gwbl anhygoel nad yw'r Llywodraeth Lafur, am y 10

Labour Government has not recognised that Wales has been underfunded. In view of the need to get the very best value for money, what do you intend to do to get yourselves out of this amnesic block and realise what the Joseph Rowntree Foundation has just told us, which is that marginal improvements only have been made, despite your largesse on what I would, perhaps uncharitably, call Labour pet projects, in relation to some Communities First projects, which, scandalously, have been not monitored at all? One particular Communities First project in my region has spent an enormous amount of money, and yet it is now being looked at by both the police and the Serious Fraud Office. You should get off your high horse and tell us what you are going to do to ensure that we get the very best value for the little bit of money that we now have to spend.

The First Minister: You are quite right: it is a little bit of money that we now have to spend. At last we have some transparency from the Liberal Democrats, with an admission that the budget is nothing like as good as they would have us believe. Eleanor, go to Caia Park and tell the people there that Communities First is a bad thing, or go to many communities in south and mid Wales and tell them that Communities First has done nothing for them. You will have your answer: they will say that it has improved their lives and communities immeasurably. Yes, there have been difficulties in some parts of Wales, and those difficulties are being investigated, but that is not a reason for damning the entire project. After all, the project was designed to provide communities with the confidence that they needed to rebuild after decades of economic difficulties. That is a scheme that the Government will say has done exceptionally well, and the evidence is there to prove it.

The Barnett formula served Wales well at the beginning of the last decade, but it does not serve Wales well now. Things have changed, and the Holtham commission has produced the evidence. We now have that evidence, all

mlynedd diwethaf, wedi cydnabod bod Cymru wedi bod yn cael ei thangyllido. O ystyried yr angen i gael y gwerth gorau posibl am arian, beth rydych yn bwriadu ei wneud i dynnu eich hunain o'r amnesia hwn a sylweddoli beth y mae Sefydliad Joseph Rowntree newydd ei ddweud wrthym, sef mai dim ond gwelliannau ymylol sydd wedi cael eu gwneud, er gwaethaf eich haelioni tuag at yr hyn y byddwn yn ei alw, yn angharedig o bosibl, yn hoff brosiectau'r blaidd Lafur, mewn perthynas â rhai prosiectau Cymunedau yn Gyntaf nad ydynt, wedi cael eu monitro o gwbl, a hynny'n gwbl warthus? Mae un prosiect Cymunedau yn Gyntaf penodol yn fy rhanbarth i wedi gwario swm enfawr o arian, ond erbyn hyn mae'r heddlu a'r Swyddfa Twyll Difrifol yn ymchwilio iddo. Dylech roi'r gorau i fod yn hunangyfiawn a dweud wrthym beth rydych yn mynd i'w wneud i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau posibl am yr ychydig o arian sydd gennym i'w wario yn awr.

Y Prif Weinidog: Rydych yn llygad eich lle: ychydig o arian sydd gennym i'w wario yn awr. O'r diwedd rydym yn cael rhywfaint o dryloywder gan y Democratiaid Rhyddfrydol, gyda chyfaddefiad nad yw'r gyllideb hanner crystal ag y maent yn ceisio gwneud inni feddwl. Eleanor, ewch i Barc Caia a dweud wrth y bobl yno bod Cymunedau yn Gyntaf yn beth gwael, neu ewch i lawer o gymunedau yn y de a'r canolbarth a dweud wrthynt nad yw Cymunedau yn Gyntaf wedi gwneud dim ar eu cyfer. Bydd gennych eich ateb: byddant yn dweud ei fod wedi gwella eu bywydau a'u cymunedau ar raddfa aruthrol. Do, bu anawsterau mewn rhai rhannau o Gymru, ac mae'r anawsterau hynny yn cael eu harchwilio, ond nid yw hynny'n rheswm i gondemnio'r prosiect cyfan. Wedi'r cyfan, cafodd y prosiect ei gynllunio i roi hyder i'r cymunedau hynny—hyder y mae arnynt ei angen er mwyn ailadeiladu ar ôl degawdau o anawsterau economaidd. Mae hwnnw'n gynllun y bydd y Llywodraeth yn dweud sydd wedi gwneud yn arbennig o dda, ac mae'r dystiolaeth yno i brofi hynny.

Roedd fformiwla Barnett yn gwasanaethu Cymru yn dda ar ddechrau'r degawd diwethaf, ond nid yw'n gwasanaethu Cymru yn dda erbyn hyn. Mae pethau wedi newid, ac mae comisiwn Holtham wedi darparu'r

parties in the Chamber have supported it, and we look forward—apparently after a ‘yes’ vote in the referendum—to ensuring that the issue of fair financing for Wales is addressed to everyone’s satisfaction.

Blaenoriaethau Dwyrain De Cymru

10. Mohammad Asghar: *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei flaenoriaethau ar gyfer Dwyrain De Cymru dros weddill y Trydydd Cynulliad. OAQ(3)3175(FM)*

The First Minister: Yes, they are included in ‘One Wales’.

Mohammad Asghar: One of the Government’s priorities, as stated in ‘One Wales’, is to deliver significant improvements to the health of the Welsh nation. I am sure that, like me, you will be very concerned to note that the number of people in Gwent who have been diagnosed with diabetes rose by almost 2,000 in 2009-10. Blaenau Gwent is the worst hit area in Wales, and Torfaen, Caerphilly and Newport are not far behind. There are seven areas in Wales that have been hit significantly by this serious illness. The national director of Diabetes UK Cymru has labelled the figures shocking. Given the recent statistics, which suggest that only a fifth of people who have type 2 diabetes manage their condition properly through diet and physical activity, and considering the serious health problems and complications that can arise from under-managed diabetes and the fact that diabetes and related illnesses cost the national health service £480 million in Wales, would you inform the Assembly about what discussions you are having to manage diabetes in South Wales East and Wales as a whole?

The First Minister: Type 1 and type 2 diabetes are very different. Type 2 diabetes tends to onset later in people’s lives, and it is generally controlled through diet. If memory serves me, type 1 diabetes tends to affect younger people and to mean that they are reliant upon insulin. It is difficult to know why the incidence of type 1 diabetes should

dystiolaeth. Mae gennym y dystiolaeth honno erbyn hyn, mae pob plaid yn y Siambr wedi’i chefnogi, ac rydym yn edrych ymlaen at sicrhau—ar ôl pleidlais ‘ie’ yn y refferendwm mae’n siwr—bod y mater ynghylch system gyllido deg i Gymru yn cael ei ddatrys fel bod pawb yn fodlon.

Priorities for South Wales East

10. Mohammad Asghar: *Will the First Minister provide an update on his priorities for South Wales East for the remainder of the Third Assembly. OAQ(3)3175(FM)*

Y Prif Weinidog: Gwnaf, maent wedi’u cynnwys yn ‘Cymru'n Un’.

Mohammad Asghar: Un o flaenoriaethau'r Llywodraeth, fel y nodir yn ‘Cymru'n Un’, yw sicrhau gwelliannau sylweddol i iechyd Cymru. Rwyf yn siŵr eich bod chi, fel finnau, yn bryderus iawn wrth weld bod nifer y bobl yng Ngwent sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes wedi cynyddu bron i 2,000 yn 2009-10. Blaenau Gwent yw'r ardal y mae hyn yn effeithio fwyaf arni yng Nghymru, gyda Thor-faen, Caerffili a Chasnewydd yn dynn ar ei sodlau. Mae'r salwch difrifol hwn wedi effeithio'n sylweddol ar saith ardal yng Nghymru. Mae cyfarwyddwr cenedlaethol Diabetes UK Cymru wedi disgrifio'r ffigurau fel rhai brawychus. O edrych ar yr ystadegau diweddar, sy'n awgrymu mai dim ond un o bob pum person sydd â diabetes math 2 sy'n rheoli eu cyflwr yn briodol drwy ddeiet a gweithgarwch corfforol, ac o ystyried y problemau iechyd difrifol a'r cymhlethdodau a all godi wrth beidio â rheoli diabetes yn briodol a'r ffaith bod diabetes a gwahanol fathau o salwch cysylltiedig yn costio £480 miliwn i'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru, a wnewch ddweud wrth y Cynulliad pa drafodaethau rydych yn eu cael i reoli diabetes yn Dwyrain De Cymru ac yng Nghymru yn gyffredinol?

Y Prif Weinidog: Mae diabetes math 1 a math 2 yn wahanol iawn. Mae diabetes math 2 yn tueddu i ddechrau yn nes ymlaen ym mywydau pobl, ac mae'n cael ei reoli drwy ddeiet fel arfer. Os wyf yn cofio'n iawn, mae diabetes math 1 yn tueddu i effeithio ar bobl iau ac yn golygu eu bod yn ddibynnol ar inswlin. Mae'n anodd gwybod pam y byddai

rise. We know that type 2 diabetes is related to diet, and particularly carbohydrate consumption, I understand. It is important that people, when they are diagnosed with diabetes, and particularly type 2 diabetes, take it seriously and understand that, in order to prevent longer-term damage, they need to manage their diet. The effects of type 2 diabetes are not as profound as those of type 1, when you may have to inject yourself with insulin three times a day. Clearly, it is important that people understand the difficulties of living with diabetes. It is important to try to understand why there might be a rise in the incidence of diabetes in one part of Wales, and to address that problem.

Gwasanaethau Chwilio ac Achub

11. Brian Gibbons: *Pa sylwadau y mae'r Prif Weinidog wedi'u rhoi i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ynghylch eu cynlluniau i ad-drefnu gwasanaethau chwilio ac achub de Cymru. OAQ(3)3182(FM)*

The First Minister: On 27 October, I wrote to Nick Harvey, the Minister of State for the Armed Forces, to express my concerns at the proposals.

2.30 p.m.

Brian Gibbons: I am pleased to hear that, because you will be aware that there is considerable concern about the implications for sea rescue services in south Wales, particularly if RAF Chivenor were to curtail its operations. Indeed, RAF Chivenor was involved in a joint rescue exercise with the Royal National Lifeboat Institution from Port Talbot at the beginning of October. RNLI has since told me that about a third of the operations from RAF Chivenor take place at night, and they are of a particularly high-risk nature. They would be concerned that a response from Valley or from Culdrose, in Cornwall, could add up to an hour to the rescue time window, which would be of great concern to the RNLI in Port Talbot and, undoubtedly, others on the south Wales coast.

The First Minister: You are right; it would

nifer yr achosion o ddiabetes math 1 yn cynyddu. Gwyddom fod diabetes math 2 yn gysylltiedig â deiet, a charbohydradau yn arbennig, yn ôl yr hyn a ddeallaf. Pan fydd pobl yn cael diagnosis o ddiabetes—ac yn enwedig diabetes math 2—mae'n bwysig eu bod yn cymryd y peth o ddifrif ac yn deall, er mwyn atal difrod tymor hwy, bod angen iddynt reoli eu deiet. Nid yw effeithiau diabetes math 2 mor ddwys ag effeithiau math 1, pan mae'n rhaid ichi roi pigiad o inswlin i'ch hun dair gwaith y dydd. Yn amlwg, mae'n bwysig bod pobl yn deall anawsterau byw gyda diabetes. Mae'n bwysig ceisio deall pam y gallai nifer yr achosion o ddiabetes gynyddu mewn un rhan o Gymru, a mynd i'r afael â'r broblem honno.

Search and Rescue Services

11. Brian Gibbons: *What representations has the First Minister made to the Ministry of Defence regarding their plans for reconfiguring search and rescue services for South Wales. OAQ(3)3182(FM)*

Y Prif Weinidog: Ar 27 Hydref, ysgrifennais at Nick Harvey, y Gweinidog Gwladol dros y Lluoedd Arfog, i fynegi fy mhryderon ynghylch y cynlluniau.

Brian Gibbons: Rwyf yn falch o glywed hynny, oherwydd byddwch yn ymwybodol bod pryder sylweddol ynghylch y goblygiadau i'r gwasanaethau achub ar y môr yn y de, yn enwedig pe bai Awyrlu Brenhinol Chivenor yn cyfyngu ei wasanaethau. Yn wir, roedd Awyrlu Brenhinol Chivenor yn rhan o ymarfer achub ar y cyd â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub ym Mhort Talbot ddechrau mis Hydref. Ers hynny, mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub wedi dweud wrthyf fod tua traean o weithrediadau RAF Chivenor yn digwydd yn ystod y nos, a'u bod yn weithrediadau o risg uchel. Byddent yn poeni y gallai ymateb o'r Fali neu o Culdrose, yng Nghernyw, ychwanegu hyd at awr at y cyfnod achub, a byddai hynny'n achos pryder mawr i Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub ym Mhort Talbot ac, yn sicr, mewn mannau eraill ar hyd arfordir y de.

Y Prif Weinidog: Rydych yn iawn; byddai'n

be immensely helpful if we were to receive a decision on this as soon as possible and a decision that ensures that 24-hour coverage continues from Chivenor. You are right to say that the distance from Culdrose in particular, and from Valley, is too great to ensure a service that people can have confidence in.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog am ei atebion i gwestiynau.

ddefnyddiol dros ben pe byddem yn cael penderfyniad ynghylch hyn cyn gynted ag y bo modd, a phenderfyniad sy'n sicrhau bod y gwasanaeth 24 awr yn parhau yn Chivenor. Rydych yn iawn wrth ddweud bod Culdrose yn arbennig, a'r Fali, yn rhy bell i sicrhau gwasanaeth y gall pobl fod â ffydd ynddo.

The Presiding Officer: Our thanks to the First Minister for his answers to questions.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): There are no changes to report to this week's planned Government business, and business for the next three weeks is as set out in the business statement announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Andrew R.T. Davies: Can we have a statement on epilepsy services? When I recently questioned the First Minister, he highlighted that a report was due to be published by the Minister for Health and Social Services into the meeting of Government targets by the local health boards. I have subsequently received a written answer from the Minister for health saying that the LHBs have still not complied with the targets and that the information is still being assimilated. Many Members will be aware of some of the services in their own areas not being up to scratch, so I would be grateful for a statement from the Minister for health to give us an indication of exactly where the Government and LHBs stand on the implementation of the epilepsy directive and the services that the Government expects the LHBs to provide.

Secondly, could we have a statement on hospital transport? I understand that the inquiry has been going on for quite some time, and to date, no firm conclusions or reports have been brought forward. A statement now, as we enter the final couple of months of this Assembly, would be an opportune time for Members to question the Minister over the exact status of the inquiry,

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Nid oes unrhyw newidiadau yn musnes arfaethedig y Llywodraeth yr wythnos hon, ac mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ymysg y papurau agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

Andrew R.T. Davies: A allwn gael datganiad am wasanaethau epilepsi? Pan holais y Prif Weinidog yn ddiweddar, dywedodd fod adroddiad ar fin cael ei gyhoeddi gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch a yw'r byrddau iechyd lleol yn cyrraedd targedau'r Llywodraeth. Yn dilyn hynny, rwyf wedi cael ateb ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Iechyd yn dweud bod y byrddau iechyd lleol yn dal i fethu â chydymffurfio â'r targedau a'u bod yn dal i gasglu gwybodaeth. Bydd llawer o'r Aelodau'n ymwybodol nad yw rhai o'r gwasanaethau yn eu hardaloedd eu hunain yn ddigon da, felly byddwn yn ddiolchgar o gael datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd i roi syniad inni o beth yn union yw safbwynt y Llywodraeth a'r byrddau iechyd lleol o ran gweithredu'r gyfarwyddeb epilepsi a'r gwasanaethau y mae'r Llywodraeth yn disgwyl i'r byrddau iechyd lleol eu darparu.

Yn ail, a allem gael datganiad am gludiant i'r ysbyty? Rwyf yn cael ar ddeall bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo ers cryn amser, ac nid oes unrhyw gasgliadau nac adroddiadau pendant wedi cael eu cyflwyno hyd yma. A ninnau yng nghwpl o fisoedd olaf y Cynulliad hwn, byddai datganiad yn awr yn amser delfrydol i Aelodau gwestiynu'r Gweinidog ynghylch union

and to see whether any recommendations can be expected from the inquiry before the Assembly rises at the end of March.

Jane Hutt: As you have indicated, you have received a written answer from the Minister for Health and Social Services on the progress made in implementing the epilepsy directive. As for next steps, I will ensure that the Minister for Health and Social Services is aware of your concerns, and I will also inquire about progress with regard to the hospital transport inquiry.

Val Lloyd: An investment of nearly £1.5 million from the Welsh Assembly Government enabled Swansea Drugs Project to buy and renovate new premises in Swansea city centre. The drugs project was established in 1983 by a group of local residents and it has continually provided access to advice, support and treatment for drug misusers in Swansea and the wider South Wales West area. The new facilities will enable it to assist and benefit a wider range of users. The project has also moved into working within Swansea prison, providing drug treatment programmes for inmates and former prisoners.

The funding received by the drugs project is a clear indication of the Labour-led Welsh Assembly Government's commitment to investing in the voluntary sector and in the treatment and rehabilitation of drug users. That is only one example, and I cite it because I know it and it is in my area. Minister, would you consider setting aside time for a Plenary debate on the development and future of the voluntary sector in Wales?

Jane Hutt: Thank you, Val. I am aware of the good work of Swansea Drugs Project, and your question puts into context the importance of the communiqué that was drafted with the Wales Council for Voluntary Action and the Welsh Assembly Government to ensure active engagement between the Welsh Assembly Government and the third sector in planning at all levels in advance of the spending review. This communiqué went

statws yr ymchwiliad, ac i weld a ellir disgwyl unrhyw argymhellion o'r ymchwiliad cyn toriad y Cynulliad ddiwedd mis Mawrth.

Jane Hutt: Fel rydych wedi'i ddweud, rydych wedi cael ateb ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y cynnydd a wneir o ran gweithredu'r gyfarwydddeb epilepsi. O ran y camau nesaf, byddaf yn gwneud yn siŵr bod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol o'ch pryderon, a byddaf hefyd yn holi am y cynnydd o ran yr ymchwiliad i gludiant i'r ysbyty.

Val Lloyd: Mae buddsoddiad gwerth bron i £1.5 miliwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi galluogi Prosiect Cyffuriau Abertawe i brynu ac i adnewyddu adeiladau newydd yng nghanol dinas Abertawe. Cafodd y prosiect cyffuriau ei sefydlu ym 1983 gan grŵp o drigolion lleol, ac mae wedi parhau i ddarparu cyngor, cymorth a thriniaeth ar gyfer camddefnyddwyr cyffuriau yn Abertawe ac yn ardal ehangach Gorllewin De Cymru. Bydd y cyfleusterau newydd yn galluogi'r prosiect i gynorthwyo ystod ehangach o ddefnyddwyr ac i fod o fudd iddynt. Mae'r prosiect hefyd wedi dechrau gweithio yng ngharchar Abertawe, gan ddarparu rhaglenni triniaeth cyffuriau ar gyfer carcharorion a chyn garcharorion.

Mae'r cyllid a gafodd y prosiect cyffuriau yn arwydd clir o ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o dan arweiniad Llafur i fuddsoddi yn y sector gwirfoddol, ac yn nhriniaethau a phrosesau adsefydlu defnyddwyr cyffuriau. Dim ond un enghraifft yw honno, ac rwyf yn cyfeirio ati gan fy mod yn gwybod amdani a'i bod yn fy ardal i. Weinidog, a fydddech cystal ag ystyried neilltuo amser i gael dadl yn y Cyfarfod Llawn ar ddatblygiad a dyfodol y sector gwirfoddol yng Nghymru?

Jane Hutt: Diolch, Val. Rwyf yn ymwybodol o waith da Prosiect Cyffuriau Abertawe, ac mae eich cwestiwn yn rhoi pwysigrwydd y datganiad a ddrafftwyd gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gyd-destun, er mwyn sicrhau ymgysylltiad gweithredol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r trydydd sector wrth gynllunio ar bob lefel cyn yr adolygiad o wariant. Cafodd

out in the summer, and I have indeed met with representatives of the voluntary sector regionally and nationally to discuss how it can engage with us and to commence discussions on how it can manage potential cuts as a result of the comprehensive spending review. However, we must clearly recognise that the level of planning will most likely happen after the publication of the draft budget in mid November, and much of that will also be at the local authority and local health board level. However, the importance of organisations delivering such services at the front line cannot be underestimated. The Minister for Social Justice and Local Government will have heard your comments, and we will be addressing them.

Jenny Randerson: Today's news about the University of Bristol's research on the growing gap in attainment between Welsh and English pupils has already led to some discussion in the Chamber this afternoon. I suspect that we are on the same side in this debate, in not believing that the lack of school league tables is the cause of the problem. Having had a cursory look at the research, I am not fully convinced that it takes proper account of the impact of the considerably lower funding here in Wales than that provided in England. However, the research raises some serious issues, and it is time that we had the opportunity to have an in-depth debate on the attainment gap. The First Minister has already mentioned this afternoon that attainment falls off at secondary school level, whereas we compare satisfactorily at primary school level; he also mentioned the funding issues that are associated with that. Will you ask the Minister for Children, Education and Lifelong Learning to bring forward such a debate?

Jane Hutt: As you said, we discussed this issue earlier on this afternoon, and you have raised this issue with the First Minister. I am glad that you support us in believing strongly that league tables are not the most effective way of presenting information to schools, parents, and the wider public. That evidence was a steer to us in our important decision

y datganiad ei gyhoeddi yn yr haf, ac rwyf wedi cael cyfarfod â chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol ar lefel ranbarthol ac ar lefel genedlaethol i drafod sut y gall ymgysylltu â ni, ac i ddechrau trafodaethau ynghylch sut y gall reoli toriadau posibl o ganlyniad i'r adolygiad cynhwysfawr o wariant. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni gydnabod yn glir y bydd y lefel gynllunio yn digwydd ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft yng nghanol mis Tachwedd fwy na thebyg, a bydd llawer o hynny'n digwydd ar lefel y bwrdd iechyd lleol a'r awdurdod lleol hefyd. Fodd bynnag, ni ellir tanystyried pa mor bwysig yw cael sefydliadau'n darparu gwasanaethau o'r fath yn y rheng flaen. Bydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi clywed eich sylwadau, a byddwn yn mynd i'r afael â hwy.

Jenny Randerson: Mae'r newyddion a gyhoeddwyd heddiw am ymchwil Prifysgol Bryste, ynghylch y bwlch cynyddol mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion yng Nghymru a disgyblion yn Lloegr, eisoes wedi arwain at dipyn o drafodaeth yn y Siambr y prynhawn yma. Rwyf yn tybio ein bod ar yr un ochr yn y ddadl hon, drwy beidio â chredu mai'r ffaith nad oes gennym dablau cynghrair ysgolion sydd wrth wraidd y broblem. Ar ôl cael cipolwg ar y gwaith ymchwil, nid wyf yn gwbl argyhoeddedig ei fod yn ystyried yn briodol effaith y ffaith bod llawer llai o gyllid ar gael yma yng Nghymru na'r hyn a ddarperir yn Lloegr. Fodd bynnag, mae'r ymchwil yn codi problemau difrifol, ac mae'n bryd inni gael cyfle i gael trafodaeth fanwl am y bwlch cyrhaeddiad. Mae'r Prif Weinidog eisoes wedi sôn y prynhawn yma bod lefelau cyrhaeddiad yn gostwng ar lefel ysgolion uwchradd, er ein bod yn cymharu'n foddhaol ar lefel ysgolion cynradd; soniodd hefyd am y materion cyllido sy'n gysylltiedig â hynny. A wnewch ofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes gyflwyno dadl o'r fath?

Jane Hutt: Fel y dywedoch, buom yn trafod y mater hwn yn gynharach y prynhawn yma, ac rydych wedi codi'r mater hwn gyda'r Prif Weinidog. Rwyf yn falch eich bod yn ein cefnogi wrth gredu'n gryf nad tablau cynghrair yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno'r wybodaeth i ysgolion, i rieni, ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Roedd y

about banning the use of league tables in that respect. It is important to note that, year on year in Wales, our young people's levels of attainment continue to rise, and it should also be acknowledged—and this has been part of the discussion, listening to the broadcast today—that the curriculum and assessment now differs between England and Wales. We have a commitment to learning and benchmarking against those near and far, and to the use of data at all levels in the system, to promote continuous improvement and to monitor the effectiveness of our intervention. These are important issues. As for the Minister for education's response to this, and the prospects in the draft budget, that is all to play for via scrutiny and debate.

David Lloyd: I thank the Minister for Business and Budget for her statement. I have three short requests for debates. First, I would like to have a debate on energy costs. This has been sparked by Scottish and Southern Energy's decision last week to raise prices by around 9.4 per cent, adding around £5.60 a month to bills in Wales. The average annual bill for an SSE customer will therefore be £782, which is a £67 increase. The average bill has already risen 31 per cent since 2008. The standard dual fuel bill will rise from £1,159 to £1,226. As you know, SWALEC is part of SSE and has 440,000 customers in Wales, so this decision will hit many people. This is only one energy company, but the other five will surely follow suit, as we have found out over the years. The Minister will also be aware that electricity prices are 10 per cent higher in Wales than they are in England; this announcement will hardly improve matters. Furthermore, with record levels of fuel poverty in Wales, with 340,000 households in fuel poverty—a rise of 90,000 on the previous year—I urgently request you to consider a debate on energy costs as they apply to and affect the people of Wales.

My second request is for a debate on housing benefit, or rather, the fast-disappearing housing benefit. Lynne Neagle raised this

dystiolaeth honno'n arweiniad inni yn ein penderfyniad pwysig i wahardd defnyddio tablau cynghrai yn hynny o beth. Mae'n bwysig nodi bod lefelau cyrhaeddiad ein pobl ifanc yn dal i godi o flwyddyn i flwyddyn yng Nghymru. Dylid cydnabod hefyd—ac mae hyn wedi bod yn rhan o'r drafodaeth, wrth wrando ar yr hyn a gyhoeddwyd heddiw—bod cwricwlwm ac asesiad Cymru a Lloegr yn wahanol i'w gilydd erbyn hyn. Rydym yn ymrwymedig i ddsygu ac i feincodi yn erbyn y rheini sy'n bell ac agos, ac i ddefnyddio data ar bob lefel yn y system, i hyrwyddo gwelliant parhaus ac i fonitro effeithiolrwydd ein hymyriadau. Mae'r rhain yn faterion pwysig. O ran ymateb y Gweinidog dros Addysg i hyn, a'r rhagolygon yn y gyllideb ddrafft, mae hynny eto i'w benderfynu drwy graffu a thrafod.

David Lloyd: Diolch i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb am ei datganiad. Mae gennyf dri chais byr ar gyfer dadleuon. Yn gyntaf, hoffwn gael dadl ar gostau ynni. Mae hyn wedi cael ei sbarduno gan benderfyniad Scottish and Southern Energy yr wythnos diwethaf i godi prisiau tua 9.4 y cant, gan ychwanegu tua £5.60 y mis at filiau yng Nghymru. Felly, bydd y bil blynyddol cyfartalog ar gyfer cwsmeriaid SSE yn £782, sydd £67 yn fwy. Mae'r bil cyfartalog eisoes wedi codi 31 y cant er 2008. Bydd y bil tanwydd deuol safonol yn codi o £1,159 i £1,226. Fel y gwyddoch, mae SWALEC yn rhan o SSE ac mae ganddo 440,000 o gwsmeriaid yng Nghymru, felly bydd y penderfyniad hwn yn effeithio ar lawer o bobl. Dim ond un cwmni ynni yw hwn, ond bydd y pump arall yn siŵr o wneud yr un peth, fel rydym wedi gweld dros y blynyddoedd. Bydd y Gweinidog hefyd yn gwybod bod prisiau trydan 10 y cant yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr; nid yw'r cyhoeddiad hwn prin yn mynd i wella pethau. Ar ben hynny, gyda lefelau uwch nag erioed o dlodi tanwydd yng Nghymru, gyda 340,000 o aelwydydd yn wynebu tlodi tanwydd—90,000 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol—gofynnaf yn daer ichi ystyried dadl ar gostau ynni fel y maent yn berthnasol i bobl Cymru ac yn effeithio ar bobl Cymru.

Fy ail gais yw dadl ar fudd-daliadau tai, neu'n hytrach, y budd-daliadau tai sy'n prysur ddiiflannu. Cododd Lynne Neagle y mater

issue earlier in questions to the First Minister. There are severe and savage cuts to housing benefit, and we need to explore what the Government in Wales is doing, what it can do, and what representations are being made to the Government in London with regard to the effect on people in Wales.

2.40 p.m.

On a lighter note, perhaps, my third request is for a debate on the likely economic boost to Wales from having a football team in the Premier League. As the First Minister will know, Cardiff City Football Club is at the top of the Champions League at the moment, and Swansea City Football Club is third; they meet next weekend, and perhaps any debate on the improved economic prospects for Wales of promotion to the premiership should include the real possibility of having two Welsh teams in the premiership, with Cardiff City joining Swansea City there next May.

Jane Hutt: The first two points that you raised with me this afternoon as the Minister for business fall outside the responsibility of the Welsh Assembly Government, but it is important that we take note of the impact of energy prices, as the Minister for Environment, Sustainability and Housing, Jane Davidson, has always done. Jane Davidson meets regularly with energy companies and regulatory bodies to help to ensure that Welsh energy consumers are not penalised as a result of location, and that reductions in energy prices are passed on to consumers. The key to our opportunities to influence policy is the commitment of the Assembly Government to tackle fuel poverty. Our new fuel poverty strategy, which was launched over the summer, focuses on those who find it most difficult to heat their homes and pay their energy bills. Important, too, was the launch of the £30 million first phase of Arbed, our new energy efficiency scheme. This will also help people in some of our poorest areas to reduce their fuel bills through the installation of the latest technology and renewable energy, such as solar panels. We do our bit through those impacts. I am grateful that you have brought

hwn yn gynharach yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog. Mae budd-daliadau tai yn wynebu toriadau difrifol a llym, ac mae angen inni edrych ar yr hyn y mae'r Llywodraeth yng Nghymru yn ei wneud, beth y gall ei wneud, a pha sylwadau sy'n cael eu gwneud i'r Llywodraeth yn Llundain o ran yr effaith ar bobl yng Nghymru.

Ar nodyn ysgafnach o bosibl, fy nhrydydd cais yw dadl ar yr hwb economaidd tebygol i Gymru o gael tîm pêl-droed yn yr Uwch Gynghrair. Fel y gŵyr y Prif Weinidog, mae Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd ar frig Cynghrair y Pencampwyr ar hyn o bryd ac mae Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe yn drydydd; maent yn cwrdd y penwythnos nesaf, ac efallai y dylai unrhyw ddadl ar y rhagolygon economaidd gwell i Gymru yn sgîl dyrchafiad i'r uwch gynghrair, gynnwys y posibilrwydd gwirioneddol o gael dau dîm o Gymru yn yr uwch gynghrair, pe bai Dinas Caerdydd a Dinas Abertawe yn ymuno â'r gynghrair fis Mai nesaf.

Jane Hutt: Roedd y ddau bwynt cyntaf y gwnaethoch eu codi gyda mi y prynhawn yma, fel y Gweinidog dros Fusnes, y tu hwnt i gyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru, ond mae'n bwysig ein bod yn cymryd sylw o effaith prisiau ynni, fel y mae Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, bob amser wedi'i wneud. Mae Jane Davidson yn cael cyfarfodydd rheolaidd â chwmnïau ynni a chyrrff rheoleiddio er mwyn helpu i sicrhau nad yw defnyddwyr ynni yng Nghymru yn cael eu cosbi oherwydd eu lleoliad, a bod gostyngiadau mewn prisiau ynni yn cael eu trosglwyddo i'r defnyddwyr. Yr allwedd i'n cyfleoedd i ddylanwadu ar bolisiau yw ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae ein strategaeth tlodi tanwydd newydd, a gafodd ei lansio yn ystod yr haf, yn canolbwyntio ar y rheini sy'n cael fwyaf o drafferth gwresogi eu cartrefi a thalu eu biliau ynni. Roedd lansio cam cynaf Arbed yn bwysig hefyd, ein cynllun effeithlonrwydd ynni newydd sydd werth £30 miliwn. Bydd hyn hefyd yn helpu pobl mewn rhai o'n hardaloedd tlotaf i leihau eu biliau tanwydd drwy osod y dechnoleg ddiweddaraf ac ynni adnewyddadwy, fel paneli solar.

forward that evidence of the price rises to the Chamber, and we must take note of those impacts as we consider statements, debates and questions.

The impact of the housing benefit changes was raised with me today by some young people who came to visit me from Barry College. There are already widespread concerns, which have been reflected in the submissions from Shelter and Citizens Advice Cymru. These organisations, along with the National Landlords Association and Cartrefi Cymru, all recognise the impact that it will have on us, our services, and on local authorities. Therefore, these are issues that we have to find space to address in light of our responsibilities and in light of the impact that these changes will have.

On a more cheerful note, I see that there are many supporters in the Chamber of Cardiff and Swansea as they attempt to get into the Premier League. I know that that would be good news and that it would raise our spirits in what is rather a difficult time given the financial impacts of the UK coalition Government on our spending prospects.

Mark Isherwood: I call for a statement on the impact of renewable energy policy in the context of biomass power plants on existing users of wood. Last Friday, I joined the local Labour MP at Kronospan in Chirk, which employs 600 people. We joined the management and the workforce as part of a Europe-wide day of action by the wood panel industry. The slogans that we saw, read, and supported were, 'Make wood work', 'To burn it is to waste it', 'Use it, don't burn it', and, 'Don't burn our jobs'. We heard that Government subsidies are equal to double the amount that the wood panel industry can afford to pay and that subsidies today of about £200 million for biomass are forecast to grow to £2.4 billion if all of the current plans come to fruition. More worryingly, we were told that, if the objective is to reduce carbon dioxide emissions, this would be illogical, because, if biomass subsidy disrupted all wood panel producers across

Rydym yn gwneud ein rhan drwy'r effeithiau hynny. Rwyf yn ddiolchgar eich bod wedi cyflwyno'r dystiolaeth honno ynghylch y cynnydd mewn prisiau i'r Siambr, a rhaid inni gymryd sylw o'r effeithiau hynny wrth ystyried datganiadau, dadleuon a chwestiynau.

Daeth rhai pobl ifanc o Goleg y Barri i ymweld â mi heddiw, a gwnaethant sôn am effaith y newidiadau mewn budd-daliadau tai. Mae llawer o bobl eisoes yn poeni am hyn, a chafodd hyn ei adlewyrchu yn y sylwadau gan Shelter Cymru a Cyngor ar Bopeth Cymru. Mae'r sefydliadau hyn, ynghyd â Chymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid a Cartrefi Cymru, i gyd yn cydnabod yr effaith y bydd yn ei chael arnom ni, ar ein gwasanaethau ac ar awdurdodau lleol. Felly, mae'r rhain yn faterion y mae'n rhaid inni ddod o hyd i gyfle i fynd i'r afael â hwy yn sgîl ein cyfrifoldebau, ac yn sgîl yr effaith y bydd y newidiadau hyn yn ei chael.

Ar nodyn hapusach, gwelaf fod nifer o gefnogwyr Caerdydd ac Abertawe yn y Siambr, wrth iddynt geisio cael dyrchafiad i'r Uwch Gynghair. Gwn y byddai hynny'n newyddion da ac y byddai'n codi ein hysbryd mewn cyfnod eithaf anodd o ystyried effeithiau ariannol Llywodraeth glymblaid y DU ar ein rhagolygon gwariant.

Mark Isherwood: Galwaf am ddatganiad ar effaith polisi ynni adnewyddadwy yng nghyd-destun gorsafoedd ynni biomas ar bobl sy'n defnyddio pren ar hyn o bryd. Ddydd Gwener diwethaf, ymunais â'r AS Llafur lleol yn Kronospan yn y Waun, sy'n cyflogi 600 o bobl. Gwnaethom ymuno â'r rheolwyr a'r gweithlu fel rhan o ddiwrnod o streicio ar draws Ewrop gan y diwydiant paneli pren. Roedd y sloganau roeddem yn eu gweld, eu darllen a'u cefnogi yn cynnwys, 'Make wood work', 'To burn it is to waste it', 'Use it, don't burn it', a, 'Don't burn our jobs'. Clywsom fod cymorthdaliadau'r Llywodraeth yn cyfateb i ddwbl y swm y gall y diwydiant paneli pren fforddio ei dalu, ac y rhagwelir y byddai cymorthdaliadau o tua £200 miliwn heddiw ar gyfer biomas yn cynyddu i £2.4 biliwn pe bai pob un o'r cynlluniau presennol yn dwyn ffrwyth. Yn fwy pryderus byth, os mai lleihau allyriadau carbon deuocsid yw'r nod, dywedwyd wrthym na fyddai hyn yn

Europe, carbon dioxide emissions would increase by 300 million tonnes per annum.

Minister, the wood-burning industry is not subsidised, although biomass is, and the wood panel industry adds 10 times the value of biomass. Do you agree that we need legislation at a European and a national level to rethink the subsidies, because while biomass has a role with regard to end-of-life timber that would otherwise go to landfill, unless the idea of a hierarchy of use is embedded, and without action, there will be a shortfall of timber in Europe by 2020, and we will only be able to import wood through deforestation, which is responsible for 20 per cent of global carbon dioxide emissions. Transporting these imports to our islands would further increase our carbon footprint. I know that your Government is only responsible for power plants of up to 50 MW, which are not particularly problematic, because of their small scale, but you have a key role to play in dialogue at European and UK Governmental levels. This is a matter of major importance to the north-east Wales economy and to the wider economy, and it deserves a Welsh Government statement.

Jane Hutt: Following your engagement with that event, I am sure that you will seek an opportunity to raise this issue with the Minister for the Environment, Sustainability and Housing.

Chris Franks: Minister, could you find time for us to have a debate regarding stories that universities could be charging students up to £9,500 a year? We know that many universities have now become no-go zones for Lib Dem MPs, but it might be useful to have a debate in the Chamber about the betrayal of students.

Secondly, we know that local services face financial challenges over the next few years. These include education, road maintenance and social services. The key to protecting front-line services is a motivated workforce.

rhesymegol, oherwydd pe bai cymorthdaliadau biomas yn amharu ar yr holl gynhyrchwyr paneli pren ar draws Ewrop, byddai'r allyriadau carbon deuocsid yn cynyddu 300 miliwn tonnell y flwyddyn.

Weinidog, nid yw'r diwydiant llosgi coed yn cael ei sybsideiddio, er bod y diwydiant biomas yn cael ei sybsideiddio, ac mae'r diwydiant paneli pren yn cynyddu gwerth 10 gwaith mwy na biomas. A ydych yn cytuno bod arnom angen deddfwriaeth ar lefel Ewropeaidd a chenedlaethol i ailystyried y cymorthdaliadau, oherwydd er bod gan fiomas rôl i'w chwarae o ran pren diwedd oes a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi, oni chaiff y syniad o hierarchaeth o ddefnydd ei wreiddio, a'i weithredu, bydd prinder pren yn Ewrop erbyn 2020, a dim ond drwy ddatgoedwigo y byddwn yn gallu mewnfario pren, sy'n gyfrifol am 20 y cant o allyriadau carbon deuocsid y byd. Byddai cludo'r eitemau hyn i'n hynsoedd yn cynyddu ein hôl troed carbon ymhellach. Gwn nad yw eich Llywodraeth ond yn gyfrifol am orsafoedd ynni o hyd at 50 MW—ac nid yw'r rheini'n peri llawer o broblemau gan eu bod yn fach—ond mae gennych rôl allweddol i'w chwarae mewn trafodaethau ar lefelau Llywodraeth Ewrop a Llywodraeth y DU. Mae hwn yn fater o bwys mawr i'r economi yn y gogledd-ddwyrain ac i'r economi ehangach, ac mae'n haeddu datganiad gan Lywodraeth Cymru.

Jane Hutt: Yn dilyn eich cysylltiad â'r digwyddiad hwnnw, rwyf yn siŵr y byddwch yn chwilio am gyfle i godi'r mater hwn gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

Chris Franks: Weinidog, a allech ddod o hyd i amser inni gael dadl ynghylch straeon y gallai prifysgolion fod yn codi hyd at £9,500 y flwyddyn ar fyfyrwyr? Gwyddom fod llawer o brifysgolion yn bwnc llosg i ASau y Democratiaid Rhyddfrydol erbyn hyn, ond gallai fod yn ddefnyddiol cael dadl yn y Siambr ynghylch y modd y mae myfyrwyr wedi cael eu bradychu.

Yn ail, gwyddom fod gwasanaethau lleol yn wynebu heriau ariannol yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys addysg, cynnal a chadw'r ffyrdd a gwasanaethau cymdeithasol. Yr allwedd i

Can we have a debate on managing the difficult challenges that face us all, so that we can avoid the kind of situation that we saw recently when unions felt obliged to walk out of negotiations in Rhondda Cynon Taf following a threat to lock out 10,000 workers if they did not agree to a downgrade in their terms and conditions?

Jane Hutt: I think that the Minister for Children, Education and Lifelong Learning made a statement on the day that the Browne review was published. He promised to come back to the Chamber when we understood the full implications of the UK Government's response to the review. Regarding your second point, that matter is partly devolved and partly non-devolved, and it will be considered by the relevant Ministers.

Darren Millar: I would like to ask for two statements. First, I have been contacted by a number of concerned members of staff at the St Kentigern Hospice in St Asaph regarding a fall in income for the charity, which provides fantastic palliative and end-of-life care for many people in north Wales. An announcement has been made by the trustees suggesting that there will be an immediate reduction in staff numbers, potential bed closures and a reduction in day-care provision at the centre. We know that there is cross-party support for the hospice movement in the Chamber—indeed, the Minister for Health and Social Services is to be congratulated for the additional investment that has been made in the hospice movement over the past few years. However, this particular hospice receives just 18 per cent of its income from Government sources each year, compared with a significantly higher proportion of income received by hospices over the border in England. I ask for a statement from the Minister updating us on the work that she is doing with the hospice movement to secure sustainable funding for them in the future.

amddiffyn gwasanaethau rheng flaen yw gweithlu brwdfrydig. A allwn gael dadl ar reoli'r heriau anodd sy'n wynebu pob un ohonom, er mwyn inni allu osgoi'r math o sefyllfa a welsom yn ddiweddar wrth i undebau deimlo ei bod yn rhaid iddynt roi'r gorau i drafodaethau yn Rhondda Cynon Taf yn dilyn bygythiad i gau allan 10,000 o weithwyr pe na baent yn cytuno i israddio eu telerau ac amodau?

Jane Hutt: Credaf fod y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi gwneud datganiad ar y diwrnod y cafodd adolygiad Browne ei gyhoeddi. Addawodd ddychwelyd i'r Siambr pan fyddem yn deall goblygiadau llawn ymateb Llywodraeth y DU i'r adolygiad. O ran eich ail bwynt, mae'r mater hwnnw yn rhannol wedi'i ddatganoli ac yn rhannol heb ei ddatganoli, a bydd yn cael ei ystyried gan y Gweinidogion perthnasol.

Darren Millar: Hoffwn ofyn am ddau ddatganiad. Yn gyntaf, mae nifer o staff pryderus yn Hosbis St Kentigern yn Llanellwy wedi cysylltu â mi ynghylch lleihad yn incwm yr elusen, sy'n darparu gofal lliniarol a diwedd oes arbennig i lawer o bobl yn y gogledd. Mae'r ymddiriedolwyr wedi gwneud cyhoeddiad yn awgrymu y bydd nifer y staff yn lleihau ar unwaith, llai o welyau o bosibl a llai o ddarpariaeth gofal dydd yn y ganolfan. Gwyddom y ceir cefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer y mudiad hosbisau yn y Siambr—yn wir, rhaid llongyfarch y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y buddsoddiad ychwanegol sydd wedi cael ei wneud yn y mudiad hosbisau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn achos yr hosbis benodol hon, dim ond 18 y cant o'i hincwm sy'n dod o ffynonellau'r Llywodraeth bob blwyddyn, o'i gymharu â'r gyfran sylweddol uwch o incwm y mae hosbisau dros y ffin yn Lloegr yn ei chael. Gofynnaf am ddatganiad gan y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gwaith y mae'n ei wneud gyda'r mudiad hosbisau i sicrhau cyllid cynaliadwy ar ei gyfer yn y dyfodol.

I also renew my calls for a statement on ongoing health reviews in north Wales. The Minister will be aware that there is significant public concern over some of the options that are being considered for maternity, obstetric, paediatric and emergency general surgery services in the region. There is a regional campaign in which more than 10,000 people have lodged their support online for the protection of certain services. I know that the Minister for health has expressed some strong views about the people who are campaigning on this issue. Could I ask for a statement in the Chamber by the Minister on these health reviews as soon as possible?

2.50 p.m.

Jane Hutt: Regarding your first point, I am glad that you recognise the continued support of the Minister for Health and Social Services—and, indeed, former Ministers for health—for the hospice movement. Within the Welsh Assembly Government, we have always backed the voluntary hospice movement on a cross-party basis. However, the pressures with regard to sustainability are for partnerships at local level to address. Time and again I have clarified the status of consultation with regard to maternity, gynaecology, neonatal and child health services that Betsi Cadwaladr University Local Health Board is currently considering. This is an operational matter for the health board, which is seeking a range of views. No decision has been made. Following an evaluation and feedback on proposals, the health board will determine in discussion with the community health council how to further engage the wider public. That is the important point to make in the Chamber today.

Nick Bourne: I thank the Minister for Business and Budget for the statement and ask for two items; one is a statement and one a debate. The first concerns the position on council house spending and the indication, following a presentation to the Bevan Foundation, that £1 billion has been returned to Westminster over the past decade in

Rwyf hefyd yn ailddatgan fy nghais am ddatganiad ar adolygiadau iechyd parhaus yn y gogledd. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol y ceir llawer o bryder ymysg y cyhoedd ynghylch rhai o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer gwasanaethau mamolaeth, obstetreg, pediatrig a llawdriniaethau cyffredinol brys yn y rhanbarth. Ceir ymgyrch ranbarthol lle mae dros 10,000 o bobl wedi datgan eu cefnogaeth ar-lein i amddiffyn rhai gwasanaethau. Gwn fod y Gweinidog dros Iechyd wedi mynegi barn bendant am y bobl sy'n ymgyrchu ynghylch y mater hwn. A gaf ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog dros Iechyd yn y Siambr am yr adolygiadau iechyd hyn cyn gynted ag y bo modd?

Jane Hutt: O ran eich pwynt cyntaf, rwyf yn falch eich bod yn cydnabod cefnogaeth barhaus y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol—ac, yn wir, cefnogaeth y Gweinidogion dros Iechyd blaenorol—i'r mudiad hosbisau. Rydym ni, yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, bob amser wedi cefnogi'r mudiad hosbisau gwirfoddol ar sail drawsbleidiol. Fodd bynnag, partneriaethau ar lefel leol ddylai fynd i'r afael â'r pwysau yng nghyswllt cynaliadwyedd. Dro ar ôl tro rwyf wedi egluro statws yr ymgynghoriad ynghylch gwasanaethau mamolaeth, gynecoleg, iechyd plant a babanod newydd-anedig y mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ei ystyried ar hyn o bryd. Mae hwn yn fater gweithredol i'r bwrdd iechyd, sy'n ceisio amrywiaeth o safbwyntiau. Nid oes unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud. Yn dilyn gwerthusiad ac adborth ar y cynigion, bydd y bwrdd iechyd yn penderfynu, drwy drafodaeth â'r cyngor iechyd cymuned, sut mae ymgysylltu mwy â'r cyhoedd. Dyna'r pwynt pwysig i'w wneud yn y Siambr heddiw.

Nick Bourne: Diolch i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb am y datganiad a gofynnaf am ddwy eitem; datganiad yw un a dadl yw'r llall. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r sefyllfa ynghylch gwariant ar dai cyngor a'r arwydd, yn dilyn cyflwyniad i'r Sefydliad Bevan, bod £1 biliwn wedi'i ddychwelyd i San Steffan yn ystod y degawd diwethaf

council house rents that should have been retained in Wales. Could we have a statement on that and on any proposal to deal with that for the future, so that we can prevent the situation continuing? The second item relates to cohesion funding. The Minister is probably aware that, shortly, we will have the fifth report on regional funding from Europe. It is important that we have a debate here so that we can give a united view on the need to protect Wales's position in the next round of regional funding; given the last Eurostat figures, we may well qualify, if the same criteria are retained. I hope that we do not qualify, but even if we do not, there is a position for Wales to be protected on transitional funding, and it is important that we send a united view to the Westminster Government as soon as we practically can on that issue.

Jane Hutt: I value the opportunity to clarify the point about the housing revenue account subsidy. The Welsh Assembly Government has recently undertaken its own review of the operation of the housing revenue account subsidy arrangements in Wales. It identified the fact that Wales is missing out because of inconsistencies in the way that the UK Government has approached the different nations in the UK in relation to that subsidy. As the housing revenue subsidy is ring-fenced, should councils be allowed to keep the money that they receive in rents, this could be spent only on improving housing. Jocelyn Davies and I have already made representations to the UK Government on this issue and asked it to do the right thing. We await its response, so I hope that that clarifies that point. That is an important point to make today in the Chamber.

On cohesion funding, the role of the Committee on European and External Affairs is crucial in response to developments. The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport, who is responsible for the European structural funds, will be engaging on this as things move forward. It is an important point with regard to transitional protection and funding.

drwy renti tai cyngor a ddylai fod wedi cael eu cadw yng Nghymru. A allem gael datganiad am hynny ac am unrhyw gynnydd i ymdrin â hynny ar gyfer y dyfodol, er mwyn inni allu atal y sefyllfa rhag parhau? Mae'r ail eitem yn ymwneud â chyllid cydlyniant. Mae'n siŵr bod y Gweinidog yn ymwybodol y byddwn yn cael y pumed adroddiad ar gyllid rhanbarthol gan Ewrop cyn bo hir. Mae'n bwysig inni gael dadl yma er mwyn inni allu rhoi barn unedig am yr angen i amddiffyn sefyllfa Cymru yn y cylch nesaf o gyllid rhanbarthol; wrth edrych ar y ffigurau Eurostat diwethaf, mae'n bosibl y byddwn yn gymwys, os defnyddir yr un meini prawf. Gobeithio na fyddwn yn gymwys, ond hyd yn oed os byddwn, gallai Cymru gael ei diogelu gyda chyllid trosiannol, ac mae'n bwysig ein bod yn cyfleu barn unedig i Lywodraeth San Steffan cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar y mater hwnnw.

Jane Hutt: Rwyf yn gwerthfawrogi'r cyfle i egluro'r pwynt am gymhorthdal y cyfrif refeniw tai. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnal ei hadolygiad ei hun yn ddiweddar o drefniadau cymhorthdal y cyfrif refeniw tai yng Nghymru. Nododd y ffaith bod Cymru yn colli allan oherwydd anghysonderau yn y modd y mae Llywodraeth y DU wedi ymdrin â'r gwahanol wledydd yn y DU mewn perthynas â'r cymhorthdal hwnnw. Gan fod cymhorthdal y cyfrif refeniw tai yn cael ei glustnodi, pe bai cynghorau yn cael cadw'r arian y maent yn ei dderbyn ar ffurf rhent, gellid gwario'r arian hwn ar wella tai yn unig. Mae Jocelyn Davies a minnau eisoes wedi gwneud sylwadau i Lywodraeth y DU am y mater hwn, ac wedi gofyn iddi wneud y peth iawn. Rydym yn aros am ei hymateb, felly gobeithio bod hynny'n egluro'r pwynt hwnnw. Mae hwnnw'n bwynt pwysig i'w wneud heddiw yn y Siambr.

O ran cyllid cydlyniant, mae rôl y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn hanfodol o ran ymateb i ddatblygiadau. Bydd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, sy'n gyfrifol am y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, yn cydweithio ar hyn wrth i bethau ddatblygu. Mae'n bwynt pwysig o ran cyllid a diogelwch trosiannol.

Nick Ramsay: I have two points to raise with the Minister, both of which relate to health. First, could we have a statement from the Minister for Health and Social Services or a debate on speech therapy services within the NHS? Recently, I visited Chepstow Community Hospital, where a great deal of good work is being done by a stroke club for stroke sufferers in south-east Wales. However, there is an issue in the hospital with the lack of availability of a speech therapist to help stroke patients deal with problems following suffering a stroke. There seems to be an issue, and I would very much like to hear from the Minister for Health and Social Services on it. That ties in with my second issue, which is something that I would like to revisit. In response to a question on 20 October, the Minister for health said that she was putting the Aneurin Bevan Local Health Board into special measures due to concerns about the working of the board. If there is an extensive structural problem with the health board, I am pleased that action has been taken, but it is important that we are all kept up to date with the ongoing issues. So, I would be very grateful if the Minister for health could come back to the Assembly with a more complete view of why she has decided it necessary to put the health board into these measures, and the proposals that the board is putting in place to try to deal with the issues that have been recognised.

Earlier, I asked the First Minister about the problem of waiting lists in dermatology at the Royal Gwent Hospital. I would be interested to know whether that is also an issue in other areas of the health service. It is certainly a growing issue in my area. I would be grateful if the Minister for Health and Social Services could come to the Chamber and address some of these concerns.

Jane Hutt: I am sure that on your visit to Chepstow Community Hospital you were accompanied by Aneurin Bevan Local Health Board officials or clinicians, so you were, hopefully, able to discuss the pressure points in speech therapy services. I am sure that you can take the opportunity to raise this matter

Nick Ramsay: Mae gennyf ddau bwynt i'w codi gyda'r Gweinidog, ac mae'r ddau ohonynt yn ymwneud ag iechyd. Yn gyntaf, a allem gael datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, neu ddadl ar wasanaethau therapi lleferydd yn y GIG? Yn ddiweddar, ymwelais ag Ysbyty Cymunedol Cas-gwent, lle mae llawer o waith da'n cael ei wneud gan glwb strôc ar gyfer dioddefwyr strôc yn y de-ddwyrain. Fodd bynnag, ceir problem yn yr ysbyty gyda phrinder therapyddion lleferydd i helpu cleifion strôc i ddygymod â phroblemau yn dilyn cael strôc. Mae'n ymddangos y ceir problem, a byddwn yn falch iawn o glywed barn y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar hynny. Mae hynny'n cyd-fynd â'm hail fater, sy'n rhywbeth y byddwn yn dymuno ailedrych arno. Mewn ymateb i gwestiwn ar 20 Hydref, dywedodd y Gweinidog dros Iechyd ei bod yn cymryd camau arbennig ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan oherwydd pryderon am waith y bwrdd. Os oes problem strwythurol helaeth gyda'r bwrdd iechyd, rwyf yn falch bod camau wedi cael eu cymryd, ond mae'n bwysig bod pob un ohonom yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y materion. Felly, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai'r Gweinidog dros Iechyd ddod yn ôl i'r Cynulliad gyda barn fwy cyflawn ynghylch pam ei bod wedi penderfynu ei bod yn angenrheidiol cymryd y camau hyn ar gyfer y bwrdd iechyd, a'r cynlluniau y mae'r bwrdd yn eu rhoi ar waith i geisio ymdrin â'r materion sydd wedi cael eu cydnabod.

Yn gynharach, gofynnais i'r Prif Weinidog am y broblem o restrau aros yn yr adran dermatoleg yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Byddwn yn awyddus i gael gwybod a yw hynny hefyd yn broblem mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth iechyd. Mae'n sicr yn broblem gynyddol yn fy ardal i. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddod i'r Siambr a rhoi sylw i rai o'r pryderon hyn.

Jane Hutt: Rwyf yn siŵr eich bod wedi cael cwmni swyddogion neu glinigwyr o Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn ystod eich ymweliad ag Ysbyty Cymunedol Cas-gwent, ac roeddech felly, gobeithio, yn gallu trafod lle mae'r pwysau mwyaf mewn gwasanaethau therapi lleferydd. Rwyf yn siŵr y gallwch

and also report back on your visit to the Minister for Health and Social Services to ensure that that is fed back in.

On your second point about progress on the special measures for the Aneurin Bevan health board, there will be an opportunity to raise questions with the Minister for Health and Social Services during questions. However, I know that the Minister closely consults and updates local Members, and I am sure that she will do so on this occasion.

fanteisio ar y cyfle i godi'r mater hwn, ac i adrodd yn ôl am eich ymweliad wrth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod hynny'n cael ei ystyried.

O ran eich ail bwynt am y diweddaraf gyda'r camau arbennig ar gyfer bwrdd iechyd Aneurin Bevan, bydd cyfle i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y cwestiynau. Fodd bynnag, gwn fod y Gweinidog yn ymgynghori'n agos â'r Aelodau lleol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, ac rwyf yn siŵr y bydd yn gwneud hynny ar yr achlysur hwn.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 2.56 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 2.56 p.m.*

**Dadl Cyfnod 1 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.24 ar y Mesur Arfaethedig Ynghylch
Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)
Stage 1 Standing Order No. 23.24 Debate on the Proposed Rights of Children and
Young Persons (Wales) Measure**

Cynnig NDM4566 Huw Lewis

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
yn unol â Rheol Sefydlog 23.24:*

*Yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y
Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a
Phobl Ifanc (Cymru).*

The Deputy Minister for Children (Huw Lewis): I move the motion.

It is a pleasure to be here today to further discuss the Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure. I recall introducing this proposed Measure in June 2010 and how pleased I was at the time to present something as groundbreaking as this. I believe that this proposed Measure has real potential to make a positive change that will be of benefit to all children and young people living in Wales. I am particularly pleased with the reception that the proposed Measure has had both inside and outside the Assembly, and the overwhelming support for the general direction of travel that we are

Motion NDM4566 Huw Lewis

*To propose that the National Assembly for
Wales in accordance with Standing Order
23.24:*

*Agrees to the general principles of the
Proposed Rights of Children and Young
Persons (Wales) Measure.*

Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis): Cynigiau y cynnig.

Mae'n bleser bod yma heddiw i drafod y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru). Rwyf yn cofio cyflwyno'r Mesur arfaethedig hwn ym mis Mehefin 2010 a themlo mor falch ar y pryd fy mod yn cyflwyno rhywbeth mor arloesol â hyn. Credaf fod gan y Mesur arfaethedig hwn botensial gwirioneddol i sicrhau newid cadarnhaol a fydd o fudd i'r holl blant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru. Rwyf yn arbennig o falch o'r derbyniad y mae'r Mesur arfaethedig wedi'i gael yn y Cynulliad a thu hwnt i'r Cynulliad, a'r gefnogaeth aruthrol i'n cyfeiriad cyffredinol yng Nghymru.

taking here in Wales.

The provisions within this proposed Measure are of personal importance to me, and I am delighted with the response that we have received and the unanimous support for the general principles of this legislation. I thank those who have engaged so readily in the scrutiny process through expressing their support, and through contributing their expertise, ideas and constructive criticism. This has provided food for thought.

Our aim is to get this legislation right to make good law to further the rights of children and young people in Wales in the best way that we can as a way of improving outcomes for children and young people. I believe that legislating to embed the United Nations Convention on the Rights of the Child in domestic law is a key area that needs to be addressed. This has been an area specifically identified by the United Nations committee that considers the periodic reports on progress made by the UK.

Developing this proposed Measure has presented us with a set of unique challenges, which must be considered in light of Wales being the first jurisdiction in the UK to commit to embedding the UNCRC into domestic law. By doing so, we make the UNCRC a key component of the framework for developing our future policy and legislation. A few weeks ago my officials attended an expert workshop on the Rights of the Child UK, or ROCK coalition, hosted by UNICEF. The round table discussion at this conference looked at some of the key issues that needed to be considered at a UK level to make the UNCRC part of UK law. I am pleased to report that clear support was shown for this proposed Measure from delegates from right across the United Kingdom, and with it came the recognition that Wales is leading the United Kingdom in this development.

Delegates at the event also recognised the difficulties faced by us in attempting to embed the UNCRC and the inherent complexities of finding the right model to embed an international covenant in a

Mae'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig hwn o bwys personol i mi, ac rwyf yn falch iawn o'r ymateb rydym wedi'i gael a'r gefnogaeth unfrydol i egwyddorion cyffredinol y ddeddfwriaeth hon. Hoffwn ddiolch i'r rheini sydd wedi cymryd rhan mor barod yn y broses graffu drwy ddatgan eu cefnogaeth a thrwy gyfrannu eu harbenigedd, eu syniadau a'u beirniadaeth adeiladol. Mae wedi bod yn rhywbeth inni gnoi cil drosto.

Ein nod yw cael y ddeddfwriaeth hon yn iawn er mwyn cael deddf dda a fydd yn hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru yn y ffordd orau bosibl, fel ffordd o wella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Credaf fod deddfu i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn) mewn cyfraith ddomestig yn faes allweddol y mae angen rhoi sylw iddo. Mae pwyllgor y Cenhedloedd Unedig sy'n ystyried yr adroddiadau cyfnodol ynghylch y cynnydd y DU, wedi tynnu sylw at y maes hwn yn benodol.

Rydym wedi wynebu set o heriau unigryw wrth ddatblygu'r Mesur arfaethedig hwn, ac mae'n rhaid eu hystyried yn sgîl y ffaith mai Cymru yw'r awdurdodaeth gyntaf yn y DU i ymrwmo i ymgorffori'r Confensiwn mewn cyfraith ddomestig. Wrth wneud hynny, rydym yn gwneud y Confensiwn yn elfen allweddol o'r fframwaith ar gyfer datblygu ein polisiau a'n deddfwriaethau yn y dyfodol. Ychydig wythnosau'n ôl, bu fy swyddogion yng ngweithdy arbenigol Rights of the Child UK, neu glymblaid ROCK, a gynhaliwyd gan UNICEF. Roedd y drafodaeth o amgylch y bwrdd yn y gynhadledd hon yn edrych ar rai o'r materion allweddol roedd angen eu hystyried ar lefel y DU er mwyn gwneud y Confensiwn yn rhan o gyfraith y DU. Rwyf yn falch o ddweud bod cynrychiolwyr o bob cwr o'r Deyrnas Unedig wedi dangos cefnogaeth i'r Mesur arfaethedig hwn, a chyda hynny cydnabuwyd bod Cymru'n arwain y ffordd yn y Deyrnas Unedig gyda'r datblygiad hwn.

Roedd cynrychiolwyr yn y digwyddiad hefyd yn cydnabod yr anawsterau sy'n ein hwynebu wrth geisio ymgorffori'r Confensiwn, a'r cymhlethdodau anochel wrth geisio dod o hyd i'r model priodol i ymgorffori cyfamedd

devolved context.

I am pleased that our proposed Measure has been supported by UNICEF in the evidence that it has presented. This is significant, given that it is an international agency of the United Nations, of course, and has a wealth of knowledge and experience that we in Wales can draw upon. It has recognised the rigour of the mechanism that we are putting in place and that it will influence the exercise of all the Welsh Ministers' functions, because it will constitute a framework and foundation on which decisions will be made. They have confirmed that their global research demonstrates that a gradual step-by-step approach to the implementation of the UNCRC is the norm throughout the world.

3.00 p.m.

This proposed Measure aims to embed our rights-based approach while strengthening and maintaining our momentum towards the full realisation of children and young people's rights in general. This is a progressive agenda and we fully recognise that it cannot be achieved overnight.

The proposed Measure continues to advance the Assembly Government's commitment to ensure that the rights of children and young people are given the importance that they deserve. Our explicit commitment to the UNCRC in Wales was made in a Plenary motion in January 2004, which was supported by all parties in the National Assembly. The Government of Wales Act 2006 has provided an excellent opportunity to build on the progress already made and the ability to take consideration of the UNCRC further within our legislative competence. Indeed, the proposed Measure intends to go further than many state parties have progressed to date in embedding the convention in law.

Although 193 countries have ratified the UNCRC, only a small percentage of those have incorporated it into their domestic law. By legislating on the convention in Wales, we are ensuring that the Welsh Ministers and the First Minister have due regard to the

rhyngwladol mewn cyd-destun datganoledig.

Rwyf yn falch bod ein Mesur arfaethedig wedi cael cefnogaeth UNICEF o ran y dystiolaeth y mae wedi'i chyflwyno. Mae hyn yn hollbwysig, o gofio ei bod yn un o asiantaethau rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig wrth gwrs, a bod ganddi gyfoeth o wybodaeth a phrofiad y gallwn ni yng Nghymru fanteisio arno. Mae wedi cydnabod manyldeb y mecanwaith rydym yn ei roi ar waith, ac y bydd yn dylanwadu ar y modd y bydd holl Weinidogion Cymru yn cyflawni eu swyddogaethau, gan y bydd yn cael ei ystyried yn fframwaith ac yn sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae wedi cadarnhau bod ei hymchwil fyd-eang yn dangos mai dull cam wrth gam yn raddol yw'r norm ar hyd a lled y byd wrth roi'r Confensiwn ar waith.

Nod y Mesur arfaethedig hwn yw gwreiddio ein hymagwedd hawliau, gan gryfhau a chynnal ein momentwm i wireddu hawliau plant a phobl ifanc yn llawn yn gyffredinol. Mae hon yn agenda flaengar, ac rydym yn llwyr gydnabod na ellir ei chyflawni dros nos.

Mae'r Mesur arfaethedig yn parhau i hyrwyddo ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael y statws y maent yn ei haeddu. Gwnaethom ddatgan ein hymrwymiad pendant i'r Confensiwn yng Nghymru mewn mesur Cyfarfod Llawn ym mis Ionawr 2004, a gafodd gefnogaeth pob plaid yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi rhoi cyfle gwych i ddatblygu'r cynnydd sydd eisoes wedi cael ei wneud, ac i ddatblygu'r gallu i ystyried y Confensiwn ymhellach o fewn ein cymhwysedd deddfwriaethol. Yn wir, mae'r Mesur arfaethedig yn bwriadu mynd ymhellach nag y mae llawer o bleidiau'r wladwriaeth wedi'i wneud hyd yma o ran ymgorffori'r confensiwn mewn cyfraith.

Er bod 193 o wledydd wedi cadarnhau'r Confensiwn, dim ond canran fechan o'r rheini sydd wedi'i ymgorffori yn eu cyfraith ddomestig. Drwy ddeddfu ar y confensiwn yng Nghymru, rydym yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru a'r Prif Weinidog yn

rights and obligations of children and young people under the convention. Embedding the UNCRC in that way ensures that the consideration of it becomes integral to devolved Government policy making and the strategic development of legislative proposals in Wales—in other words, our policy making and our law making.

I believe that the proposed Measure will help children and young people to become more responsible citizens, who are more able and willing to contribute more fully to community life, to the social capital of Wales and to our future economic prosperity as a nation. We value these characteristics in Wales, and we take pride in striving to give our children and young people the tools that they need to play a full and active part in our society as citizens, now and for many years to come.

I thank Legislation Committee No. 5, and I acknowledge the nine recommendations made in its report. It was a great pleasure to read the committee's remark that it applauds the Welsh Government's attempts to enshrine the UNCRC and its optional protocols in legislation. However, I want to take this opportunity to acknowledge the suggestions made by the committee relating to ways in which the proposed Measure can be strengthened. I give Members my full assurance that my officials and I are looking at all the committee's recommendations to ensure that we are putting forward the most effective law possible.

A number of the legislation committee's recommendations were centred on involvement and consultation, and the requirements of the consultation process. I thank the committee for these comments, and I confirm that I will be accepting some of these recommendations. I will be looking specifically to make the appropriate amendments as part of the Stage 2 process to place a duty on the Welsh Ministers to involve children, young people and relevant stakeholders in the development of the children's scheme prior to commencing the formal consultation on it.

rhwi sylw dyledus i hawliau plant a phobl ifanc a'u rhwymedigaethau yng nghyswllt y confensiwn. Mae ymgorffori'r Confensiwn felly yn sicrhau bod ystyried hynny yn dod yn rhan annatod o brosesau Llywodraethau datganoledig o lunio polisiau a datblygiad strategol cynigion deddfwriaethol yng Nghymru—mewn geiriau eraill, ein proses o lunio polisiau a'n prosesau deddfu.

Credaf y bydd y Mesur arfaethedig yn helpu plant a phobl ifanc i ddod yn ddinasyddion mwy cyfrifol, sy'n fwy cymwys a pharod i gyfrannu mwy at fywyd y gymuned, at gyfalaf cymdeithasol Cymru ac at ein ffyniant economaidd yn y dyfodol fel cenedl. Rydym yn gweld gwerth yn y nodwedddion hyn yng Nghymru, ac rydym yn falch o'n hymdrechion i wneud yn siŵr bod gan ein plant a'n pobl ifanc yr adnoddau y mae eu hangen arnynt i chwarae rhan lawn a gweithredol yn ein cymdeithas fel dinasyddion, yn awr ac am flynyddoedd lawer i ddod.

Diolch i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, ac rwyf yn cydnabod y naw argymhelliad a wnaed yn ei adroddiad. Roedd yn bleser mawr darllen sylw'r pwyllgor ei fod yn canmol ymdrechion Llywodraeth Cymru i gynnwys y Confensiwn a'i brotocolau dewisol mewn deddfwriaeth. Fodd bynnag, hoffwn achub ar y cyfle hwn i gydnabod yr awgrymiadau a wnaed gan y pwyllgor ynghylch ffyrdd y gellir cryfhau'r Mesur arfaethedig. Hoffwn sicrhau'r Aelodau'n llawn bod fy swyddogion a minnau'n edrych ar holl argymhellion y pwyllgor i sicrhau ein bod yn cyflwyno'r ddeddf fwyaf effeithiol bosibl.

Roedd nifer o argymhellion y pwyllgor deddfwriaeth yn canolbwyntio ar gynnwys ac ymgynghori, ac ar ofynion y broses ymgynghori. Diolch i'r pwyllgor am y sylwadau hyn, ac rwyf yn cadarnhau y byddaf yn derbyn rhai o'r argymhellion hyn. Yn benodol, byddaf yn ceisio gwneud gwelliannau priodol fel rhan o broses Cyfnod 2 i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnwys plant, pobl ifanc a rhanddeiliaid perthnasol yn y broses o ddatblygu cynllun y plant cyn dechrau ar yr ymgynghoriad ffurfiol yn ei gylch.

I also confirm that I take seriously the recommendation made by the committee relating to challenging the Welsh Ministers on any alleged failures to comply with the due-regard duty. In line with the committee's recommendation, I will be holding discussions with the Children's Commissioner for Wales and the Public Services Ombudsman for Wales to explore the issues further and to ensure that an effective and efficient means of redress exists involving the submission of complaints.

The main concern raised by the committee in its report and during the scrutiny stage was in response to the due-regard duty applying to the Welsh Ministers' 'strategic decisions' about how they carry out their functions. Throughout the development of the proposed Measure, our principal concerns as a Government were to ensure that the duty to have due regard to the UNCRC was embedded in a pervasive way across Assembly Government departments, and that the duty bites where it can have maximum effect, being deliverable on a practical level and from a resource perspective.

I understand that there are concerns and that placing the duty at the level of 'strategic decisions' has led to a perceived lack of clarity about when the duty would apply. Some view that as giving the Welsh Ministers the ability to cherry-pick which decisions the duty applies to. I also recognise that there is a perception that the duty will not be effective at embedding the consideration of the UNCRC into the Assembly Government's work. I accept that that is a concern and, as such, I am considering carefully the recommendations of the committee and the evidence that it received from witnesses. I will be able to discuss that further and in greater depth during the next stages of the legislative process.

I now turn to the recommendations made by the Constitutional Affairs Committee. I thank its members for their scrutiny of the proposed Measure and I fully agree with them about the importance of ensuring that there is an

Rwyf hefyd yn cadarnhau fy mod wir yn ystyried yr argymhelliad a wnaed gan y pwyllgor ynghylch herio Gweinidogion Cymru ar unrhyw fethiannau honedig i gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus. Yn unol ag argymhelliad y pwyllgor, byddaf yn cynnal trafodaethau â Chomisiynydd Plant Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i edrych ar y materion ymhellach, ac i sicrhau bod system effeithiol ac effeithlon o wneud iawn yn bodoli ynghylch cwynion sy'n cael eu cyflwyno.

Roedd y prif bryder a godwyd gan y pwyllgor yn ei adroddiad ac yn ystod y cyfnod craffu yn ymateb i'r modd y mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus wrth wneud 'penderfyniadau strategol' yn berthnasol wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau. Drwy gydol y broses o ddatblygu'r Mesur arfaethedig, ein prif amcanion fel Llywodraeth oedd sicrhau bod y ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn yn cael ei hymgorffori mewn ffordd dreiddiol ar draws adrannau Llywodraeth y Cynulliad, a bod y ddyletswydd yn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl ac yn hawdd ei chyflawni ar lefel ymarferol ac o safbwynt adnoddau.

Rwyf yn deall y ceir pryderon a bod pennu'r ddyletswydd ar y lefel 'penderfyniadau strategol' wedi peri i rai pobl feddwl bod diffyg eglurder ynghylch pryd y byddai'r ddyletswydd yn berthnasol. Mae rhai o'r farn bod hynny wedi galluogi Gweinidogion Cymru i ddewis a dethol i ba benderfyniadau y mae'r ddyletswydd yn berthnasol. Rwyf hefyd yn cydnabod bod rhai'n credu na fydd y ddyletswydd yn ffordd effeithiol o sicrhau bod yr arfer o ystyried y Confensiwn yn cael ei ymgorffori yng ngwaith Llywodraeth y Cynulliad. Derbyniaf fod hynny'n destun pryder, ac felly, rwyf yn ystyried argymhellion y pwyllgor yn ofalus a'r dystiolaeth a gafodd gan dystion. Byddaf yn gallu trafod hynny ymhellach ac yn fanylach yn ystod cyfnodau nesaf y broses ddeddfu.

Trof yn awr at yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol. Diolch i'r aelodau am graffu ar y Mesur arfaethedig, ac rwyf yn cytuno'n llwyr â hwy ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod cyfle i graffu'n

opportunity for proper scrutiny of subordinate legislation under the proposed Measure. Therefore, I will accept a number of their recommendations and, in one instance, will go further than the recommendation. I can confirm that I will take the appropriate steps during Stage 2 to enhance the Assembly's affirmative procedure, which applies to Orders made under sections 6 and 7 of the proposed Measure so that, as the committee wishes, there is time for Assembly committees and others to consider fully the draft Orders and recommend amendments before the Assembly is asked to approve the final Orders.

I will also table amendments that will address some of the concerns raised by both the Constitutional Affairs Committee and the legislation committee relating to the scope of the regulations that can be made under section 8 of the proposed Measure. I will ensure that concerns about the lack of opportunity for the Assembly to scrutinise Orders under section 8 before they are made are addressed. I will provide more information on those amendments during Stage 2 of the process.

I also thank the Finance Committee for its scrutiny and report. As I have just said, I will take the appropriate steps at Stage 2 to enhance the Assembly's affirmative procedure, which applies to Orders made under section 7 to allow for more detailed scrutiny by the Assembly and its committees prior to deciding whether to approve an Order.

The aim of the proposed Measures is not only to embed the rights of children and young people into domestic law and to ensure that it is used as part of the development framework, but also to increase the knowledge and understanding of rights among children and adults. By taking that approach, we hope that children and young people will have an increased enjoyment of those rights and will be in a better position to access the support and services available to them to help them to achieve a brighter future. I am proud that Wales is leading the way on this in the UK, and I am delighted by

brïodol ar is-ddeddfwriaeth o dan y Mesur arfaethedig. Felly, byddaf yn derbyn nifer o'u hargymhellion ac, mewn un achos, yn mynd gam ymhellach na'r argymhelliad. Gallaf gadarnhau y byddaf yn cymryd y camau priodol yn ystod Cyfnod 2 i wella gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad, sy'n berthnasol i Orchmynion a wneir o dan adrannau 6 a 7 y Mesur arfaethedig. Bydd hynny'n sicrhau bod gan bwyllgorau'r Cynulliad ac eraill, yn ôl dymuniad y pwyllgor, amser i ystyried y Gorchmynion drafft yn llawn ac i argymhell gwelliannau cyn y gofynnir i'r Cynulliad gymeradwyo'r Gorchmynion terfynol.

Byddaf hefyd yn cyflwyno gwelliannau a fydd yn mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a'r pwyllgor deddfwriaeth, sy'n ymwneud â chwmpas y rheoliadau y gellir eu gwneud o dan adran 8 y Mesur arfaethedig. Byddaf yn gwneud yn siŵr y rhoddir sylw i'r pryderon am y diffyg cyfle i'r Cynulliad graffu ar Orchmynion o dan adran 8 cyn iddynt gael eu gwneud. Byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth am y gwelliannau hynny yn ystod Cyfnod 2 y broses.

Diolch hefyd i'r Pwyllgor Cyllid am ei waith craffu a'i adroddiad. Fel rwyf newydd ei ddweud, byddaf yn cymryd y camau priodol yng Nghyfnod 2 i wella gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad, sy'n berthnasol i Orchmynion a wneir o dan adran 7, er mwyn i'r Cynulliad a'i bwyllgorau allu craffu'n fanylach cyn penderfynu a ddylid cymeradwyo Gorchmynion.

Nod y Mesurau arfaethedig yw ymgorffori hawliau plant a phobl ifanc mewn cyfraith ddomestig a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio fel rhan o'r fframwaith datblygu, yn ogystal ag ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hawliau ymysg plant ac oedolion. Drwy fabwysiadu'r ymagwedd honno, rydym yn gobeithio y bydd plant a phobl ifanc yn gallu manteisio mwy ar yr hawliau hynny, ac y byddant mewn gwell sefyllfa i gael gafael ar y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt i'w helpu i sicrhau dyfodol mwy llewyrchus. Rwyf yn ymfalchïo yn y ffaith bod Cymru yn arwain y

the level of support that the proposed Measure has received across the National Assembly. I am sincerely looking forward to taking it through to the next stages of the legislative process.

Mark Isherwood: As Chair of Legislation Committee No. 5, which was responsible for scrutinising this proposed Measure, I extend the committee's thanks to all those who have contributed oral and written evidence. Their contributions have helped to inform the conclusions and recommendations of our report. Much of the evidence that we received supported the aims of the proposed Measure and agreed that there is a need for legislation to further the application of the United Nations Convention on the Rights of the Child, thereby strengthening the rights of children and young people in Wales. We therefore agree with the general principles of the proposed Measure. However, some concerns were raised about whether the proposed Measure as currently drafted would take the children's rights agenda further forward. Our report highlights a number of areas in which we think the legislation could be improved.

Section 1 imposes a duty on the Welsh Ministers and the First Minister to have due regard to the rights and obligations contained in the UNCRC and its optional protocols when making any relevant decisions of a strategic nature using any functions exercisable by them. The main concern of witnesses and respondents was the limitations of the due-regard duty. They believed that the proposed Measure should apply to all the functions of the Welsh Government and that the current wording was confusing and complicated. The committee also recognises that this duty does not correspond to the duties imposed on the Welsh Ministers in the Government of Wales Act 2006 regarding equality and sustainability. We therefore recommend that the duty to have due regard should apply to all functions exercisable by the Welsh Ministers, and I welcome the Deputy Minister's refreshingly consensual response to that today.

ffordd ar hyn yn y DU, ac rwyf yn falch iawn bod y Mesur arfaethedig wedi cael cymaint o gefnogaeth ar draws y Cynulliad Cenedlaethol. Rwyf wir yn edrych ymlaen at arwain y Mesur i gyfnodau nesaf y broses ddeddfu.

Mark Isherwood: Fel Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5—a oedd yn gyfrifol am graffu ar y Mesur arfaethedig hwn— ar ran y pwyllgor, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig. Mae eu cyfraniadau wedi helpu i lywio casgliadau ac argymhellion ein hadroddiad. Roedd llawer o'r dystiolaeth a gawsom yn cefnogi nodau'r Mesur arfaethedig, ac yn cytuno bod angen deddfwriaeth i ymestyn cymhwysio Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a thrwy hynny, gryfhau hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Felly, rydym yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig. Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon ynghylch a fyddai'r Mesur arfaethedig, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn datblygu'r agenda hawliau plant. Mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at nifer o elfennau lle rydym yn credu y gellid gwella'r deddfwriaeth.

Mae adran 1 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Confensiwn a'i brotocolau dewisol wrth wneud unrhyw benderfyniadau perthnasol o natur strategol drwy arfer unrhyw swyddogaethau sy'n arferadwy ganddynt. Prif bryder tystion ac ymatebwyr oedd y cyfyngiadau yng nghyswllt y ddyletswydd i roi sylw dyledus. Roeddent yn credu y dylai'r Mesur arfaethedig fod yn berthnasol i holl swyddogaethau Llywodraeth Cymru, a bod y geiriad presennol yn ddryslyd ac yn gymhleth. Mae'r pwyllgor hefyd yn cydnabod nad yw'r ddyletswydd hon yn cyfateb i'r dyletswyddau a osodwyd ar Weinidogion Cymru yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 o ran cydraddoldeb a chynaliadwyedd. Felly, rydym yn argymhell y dylai'r ddyletswydd i roi sylw dyledus fod yn berthnasol i'r holl swyddogaethau sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru, ac mae'n braf gweld ymateb cydsyniol y Dirprwy Weinidog i

hynny heddiw.

3.10 p.m.

The due-regard duty is coupled with a duty on the Welsh Ministers to make a children's scheme, which would provide further details on what constitutes a 'strategic decision'. The committee received nine different interpretations from consultees of what is meant by a decision of a strategic nature, all of which varied. If the committee's first recommendation is accepted, that will eliminate this confusion over the phrase 'strategic decision'. However, if that recommendation is not accepted, the committee recommends that details of what constitutes a strategic decision should be included on the face of the proposed Measure.

Section 3 deals with the preparation and publication of the children's scheme. It was suggested in much of the evidence that consultation on the children's scheme needs to take place before the draft version is published. The committee also heard evidence that the proposed Measure should place a requirement on the Welsh Ministers to consider the consultation responses when drafting the children's scheme. Evidence was also given on the list of consultees under section 3. Some respondents believed that the role of parents or guardians should be acknowledged and they should be listed as consultees under section 3(4). We recommend that a duty to consult and involve children, young people and relevant stakeholders in the developing of the children's scheme before publication be added to the face of the proposed Measure. We also recommend that section 3 be amended to ensure that due consideration and regard are given to the outcome of any consultation in the development of a children's scheme. We believe that section 3(4) should be amended to ensure that consultation takes place with parents, or other persons legally responsible for a child.

Section 4 deals with the duty on the Welsh Ministers to report every five years on how they and the First Minister have complied with the due-regard duty in line with the

Mae'r ddyletswydd i roi sylw dyledus wedi'i chyplysu â dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud cynllun y plant, a fyddai'n darparu rhagor o fanylion am yr hyn a gaiff ei ystyried yn 'benderfyniad strategol' yn ei olygu. Cafodd y pwyllgor naw dehongliad gwahanol gan ymgynghoreion o'r hyn y mae penderfyniad strategol yn ei olygu, gyda phob un ohonynt yn wahanol. Os caiff argymhelliad cyntaf y pwyllgor ei dderbyn, bydd hynny'n cael gwared ar y dryswch hwn ynghylch y term 'benderfyniad strategol'. Fodd bynnag, os na chaiff yr argymhelliad hwnnw ei dderbyn, mae'r pwyllgor yn argymhell y dylai manylion yr hyn a gaiff ei ystyried yn benderfyniad strategol gael eu cynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig.

Mae adran 3 yn ymwneud â llunio a chyhoeddi cynllun y plant. Awgrymwyd yn llawer o'r dystiolaeth bod angen ymgynghori ar gynllun y plant cyn cyhoeddi'r fersiwn ddrafft. Clywodd y pwyllgor dystiolaeth hefyd y dylai'r Mesur arfaethedig osod gofyniad ar Weinidogion Cymru i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad wrth ddrafftio cynllun y plant. Rhoddwyd tystiolaeth am y rhestr o ymgynghoreion o dan adran 3 hefyd. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn credu y dylid cydnabod rôl y rhieni neu'r gwarcheidwaid, ac y dylent gael eu rhestru fel ymgynghoreion o dan adran 3(4). Rydym yn argymhell bod dyletswydd i ymgynghori â phlant, pobl ifanc a rhanddeiliaid perthnasol, a'u cynnwys yn y gwaith o ddatblygu cynllun y plant cyn ei gyhoeddi, yn cael eu hychwanegu at wyneb y Mesur arfaethedig. Rydym hefyd yn argymhell diwygio adran 3 i sicrhau y dylid rhoi ystyriaeth a sylw dyledus i ganlyniadau unrhyw ymgynghoriad wrth ddatblygu cynllun y plant. Rydym yn credu y dylai adran 3(4) gael ei diwygio i sicrhau bod rhieni neu bobl eraill sy'n gyfreithiol gyfrifol am y plentyn yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad.

Mae adran 4 yn ymdrin â'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad bob pum mlynedd ar sut y maent hwy a'r Prif Weinidog wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd

requirement of the UN committee. However, we believe that interim reports should be published to ensure that the Welsh Government is systematically recording what is happening and to provide updates on progress. The Deputy Minister indicated his agreement with that during evidence, and said that interim reports could be requested through the normal business and scrutiny process of the Assembly.

Many witnesses raised the issue of judicial review, which concerned the committee. We believe that an appropriate means of redress would be necessary for those who consider that the Welsh Ministers have not met their obligations. The Deputy Minister said that he would also give further consideration to this matter. We recommend that the Deputy Minister enter into discussions with the Children's Commissioner for Wales and the Public Services Ombudsman for Wales to explore the issue further, and to identify an effective and efficient means of redress, involving the submission of complaints that would provide a simple, straightforward and cost-effective method of airing grievances within the scope of the proposed Measure.

Section 5 places a duty on the Welsh Ministers to take appropriate steps to promote knowledge and understanding of the UNCRC and its optional protocols among the public, including children. Some witnesses were disappointed that section 5 did not import article 43 of the UN convention. However, we are content that the duty to promote knowledge of the convention is sufficiently reflected in the drafting of this section. We are also reassured to see that work has already commenced to increase awareness of the UNCRC.

Section 6 contains a provision for the Welsh Ministers by subordinate legislation to modify legislation or prerogative instruments. The section notes limitations on the power, but Acts of the UK Parliament, Measures of the Assembly and subordinate legislation may be amended. I am sure that Janet Ryder will have more to say on that, but as a

i roi sylw dyledus, yn unol â gofynion pwyllgor y Cenhedloedd Unedig. Fodd bynnag, rydym ni o'r farn y dylai adroddiadau interim gael eu cyhoeddi i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cadw cofnod systematig o'r hyn sy'n digwydd ac er mwyn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd. Awgrymodd y Dirprwy Weinidog ei fod yn cytuno â hynny yn ystod y dystiolaeth, a dywedodd y gellid gwneud cais am adroddiadau interim drwy fusnes a phroses graffu arferol y Cynulliad.

Soniodd llawer o dystion am adolygiad barnwrol, ac roedd hynny'n peri pryder i'r pwyllgor. Rydym yn credu bod angen ffordd arall briodol o wneud iawn ar gyfer y rheini sydd o'r farn nad yw Gweinidogion Cymru wedi cyflawni eu dyletswyddau. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n ystyried y mater hwn ymhellach hefyd. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn cynnal trafodaethau â Chomisiynydd Plant Cymru a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i archwilio'r mater ymhellach, ac er mwyn anelu at ffordd effeithiol ac effeithlon o wneud iawn, drwy gyflwyno cwynion mewn ffordd a fyddai'n cynnig y dull symlaf, rhwyddaf, a mwyaf costeffeithiol o gyflwyno cwynion o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig.

Mae adran 5 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau priodol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn a'i brotocolau dewisol ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys plant. Roedd rhai dystion yn siomedig nad oedd adran 5 yn cynnwys erthygl 43 o gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig. Fodd bynnag, rydym yn fodlon bod y ddyletswydd i hybu gwybodaeth o'r confensiwn yn cael ei hadlewyrchu ddigon yn yr adran hon. Rydym hefyd yn dawelach ein meddwl o weld bod gwaith i godi ymwybyddiaeth o'r Confensiwn eisoes wedi dechrau.

Mae adran 6 yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru, drwy is-ddeddfwriaeth, ddiwygio deddfwriaeth neu offerynnau uchelfreiniol. Mae'r adran yn nodi'r cyfyngiadau ar y pŵer, ond caiff Deddfau Senedd y DU, Mesurau'r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth eu diwygio. Rwyf yn siŵr y bydd gan Janet Ryder fwy i'w ddweud am

committee we endorse the report of the Constitutional Affairs Committee on this section, and we recommend that any proposals for consultation before making an Order under section 6(4) be given proper consideration by the Assembly and be laid before the Assembly.

Section 7 requires Welsh Ministers to consider and to set out in the children's scheme their proposals for consulting on the extent to which the requirements of the UNCRC and its optional protocols may be relevant to persons who have reached the age of 18 but are not yet 25. The committee considered carefully much evidence on this section, recognising convincing arguments on both sides. We are content for this section to remain as it is, and whether the proposed Measure should be applied to young people can be decided as a result of consultation undertaken. However, we support the recommendation from the Constitutional Affairs Committee that any Order made under this section should be subject to the affirmative procedure.

Section 8 gives effect to the Schedule, which sets out the substantive rights of, and obligations towards, children contained in the UNCRC and optional protocols. We support the recommendation made by the Constitutional Affairs Committee that any Order made under this section to amend primary legislation should be subject to the affirmative procedure.

In the event that the Assembly gives its agreement to the general principles of the proposed Measure today, I hope that the Deputy Minister will accept the conclusions and recommendations contained in our report and consider bringing forward appropriate amendments at Stage 2.

Angela Burns: The Finance Committee has examined the financial aspects of this proposed Measure. We are grateful to Huw Lewis, as the Deputy Minister responsible for the proposed Measure, and his officials, for providing evidence to the committee and for answering Members' questions.

The proposed Measure would impose a duty upon the First Minister and Welsh Ministers

hynny, ond fel pwyllgor, rydym yn cymeradwyo'r adroddiad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ar yr adran hon, a hefyd yn argymhell y dylai unrhyw gynigion i ymgynghori cyn gwneud Gorchymyn o dan adran 6(4) gael eu hystyried yn briodol gan y Cynulliad a'u gosod gerbron y Cynulliad.

Mae adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried, a nodi yng nghynllun y plant, eu cynigion i ymgynghori ynghylch i ba raddau y mae gofynion y Confensiwn a'i brotocolau dewisol yn berthnasol i bobl sydd wedi cyrraedd 18 oed ond nad ydynt eto'n 25 oed. Bu'r pwyllgor yn ystyried llawer o dystiolaeth ar yr adran hon yn ofalus, gan gydnabod bod dadleuon argyhoeddedig gan y ddwy ochr. Rydym yn fodlon i'r adran hon aros fel y mae, a gellir penderfynu a ddylai'r Mesur arfaethedig fod yn berthnasol i bobl ifanc ar ôl gweld canlyniad yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, rydym yn cefnogi argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol y dylai unrhyw Orchymyn a wneir o dan yr adran hon ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

Mae adran 8 yn rhoi effaith i'r Atodlen, sy'n nodi'r hawliau a'r rhwymedigaethau sylfaenol tuag at blant sydd wedi'u cynnwys yn y Confensiwn a'r protocolau dewisol. Rydym yn cefnogi'r argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol y dylai unrhyw Orchymyn a wneir o dan yr adran hon, i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

Pe bai'r Cynulliad yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig heddiw, rwyf yn gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn derbyn casgliadau ac argymhellion ein hadroddiad, ac yn ystyried cyflwyno gwelliannau priodol yng Nghyfnod 2.

Angela Burns: Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi edrych ar agweddau ariannol y Mesur arfaethedig hwn. Rydym yn ddiolchgar i Huw Lewis, fel y Dirprwy Weinidog sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig, a'i swyddogion am ddarparu tystiolaeth i'r pwyllgor ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

Byddai'r Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar y Prif Weinidog ac ar

to have due regard to the rights and obligations in the United Nations Convention on the Rights of the Child when making decisions of a strategic nature. It also makes provision about a number of related matters—particularly the preparation of a children’s scheme, the provision of reports about compliance with the duty, and a requirement to promote knowledge and understanding of the United Nations convention. There is also provision for the Government to undertake a consultation on the possible extension of the proposed Measure to persons between the ages of 18 and 24.

The first question that the Finance Committee asked was how much it would cost to implement this proposed Measure. The financial information in the explanatory memorandum indicates ‘actual’ costs of between £270,000 and £280,000 per year for three years. That is the cost of the Welsh Government staff needed to implement the scheme. On top of this, another £180,000 will be needed in the first two years to train staff. However, there is no breakdown of those figures.

These staff costs will come from the core budget of the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills. The Finance Committee was concerned that, as this was new work, the funding required might mean reductions, or cuts, elsewhere in the department’s budget. The Deputy Minister was unable to indicate where this money would come from—other than it would be through the process of setting departmental priorities.

On top of this there will be opportunity costs of between £290,000 and £300,000 in years 2 and 3. These costs will be the cost of the wider staff involvement across the Welsh Assembly Government in training on compliance with the duty, as well as of the development and delivery of the training, which would be met in future from central budgeting. The Finance Committee found it hard to identify from where these costs would be met.

Turning to specific responsibilities in the proposed Measure, there is provision for a consultation on the possible extension of the

Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wneud penderfyniadau strategol. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer nifer o faterion cysylltiedig—yn enwedig y gwaith o lunio cynllun y plant, darparu adroddiadau ynghylch cydymffurfio â'r ddyletswydd, a gofyniad i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig. Ceir darpariaeth hefyd i'r Llywodraeth gynnal ymgynghoriad ar y posibilrwydd o ymestyn y Mesur arfaethedig i gynnwys pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed.

Y cwestiwn cyntaf a ofynnodd y Pwyllgor Cyllid oedd faint y byddai'n ei gostio i weithredu'r Mesur arfaethedig hwn. Mae'r wybodaeth ariannol yn y memorandwm esboniadol yn dangos costau 'gwirioneddol' o rhwng £270,000 a £280,000 y flwyddyn am dair blynedd. Dyna yw cost staff Llywodraeth Cymru y mae eu hangen i weithredu'r cynllun. Yn ogystal â hyn, bydd angen £180,000 arall yn y ddwy flynedd gyntaf er mwyn hyfforddi staff. Fodd bynnag, nid oes dadansoddiad o'r ffigurau hynny.

Bydd y costau hyn sy'n gysylltiedig â staff yn dod o gyllideb graidd yr Adran Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn bryderus, gan fod hwn yn waith newydd, y byddai'n rhaid gwneud gostyngiadau, neu doriadau, mewn mannau eraill yng nghyllideb yr adran er mwyn cael y cyllid angenrheidiol. Nid oedd y Dirprwy Weinidog yn gallu dweud o ble y byddai'r arian hwn yn dod—dim ond dweud y byddai'n rhaid pennu blaenoriaethau'r adran.

Yn ogystal â hyn, bydd rhwng £290,000 a £300,000 o gostau cyfleoedd ym mlynnyddoedd 2 a 3. Mae'r costau hyn yn cynnwys y gost o gynnwys mwy o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn hyfforddiant ar gydymffurfio â'r ddyletswydd, yn ogystal â'r gost o ddatblygu a darparu'r hyfforddiant, a fyddai'n dod o gyllidebu canolog yn y dyfodol. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn cael trafferth gweld o ble y byddai'r arian yn dod i dalu'r costau hyn.

Gan droi at gyfrifoldebau penodol yn y Mesur arfaethedig, ceir darpariaeth i ymgynghori ar y posibilrwydd o ymestyn y

proposed Measure to persons between the ages of 18 and 24. The committee asked about the costs of such an extension, and the Deputy Minister said they had not been estimated because it would be premature to do so until there was a proposal on which to base an assessment. Once the consultation had taken place, an analysis of the options would be done and at that stage only could costing begin. The Finance Committee was concerned that the proposed Measure should include provision to consult on an extension without having regard to the costs of implementation if the consultation led to a decision to extend. The Deputy Minister has not even indicated the cost of carrying out such a consultation, other than to say that it would be met through the 'actual' funding of around £270,000 to £280,000 per year.

The proposed Measure includes provision to prepare, develop and consult on a children's scheme, which the Deputy Minister told us would be one of the primary tasks of the central policy team within the Welsh Government. The Deputy Minister's officials told the committee that the costings for this work were already included in the funding for the implementation team. The committee wondered whether the costs of implementation would eventually emerge from the requirement in the proposed Measure for the Welsh Assembly Government to report on its compliance with the duty to have due regard to the United Nations convention.

3.20 p.m.

Officials told the Finance Committee that such a report would be published on a five-yearly basis, to coincide with the convention committee's own reporting. However, they expected that the report will only include costs in so far as they can be calculated and did not think that they would be able to say with any certainty what the provisions of the proposed Measure had cost. The explanatory memorandum does not indicate any cost for the duty to promote knowledge and understanding of the convention, but notes that these were at a low baseline currently in Wales. The Deputy Minister told us that the proposed Measure would formalise the work

Mesur arfaethedig i gynnwys pobl rhwng 18 a 24 oed. Gofynnodd y pwyllgor faint y byddai'n ei gostio i ymestyn y Mesur felly, a dywedodd y Dirprwy Weinidog nad oeddent wedi'u hamcangyfrif oherwydd y byddai'n rhy gynnar i wneud hynny nes y ceir cynnig i seilio'r asesiad arno. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddai'r opsiynau'n cael eu dadansoddi a dim ond bryd hynny y gellid dechrau ar y gwaith costio. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn pryderu bod y Mesur arfaethedig yn cynnwys darpariaeth i ymgynghori ar ymestyn heb ystyried costau gweithredu pe bai'r ymgynghoriad yn arwain at benderfyniad i ymestyn. Nid yw'r Dirprwy Weinidog hyd yn oed wedi rhoi syniad o faint y byddai'n ei gostio i gynnal ymgynghoriad o'r fath, ar wahân i ddweud y byddai'r costau'n cael eu talu drwy gyfrwng cyllid 'gwirioneddol' o tua £270,000 i £280,000 y flwyddyn.

Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys darpariaeth i lunio, i ddatblygu ac i ymgynghori ar gynllun y plant, a dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym mai dyma fyddai un o brif dasgau tîm polisi canolog Llywodraeth Cymru. Dywedodd swyddogion y Dirprwy Weinidog wrth y pwyllgor fod y costau ar gyfer y gwaith hwn eisoes wedi'u cynnwys yn y cyllid ar gyfer y tîm gweithredu. Roedd y pwyllgor yn meddwl tybed a fyddai'r costau gweithredu, yn y pen draw, yn deillio o'r gofyniad yn y Mesur arfaethedig i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi adroddiadau am ei chydymffurfiaeth â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig.

Dywedodd swyddogion wrth y Pwyllgor Cyllid y byddai adroddiad o'r fath yn cael ei gyhoeddi bob pum mlynedd, i gyd-fynd â phrosesau adrodd y pwyllgor confensiwn ei hun. Fodd bynnag, roeddent yn disgwyl mai dim ond y costau y gellir eu cyfrifo ar hyn o bryd fydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad, ac nid oeddent yn meddwl y byddent yn gallu dweud gydag unrhyw sicrwydd faint y byddai darpariaethau'r Mesur arfaethedig wedi'i gostio. Nid yw'r memorandwm esboniadol yn nodi unrhyw gost ar gyfer y ddyletswydd i hybu lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth o'r confensiwn, ond mae'n nodi bod y lefelau hyn ar

being taken forward under the 'Getting it Right' UNCRRC action plan, which has a funding allocation currently of some £300,000.

To sum up, the Finance Committee is concerned that, yet again, the Government is embarking on legislation without undertaking any detailed costings of its plans. The Government is again relying on the fact that any Orders laid under a proposed Measure would be subject to a regulatory impact assessment. However, Members noted that there would be no requirement under Standing Orders for the regulatory impact assessment to come before the Finance Committee for full consideration. The committee was concerned that it would be subject to a far less stringent financial assessment than a proposed Measure.

Nonetheless, there is a glimmer of hope in that, as has been confirmed again today by the Deputy Minister, in relation to the extension of the proposed Measure to 18 to 24-year-olds, the use of the superaffirmative procedure is still under consideration. The Finance Committee welcomes this and urges the Deputy Minister to ensure that this should include formal consideration by the Finance Committee.

Janet Ryder: The Constitutional Affairs Committee considered the proposed Measure on 1 July when we took oral evidence from the Deputy Minister for Children, Huw Lewis, Assembly Member, and his officials. We reported on 25 October and the committee's report is available as a supporting document to this debate.

Our primary role in looking at the proposed Measure was to look at subordinate legislation issues, but, on this occasion, we also had some wider concerns. The committee strongly supports the principle that Government decisions should take into account the provisions of the UNCRRC. However, we are not convinced that the proposed Measure achieves this in the most effective way. We are concerned that the proposed duty for Ministers to have due regard to the convention when making decisions of a strategic nature may be too

waelodlin isel yng Nghymru ar hyn o bryd. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y byddai'r Mesur arfaethedig yn ffurfioli'r gwaith a wneir o dan gynllun gweithredu'r Confensiwn, 'Gwneud Pethau'n lawn', sydd â £300,000 o ddyraniad cyllid ar hyn o bryd.

I grynhoi, mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu bod y Llywodraeth, unwaith eto, yn dechrau ar ddeddfwriaeth heb ymgymryd ag unrhyw waith costio manwl o'i chynlluniau. Mae'r Llywodraeth, unwaith eto, yn dibynnu ar y ffaith y byddai unrhyw Orchmynion a osodir o dan Fesur arfaethedig yn destun asesiad effaith rheoleiddiol. Fodd bynnag, nododd yr Aelodau na fyddai unrhyw ofyniad o dan y Rheolau Sefydlog i'r asesiad effaith rheoleiddiol ddod gerbron y Pwyllgor Cyllid i'w ystyried yn llawn. Roedd y pwyllgor yn pryderu y byddai'n destun asesiad ariannol llawer llai llym na Mesur arfaethedig.

Serch hynny, ceir llygedyn o obaith, fel sydd wedi cael ei gadarnhau eto heddiw gan y Dirprwy Weinidog, mewn perthynas ag ymestyn y Mesur arfaethedig i gynnwys pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed, mae'r modd y defnyddir y weithdrefn uwchgadarnhaol yn dal i gael ei ystyried. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu hyn, ac yn annog y Dirprwy Weinidog i sicrhau y dylai hyn gynnwys ystyriaeth ffurfiol gan y Pwyllgor Cyllid.

Janet Ryder: Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn ystyried y Mesur arfaethedig ar 1 Gorffennaf, pan gawsom dystiolaeth lafar gan y Dirprwy Weinidog dros Blant, Huw Lewis, Aelod Cynulliad, a'i swyddogion. Cyhoeddodd adroddiad ar 25 Hydref, ac mae adroddiad y pwyllgor ar gael fel dogfen ategol i'r ddadl hon.

Ein prif rôl wrth edrych ar y Mesur arfaethedig oedd edrych ar faterion is-ddeddfwriaeth, ond, y tro hwn, roedd gennym bryderon ehangach hefyd. Mae'r pwyllgor yn gadarn o blaid yr egwyddor y dylai penderfyniadau'r Llywodraeth ystyried darpariaethau'r Confensiwn. Fodd bynnag, nid ydym yn argyhoeddedig bod y Mesur arfaethedig yn cyflawni hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol. Rydym yn pryderu y gallai'r ddyletswydd arfaethedig i Weinidogion roi sylw dyledus i'r confensiwn wrth wneud penderfyniadau strategol fod yn rhy annelwig

vague to have any meaningful effect, and I know that the Deputy Minister has alluded to that. We believe that the Government should consider strengthening the duty, either by clarifying the meaning of 'decisions of a strategic nature', or by applying the duty to all functions exercised by Welsh Ministers.

On the subordinate legislation provisions, section 6 gives Ministers the power to amend both primary and subordinate legislation. Although any amendments will be made by the affirmative procedure and after public consultation, these are very wide powers, and we therefore believe that there should be further safeguards placed upon the use of these powers. Specifically, we believe that any proposals issued for public consultation should, at the same time, be laid before the Assembly to allow sufficient time for Assembly Members and committees to give them proper consideration.

Section 7 requires Welsh Ministers to consider whether and to what extent the convention rights may be relevant to young persons aged between 18 and 24, and whether any of the provisions of the proposed Measure should be applied to this group. Ministers will have the power to apply any of the provisions of the proposed Measure to young persons and, in doing so, to make any other provision that they consider appropriate. We have concerns about applying the convention, which is aimed at children, to young adults. Our concerns are shared by both the Children's Commissioner for Wales and the Wales UNCRC monitoring group, whose views we believe carry particular weight. Given the contentiousness of the proposed changes, the novelty of what is being proposed, and the concern in principle about extending the proposed Measure to young adults, we believe that, at the very least, any Orders made under section 7 should be made by superaffirmative procedure. That would not only ensure that the Assembly can debate the Order, but allow sufficient time for Assembly committees to take evidence and suggest possible amendments to any Order that is proposed. We have recommended accordingly in our

i gael unrhyw effaith arwyddocaol, a gwn fod y Dirprwy Weinidog wedi cyfeirio at hynny. Rydym yn credu y dylai'r Llywodraeth ystyried cryfhau'r ddyletswydd, naill ai drwy egluro ystyr 'penderfyniadau strategol', neu drwy wneud y ddyletswydd yn berthnasol i'r holl swyddogaethau sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru.

O ran y darpariaethau is-ddeddfwriaeth, mae adran 6 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Er y bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud drwy'r weithdrefn gadarnhaol ac ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r rhain yn bwerau eang iawn, ac felly rydym yn credu y dylid cael rhagor o fesurau diogelu ar gyfer defnyddio'r bwerau hyn. Yn benodol, rydym yn credu y dylai unrhyw gynigion a gyhoeddir er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd gael eu gosod, ar yr un pryd, gerbron y Cynulliad er mwyn caniatáu digon o amser i Aelodau'r Cynulliad a phwyllgorau eu hystyried yn briodol.

Mae adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried a ddylai hawliau'r confensiwn fod yn berthnasol i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed ac i ba raddau, ac a ddylai unrhyw un o ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig fod yn berthnasol i'r grŵp hwn. Bydd gan Weinidogion y pŵer i weithredu unrhyw un o ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig i bobl ifanc ac, wrth wneud hynny, i wneud unrhyw ddarpariaeth arall y maent yn ei hystyried yn briodol. Mae gennym bryderon am gymhwyso'r confensiwn, sydd wedi'i anelu at blant, ar gyfer oedolion ifanc. Mae Comisiynydd Plant Cymru a grŵp monitro Cymru ar gyfer y Confensiwn hefyd yn pryderu am hyn, ac rydym yn credu bod eu barn nhw'n cyfrif llawer. O ystyried natur ddadleuol y newidiadau arfaethedig, gwreiddioldeb yr hyn sy'n cael ei gynnig, a'r pryder mewn egwyddor ynghylch ymestyn y Mesur arfaethedig i gynnwys oedolion ifanc, rydym yn credu y dylai unrhyw Orchmynion a wneir o dan adran 7 gael eu gwneud drwy weithdrefn uwch-gadarnhaol o leiaf. Byddai hynny'n sicrhau y gall y Cynulliad drafod y Gorchymyn, yn ogystal â chaniatáu digon o amser i bwyllgorau'r Cynulliad dderbyn tystiolaeth ac awgrymu gwelliannau posibl i unrhyw Orchymyn a gynigir. Rydym wedi

report.

Section 8 of the proposed Measure also causes us considerable concern. This section gives Ministers the power in certain circumstances, and a duty in others, to amend the proposed Measure as they consider appropriate to reflect changes in the convention. The power is not limited to amending the texts of the convention, as set out in the proposed Measure, but could also be used to amend the proposed Measure more generally. We accept that there is a need for a mechanism to ensure that the proposed Measure reflects the convention in its up-to-date form. We believe that an 'as amended from time to time' provision would be of less concern and easier to understand than what is proposed. We are concerned that the powers that are given to Welsh Ministers go beyond the simple need to update the convention, and include the ability to amend any other part of the proposed Measure. Of greater concern is the fact that Welsh Ministers will simply be able to make the changes without the usual safeguard that exists when primary legislation is amended, namely scrutiny under the affirmative procedure. Of even greater concern is the fact that scrutiny will not even be allowed under the negative procedure. Ministers will simply be able to amend the legislation, and the only possible challenge or scrutiny would be through a judicial review in the courts.

The Deputy Minister set out in correspondence a long and elaborate argument in favour of the way in which the power has been constructed, stating why there should not be a mechanism for scrutiny and approval of it by the Assembly. However, the main thrust of his case seemed to be that the Assembly might choose not to approve an Order proposed by Ministers. We were not at all convinced by the argument. There is a very simple and well-accepted general principle that Ministers should not be able to amend primary legislation without seeking and obtaining parliamentary approval. There may be occasions when there is a need to depart from that general principle, but we do not believe a case for

argymell hynny yn ein hadroddiad.

Mae adran 8 y Mesur arfaethedig hefyd yn peri llawer o bryder inni. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion mewn rhai amgylchiadau, a dyletswydd mewn amgylchiadau eraill, i ddiwygio'r Mesur arfaethedig fel y maent yn ei ystyried yn briodol i adlewyrchu newidiadau yn y confensiwn. Nid yw'r pŵer wedi'i gyfyngu i ddiwygio testunau'r confensiwn, fel y nodir yn y Mesur arfaethedig, a gallai gael ei ddefnyddio i ddiwygio'r Mesur arfaethedig yn fwy cyffredinol hefyd. Rydym yn derbyn bod angen mecanwaith i sicrhau bod y Mesur arfaethedig yn adlewyrchu'r confensiwn ar ei ffurf ddiweddaraf. Rydym yn credu y byddai darpariaeth 'fel y'i diwygir o dro i dro' yn peri llai o bryder, ac yn haws ei deall na'r hyn a gynigir. Rydym yn gofidio bod y pwerau sy'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru yn mynd y tu hwnt i'r angen syml i ddiweddarau'r confensiwn, a'u bod yn cynnwys y gallu i ddiwygio unrhyw ran arall o'r Mesur arfaethedig. Rhywbeth sy'n peri mwy o bryder yw'r ffaith y bydd Gweinidogion Cymru, yn syml iawn, yn gallu gwneud y newidiadau heb y mesurau diogelu arferol sy'n bodoli wrth i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei diwygio, sef gwaith craffu o dan y weithdrefn gadarnhaol. Yr hyn sy'n destun fwy byth o bryder yw'r ffaith na chaniateir proses graffu o dan y weithdrefn negyddol hyd yn oed. Bydd Gweinidogion yn syml yn gallu diwygio'r deddfwriaeth, a dim ond drwy adolygiad barnwrol yn y llysoedd y byddai modd herio neu gynnal proses graffu.

Mewn gohebiaeth, nododd y Dirprwy Weinidog ddadl faith ac astrus iawn o blaid y ffordd y mae'r pŵer wedi'i adeiladu, gan ddweud pam na ddylid cael mecanwaith i'r Cynulliad graffu arno a'i gymeradwyo. Fodd bynnag, prif neges ei ddadl, yn ôl pob tebyg, oedd y gallai'r Cynulliad ddewis peidio â chymeradwyo Gorchymyn y byddai Gweinidogion yn ei gynnig. Nid oedd y ddadl yn ein hargyhoeddi o gwbl. Ceir egwyddor syml iawn, sydd wedi ennill ei phlwyf, na ddylai Gweinidogion allu diwygio deddfwriaeth sylfaenol heb geisio cymeradwyaeth seneddol a'i sicrhau. Gall fod achlysuron pan fydd angen gwyro oddi wrth yr egwyddor gyffredinol honno, ond nid ydym yn credu bod dadl o'r fath wedi'i

doing so has been made on this occasion. Therefore, we have recommended that any Order made under the relevant sections should be made by the affirmative procedure.

I welcome the Deputy Minister's words in opening the debate. His acceptance of a number of our recommendations and his commitment to go even further is encouraging. I look forward to Stage 2 of the proposed Measure to see how the Deputy Minister applies those words in reality.

Paul Davies: I am grateful for the opportunity to take part in the debate, and I welcome Legislation Committee No. 5's report and recommendations in relation to the proposed Measure. I am pleased that the proposed Measure is being brought forward and that the Welsh Assembly Government is making a strong and clear commitment to the rights of children and young people in Wales. I am sure that we all agree that, by enshrining the UNCRC and its optional protocols in legislation, Wales is taking a huge step forward in embedding children's rights. The Welsh Conservatives agree with the general principles of the proposed Measure, but we believe that the proposed Measure can be strengthened in several areas. I am delighted that the Deputy Minister has made it clear today that it is important to get the legislation absolutely right, and I commend him on looking carefully at all of the committee's recommendations.

First, I would like to draw attention to section 1 of the proposed Measure, which would impose a duty on Welsh Ministers and the First Minister to have due regard to the rights and obligations in the UNCRC and its optional protocols. On this aspect, as the Chair of Legislation Committee No. 5 said, the committee recommended that

'the proposed Measure is amended to insert the following or similar words into section 1(1) "The Welsh Ministers must, when exercising their functions, have due regard to the requirements of" ...[Part 1 of the Convention plus Optional Protocols as set out in section 1(1) of the current draft Measure], and that consequential amendments are made to the proposed Measure to reflect this

chyflwyno'n llwyddiannus y tro hwn. Felly, rydym wedi argymhell y dylai unrhyw Orchymyn a wneir o dan yr adrannau perthnasol ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

Croesawaf eiriau'r Dirprwy Weinidog wrth agor y ddadl. Mae'r ffaith ei fod yn derbyn nifer o'n hargymhellion, a'i ymrwymiad i fynd hyd yn oed ymhellach, yn galonogol. Edrychaf ymlaen at Gyfnod 2 y Mesur arfaethedig i weld sut y bydd y Dirprwy Weinidog yn troi'r geiriau hynny'n realiti.

Paul Davies: Rwyf yn falch o gael cyfle i gymryd rhan yn y ddadl, a chroesawaf adroddiad ac argymhellion Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 mewn perthynas â'r Mesur arfaethedig. Rwyf yn falch bod y Mesur arfaethedig yn cael ei ddwyn ymlaen, a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud ymrwymiad cryf a phendant i hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Rwyf yn siŵr bod pob un ohonom yn cytuno bod Cymru, drwy gynnwys y Confensiwn a'i brotocolau dewisol mewn deddfwriaeth, yn cymryd cam enfawr ymlaen o ran gwreiddio hawliau plant. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, ond rydym yn credu y gellir cryfhau'r Mesur arfaethedig mewn sawl lle. Rwyf yn falch iawn bod y Dirprwy Weinidog wedi'i gwneud yn glir heddiw ei bod yn bwysig cael y ddeddfwriaeth yn gwbl gywir, ac rwyf yn ei ganmol am edrych yn ofalus ar bob un o argymhellion y pwyllgor.

Yn gyntaf, hoffwn dynnu sylw at adran 1 y Mesur arfaethedig, a fyddai'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Confensiwn a'i brotocolau dewisol. O ran yr elfen hon, fel y dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, roedd y pwyllgor yn argymhell

'y caiff y Mesur arfaethedig ei ddiwygio i gynnwys y geiriau canlynol neu eiriau tebyg yn adran 1(1) 'Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau, dalu sylw dyledus i ofynion ... [Rhan 1 o'r Confensiwn a'r Protocolau Dewisol fel y nodir yn adran 1(1) o'r Mesur drafft presennol], a bod gwelliannau canlyniadol yn cael eu gwneud i'r Mesur arfaethedig i

recommendation.’

I hope that the Deputy Minister will consider fully the recommendation in his further work, as I think that he has promised to do, so that we can send a clear and direct message about the duties that are imposed on Welsh Ministers. In addition, the use of the words ‘decisions of a strategic nature’ in section 2 caused concern to the committee and to various consultees. While I acknowledge the Deputy Minister’s view that differing interpretations of legal wording are par for the course, and that that is how law is made, I urge the Deputy Minister to accept fully the committee’s recommendation that details regarding what constitutes a strategic decision should be included on the face of the proposed Measure.

A key aspect of the proposed Measure is the preparation and publication of the children’s scheme, and the involvement of children’s organisations and authorities is essential to meet the needs of children and young people in Wales in the best possible way. Generally speaking, the evidence sessions regarding consultation on the children’s scheme were very positive. While I note the Deputy Minister’s comments that that will be covered by the general public law duty, I believe that this area deserves specific mention on the face of the proposed Measure and requires further attention in order to ensure that children, young people and relevant organisations are engaged fully in discussion on children’s schemes. In addition, I also agree with the committee’s recommendation that this engagement should be amended to include parents, legal guardians or other persons legally responsible for the child, and as such, would welcome the Deputy Minister’s views on this in his response.

3.30 p.m.

I fully support the Deputy Minister’s efforts in relation to compliance and the accountability of Ministers, and I am pleased at the intended level of transparency that he is working towards. The children’s commissioner has highlighted that the issue of legal redress was really significant. Some kind of advocacy and resource has to be put

adlewyrchu’r argymhelliad hwn.’

Gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn ystyried yr argymhelliad yn llawn yn ei waith pellach—gan fy mod yn meddwl ei fod wedi addo gwneud hynny—er mwyn inni allu anfon neges glir ac uniongyrchol ynghylch y dyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru. Hefyd, roedd y geiriau ‘penderfyniadau strategol’ yn adran 2 yn achosi pryder i’r pwyllgor ac i wahanol ymgynghoreion. Er fy mod yn cydnabod safbwynt y Dirprwy Weinidog fod gwahanol ddehongliadau o’r geiriad cyfreithiol i’w ddisgwyl, ac mai dyna sut mae deddfau’n cael eu gwneud, anogaf y Dirprwy Weinidog i dderbyn yn llawn argymhelliad y pwyllgor y dylai manylion yr hyn a gaiff ei ystyried yn benderfyniad strategol gael eu cynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig.

Un o elfennau allweddol y Mesur arfaethedig yn llunio a chyhoeddi cynllun y plant, ac mae’n hanfodol bod awdurdodau a sefydliadau plant yn cael eu cynnwys er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc yng Nghymru yn y ffordd orau bosibl. Ar y cyfan, roedd y sesiynau tystiolaeth ynghylch ymgynghori ar gynllun y plant yn gadarnhaol iawn. Er fy mod yn nodi sylwadau’r Dirprwy Weinidog y bydd hynny’n cael ei gynnwys o fewn y ddyletswydd cyfraith gyhoeddus gyffredinol, rwyf o’r farn bod angen sôn am yr elfen hon yn benodol ar wyneb y Mesur arfaethedig, a’i bod angen sylw pellach er mwyn sicrhau bod plant, pobl ifanc a sefydliadau perthnasol yn cymryd rhan lawn mewn trafodaethau ynghylch cynllun y plant. Yn ogystal â hynny, rwyf hefyd yn cytuno ag argymhelliad y pwyllgor y dylid diwygio hyn i gynnwys rhieni, gwarcheidwaid cyfreithiol neu bobl eraill sy’n gyfreithiol gyfrifol am y plentyn. Felly, byddwn yn falch o gael barn y Dirprwy Weinidog am hyn yn ei ymateb.

Rwyf yn llwyr gefnogi ymdrechion y Dirprwy Weinidog mewn perthynas â chydymffurfiaeth ac atebolrwydd y Gweinidogion, ac rwyf yn fodlon â’r lefel tryloywder y mae’n anelu tuag ati. Mae’r Comisiynydd Plant wedi tynnu sylw at wneud iawn cyfreithiol fel mater pwysig iawn. Rhaid sefydlu rhyw fath o system

in place to challenge a judicial review or a decision made by a Minister if a child or young person feels that their rights are not being upheld. The committee recommended that an effective and efficient means of redress should be implemented so that grievances can be aired in a simple and straightforward manner within the scope of the proposed Measure, and I am pleased that the Deputy Minister will be looking at this further by speaking to the children's commissioner to ensure proper opportunity for redress. I look forward to the Deputy Minister's actions on this during the next stages of the proposed Measure.

I would like to look briefly at the Finance Committee's report, which stated that the proposed legislation has undertaken little analysis of its financial implications. It added that such a lack of analysis means there is a risk of unintended consequences as a result of approving this proposed Measure. Therefore, I urge the Deputy Minister to carry out further work on the financial implications of the proposed Measure, given the Finance Committee's report.

Finally, I welcome very much the report of the legislation committee, and I hope that the Government will accept its recommendations. I look forward to the next stages of the proposed Measure in the coming weeks.

Andrew Davies: I am speaking in support of the legislation committee's report as a member of that committee. I thank the Chair and Members for what has been a very revealing and thoughtful legislation scrutiny process. I also thank the Deputy Minister for the way in which he has engaged with the process and for the time that he has given me personally—I thank him for that courtesy. The very fact that we are having this debate this afternoon is about how far the legislation should go, not whether it should be on the statute book. That shows the Assembly Government's commitment to children and their rights. However, there are concerns that have been raised in the various committee reports, and they have been discussed this afternoon, and I very much thank the Deputy Minister for the very careful response that he

eirioli ac adnoddau er mwyn i blentyn neu berson ifanc sy'n teimlo nad yw'n cael ei hawliau allu herio adolygiad barnwrol neu benderfyniad a wnaed gan Weinidog. Argymhellodd y pwyllgor y dylid rhoi system gwneud iawn effeithiol ac effeithlon ar waith er mwyn gallu cyflwyno cwynion mewn ffordd syml a rhwydd o fewn cwrpas y Mesur arfaethedig, ac rwyf yn falch y bydd y Dirprwy Weinidog yn edrych ar hyn ymhellach drwy siarad â'r Comisiynydd Plant i sicrhau y ceir cyfle priodol i wneud iawn. Rwyf yn edrych ymlaen at y camau y bydd y Dirprwy Weinidog yn eu cymryd ar hyn yn ystod cyfnodau nesaf y Mesur arfaethedig.

Hoffwn edrych yn gyflym ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid, a oedd yn nodi nas cynhaliwyd dadansoddiad digonol o oblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth arfaethedig. Ychwanegodd fod diffyg dadansoddiad o'r fath yn golygu bod risg y bydd cymeradwyo'r Mesur arfaethedig hwn yn arwain at ganlyniadau anfwriadol. Felly, anogaf y Dirprwy Weinidog i wneud rhagor o waith ar oblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig, o ystyried adroddiad y Pwyllgor Cyllid.

Yn olaf, rwyf yn croesawu adroddiad y pwyllgor deddfwriaeth yn fawr, a gobeithio y bydd y Llywodraeth yn derbyn ei argymhellion. Rwyf yn edrych ymlaen at gyfnodau nesaf y Mesur arfaethedig yn ystod yr wythnosau nesaf.

Andrew Davies: Rwyf yn siarad o blaid adroddiad y pwyllgor deddfwriaeth fel aelod o'r pwyllgor hwnnw. Hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd a'r Aelodau am broses ddadlennol ac ystyrlon iawn o graffu ar y ddeddfwriaeth. Diolch hefyd i'r Dirprwy Weinidog am y modd y mae wedi cynnal y broses, ac am yr amser y mae wedi'i roi i mi yn bersonol—rwyf yn diolch iddo am y cwrteisi hwnnw. Hanfod y ddadl y prynhawn yma yw pa mor bell y dylai'r ddeddfwriaeth fynd, nid a ddylai fod yn y llyfr statud. Mae hynny'n dangos ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i blant a'u hawliau. Fodd bynnag, mae pryderon wedi cael eu mynegi yn yr adroddiadau pwyllgor amrywiol, ac maent wedi cael eu trafod y prynhawn yma, ac rwyf yn diolch yn fawr i'r Dirprwy Weinidog am yr ymateb gofalus iawn a roddodd yn ei sylwadau

gave in his opening comments.

I am concerned about two areas, one of which is the reference to the limitation of the proposed Measure about ministerial decisions of a strategic nature. A major concern, expressed by the United Nations Convention on the Rights of the Child Monitoring Committee in its response, as you are aware, Deputy Minister, and privately by other children's organisations with which I have had meetings, is that because section 1 of this proposed Measure is based on the Equality Act 2010, the UNCRC provisions are already binding on Ministers. As it is currently drafted, it could be interpreted as a step backwards and a regression from the existing commitment, which is binding on all UK Ministers. The children's commissioner is clearly of that view. Members of the committee had a briefing from the children's commissioner yesterday, in which he said that it has become apparent during the scrutiny that he should have given more weight to his concerns and to his presumption that there is a consensus that the definition of 'strategic' implied a wide-ranging Measure. He said that this was borne out, with nine consultees and witnesses providing nine separate interpretations of what is meant by 'strategic.' He therefore concluded that the current wording is confusing and complicated, as the legislation committee has said, and that the suggested wording made by the committee would address this.

Clearly, the children's commissioner's position has changed significantly since he appeared before the legislation committee. He has been persuaded by the arguments of the legislation committee and others. I noted with care, Minister, that you said in your statement that you will engage with the children's commissioner on this. I believe that there is almost unanimous support for this position, not only in the legislation committee, but also in the Finance Committee, the Constitutional Affairs Committee, and, I believe, across the Chamber. This is a shared position.

My second point is on redress. Again, I thank you for your comments. There was considerable concern in committee about the

agoriadol.

Rwyf yn poeni am ddwy elfen—ac un ohonynt yw'r cyfeiriad at gyfyngiadau'r Mesur arfaethedig o ran penderfyniadau gweinidogion strategol. Un pryder mawr—a fynegwyd gan Bwyllgor Monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei ymateb fel y gwyddoch, Ddirprwy Weinidog, ac a fynegwyd yn breifat gan sefydliadau plant eraill yr wyf wedi cael cyfarfodydd a hwy—yw gan fod adran 1 y Mesur arfaethedig hwn yn seiliedig ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae darpariaethau'r Confensiwn eisoes yn rhwymo Gweinidogion. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, gellid ei ddehongli fel cam yn ôl o'r ymrwymiad presennol, sy'n rhwymo holl Weinidogion y DU. Yn amlwg, dyna yw barn y Comisiynydd Plant. Cafodd aelodau'r pwyllgor sesiwn friffio gan y Comisiynydd Plant ddoe, lle dywedodd ei fod wedi dod yn amlwg yn ystod y broses graffu y dylai fod wedi rhoi mwy o bwyslais ar ei bryderon ac ar ei ragdybiaeth y ceir consensws bod y diffiniad o 'strategol' yn awgrymu Mesur eang ei gwmpas. Dywedodd fod y ffaith bod naw o ymgynghorion a thystion wedi darparu 9 dehongliad gwahanol o beth y mae 'strategol' yn ei olygu yn cadarnhau hynny. Felly, daeth i'r casgliad bod y geiriad presennol yn ddryslyd ac yn gymhleth, fel y mae'r pwyllgor deddfwriaeth wedi'i ddweud, ac y byddai'r geiriad a awgrymwyd gan y pwyllgor yn datrys hyn.

Yn amlwg, mae safbwynt y Comisiynydd Plant wedi newid yn sylweddol ers iddo ymddangos gerbron y pwyllgor deddfwriaeth. Mae wedi cael ei ddarbwylllo gan ddadleuon y pwyllgor deddfwriaeth ac eraill. Roeddwn yn falch o'ch clywed yn dweud yn eich datganiad, Weinidog, y byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Comisiynydd Plant ynghylch hyn. Rwyf yn credu y ceir cefnogaeth unfrydol i'r safbwynt hwn bron, nid yn unig yn y pwyllgor deddfwriaeth, ond hefyd yn y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, ac, rwyf yn credu, ar draws y Siambr. Mae hwn yn safbwynt cyffredin.

Mae fy ail bwynt yn ymwneud â gwneud iawn. Unwaith eto, diolch ichi am eich sylwadau. Roedd y pwyllgor yn bur bryderus

fact that, initially, it was thought that a judicial review would be the recourse available. I and others have pointed out that this would be the nuclear option; we felt that there needed to be much more meaningful and sensitive approaches to seeking legal redress. As you know from what I have said previously, advice from Assembly Government officials would appear to have been that, as it is currently drafted, the proposed Measure severely restricts the possibility of legal challenge, let alone its success. That is another argument for having an all-pervasive Measure that is not restricted to ministerial decisions of a strategic nature. There would appear to be further confirmation of this, because the proposed Measure as drafted is based on section 1 of the Equality Act 2010. As Lord Lester said in the House of Lords debate on 11 January 2010,

‘I would not give anyone any encouragement to think that that duty could possibly give rise to a successful judicial review. Whether we are talking about the guidance or what is in the Bill already, it is so vague as to be completely unenforceable.’

Therefore, there are analogies, because the proposed Measure is based on the Equality Act 2010. There are also significant concerns about the potential for legal challenge. However, I thank you for your careful and thoughtful response, and I look forward, along with the committee, to engaging with you, to ensure that we get the best possible legislation for children and young people in Wales. This is not about macho legislation; this is about ensuring that children have their rights enshrined in Welsh law.

Eleanor Burnham: As other Members have done, as a member of Legislation Committee No. 5, I wish to thank the Chair, fellow committee members and committee staff. I particularly wish to thank the Deputy Minister, whose sincerity in this matter is well documented.

I share similar concerns to those of others. Despite welcoming the Welsh Government’s move to enshrine the rights of the child, and

am y ffaith ein bod yn meddwl, i ddechrau, mai adolygiad barnwrol fyddai'r opsiwn gwneud iawn a fyddai ar gael. Rwyf fi a phobl eraill wedi dweud mai dyma fyddai'r opsiwn niwclear; roeddem yn teimlo bod angen dulliau llawer mwy ystyrion a sensitif ar gyfer ceisio gwneud iawn cyfreithiol. Fel y gwyddoch o'r hyn rwyf wedi'i ddweud o'r blaen, mae'n debyg mai cyngor swyddogion Llywodraeth y Cynulliad oedd bod y Mesur arfaethedig, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn cyfyngu'r posibilrwydd o her gyfreithiol yn ddifrifol, heb sôn am lwyddiant her o'r fath. Mae honno'n ddadl arall dros gael Mesur cwbl dreiddiol nad yw wedi'i gyfyngu i benderfyniadau strategol gweinidogion. Mae'n ymddangos y ceir cadarnhad pellach o hyn gan fod y Mesur arfaethedig, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn seiliedig ar adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010. Fel y dywedodd yr Arglwydd Lester yn y ddadl yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Ionawr 2010,

Ni fyddwn am annog neb i feddwl y gallai'r ddyletsywydd honno arwain at adolygiad barnwrol llwyddiannus. P'un ai a ydym yn sôn am y canllawiau ynteu'r hyn sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y Bil, mae mor annelwig fel na fyddai modd ei orfodi o gwbl bron.

Felly ceir cymariaethau, gan fod y Mesur arfaethedig yn seiliedig ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ceir pryderon sylweddol hefyd ynghylch y posibilrwydd o her gyfreithiol. Fodd bynnag, diolch ichi am eich ymateb gofalus a phwylllog ac rwyf fi, ynghyd â'r pwyllgor, yn edrych ymlaen at weithio gyda chi i sicrhau ein bod yn cael y ddeddfwriaeth orau bosibl i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Nid ceisio sicrhau deddfwriaeth macho yw hyn; sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnwys yng nghyfraith Cymru sy'n bwysig.

Eleanor Burnham: Fel y mae Aelodau eraill wedi'i wneud, fel aelod o Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd, i gyd-aelodau'r pwyllgor ac i staff y pwyllgor. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Dirprwy Weinidog, a gŵyr pawb am ei ddiwyllledd i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae gennyf bryderon tebyg i bobl eraill. Er fy mod yn croesawu cam Llywodraeth Cymru i gynnwys hawliau'r plentyn, y

the UNCRC and its protocols, in our Welsh laws, the concerns are similar to those already mentioned regarding strategic decisions. As Andrew so succinctly put it, the nuclear option of using judicial review fills me with horror. I have read the various comments of other learned people—the Children’s Commissioner for Wales, for example, mentions in one paper that he expects the Welsh Government to keep the action plan under regular review, and to refresh the actions relating to the plan as agreed actions are completed, so that demonstrable progress can be seen and experienced by children in Wales, and so on. I hope that the Government shows a willingness to consult meaningfully on this proposed Measure; otherwise the enshrinement of children’s rights might become a hollow gesture. However, I suspect that that will not happen—I believe that the Deputy Minister is sincere on this issue. We need to move on now, and I look forward very much to Stage 2 of this extremely important debate.

Helen Mary Jones: Before making some brief remarks, I wish to stress that I am speaking as my party’s spokesperson on these issues, and not formally as the Chair of the Children and Young People Committee. However, I know that many of my comments will be supported by members of that committee, across party lines, because, as the Deputy Minister will remember, our committee undertook some pre pre-legislative scrutiny, which is unusual but, I am assured, perfectly proper.

I welcome the opportunity to take part in this debate. I also welcome the progress that is being made with this proposed Measure. I concur with the Deputy Minister that this has the potential to be a truly groundbreaking piece of legislation, and it is an opportunity for Wales once again to lead the way in the UK with regard to children’s rights, as we did very early on with the establishment of the first-ever children’s commissioner on these islands. I am sure that all Assembly Members are very proud that children’s rights have remained high on our agenda throughout the existence of the Assembly, and this

Confensiwn a'i brotocolau, yn neddfau Cymru, mae'r pryderon yn debyg i'r rheini a grybwyllwyd eisoes ynghylch penderfyniadau strategol. Fel y dywedodd Andrew mor gryno, mae'r opsiwn niwclear o ddefnyddio adolygiad barnwrol yn fy nychryn. Rwyf wedi darllen y sylwadau amrywiol gan bobl hyddysg eraill—mae Comisiynydd Plant Cymru, er enghraifft, yn sôn mewn un papur ei fod yn disgwyl i Lywodraeth Cymru adolygu'r cynllun gweithredu yn rheolaidd, ac adnewyddu'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r cynllun wrth i'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt gael eu cwblhau, er mwyn i blant yng Nghymru allu gweld a phrofi cynnydd amlwg ac ati. Gobeithio y bydd y Llywodraeth yn dangos parodrwydd i ymgynghori'n ystyrllon ar y Mesur arfaethedig hwn; fel arall, gallai'r syniad o gynnwys hawliau plant fod yn weithred ddisylwedd. Fodd bynnag, rwyf yn tybio na fydd hynny'n digwydd—credaf fod y Dirprwy Weinidog yn ddidwyll ynghylch y mater hwn. Mae angen inni symud ymlaen yn awr, ac rwyf yn edrych ymlaen yn fawr iawn at Gyfnod 2 y ddadl hynod bwysig hon.

Helen Mary Jones: Cyn gwneud sylwadau byr, hoffwn bwysleisio fy mod yn siarad fel llefarydd fy mhlaid ar y materion hyn, ac nid yn ffurfiol fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Fodd bynnag, gwn y bydd llawer o'm sylwadau yn cael cefnogaeth aelodau o'r pwyllgor hwinnw, ar draws ffiniau pleidiau, oherwydd fel y bydd y Dirprwy Weinidog yn cofio, bu ein pwyllgor yn gwneud gwaith craffu cyn y cam cyn-deddfu, sy'n anghyffredin ond sydd, rwyf yn ffyddiog, yn gwbl briodol.

Rwyf yn falch o gael cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon. Rwyf hefyd yn falch o weld y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda'r Mesur arfaethedig hwn. Rwyf yn cytuno â'r Dirprwy Weinidog bod potensial i hyn fod yn ddarn o ddeddfwriaeth gwirioneddol arloesol, ac mae'n gyfle i Gymru arwain y ffordd unwaith eto yn y DU mewn perthynas â hawliau plant, fel y gwnaethom yn gynnar iawn wrth sefydlu comisiynydd plant cyntaf erioed yr ynysoedd hyn. Rwyf yn siŵr bod holl Aelodau'r Cynulliad yn falch iawn bod hawliau plant yn dal yn uchel ar ein hagenda ers bodolaeth y Cynulliad, ac mae'r

legislation is the opportunity to move that further forward.

3.40 p.m.

The Deputy Minister made it clear in his opening remarks that he is aware that there are some outstanding concerns, and I am pleased to welcome his commitment today to continue to consider the way in which those concerns might most effectively be addressed. I particularly welcome what he has said about redress. It is difficult, of course, to imagine individual children and young people being able—even should they wish to do so—to go through the judicial review procedure. I hope that the Deputy Minister, working with others, will be able to come forward with much more flexible and easy-to-use proposals that will give children a real opportunity to enforce their rights, should that be necessary. However, I am sure that we all hope that the outcome of this legislation would be that it is not necessary for them to do so.

I want to focus my remarks on the concern regarding the duty to have due regard being placed upon Ministers when they are making decisions of a strategic nature. I could be mischievous and say that I hope that all of the decisions made by Ministers are of a strategic nature, and we clearly would not want them to be wasting their time making decisions that are not strategic. However, to be more serious, I share the concerns of Legislation Committee No.5, and, like others, I wish to commend its first recommendation to the Deputy Minister. I welcome what he had to say on that today.

The current drafting is potentially problematic. It is either, as Andrew Davies has just suggested, completely unenforceable, or, worse still, I could envisage, as a former equality professional, endless litigation to try to determine what is and is not a strategic decision. A simple, pervasive Measure could avoid that. I am aware that there are concerns about a truly pervasive Measure being too onerous and too difficult to enforce. Once again, as a former equality professional, I have heard all of this before. Any attempt to

ddeddfwriaeth hon yn gyfle i ddatblygu hynny ymhellach.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog yn glir yn ei sylwadau agoriadol ei fod yn ymwybodol bod rhai pryderon o hyd, ac rwyf yn falch o groesawu ei ymrwymiad heddiw i barhau i ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r pryderon hynny. Croesawaf yn arbennig yr hyn a ddywedodd am wneud iawn. Yn amlwg, mae'n anodd dychmygu plant a phobl ifanc unigol yn gallu—hyd yn oed pe baent yn dymuno gwneud hynny—mynd drwy'r weithdrefn adolygiad barnwrol. Gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog, drwy weithio gyda phobl eraill, yn gallu cyflwyno cynigion llawer mwy hyblyg a hawdd eu defnyddio a fydd yn rhoi cyfle gwirioneddol i blant fynnu eu hawliau, pe bai angen gwneud hynny. Fodd bynnag, rwyf yn siŵr bod pob un ohonom yn gobeithio y byddai'r ddeddfwriaeth hon yn golygu na fydd angen iddynt wneud hynny.

Bydd fy sylwadau yn canolbwyntio ar y pryder ynghylch rhoi dyletswydd ar Weinidogion i roi sylw dyledus pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol. Gallwn fod yn ddireidus a dweud fy mod yn gobeithio bod yr holl benderfyniadau a wneir gan Weinidogion yn rhai strategol, ac yn amlwg ni fyddem yn dymuno iddynt wastraffu eu hamser yn gwneud penderfyniadau nad ydynt yn rhai strategol. Fodd bynnag, i fod yn fwy difrifol, rwyf yn rhannu pryderon Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ac, fel pobl eraill, hoffwn ganmol ei argymhelliad cyntaf i'r Dirprwy Weinidog. Croesawaf yr hyn a oedd ganddo i'w ddweud am hynny heddiw.

Gallai'r drafft presennol achosi problemau. Bydd naill ai yn gwbl amhosibl ei orfodi, fel y mae Andrew Davies newydd ei awgrymu, neu, yn waeth byth, gallwn ragweld—a minnau'n arfer gweithio ym maes cydraddoldeb—achosion cyfreitha diddiwedd i geisio penderfynu beth yw penderfyniad strategol. Gallai Mesur syml a threiddiol osgoi hynny. Rwyf yn ymwybodol o bryderon y gallai Mesur treiddiol iawn fod yn rhy feichus ac yn rhy anodd ei orfodi. Unwaith eto, a minnau'n arfer gweithio ym

enshrine rights in law has always been met with the response in some quarters that this is too difficult. I know that many Assembly Members will remember, prior to the inception of the Assembly, the response to the idea of having equality clauses in the Government of Wales Act 1998. Those clauses are there, they have not brought government to a grinding halt, and they have served to change much of what we do in the Assembly and much of what our Government chooses to prioritise.

I submit to the Deputy Minister today that the concept of due regard is the protection against the outcome of the proposed Measure being too onerous. The key word there is 'due'; it protects, and it ensures that the implementation is proportionate. I draw the Deputy Minister's attention to case law arising from the old equality legislation that helps to define 'due regard'. I do not think that we have the same case law that establishes what a strategic decision is.

Therefore, there would be protection with a truly pervasive Measure against an overly onerous implementation. However, we cannot afford to be too timid, and I know that that is not the Deputy Minister's intention. There is no point in enshrining the convention in law in Wales if it does not transform law making and policy making in practice, as the Deputy Minister has said today. It will, of course, require training to be provided for staff, and there will be cost implications. However, much of this will also be about doing things better and not necessarily doing things in a more expensive way. We know that if we properly consult children and young people, we are much more likely to deliver policy that is not only effective, but cost-effective.

I welcome the Deputy Minister's use of the word 'integral' in setting out his intentions with regard to the impact that this proposed Measure is intended to have on policy and law making in Wales. We need a simple, pervasive Measure to achieve this. There can

maes cydraddoldeb, rwyf wedi clywed hyn i gyd o'r blaen. Mae unrhyw ymgais i gynnwys hawliau mewn cyfraith bob amser wedi arwain at ymateb gan rai pobl bod hyn yn rhy anodd. Gwn y bydd nifer o Aelodau'r Cynulliad yn cofio, cyn sefydlu'r Cynulliad, yr ymateb i'r syniad o gael cymalau cydraddoldeb yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r cymalau hynny yn bodoli, nid ydynt wedi dod â'r llywodraeth i stop, ac maent wedi llwyddo i newid llawer o'r hyn rydym yn ei wneud yn y Cynulliad a llawer o'r hyn y mae ein Llywodraeth yn dewis rhoi blaenoriaeth iddo.

Rwyf yn cyfaddef wrth y Dirprwy Weinidog heddiw mai pwrpas y cysyniad o sylw dyledus yw gwneud yn siŵr nad yw'r Mesur arfaethedig yn rhy feichus. Y gair allweddol yw 'dyledus'; mae'n amddiffyn, ac yn sicrhau bod y mesur yn cael ei roi ar waith mewn ffordd gymesur. Tynnaf sylw'r Dirprwy Weinidog at gyfraith achosion sy'n deillio o'r hen ddeddfwriaeth cydraddoldeb, sy'n helpu i ddiffinio 'sylw dyledus'. Nid wyf yn credu bod gennym yr un gyfraith achosion sy'n sefydlu beth yw penderfyniad strategol.

Felly, byddai Mesur treiddiol iawn yn cynnwys mesurau amddiffyn a fyddai'n gwneud yn siŵr nad yw'n rhy feichus gweithredu'r Mesur. Fodd bynnag, ni allwn fforddio bod yn rhy betrus, a gwn nad dyna yw bwriad y Dirprwy Weinidog. Nid oes pwrpas cynnwys y confensiwn mewn cyfraith yng Nghymru os na fydd yn trawsnewid y broses ddeddfu a llunio polisiau yn ymarferol, fel y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'i ddweud heddiw. Wrth gwrs, bydd yn rhaid darparu hyfforddiant ar gyfer staff, a bydd goblygiadau o ran costau. Fodd bynnag, bydd llawer o hyn hefyd yn ymwneud â gwneud pethau'n well, nid gwneud pethau mewn ffordd ddrytach o reidrwydd. Gwyddom ein bod yn llawer mwy tebygol o gyflwyno polisi sy'n effeithiol yn ogystal â chosteffeithiol os byddwn yn ymgynghori'n briodol â phlant a phobl ifanc.

Rwyf yn croesawu'r ffaith bod y Dirprwy Weinidog wedi defnyddio'r gair 'annatod' wrth egluro ei fwriadau o ran yr effaith y bwriedir i'r Mesur arfaethedig hwn ei chael ar y broses ddeddfu a llunio polisiau yng Nghymru. Mae arnom angen Mesur syml a

be no doubt that making this work will require a huge change of culture that is not far short of a major culture shift. That will take time. However, I am confident that that shift can be achieved, because the will is there across the Chamber and within Government, as has been demonstrated by this debate. I look forward to seeing the Deputy Minister's detailed response to all three of the committee's recommendations, and to working with the Government as we move forward as an Assembly to taking this important further step in enshrining children's rights in Welsh law, and then, in turning those rights into reality for all of our nation's children.

Darren Millar: I thank the Deputy Minister for his measured response to the committee report. It is important that the Deputy Minister has listened to the evidence that was presented to the committee. Clearly, he is seriously considering significant changes at Stage 3, through amendments to the existing proposed Measure.

I will take this opportunity to thank my colleague Mark Isherwood and the other members of Legislation Committee No. 5 for what was a fascinating and very enlightening series of evidence sessions on this proposed legislation. This is a unique piece of legislation that we will have on the statute books that will enshrine, as part of Welsh law, the UNCRC. We can be very proud of that, which is why the Deputy Minister has had significant support from my party and me in trying to drive this rights-based agenda forward.

Regarding the evidence that was provided to the committee, the Deputy Minister has clearly listened to the fact that the committee was rather perplexed by the potential curtailment of the UNCRC, and its impact on Welsh Ministers, by the use of the word 'strategic' in relation to the decisions that this proposed legislation would affect. I look forward to Stage 3, and to seeing a significant amendment to the legislation that would broaden the impact of this proposed Measure. We know, for example, that the Children's Commissioner for Wales fully supports a broadening of the impact of this proposed

threeiddiol i gyflawni hyn. Yn sicr, bydd yn rhaid addasu ein diwylliant er mwyn gwneud i hyn weithio, a fydd bron yn newid diwylliannol enfawr. Bydd hynny'n cymryd amser. Fodd bynnag, rwyf yn ffyddiog y gellir cyflawni'r newid hwnnw, oherwydd mae'r ewyllys yno ar draws y Siambr ac yn y Llywodraeth, fel y mae'r ddadl hon wedi dangos. Edrychaf ymlaen at weld ymateb manwl y Dirprwy Weinidog i bob un o dri argymhelliad y pwyllgor, ac at weithio gyda'r Llywodraeth wrth inni symud ymlaen fel Cynulliad i gymryd y cam pellach pwysig hwn i gynnwys hawliau plant yng nghyfraith Cymru, ac yna, i droi'r hawliau hynny yn realiti i holl blant ein cenedl.

Darren Millar: Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ymateb pwylllog i adroddiad y pwyllgor. Mae'n bwysig bod y Dirprwy Weinidog wedi gwrando ar y dystiolaeth a gafodd ei chyflwyno i'r pwyllgor. Yn amlwg, mae wir yn ystyried newidiadau sylweddol yng Nghyfnod 3, drwy wneud gwelliannau i'r Mesur arfaethedig presennol.

Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddiolch i fy nghyd-Aelod, Mark Isherwood, ac i aelodau eraill Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 am gyfres o sesiynau tystiolaeth diddorol a llawn gwybodaeth ynghylch y ddeddfwriaeth arfaethedig hon. Mae hwn yn ddarn unigryw o ddeddfwriaeth a fydd yn y llyfrau statud ac a fydd yn cynnwys, fel rhan o gyfraith Cymru, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Gallwn fod yn falch iawn o hynny, a dyna pam mae'r Dirprwy Weinidog wedi cael llawer o gefnogaeth gan fy mhlaid a gennyf fi wrth geisio gyrru'r agenda hawliau hon yn ei blaen.

O ran y dystiolaeth a ddarparwyd i'r pwyllgor, mae'n amlwg bod y Dirprwy Weinidog wedi gwrando ar y ffaith bod y pwyllgor mewn penbleth braidd ynglŷn â'r posibilrwydd o gyfyngu'r Confensiwn, ac effaith hynny ar Weinidogion Cymru, drwy ddefnyddio'r gair 'strategol' mewn perthynas â phenderfyniadau y byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig hon yn effeithio arnynt. Rwyf yn edrych ymlaen at Gyfnod 3, ac at weld gwelliant sylweddol i'r ddeddfwriaeth, a fyddai'n ehangu effaith y Mesur arfaethedig hwn. Gwyddom, er enghraifft, bod Comisiynydd Plant Cymru yn gadarn o blaid

legislation. I was very pleased that he supports the vast majority of the recommendations in the committee's report in full. The Deputy Minister will be aware that the UNCRC monitoring group said that, if a strategic decision-making duty were to be introduced rather than an all-pervasive duty, it would curtail the impact of the existing subscription to the UNCRC by the UK Government.

I was also pleased to hear that the Deputy Minister is looking at extending the duty to consult with stakeholders in the preparation of the children's scheme. Significant and strong representations were made by Christian Action Research and Education, Evangelical Alliance Wales and Care for the Family on the need to engage fully with parents in the process of pulling together the children's scheme. It is very important that, on the face of the proposed Measure, there is a reference to the role of parents. I am very pleased to hear that the Deputy Minister is looking carefully at that, and I hope that, at Stage 3, there will be a Government amendment to address that particular shortcoming on the face of the proposed Measure.

My final point relates to the issue of accountability and to effective redress in particular. This was a major concern for committee members. We felt very strongly that identifying a judicial review as the only avenue of recourse for a child seeking redress was pretty unimpressive, and that there needed to be significantly more thought put into that process, going forward. I was therefore pleased to hear the Deputy Minister's reference to engagement with the children's commissioner and the public services ombudsman for taking forward a proper and efficient method of redress for those people who want to challenge ministerial decisions that would fall under the remit of this proposed Measure.

One thing that has not been touched on to any great extent during this debate is the fact that the Deputy Minister is effectively looking to extend the UNCRC to young people between the ages of 18 and 24. The Deputy Minister knows of the strong views held by the children's commissioner on that particular

ehangu effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig hon. Roeddwn yn falch iawn ei fod yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn adroddiad y pwyllgor yn llawn. Bydd y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol bod grŵp monitro'r Confensiwn wedi dweud y byddai cyflwyno dyletswydd wrth wneud penderfyniadau strategol yn hytrach na dyletswydd cwbl dreiddiol yn cyfyngu effaith y Confensiwn ar Lywodraeth y DU.

Roeddwn hefyd yn falch o glywed bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried ehangu'r ddyletswydd i ymgynghori â rhanddeiliaid wrth baratoi cynllun y plant. Cafwyd sylwadau pwysig a phendant gan Christian Action Research and Education, Cynghrair Efyngyllid Cymru a Care for the Family ynghylch yr angen i ymgysylltu'n llawn â rhieni yn y broses o ddod â chynllun y plant at ei gilydd. Mae'n bwysig iawn fod wyneb y Mesur arfaethedig yn cyfeirio at rôl y rhieni. Rwyf yn falch iawn o glywed bod y Dirprwy Weinidog yn edrych yn ofalus ar hynny, ac rwyf yn gobeithio y bydd gwelliant yn cael ei gyflwyno gan y Llywodraeth yng Nghyfnod 3 i fynd i'r afael â'r diffyg penodol hwnnw ar wyneb y Mesur arfaethedig.

Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud ag atebolrwydd, a phroses gwneud iawn effeithiol yn arbennig. Roedd hyn yn peri pryder mawr i aelodau'r pwyllgor. Roeddem yn teimlo'n gryf iawn bod nodi adolygiad barnwrol fel yr unig lwybr o wneud iawn ar gyfer plentyn sy'n ceisio unioni cam yn ddiffyg enfawr, a bod angen rhoi mwy o feddwl i'r broses honno wrth symud ymlaen. Felly roeddwn yn falch o glywed y Dirprwy Weinidog yn cyfeirio at weithio gyda'r comisiynydd plant a'r ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus er mwyn bwrw ymlaen â dull priodol ac effeithlon o wneud iawn ar gyfer y bobl hynny sydd am herio penderfyniadau gweinidogion, a fyddai'n dod o dan gylch gwaith y Mesur arfaethedig hwn.

Un peth nad yw wedi cael llawer o sylw yn ystod y ddadl hon yw'r ffaith bod y Dirprwy Weinidog, i bob pwrpas, yn ystyried ymestyn y Confensiwn i gynnwys pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed. Mae'r Dirprwy Weinidog yn gwybod am farn bendant y Comisiynydd Plant ynghylch y mater penodol hwnnw:

issue: he is against the extension and application of the UNCRC to young people aged between 18 and 24. I wonder whether the Deputy Minister can give that more consideration. If he is going to examine opportunities for redress, the children's commissioner would clearly be an appropriate person to look at the issue of redress for children. However, if there is a split redress system, whereby the public service ombudsman is the person to contact for people aged between 18 and 24 and the children's commissioner for young people, it could confuse the redress process. Therefore, I ask that you look at that in some detail for Stage 3.

3.50 p.m.

The Deputy Minister for Children (Huw Lewis): Again, I wish to take the opportunity to thank all those involved in the scrutiny of this proposed Measure at Stage 1 and those who have contributed today. I have listened closely to today's debate, the comments made by committee members and those who provided additional evidence. I will be reconsidering a number of elements of the proposed Measure in light of the thoughtful comments made here today, particularly with regard to the sticking point of what is meant by the term 'strategic decision' and the issue of redress.

As I said from the outset, my intention in bringing forward the proposed Measure is to make good law that will embed the rights of children and young people across Wales. Therefore, I will be considering Government amendments to ensure that it really is the best possible law that we can make. I hope to move forward to the next stage in the consensual way that Mark mentioned. As I say, amendments will be tabled. I cannot stress enough how important this is to me as a Deputy Minister, to our Government and for the future of Wales. This proposed Measure will help the children and young people of today, but its impact will stretch much further and contribute to making Wales a better place to live for us, our children, our grandchildren and generations to come. I wish to emphasise that the proposed Measure is not only about responding positively to the

mae'n gwrthwynebu cymhwyso'r Confensiwn i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed. Tybed a all y Dirprwy Weinidog roi mwy o ystyriaeth i hynny. Os yw'n mynd i edrych ar gyfleoedd ar gyfer gwneud iawn, byddai'r comisiynydd plant yn amlwg yn berson priodol i edrych ar y mater o wneud iawn ar gyfer plant. Fodd bynnag, pe bai'r system gwneud iawn yn cael ei rhannu, lle mai'r ombwdsmon gwasanaeth cyhoeddus fyddai'r person y dylid cysylltu ag ef yn achos pobl rhwng 18 a 24 oed, a'r comisiynydd plant fyddai'r person y dylid cysylltu ag ef yn achos pobl ifanc, gallai hynny ddrysu'r broses gwneud iawn. Felly, gofynnaf ichi edrych ar hynny yn fanwl iawn ar gyfer Cyfnod 3.

Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis): Unwaith eto, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bawb a fu'n gysylltiedig â'r broses o graffu ar y Mesur arfaethedig hwn yng Nghyfnod 1, ac i'r rheini sydd wedi cyfrannu heddiw. Rwyf wedi gwrando'n astud ar y ddadl heddiw, ar y sylwadau a wnaed gan aelodau'r pwyllgor ac ar y rheini a roddodd dystiolaeth ychwanegol. Byddaf yn ail-ystyried nifer o elfennau yn y Mesur arfaethedig yn sgîl y sylwadau ystyriol a wnaed yma heddiw, yn enwedig ynghylch yr anghytuno ynghylch beth yw ystyr y term 'penderfyniad strategol' a'r mater o wneud iawn.

Fel y dywedais o'r cychwyn cyntaf, fy mwriad wrth gyflwyno'r Mesur arfaethedig yw gwneud deddf dda a fydd yn ymgorffori hawliau plant a phobl ifanc ym mhob cwr o Gymru. Felly, byddaf yn ystyried gwelliannau gan y Llywodraeth er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y ddeddf orau bosibl. Rwyf yn gobeithio symud ymlaen i'r cam nesaf yn y ffordd gytûn a grybwyllwyd gan Mark. Fel y dywedaf, bydd gwelliannau'n cael eu cyflwyno. Ni allaf bwysleisio digon pa mor bwysig yw hyn i mi fel Dirprwy Weinidog, i'n Llywodraeth ac i ddyfodol Cymru. Bydd y Mesur arfaethedig hwn yn helpu plant a phobl ifanc heddiw, ond bydd ei effaith yn fwy pellgyrhaeddol ac yn cyfrannu at wneud Cymru'n lle gwell i fyw i ni, i'n plant, i'n hwyrion ac i genedlaethau i ddod. Hoffwn bwysleisio bod mwy i'r Mesur arfaethedig na dim ond ymateb yn gadarnhaol

UN committee's recommendations or embedding the rights of children and young people simply for the sake of it; it is about making a real and positive change to the lives and futures of children and young people here in Wales.

More than anything, and Helen Mary Jones said this, this will require a major cultural shift, and that will take time. Welsh Ministers, by placing these duties upon themselves, will be setting an example, which will be the stimulus for such a cultural shift to take place across Wales. I think that we have a consensus on our strategic direction in the Chamber and, indeed, across Welsh civil society. The question, as Andrew Davies has said, is how far and how fast we travel in order to best engender that change. To answer that question, we now need to move forward to the next stage.

The Deputy Presiding Officer: The question is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. I therefore declare, in accordance with Standing Order No. 7.35, that the motion is agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

i argymhellion pwyllgor y Cenedloedd Unedig neu ymgorffori hawliau plant a phobl ifanc dim ond er mwyn gwneud hynny; mae'n ymwneud â gwneud newid gwirioneddol a chadarnhaol i fywydau a dyfodol plant a phobl ifanc yma yng Nghymru.

Yn anad dim, a dywedodd Helen Mary Jones hyn, bydd hyn yn gofyn am newid diwylliannol enfawr, a bydd hynny'n cymryd amser. Drwy osod y ddyletswydd hon ar eu hysgwyddau eu hunain, bydd Gweinidogion Cymru yn gosod esiampl a fydd yn sbardun i sicrhau'r newid diwylliannol hwnnw ar draws Cymru. Rwyf yn meddwl bod gennym gonsensws o ran ein cyfeiriad strategol yn y Siambr ac, yn wir, ar draws y gymdeithas sifil yng Nghymru. Y cwestiwn yw, fel y mae Andrew Davies wedi'i ddweud, pa mor gyflym a pha mor bell y mae'n rhaid inni fynd er mwyn sicrhau'r newid hwnnw yn y modd gorau posibl. I ateb y cwestiwn hwnnw, mae angen inni symud ymlaen i'r cam nesaf yn awr.

Y Dirprwy Lywydd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, rwyf yn datgan bod y cynnig yn cael ei dderbyn.

Penderfyniad Ariannol ynghylch y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

Financial Resolution regarding the Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure

Cynnig NDM4567 Huw Lewis

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), yn cytuno ag unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 23.80(ii), sy'n codi o ganlyniad i'r Mesur.

The Deputy Minister for Children (Huw Lewis): I move the motion.

Motion NDM4567 Huw Lewis

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 23.80(ii), arising in consequence of the Measure.

Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis): Cynigiau y cynnig.

The Deputy Presiding Officer: I have no speakers on the motion so we will move straight to a vote. The question is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. I therefore declare, in accordance with Standing Order No. 7.35, that the motion is agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 3.53 p.m.
The Presiding Officer took the Chair at 3.53 p.m.*

**Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.57 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch
Gwastraff (Cymru)
Stage 3 Standing Order No. 23.57 Debate on the Proposed Waste (Wales) Measure**

**Grŵp 1: Bagiau Siopa Untro—Cymhwyso Rheoliadau yn y Dyfodol (Gwelliant 1)
Group 1: Single Use Carrier Bags—Application of Future Regulations (Amendment 1)**

Y Llywydd: Mae un gwelliant yn y grŵp hwn, sef gwelliant 1. Galwaf ar y Gweinidog.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I move amendment 1 in my name.

Members of Legislation Committee No. 4 will recall that, at Stage 2, there was consideration of two amendments concerning the trigger for making regulations about applying the net proceeds of the carrier bag charge. In response, I agreed to consider whether it is possible to ensure that there is as much flexibility as possible regarding the way in which regulations about single-use carrier bags can be applied. We have given this further consideration, and we believe that it is appropriate to amend the proposed Measure in light of the points made at Stage 2. The powers currently available under Schedule 6 to the Climate Change Act 2008 allow regulations to be applied to all sellers of goods or only to some sellers. If the regulations are to be applied only to some sellers, those sellers must be identified by name, by reference to certain factors, which are set out in the Act, or by reference to a combination of both name and factors. Our amendment today widens the scope of the

Y Dirprwy Lywydd: Nid oes gennyf siaradwyr ar y cynnig felly symudwn ymlaen yn syth i bleidlais. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, rwyf yn datgan bod y cynnig yn cael ei dderbyn.

The Presiding Officer: There is one amendment in this group, amendment 1. I call on the Minister.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Cynigiau welliant 1 yn fy enw i.

Bydd aelodau Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 yn cofio bod dau welliant wedi cael eu hystyried yn ystod Cyfnod 2 ynghylch y sbardun i wneud rheoliadau ynghylch defnyddio'r enillion a geir wrth godi tâl am fagiau siopa. Mewn ymateb, cytunais i ystyried a yw'n bosibl sicrhau cymaint o hyblygrwydd â phosibl ynghylch y ffordd y gellir cymhwyso'r rheoliadau ar gyfer bagiau siopa untro. Rydym wedi ystyried hyn ymhellach, ac rydym yn credu ei bod yn briodol diwygio'r Mesur arfaethedig yn sgîl y pwyntiau a wnaed yng Nghyfnod 2. Mae'r pwerau sydd ar gael ar hyn o bryd o dan Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 yn caniatáu i reoliadau gael eu cymhwyso i bob gwerthwr nwyddau neu dim ond i rai gwerthwyr. Os bydd y rheoliadau'n cael eu cymhwyso i ddim ond rhai gwerthwyr, mae'n rhaid gallu adnabod y gwerthwyr hynny drwy eu henwi, drwy gyfeirio at ffactorau penodol—sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf—neu drwy gyfeirio at gyfuniad o'r enw a

power to apply regulations under Schedule 6 so that the factors that are currently specified in the Act are no longer an exhaustive list. This amendment will also allow exemptions and exceptions to be made. The result will be maximum flexibility, and Welsh Ministers will have the power to tailor the regulations appropriately. This would put beyond doubt, for example, that sellers identified by name could be exempted from any regulations. I ask you to support the amendment.

Angela Burns: In principle, we support this amendment, and I put on the record my thanks to Jonathan Morgan and Brian Gibbons for raising this issue during the committee proceedings, because I think that it adds great value to the proposed Measure.

The Presiding Officer: I have no other speakers on this debate. Do you wish to respond, Minister?

Jane Davidson: No, thank you.

Y Llywydd: A yw'r Gweinidog yn dymuno symud i bleidlais ar welliant 1, ynteu ei dynnu'n ôl?

Jane Davidson: I wish to proceed to a vote.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Ymddengys nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, gallaf ddatgan bod gwelliant 1 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 1.
Amendment agreed.*

Grŵp 2: Bagiau Siopa Untro—Sbardun ar Gyfer Cynllun Gorfodol (Gwelliant 5) Group 2: Single Use Carrier Bags—Trigger for Mandatory Scheme (Amendment 5)

Y Llywydd: Yr unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 5. Galwaf ar Angela Burns i'w gynnig ac i siarad arno.

Angela Burns: I move amendment 5 in my

ffactorau. Mae ein gwelliant heddiw yn ehangu cwmpas y pŵer i gymhwyso rheoliadau o dan Atodlen 6 fel nad yw'r ffactorau sy'n cael eu nodi yn y Ddeddf ar hyn o bryd yn rhestr gyflawn mwyach. Bydd y gwelliant hwn hefyd yn caniatáu gwneud esemptiadau ac eithriadau. Bydd hynny'n arwain at gymaint o hyblygrwydd â phosibl, a bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i deilwra'r rheoliadau'n briodol. Byddai hyn yn sicrhau, er enghraifft, y bydd gwerthwyr a enwir yn gallu cael eu heithrio o unrhyw reoliadau. Gofynnaf ichi gefnogi'r gwelliant.

Angela Burns: Mewn egwyddor, rydym yn cefnogi'r gwelliant hwn, ac rwyf yn diolch ar goedd i Jonathan Morgan a Brian Gibbons am godi'r mater hwn yn ystod trafodion y pwyllgor, oherwydd rwyf o'r farn ei fod yn ychwanegu gwerth mawr i'r Mesur arfaethedig.

Y Llywydd: Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill ar y ddadl hon. A ydych yn dymuno ymateb, Weinidog?

Jane Davidson: Nac ydw, diolch.

The Presiding Officer: Does the Minister wish to move to a vote on amendment 1, or withdraw it?

Jane Davidson: Rwyf yn dymuno symud i bleidlais.

The Presiding Officer: The question is that amendment 1 be agreed to. Are there any objections? It appears that there are no objections. In accordance with Standing Order No. 7.35, I can therefore declare that amendment 1 is agreed.

The Presiding Officer: The only amendment in this group is amendment 5. I call on Angela Burns to move and speak to her amendment.

Angela Burns: Cynigaf welliant 5 yn fy

name.

I am pleased to speak to this amendment, which is quite simply about identifying a trigger at which the mandatory scheme will be introduced in regulations. The first part of this amendment allows for consideration to be given to the pattern of carrier bag sales within two distinct years in order to prepare for a trigger. Without taking this information into consideration, we believe that the Minister has no benchmark on which to base her evidence. The second part of the amendment specifically deals with the point at which the regulations under the paragraph come into force.

We have set a target of increasing sellers' participation in the voluntary scheme by 20 per cent between 2011 and 2014. We must be clear that this amendment and this proposed Measure are about reducing carrier bag use rather than as a fundraising exercise. The Minister stated in committee that she would consider, at a later date, with retailers, what an appropriate trigger would be. However, we believe that that should be set under this proposed Measure, and that the Assembly must take more responsibility with this legislation. We accept that section 1 deals with the use of the net proceeds, but there is nothing to prevent an amendment regarding the trigger mechanism being inserted at this section of the proposed Measure. It is a sensible and obvious place to do so. Minister, I would ask you to reconsider your view on this.

Jonathan Morgan: I support the principle and wording of amendment 5 as proposed by Angela Burns. We considered a similar amendment at Stage 2. My view then, which remains now, was that we should do more to specify in the proposed Measure the arrangements for what will trigger a mandatory scheme. I accept the view of the Minister at Stage 2 that much of what we have been looking at in this proposed Measure is about the direction of the proceeds. However, this is part of a package of legislation that will also seek to determine whether or not we are successful in reducing the use of carrier bags. Ultimately this is a waste Measure; it is about ensuring a long-term behavioural change in the way that we

enw i.

Rwyf yn falch o gael siarad am y gwelliant hwn, sy'n ymwneud â nodi sbardun ar gyfer cyflwyno'r cynllun gorfodol mewn rheoliadau. Mae rhan gyntaf y gwelliant hwn yn caniatáu ystyried patrwm gwerthiannau bagiau siopa o fewn dwy flynedd benodol er mwyn paratoi ar gyfer sbardun. Heb ystyried y wybodaeth hon, rydym o'r farn nad oes gan y Gweinidog unrhyw feincnod i seilio ei thystiolaeth arni. Mae ail ran y gwelliant yn ymdrin yn benodol â'r pwynt lle mae'r rheoliadau o dan y paragraff yn dod i rym.

Rydym wedi gosod targed i gynyddu cyfranogiad gwerthwyr yn y cynllun gwirfoddol 20 y cant rhwng 2011 a 2014. Rhaid inni fod yn glir bod y gwelliant hwn a'r Mesur arfaethedig hwn yn ymwneud â defnyddio llai o fapiau siopa yn hytrach nag ymarfer codi arian. Dywedodd y Gweinidog yn y pwyllgor y byddai, gyda siopau, ystyried beth fyddai'n sbardun priodol yn nes ymlaen. Fodd bynnag, rydym yn credu y dylid pennu hynny o dan y Mesur arfaethedig hwn, a bod rhaid i'r Cynulliad gymryd mwy o gyfrifoldeb dros y ddeddfwriaeth hon. Rydym yn derbyn bod adran 1 yn ymdrin â'r modd y defnyddir yr enillion, ond nid oes dim byd yn ein hatal rhag mewnosod y mecanwaith sbardun yn yr adran hon o'r Mesur arfaethedig. Mae'n lle synhwyrol ac amlwg i wneud hynny. Weinidog, byddwn yn gofyn ichi ailystyried eich barn am hyn.

Jonathan Morgan: Rwyf yn cefnogi egwyddor a geiriad gwelliant 5, fel y'i cynigiwyd gan Angela Burns. Gwnaethom ystyried gwelliant tebyg yng Nghyfnod 2. Fy marn bryd hynny—a dyna yw fy marn o hyd—yw y dylem wneud mwy i amlinellu'r trefniadau yn y Mesur arfaethedig ar gyfer beth fydd yn sbarduno cynllun gorfodol. Derbyniaf farn y Gweinidog yng Nghyfnod 2 bod llawer o'r hyn rydym wedi bod yn ei ystyried yn y Mesur arfaethedig hwn yn ymwneud â chyfeiriad yr enillion. Fodd bynnag, mae hyn yn rhan o becyn o ddeddfwriaeth a fydd hefyd yn ceisio penderfynu a ydym yn llwyddo ai peidio i ddefnyddio llai o fapiau siopa. Mesur Gwastraff yw hwn yn sylfaenol; mae'n

approach our shopping habits. We felt strongly that part of the proposed Measure should allow for a trigger mechanism to be included. I know that it is useful for Government to be able to rely on the process of making regulations in order to put much of the detail into practice, but I think that, as a principle, the Assembly should take more of an interest in ensuring that more of the detail of law is enshrined on the face of the proposed Measure and not merely left to regulation. It is good parliamentary practice that we should seek to follow, and I, for one, would like to see this amendment agreed in order to allow for that trigger mechanism set at the 20 per cent level, as Angela said, to be enshrined on the face of the proposed Measure. I accept that it puts the Government in difficulty, because changing the proposed Measure requires more hard work on its part than merely having to alter a regulation. However, as a matter of principle, it is right that the Assembly should consider how this trigger could be enshrined in law.

4.00 p.m.

Kirsty Williams: I support the amendment tabled in the name of Angela Burns. A similar amendment was tabled at Stage 2, but there was some ambiguity about the correctness of its wording at that stage, which led my colleague, Peter Black, to abstain from the vote. However, that issue has now been sorted out.

As Jonathan Morgan stated, even if we are not successful in changing the proposed legislation before us, it is important to have clarity from the Government on how the Minister intends to measure the success of the proposed Measure. During the Stage 1 debate and when I took evidence at committee, there was a great deal of concern about the stage at which the voluntary scheme is deemed to have failed or not delivered the desired outcomes, and when the Minister would take the next step of entering the mandatory phase. In previous debates in the Chamber, I have never received a satisfactory explanation from the Minister of

ymwneud â sicrhau newid ymddygiadol ein harferion siopa yn yr hirdymor. Roeddem yn teimlo'n gryf y dylai rhan o'r Mesur arfaethedig ganiatáu cynnwys mecanwaith sbardun. Gwn ei bod yn ddefnyddiol i'r Llywodraeth allu dibynnu ar y broses o lunio rheoliadau er mwyn rhoi llawer o'r manylion ar waith, ond credaf y dylai'r Cynulliad—fel egwyddor—gymryd mwy o ddeddordeb mewn sicrhau bod mwy o fanylion y ddeddf yn cael eu cynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig ac nid yn cael eu gadael i'r rheoliadau yn unig. Mae'n arfer seneddol da y dylem geisio ei ddilyn, a byddwn i'n dymuno ein gweld yn cytuno ar y gwelliant hwn er mwyn caniatáu i'r mecanwaith sbardun hwnnw a bennwyd ar y lefel 20 y cant, fel y dywedodd Angela, gael ei gynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig. Rwyf yn derbyn bod hyn yn creu anhawster i'r Llywodraeth, gan fod newid y Mesur arfaethedig yn golygu mwy o waith caled i'r Llywodraeth yn hytrach na dim ond gorfod addasu rheoliad. Fodd bynnag, fel mater o egwyddor, mae'n briodol y dylai'r Cynulliad ystyried sut y gallai'r sbardun hwn gael ei gynnwys yn y ddeddf.

Kirsty Williams: Rwyf yn cefnogi'r gwelliant a gyflwynwyd yn enw Angela Burns. Cafodd gwelliant tebyg ei gyflwyno yng Nghyfnod 2, ond roedd rhywfaint o amwysedd ynghylch cywirdeb y geiriad ar y pryd, a gwnaeth fy nghyd-Aelod, Peter Black, ymatal ei bleidlais oherwydd hynny. Fodd bynnag, mae'r mater hwnnw wedi cael ei ddatrys erbyn hyn.

Fel y dywedodd Jonathan Morgan, hyd yn oed os na fyddwn yn llwyddo i newid y ddeddfwriaeth arfaethedig sydd ger ein bron, mae'n bwysig cael eglurder gan y Llywodraeth ynghylch sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu mesur llwyddiant y Mesur arfaethedig. Yn ystod dadl Cyfnod 1 a phan fûm yn derbyn tystiolaeth yn y pwyllgor, roedd llawer o bryder am y cyfnod pan ystyrir bod y cynllun gwirfoddol wedi methu neu heb gyflawni'r canlyniadau a ddymunid, a phryd y byddai'r Gweinidog yn cymryd y cam nesaf o ddechrau ar y cyfnod gorfodol. Mewn dadleuon blaenorol yn y Siambr, nid wyf erioed wedi cael esboniad boddhaol gan

what will constitute success in this respect.

As Jonathan said, I appreciate that it is far more difficult to amend primary legislation than regulations, but we should at least hear from the Minister what will constitute success and the intended policy goal of the proposed legislation that we are passing. Then, if that fails, at what stage will she introduce the measures that were described by some who gave evidence as 'draconian' and as having a negative impact? We should tease out these issues before we proceed to a vote.

Jenny Randerson: Time and again, we heard from witnesses that they found it difficult to give evidence on the proposed Measure because they did not know what the Minister was eventually going to do. As so much is to be achieved by regulations, they were unable to tackle even the shape of it, let alone its detail. This is not a good way to make legislation. You need to be more specific. I fully understand that the Government wishes to retain some of its cards and reveal them later as circumstances develop and change, but in this case, it seems that the Government has virtually all the cards left in its hands, not even revealing the basic outline.

What worries me about this aspect of the proposed Measure is that we are urging the public and shopkeepers to reduce the number of carrier bags used. When we took evidence, as Chair of the committee, I received a vast number of e-mails about the payment for carrier bags and the proposals to reduce the number used. It is a hugely controversial issue, although many of the e-mails related to another piece of legislation. However, the issue is the same in people's minds and they are greatly exercised by it.

Therefore, the Government is urging the public and shopkeepers to reduce the number of carrier bags that they use, but it does not specify what success will look like. It is urging people to get to the end of the race without telling them where the winning post is. The Minister is not opposed to having targets, because they crop up elsewhere as a

y Gweinidog ynghylch beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant yn hyn o beth.

Fel y dywedodd Jonathan, rwyf yn sylweddoli ei bod yn anos o lawer diwygio deddfwriaeth sylfaenol na rheoliadau, ond dylem o leiaf gael clywed gan y Gweinidog beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant a beth yw nod polisi bwriedig y ddeddfwriaeth arfaethedig rydym yn ei phasio. Yna, os bydd hynny'n methu, pryd y bydd yn cyflwyno'r mesurau a gafodd eu disgrifio gan rai a roddodd dystiolaeth fel rhai 'llym' ac a fydd yn cael effaith negyddol? Dylem ddatrys y materion hyn cyn symud ymlaen i bleidlais.

Jenny Randerson: Dro ar ôl tro, clywsom dystion yn dweud eu bod yn ei chael yn anodd rhoi tystiolaeth ar y Mesur arfaethedig oherwydd nad oeddent yn gwybod beth roedd y Gweinidog yn mynd i'w wneud yn y pen draw. Gan fod cymaint i'w gyflawni drwy reoliadau, nid oeddent yn gallu mynd i'r afael â'i amlinelliad hyd yn oed, heb sôn am ei fanylion. Nid yw hyn yn ffordd dda o wneud deddfwriaeth. Mae angen ichi fod yn fwy penodol. Rwyf yn deall yn iawn bod y Llywodraeth yn dymuno dal rhai o'i chardiau'n ôl a'u datgelu yn nes ymlaen wrth i'r amgylchiadau ddatblygu a newid, ond yn yr achos hwn, mae'n ymddangos bod y Llywodraeth yn dal pob un o'i chardiau'n ôl bron, heb ddatgelu'r amlinelliad sylfaenol hyd yn oed.

Yr hyn sy'n fy mhoeni am yr agwedd hon ar y Mesur arfaethedig yw ein bod yn annog y cyhoedd a pherchnogion siopau i leihau nifer y bagiau siopa a ddefnyddir. Pan oeddem yn derbyn tystiolaeth, fel Cadeirydd y pwyllgor cefais nifer helaeth o negeseuon e-bost ynghylch talu am fagiau siopa a'r cynlluniau i leihau'r nifer a ddefnyddir. Mae'n fater hynod ddadleuol, er bod llawer o'r negeseuon e-bost yn ymwneud â darn arall o ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, un pwnc ydyw ym meddyliau pobl, ac mae'n peri pryder mawr iddynt.

Felly, mae'r Llywodraeth yn annog y cyhoedd a pherchnogion siopau i leihau nifer y bagiau siopa y maent yn eu defnyddio, ond nid yw'n dweud beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant. Mae'n annog pobl i gyrraedd diwedd y ras heb ddweud wrthynt lle mae'r llinell derfyn. Nid yw'r Gweinidog yn gwrthwynebu cael targedau, gan eu bod yn

concept in the legislation, and there are plenty throughout the Minister's portfolio. However, it is not good government for the Minister to have no obligation to tell us what the targets are or when she will make up her mind on them. It is important that the public and shopkeepers know what they are aiming for; otherwise, there will be no incentive for them to deal with the problem. This amendment may not have the appropriate target, but we have no idea what you have in mind, Minister. We do not know whether you are talking about 5 per cent or 50 per cent. It would be helpful for us all to have some idea of the ballpark figure.

Jane Davidson: The Members who have spoken to this amendment so far have acknowledged that part of the complexity of this legislation comes from the fact that the introduction of the charge comes under the climate change legislation and is not related to the proposed Measure. The proposed Measure is looking at the destination of funds, as was promoted by the Sustainability Committee in its previous work. It is terribly important that we do not have a policy debate about a legislative amendment, but that we test at this stage in the process whether the legislative amendment is fit for purpose. I fully understand that the intention is to capture what might be measured when considering whether the voluntary agreement has delivered satisfactory outcomes, but the proposal falls short of that delivery.

The number of sellers who voluntarily give the proceeds to good causes is not a useful reference point on its own, because the number of single-use carrier bags supplied by sellers varies greatly between the larger retailers and the smaller shops. Ninety per cent of bags are supplied by a small number of sellers, namely the seven major supermarkets, so an increase of 20 per cent would not, in itself, indicate an increase in the amount of money finding its way to good causes.

In addition, a number of technical drafting defects in the amendment mean that, if passed, it would lead to ambiguity and a lack of clarity on the face of the legislation. For

ymddangos fel cysyniad mewn manau eraill yn y ddeddfwriaeth, ac mae digonedd ohonynt ym mhorthffolio'r Gweinidog. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith nad oes rhaid i'r Gweinidog ddweud wrthym beth yw'r targedau, na phryd y bydd yn penderfynu arnynt, yn enghraifft o lywodraethu da. Mae'n bwysig bod y cyhoedd a pherchnogion siopau yn gwybod beth maent yn anelu ato; fel arall, ni fydd unrhyw gymhelliant iddynt fynd i'r afael â'r broblem. Efallai nad yw'r gwelliant hwn yn cynnwys y targed priodol, ond nid oes gennym unrhyw syniad beth sydd gennych mewn golwg, Weinidog. Nid ydym yn gwybod a ydych yn sôn am 5 y cant ynteu 50 y cant. Byddai'n help i bob un ohonom gael rhyw syniad beth yw'r ffigur bras.

Jane Davidson: Mae'r Aelodau sydd wedi siarad ar y gwelliant hwn hyd yma wedi cydnabod bod elfen o gymhlethdod y ddeddfwriaeth hon yn deillio o'r ffaith bod cyflwyno'r tâl yn dod o dan y ddeddfwriaeth newid hinsawdd, ac nad yw'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig. Mae'r Mesur arfaethedig yn edrych ar ben taith yr arian, fel y bu'r Pwyllgor Cynaliadwyedd yn ei hyrwyddo yn ei waith blaenorol. Mae'n hynod bwysig nad ydym yn cael dadl bolisi ar welliant deddfwriaethol, ond ein bod yn profi ar y cam hwn yn y broses a yw'r gwelliant deddfwriaethol yn addas i'r pwrpas. Rwyf yn deall yn iawn mai'r bwriad yw canfod yr hyn y gellid ei fesur wrth ystyried a yw'r cytundeb gwirfoddol wedi sicrhau canlyniadau boddhaol, ond nid yw'r cynnig yn llwyddo i wneud hynny.

Nid yw nifer y gwerthwyr sy'n rhoi'r enillion i achosion da o'u gwirfodd yn bwynt cyfeirio defnyddiol ar ei ben ei hun, gan fod nifer y bagiau siopa untro a ddarperir gan werthwyr yn amrywio'n fawr rhwng y siopau mawr a'r siopau bach. Mae 90 y cant o'r bagiau yn cael eu darparu gan nifer bach o werthwyr, sef y saith prif archfarchnad, felly ni fyddai 20 y cant o gynnydd, ynddo'i hun, yn dangos cynnydd o ran faint o arian sy'n cyrraedd achosion da.

Hefyd, ceir nifer o ddiffygion drafftio technegol yn y gwelliant a fyddai, pe bai'r gwelliant yn cael ei basio, yn arwain at amwysedd a diffyg eglurder ar wyneb y

example, the amendment is drafted with a reference to making regulations under the paragraph that it would insert, but no regulation-making power is conferred by that paragraph. The amendment requires the Welsh Ministers to

‘have regard to the number of sellers operating arrangements for the application of the net proceeds’.

However, it does not confine those arrangements to applying the net proceeds to good causes. The references to financial years are ambiguously drafted, and there is no provision to confine the effect of the amendment to the first set of regulations made about the uses to which the proceeds are put. It would require regard to be given to the number of sellers operating arrangements for applying the proceeds between 2011 and 2014, even where regulations were to be made in the years much further beyond that. For those reasons, the Government cannot support this amendment, and I ask Members to resist it. I also point out that the regulations were published yesterday, and there will be an opportunity for Members to consider further the regulations for the delivery of the carrier bag charge on 30 November.

Angela Burns: I thank those who have contributed to the debate on this amendment, and I want to raise a couple of issues in response. First, I do not agree that it has been ambiguously drafted. It was drafted with the help of good legal experts, who say that there is no legal issue whatsoever with inserting this amendment into this section of the proposed Measure.

Secondly, I am prepared to accept that it may not be 20 per cent, as it could be 10 per cent or 40 per cent, and that you may choose to move to different dates, but the whole objective of this amendment was to try to flush out of the Government where we are going. As the Chair of the legislation committee so eloquently put it, no-one understands what the target is or what this is driving towards.

4.10 p.m.

ddeddfwriaeth. Er enghraifft, mae'r gwelliant wedi'i ddrafftio gyda chyfeiriad at wneud rheoliadau o dan y paragraff y byddai'n ei fewnosod, ond nid yw'r paragraff hwnnw'n cyflwyno unrhyw bŵer i wneud rheoliadau. Mae'r gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru

ystyried nifer y gwerthwyr sy'n gweithredu trefniadau i ddefnyddio'r enillion.

Fodd bynnag, nid yw'n cyfyngu'r trefniadau hynny i roi'r enillion i achosion da. Mae'r cyfeiriadau at y blynyddoedd ariannol wedi cael eu drafftio'n amwys, ac nid oes darpariaeth i gyfyngu effaith y gwelliant i'r set gyntaf o reoliadau ynghylch sut i ddefnyddio'r enillion. Byddai'n rhaid ystyried nifer y gwerthwyr sy'n gweithredu trefniadau i ddefnyddio'r enillion rhwng 2011 a 2014, hyd yn oed pe bai rheoliadau yn cael eu gwneud flynyddoedd lawer ar ôl hynny. Am y rhesymau hynny, ni all y Llywodraeth gefnogi'r gwelliant hwn, a gofynnaf i'r Aelodau ei wrthod. Hoffwn hefyd dynnu sylw at y ffaith mai ddoe gafodd y rheoliadau eu cyhoeddi, a bydd cyfle i'r Aelodau ystyried ymhellach y rheoliadau ar gyfer cyflwyno'r tâl bagiau siopa ar 30 Tachwedd.

Angela Burns: Diolch i'r rheini sydd wedi cyfrannu at y ddadl ar y gwelliant hwn, a hoffwn godi cwpl o faterion mewn ymateb i hynny. Yn gyntaf, nid wyf yn cytuno ei fod wedi cael ei ddrafftio'n amwys. Cafodd ei ddrafftio gyda chymorth arbenigwyr cyfreithiol da, sy'n dweud nad oes unrhyw broblem gyfreithiol o gwbl ynghylch mewnosod y gwelliant hwn yn yr adran hon o'r Mesur arfaethedig.

Yn ail, rwyf yn fodlon derbyn na fydd yn 20 y cant o bosibl, gan y gallai fod yn 10 y cant neu'n 40 y cant, ac y gallwch ddewis newid i ddyddiadau gwahanol, ond holl amcan y gwelliant hwn oedd ceisio cael gwybod gan y Llywodraeth beth yw ein nod. Fel y dywedodd Cadeirydd y pwyllgor deddfwriaeth mor huawdl, nid oes neb yn deall beth yw'r targed na beth rydym yn anelu ato.

I thought that we were trying to produce good law that enables the people of Wales to see simply, clearly and easily where we are trying to go on their behalf. This amendment would really have added to that, and I ask Members to reconsider in light of that. We should be aiming for clarity and transparency. The idea of placing a levy on carrier bags came from a member of the public. It is a great suggestion, and we owe it to him to ensure that we take that on board and that we inform the public of what we will try to do, when we will try to do it, and how we will measure the outcome. That is what we should be about: outcomes.

The Presiding Officer: I take it that you wish to move to a vote on amendment 5.

Angela Burns: Yes, please.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 5. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

Roeddwn yn meddwl ein bod yn ceisio creu deddf dda sy'n galluogi pobl Cymru i weld yn syml, yn glir ac yn hawdd beth rydym yn ceisio ei gyflawni ar eu rhan. Byddai'r gwelliant hwn wir wedi ychwanegu at hynny, a gofynnaf i'r Aelodau ailystyried gyda hynny mewn cof. Dylem fod yn anelu at eglurder a thryloywder. Aelod o'r cyhoedd gafodd y syniad o osod ardoll ar fagioiau siopa. Mae'n awgrym gwych, ac mae gennym ddyletswydd iddo i sicrhau ein bod yn ystyried hynny a'n bod yn dweud wrth y cyhoedd beth fyddwn yn ceisio ei wneud, pryd y byddwn yn ceisio ei wneud, a sut y byddwn yn mesur y canlyniad. Dyna ddylai fod yn bwysig inni: canlyniadau.

Y Llywydd: Rwyf yn cymryd eich bod yn dymuno symud i bleidlais ar welliant 5.

Angela Burns: Ydw, os gwelwch yn dda.

The Presiding Officer: The question is that amendment 5 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 5: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 30.
Amendment 5: For 14, Abstain 0, Against 30.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Graham, William
Melding, David
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne

Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 5.
Amendment 5 not agreed.*

Grŵp 3: Targedau Gwastraff—Rheoliadau i Osod Targedau Gwastraff (Gwelliant 4) **Group 3: Waste Targets—Regulations to Set Waste Targets (Amendment 4)**

Y Llywydd: Symudwn yn awr at y trydydd grŵp. Un gwelliant yn unig sydd yn y grŵp hwn hefyd, sef gwelliant 4.

Kirsty Williams: I move amendment 4 in my name with the name of Angela Burns in support.

As Members will be aware, the proposed Measure before us gives the Welsh Ministers the powers to set waste targets. As Liberal Democrats, we accept the principle of the waste targets, provided that they are targets for the amount of waste recycled. However, since the publication of the proposed Measure, there has been growing concern from local government that these targets could be extended—and if not by this Minister, by a future Minister—to look at the form that a collection may take. The Minister might argue this afternoon that it is not her intention to impose targets for collection methods, and it is true that the explanatory memorandum that accompanies the legislation makes no mention of that. However, we are drafting legislation today that future Ministers can use, and not only this Minister, who may be able to give us her assurances that it is not her intention to set targets for the type of collection. We need to state explicitly that these targets relate only to the amount of waste that is recycled, as I do not believe that the proposed Measure is explicit on that.

At present, each local authority has its own practice for waste collection. Some use weekly collections; others, fortnightly collections. As regards recycling, some use kerbside sorting, some require residents to sort their own waste, and others collect in

The Presiding Officer: We now move to the third group. There is again only one amendment in this group, amendment 4.

Kirsty Williams: Cynigiau welliant 4 yn fy enw i, gydag enw Angela Burns yn ei gefnogi.

Fel y gwyr yr Aelodau, mae'r Mesur arfaethedig sydd ger ein bron yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru osod targedau gwastraff. Rydym ni, y Democratiaid Rhyddfrydol, yn derbyn egwyddor y targedau gwastraff, ar yr amod eu bod yn dargedau ar gyfer faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu. Fodd bynnag, ers cyhoeddi'r Mesur arfaethedig, mae llywodraeth leol wedi bod yn pryderu mwy a mwy y gallai'r targedau hyn gael eu hehangu—ac os nad gan y Gweinidog hwn, gan Weinidog yn y dyfodol—i edrych ar y ffordd o gasglu gwastraff. Efallai y bydd y Gweinidog yn dadlau y prynhawn yma nad yw'n bwriadu pennu targedau ar gyfer dulliau casglu, ac mae'n wir nad yw'r memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd â'r deddfwriaeth yn sôn am hynny o gwbl. Fodd bynnag, rydym yn drafftio deddfwriaeth heddiw y gall Gweinidogion yn y dyfodol ei defnyddio, ac nid dim ond y Gweinidog hwn a fydd efallai'n ein sicrhau nad yw'n bwriadu gosod targedau ar gyfer y math o ddulliau casglu. Mae angen inni ddatgan mai dim ond i faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu y mae'r targedau hyn yn berthnasol, gan nad wyf yn credu bod y Mesur arfaethedig yn dweud hynny'n bendant.

Ar hyn o bryd, mae gan bob awdurdod lleol ei ddull ei hun ar gyfer casglu gwastraff. Mae rhai'n casglu bob wythnos, tra mae awdurdodau eraill yn casglu bob pythefnos. O ran ailgylchu, mae rhai'n defnyddio dulliau didoli ar garreg y drws, mae rhai'n gofyn i'r

bulk and have their own sorting facilities. Each local authority will have made those decisions based on the needs of the local community. Indeed, in some local authorities, the needs may vary from community to community, depending on what is appropriate for the location. For instance, the roads in one area may make kerbside sorting impractical and even dangerous if there is a large amount of traffic passing. If there is a large number of houses in multiple occupation in another area, the local authority may decide that too many containers outside the properties would be unacceptable, and therefore a mixed collection is the accepted means of collecting rubbish from those properties.

I believe that local authorities are best placed to know what works in their area. If, at some point in the future, the Welsh Assembly Government chooses to impose a particular method of collection on local authorities, that would actively go against the spirit of localism that I want to see the Welsh Assembly Government embracing. Furthermore, a forced change to collection systems could potentially cost a local authority a great deal of money. Regardless of how likely it is that a future Government will choose to set up these kinds of targets, our amendment makes it clear that such targets are outside the scope of the proposed Measure. Surely, it is the total amount of refuse collected that is important. I know that the Minister says that that is her stated goal, but we believe that the legislation needs to be drafted in a specific way to ensure that no future Government could set targets for the type of waste collected, and that will be subject to a new legislative process.

Angela Burns: The Welsh Conservatives support the Welsh Liberal Democrats in this amendment. We are not here to micromanage. The people who run our county councils throughout the land are well-paid, and usually well-trained—to be frank, if they are not, they should not be there. However, we would hope that they are up to

preswylwyr ddidoli eu gwastraff eu hunain, ac mae awdurdodau eraill yn casglu mewn swmp ac mae ganddynt eu cyfleusterau didoli eu hunain. Bydd pob awdurdod lleol wedi gwneud y penderfyniadau hynny ar sail anghenion y gymuned leol. Yn wir, mewn rhai awdurdodau lleol, mae'n bosibl y bydd yr anghenion yn amrywio o gymuned i gymuned, gan ddibynnu ar yr hyn sy'n addas i'r lleoliad. Er enghraifft, efallai fod y ffyrdd mewn un ardal yn ei gwneud yn anymarferol i ddidoli ar garreg y drws, a hyd yn oed yn beryglus os oes llawer o draffig yno. Os oes nifer mawr o dai mewn amfeddiannaeth mewn ardal arall, efallai y bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu y byddai gormod o gynwysyddion y tu allan i'r tai yn annerbyniol, ac felly mai casgliad cymysg yw'r ffordd dderbyniol o gasglu sbwriel gan y tai hynny.

Rwyf fi o'r farn mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i wybod beth sy'n gweithio yn eu hardal. Pe bai Llywodraeth Cynulliad Cymru, rywbryd yn y dyfodol, yn dewis gorfodi awdurdodau lleol i ddefnyddio dull penodol o gasglu, byddai hynny'n mynd yn groes i'r ysbryd o leoliaeth yr hoffwn weld Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei goleddu. Ar ben hynny, gallai eu gorfodi i newid eu systemau casglu gostio llawer o arian i awdurdodau lleol. Ni waeth pa mor debygol ydyw y bydd Llywodraeth yn y dyfodol yn dewis sefydlu'r mathau hyn o dargedau, mae ein gwelliant ni yn ei gwneud yn glir bod targedau o'r fath y tu hwnt i gwmpas y Mesur arfaethedig. 'Does bosibl mai faint o wastraff sy'n cael ei gasglu i gyd sy'n bwysig. Gwn fod y Gweinidog yn dweud mai dyna yw ei nod benodol, ond credwn fod angen i'r ddeddfwriaeth gael ei drafftio mewn ffordd benodol i sicrhau na allai unrhyw Lywodraeth yn y dyfodol osod targedau ar gyfer y math o wastraff sy'n cael ei gasglu, ac a fyddai'n destun proses ddeddfwriaethol newydd.

Angela Burns: Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi Democratiaid Rhyddfrydol Cymru gyda'r gwelliant hwn. Nid ydym yn ceisio microeoli. Mae'r bobl sy'n rhedeg ein cynghorau sir ym mhob cwr o'r wlad yn cael eu talu'n dda, ac wedi'u hyfforddi'n dda fel arfer—os nad ydynt, ni ddylent fod yno, a siarad yn blwmp ac yn blaen. Fodd bynnag,

the job. They know their local areas and what works best there better than we sitting here in Cardiff ever could. I support this amendment and urge all Members to do so. We need to let local people have their own democracy. They need to be able to do what they wish and we need to defend Wales against yet more red tape. There is a tendency to micromanage in this area, and I am extremely worried about the draft municipal sector plan, which states in part 1 that:

‘the Welsh Assembly Government believes that the optimum configuration of collection services to deliver the best sustainable outcomes cost effectively is kerbside sort’.

That does not work everywhere; there is no one-size-fits-all solution. The Welsh Local Government Association is extremely worried about this and, as Kirsty Williams has already said, this Minister may have one set of views, and may not intend to go down that route, but this legislation will live on beyond this Minister, and future Ministers may want to achieve other objectives with it. Again, we must defend Wales from yet more red tape, and we must promote localism and people’s collective responsibility for their actions. We talk about this across all of our parties, and I ask all Members to support this amendment because, at the end of the day, we need to trust other people.

Jane Davidson: You will not be surprised to hear that I take a contrary view on this amendment. The approach that we have taken in establishing recycling preparation for re-use and composting targets under section 3 of the proposed Measure is to provide the national targets for all 22 local authorities. The establishment of those targets followed extensive research and modelling, with wide-ranging consultation and discussion with local authorities regarding the appropriate target level. In fact, we are now three and a half years on from where we started in these discussions. I am happy to confirm to Kirsty

byddem yn gobeithio eu bod yn gallu gwneud eu gwaith yn iawn. Maent yn adnabod eu hardaloedd lleol ac yn gwybod beth sy'n gweithio orau yno yn well nag y gallem ni, sy'n eistedd yma yng Nghaerdydd, fyth ei wybod. Rwyf yn cefnogi'r gwelliant hwn ac yn annog pob Aelod i wneud hynny. Mae angen inni adael i bobl leol gael eu democratiaeth eu hunain. Mae angen iddynt allu gwneud yr hyn y maent yn dymuno ei wneud, ac mae angen inni amddiffyn Cymru rhag mwy fyth o fiwrocratiaeth. Ceir tuedd i ficoreoli yn y maes hwn, ac rwyf yn bryderus iawn am gynllun y sector trefol drafft, sy'n datgan yn rhan 1 bod:

‘Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn mai'r cyfluniad gorau posib o wasanaethau casglu a fydd yn cyflenwi'r canlyniadau cynaliadwy gorau yn gost effeithiol yw didoli ar garreg y drws’.

Nid yw hynny'n gweithio ym mhob man; nid oes un ateb sy'n addas i bawb. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn bryderus iawn am hyn ac, fel y mae Kirsty Williams eisoes wedi'i ddweud, efallai fod gan y Gweinidog hwn un set o safbwyntiau ac nad yw'n bwriadu dilyn y trywydd hwnnw, ond bydd y ddeddfwriaeth hon yma ar ôl y Gweinidog, ac efallai y bydd Gweinidogion yn y dyfodol am ei defnyddio i gyflawni amcanion eraill. Unwaith eto, mae'n rhaid inni amddiffyn Cymru rhag mwy fyth o fiwrocratiaeth, ac mae'n rhaid inni hyrwyddo lleoliaeth a chyd-gyfrifoldeb pobl dros eu gweithredoedd. Mae ein holl bleidiau yn sôn am hyn, a gofynnaf i bob Aelod gefnogi'r gwelliant hwn oherwydd, yn y pen draw, mae angen inni ymddiried mewn pobl eraill.

Jane Davidson: Ni fyddwch yn synnu wrth glywed fod gennyf fi farn wahanol ar y gwelliant hwn. Yr ymagwedd rydym wedi'i harddel wrth sefydlu targedau ailgylchu, paratoi i aildefnyddio a chompostio o dan adran 3 y Mesur arfaethedig yw darparu'r targedau cenedlaethol ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol. Cafodd y targedau hynny eu sefydlu yn dilyn gwaith ymchwil a modelu helaeth gydag ymgynghoriad a thrafodaeth eang ag awdurdodau lleol ynghylch y lefel targed briodol. Yn wir, rydym wedi symud ymlaen dair blynedd a hanner gyda'r trafodaethau hyn. Rwyf yn fodlon cadarnhau

that we have no plans to establish any other targets under section 4 of the proposed Measure, and we have absolutely no plans to establish targets relating to the methodology of waste collection. Our approach through sector plans is to recommend to local authorities the most sustainable methods of waste collection based on the current evidence base and taking account of cost, environmental performance and green job creation. It is because that evidence base will continue to change that we believe that not only would the establishment of any other targets in the future using powers under the proposed Measure need to follow the usual process of policy development, including consultation with local authorities, but it would be utterly inappropriate to restrict the flexibility of future Governments around the setting of waste targets.

We have come a long way in the last decade. In 2000 we were recycling around 7 per cent of municipal waste, and that was in the better local authorities. Now, we are recycling nearly 60 per cent of municipal waste in our best local authorities.

Darren Millar: I am interested to hear your response on this particular amendment. I am pleased that you do not intend to issue any guidance on the type or methodology of collection in the future. You will know that there have been concerns in Denbighshire in my constituency, for example, about what the local authority felt was an instruction by the Assembly Government in relation to the methodology of kerbside collection and sorting by households. Could you assure us that you will not be issuing guidance on this in the future? I want some clarity on this matter, because there appears to be a bit of confusion. I had a response from you, which was helpful, but it did not say what you have just said.

4.20 p.m.

Jane Davidson: It said exactly what I have just said, which is that we have no plans to establish other statutory targets under section 4 of the proposed Measure. In our consultation on the municipal sector plan, we

wrth Kirsty nad oes gennym unrhyw gynlluniau i sefydlu unrhyw dargedau eraill o dan adran 4 y Mesur arfaethedig, ac nid oes gennym unrhyw gynlluniau o gwbl i sefydlu targedau sy'n ymwneud â methodoleg casglu gwastraff. Ein hymagwedd drwy gynlluniau sector yw argymhell y dulliau mwyaf cynaliadwy o gasglu gwastraff i'r awdurdodau lleol, yn seiliedig ar y sylfaen dystiolaeth bresennol, ac wrth ystyried costau, perfformiad amgylcheddol a chreu swyddi gwyrdd. Bydd y sylfaen dystiolaeth honno'n dal i newid, a dyna pam rydym yn credu y byddai angen dilyn y broses arferol o ddatblygu polisiau—gan gynnwys ymgynghori ag awdurdodau lleol—wrth sefydlu unrhyw dargedau eraill yn y dyfodol, ond byddai'n gwbl amhriodol cyfyngu hyblygrwydd Llywodraethau yn y dyfodol yng nghyswllt gosod targedau gwastraff.

Rydym wedi dod ymhell yn y degawd diwethaf. Yn 2000, roeddem yn ailgylchu tua 7 y cant o wastraff trefol, ac roedd hynny yn yr awdurdodau lleol gorau. Yn awr, rydym yn ailgylchu bron i 60 y cant o wastraff trefol yn ein hawdurdodau lleol gorau.

Darren Millar: Rwyf yn awyddus i glywed eich ymateb ynghylch y gwelliant penodol hwn. Rwyf yn falch nad ydych yn bwriadu cyhoeddi unrhyw ganllawiau ar y math o ddulliau casglu neu fethodoleg casglu yn y dyfodol. Byddwch yn gwybod y bu pryderon yn sir Ddinbych yn fy etholaeth i, er enghraifft, am yr hyn roedd yr awdurdod lleol yn teimlo a oedd yn orchymyn gan Lywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â methodoleg casglu o ddrws i ddrws a didoli gan aelwydydd. A allech ein sicrhau na fyddwch yn cyhoeddi canllawiau ar hyn yn y dyfodol? Hoffwn gael rhywfaint o eglurder ar y mater hwn, oherwydd ceir tipyn o ddryswch yn ôl pob golwg. Cefais ymateb gennych, a oedd yn ddefnyddiol, ond nid oedd yn dweud yr hyn rydych newydd ei ddweud.

Jane Davidson: Roedd yn dweud yn union beth rwyf newydd ei ddweud, sef nad oes gennym unrhyw gynlluniau i sefydlu targedau statudol eraill o dan adran 4 y Mesur arfaethedig. Yn ein hymgyngoriad ar

asked whether or not we should be looking at funding the most sustainable methods of waste collection. We will continue to look at issuing guidance, and we have invited Denbighshire County Council specifically to participate in building the evidence base, because I am sure that all Assembly Members would want to have an absolutely solid evidence base for spending public money. However, that is a slightly different issue from the proposal in this amendment.

This amendment proposes that we do not allow a future Government to look at whether or not other waste targets should be set for the future. As a Government, we believe that it is responsible to allow future Governments to be able to set waste targets in the future. This is a long-term agenda that will help to develop more sustainable and more cost-effective waste management processes. I strongly believe that future Governments need to retain the flexibility to respond to changing circumstances. Therefore, we will resist amendment 4.

Kirsty Williams: I am grateful to Angela for her support on this amendment. Quite predictably, the Minister has said that we do not have to worry about how section 4(2) is currently drafted, because she has no plans to impose additional targets on local government in this regard. However, as I said in my opening remarks, it does not matter what this Minister says about her plans to make targets in this area, because this legislation, with all due respect, will outlast her career in the National Assembly. As she rightly said, she does not want to restrict a future Government's ability to make targets. As a member of this legislature, I do not want to restrict the ability of this legislature to scrutinise future Government policy. We must frame legislation in this place in a way that allows this democratic Chamber to have every opportunity to question and to scrutinise the appropriateness of Government actions. In passing this legislation as it stands today, we will simply give this Government and any future Government carte blanche to make further regulations on a very important subject that would dictate to local authorities

gynllun y sector trefol, gofynnem a ddylem fod yn ystyried cyllido'r dulliau mwyaf cynaliadwy o gasglu gwastraff ai peidio. Byddwn yn dal i ystyried cyhoeddi canllawiau, ac rydym wedi gwahodd Cyngor Sir Ddinbych yn benodol i gyfrannu at ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth, oherwydd rwyf yn siŵr y byddai holl Aelodau'r Cynulliad yn dymuno cael sylfaen dystiolaeth gwbl gadarn ar gyfer gwario arian cyhoeddus. Fodd bynnag, mae hwnnw'n fater ychydig yn wahanol i'r cynnig yn y gwelliant hwn.

Mae'r gwelliant hwn yn cynnig nad ydym yn caniatáu i Lywodraeth yn y dyfodol ystyried a ddylid gosod targedau gwastraff eraill ar gyfer y dyfodol. Fel Llywodraeth, rydym yn credu ei bod yn gyfrifol caniatáu i Lywodraethau yn y dyfodol allu gosod targedau gwastraff yn y dyfodol. Mae hon yn agenda hirdymor a fydd yn helpu i ddatblygu prosesau rheoli gwastraff mwy cynaliadwy a chosteffeithiol. Rwyf yn credu'n gryf bod angen i Lywodraethau yn y dyfodol gael yr hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Felly, byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 4.

Kirsty Williams: Rwyf yn ddiolchgar i Angela am ei chefnogaeth i'r gwelliant hwn. Yn unol â'r hyn a ddisgwylir, mae'r Gweinidog wedi dweud nad oes rhaid inni boeni am sut mae adran 4(2) wedi'i drafftio ar hyn o bryd, oherwydd nad oes ganddi unrhyw gynlluniau i osod targedau ychwanegol ar lywodraeth leol yn hyn o beth. Fodd bynnag, fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, nid yw'n gwneud gwahaniaeth beth mae'r Gweinidog hwn yn ei ddweud am ei chynlluniau i wneud targedau yn y maes hwn oherwydd bydd oes y ddeddfwriaeth hon, gyda phob dyledus barch, yn hwy na'i gyrra hi yn y Cynulliad Cenedlaethol. Fel y dywedodd yn briodol, nid yw'n dymuno cyfyngu gallu Llywodraeth yn y dyfodol i wneud targedau. Fel aelod o'r ddeddfwrfa hon, nid wyf yn dymuno cyfyngu gallu'r ddeddfwrfa hon i graffu ar bolisiau'r Llywodraeth yn y dyfodol. Rhaid inni lunio deddfwriaeth yn y lle hwn mewn modd sy'n caniatáu i'r Siambr ddemocrataidd hon gael pob cyfle i gwestiynu ac i graffu ar briodoldeb gweithredoedd y Llywodraeth. Wrth basio'r ddeddfwriaeth hon fel y mae

how they go about one of their most important tasks. The reality is that this Minister, or any future Minister, could suddenly dictate to local government how many times a month it collects rubbish from communities. Our ability to scrutinise, challenge and amend that will be lost today if we do not ensure that the legislation is as tight as it could be.

That is not just our reading of the legislation as it is currently drafted; this has caused great concern in local authorities across Wales. They are concerned about how section 4(2) is currently drafted, in that it allows, as the Minister just admitted, future Governments to set targets with regard to the type of collection that authorities can employ. As a legislature, we are not in the business of simply handing over power to Government without ensuring due checks and balances. The Minister says that she wants to be responsible and to allow future Governments to set their own targets. I want us to be responsible and to ensure that this legislature has the opportunity to scrutinise those targets properly.

The Presiding Officer: From that response, I take it that you wish to move to a vote on amendment 4.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

*Gwelliant 4: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 30.
Amendment 4: For 14, Abstain 0, Against 30.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Graham, William

heddiw byddwn, yn syml iawn, yn rhoi rhwydd hynt i'r Llywodraeth hon ac i unrhyw Lywodraeth yn y dyfodol wneud rheoliadau pellach ar bwnc pwysig iawn, a fyddai'n rhoi gorchmynion i awdurdodau lleol ynghylch sut mae mynd ati i gyflawni un o'u tasgau pwysicaf. Y realiti yw y gallai'r Gweinidog hwn, neu unrhyw Weinidog yn y dyfodol, roi gorchymyn yn ddisymwth i lywodraeth leol ynghylch sawl gwaith y mis y mae'n casglu sbwriel mewn cymunedau. Os na fyddwn yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth mor dynn ag y gallai fod, byddwn heddiw yn colli ein gallu i graffu, i herio ac i ddiwygio hynny.

Nid dim ond ein dadansoddiad ni o'r ddeddfwriaeth fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd yw hynny; mae hyn wedi achosi pryder mawr mewn awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru. Maent yn pryderu am sut y mae adran 4(2) wedi'i drafftio ar hyn o bryd gan ei bod yn caniatáu, fel y mae'r Gweinidog newydd ei gyfaddef, i Lywodraethau yn y dyfodol osod targedau ynghylch y math o ddulliau casglu y gall awdurdodau ei ddefnyddio. Fel deddfwrfa, nid ydym yn trosglwyddo pŵer i'r Llywodraeth heb sicrhau ein bod yn asesu pethau ac yn pwysu a mesur. Dywed y Gweinidog ei bod am fod yn gyfrifol a chaniatáu i Lywodraethau yn y dyfodol osod eu targedau eu hunain. Rwyf am i ni fod yn gyfrifol, a sicrhau bod y ddeddfwrfa hon yn cael y cyfle i graffu ar y targedau hynny'n briodol.

Y Llywydd: Ar sail yr ymateb hwnnw, rwyf yn cymryd eich bod am symud i bleidlais ar welliant 4.

The question is that amendment 4 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys

Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Franks, Chris
Gibbons, Brian
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 4.
Amendment 4 not agreed.*

Grŵp 4: Targedau Gwastraff—Canllawiau (Gwelliant 6) Group 4: Waste Targets—Guidance (Amendment 6)

The Presiding Officer: I call on Angela Burns to move amendment 6 and to speak to the amendment.

Angela Burns: I move amendment 6 in my name.

It aims, essentially, to ensure that we do not penalise local government if resources are not available to help it to meet its targets. We believe that that should be stated clearly in the proposed Measure and not left to subsidiary guidance and protocols. People talk a lot about the Essex-Jones agreement and about ensuring that, whatever Government does, if it will visit huge targets or policy changes and initiatives on local government, funding will follow through to help it to implement them.

The Welsh Local Government Association has raised this issue time and again: it did so at the committee stage, and it has probably done so with a great many of us individually. The point is that we must recognise that there is immense pressure on local government. Its resources are finite, and yet it is being asked to deliver more. That is good, as local

Y Llywydd: Galwaf ar Angela Burns i gynnig gwelliant 6 ac i siarad am y gwelliant.

Angela Burns: Cynigiaf welliant 6 yn fy enw i.

Ei nod, yn y bôn, yw sicrhau nad ydym yn cosbi llywodraeth leol os nad oes adnoddau ar gael i'w helpu i gyflawni ei thargedau. Rydym o'r farn y dylid nodi hynny'n glir yn y Mesur arfaethedig, a pheidio â'i adael i is ganllawiau a phrotocolau. Mae pobl yn sôn llawer am y cytundeb Essex-Jones ac am sicrhau, beth bynnag y bydd y Llywodraeth yn ei wneud, os bydd yn gorfodi newidiadau polisi neu dargedau mawr a mentrau ar lywodraeth leol, y bydd cyllid ar gael ar gyfer hynny i'w helpu i'w gweithredu.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi codi'r mater hwn dro ar ôl tro: gwnaeth hynny yn ystod y cyfnod pwyllgor, ac mae'n siŵr ei fod wedi gwneud hynny gyda nifer ohonom yn unigol. Y pwynt yw, mae'n rhaid inni gydnabod bod pwysau aruthrol ar lywodraeth leol. Mae ei hadnoddau'n gyfyngedig, ac eto, gofynnir iddi gyflawni

authorities are the point of delivery for their local areas, and I accept that. However, I am concerned that the proposed Measure will enable the Government to use all stick and no carrot, and will enable it to say, 'You must meet the targets, but we will not give you any more money to help you to do it'. Let me be clear: the WLGA estimates that the costs of meeting the target of 70 per cent is £190 million—that is not small change. A further concern is that we understand that the Welsh Assembly Government has been advised by its own consultants that the costs of meeting the ambitious targets will be substantial and that the estimate may err on the side of caution rather than being exaggerated.

At Stage 2, the Minister stated that she did not believe that this needs to be on the face of the proposed Measure, and that she would develop a protocol with local government similar to that in the Landfill Allowances Scheme (Wales) Regulations 2004. As Kirsty Williams said, surely we should aim to be a legislature that makes good and relevant law that takes into account the environment in which the law would apply. While consultation on the protocol is to be welcomed, we have to remember that protocols can be overturned to suit political expediency. We must take due care to ensure that we do not place unreasonable burdens on local government and the people that it represents. Therefore, I would ask you to consider supporting the amendment very carefully, because all that it would do is to add to section 6A that the guidance

'may refer to the support and assistance available to local authorities in meeting the recycling, preparation for re-use and composting targets under section 3 and any waste targets'

Basically, it states that, if authorities do not have the resources to meet the targets, we should not impose draconian punitive measures on them, which would, indeed, cause them more problems.

Jonathan Morgan: One great challenge that

mae hynny'n beth da, gan mai awdurdodau lleol yw'r pwynt darparu ar gyfer eu hardaloedd lleol, ac rwyf yn derbyn hynny. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu y bydd y Mesur arfaethedig yn galluogi'r Llywodraeth i orfodi hynny arnynt er nad oes unrhyw gymhelliant iddynt wneud hynny, ac yn ei galluogi i ddweud, 'Rhaid i chi gwrdd â'r targedau, ond ni fyddwn yn rhoi dim mwy o arian i'ch helpu i wneud hynny'. Gadewch imi fod yn glir: mae CLILC yn amcangyfrif y bydd yn costio £190 miliwn i gyrraedd y targed 70 y cant—nid arian mân mo hynny. Pryder arall yw ein bod yn cael ar ddeall bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael gwybod gan ei hymgynghorwyr ei hun y bydd yn costio llawer i gyrraedd y targedau uchelgeisiol, a'i bod yn bosibl bod yr amcangyfrif yn or-ofalus yn hytrach nag yn gorliwio.

Yng Nghyfnod 2, dywedodd y Gweinidog nad oedd yn credu bod angen i hyn fod ar wyneb y Mesur arfaethedig, ac y byddai'n datblygu protocol gyda llywodraeth leol a fyddai'n debyg i'r protocol yn Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004. Fel y dywedodd Kirsty Williams, oni ddylem geisio bod yn ddeddfwrfa sy'n gwneud deddfau da a pherthnasol sy'n ystyried y cyddestun lle byddai'r ddeddf yn berthnasol. Er bod yr ymgynghoriad ar y protocol i'w groesawu, mae'n rhaid inni gofio y gall protocolau gael eu gwyrddroi i gyd-fynd â mantais wleidyddol. Rhaid inni fod yn ofalus er mwyn sicrhau nad ydym yn rhoi baich annerbyniol ar lywodraeth leol ac ar y bobl y mae'n eu cynrychioli. Felly, byddwn yn gofyn ichi feddwl yn ofalus iawn am gefnogi'r gwelliant, oherwydd y cyfan y byddai'n ei wneud yw ychwanegu'r canlynol at adran 6A

'Caiff canllawiau gyfeirio at y gefnogaeth a'r cymorth sydd ar gael i awdurdodau lleol o ran cyrraedd y targedau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio o dan adran 3 ac unrhyw dargedau gwastraff.'

Yn ei hanfod, mae'n datgan os nad oes gan awdurdodau'r adnoddau i gyrraedd y targedau, ni ddylem osod mesurau cosbi llym arnynt a fyddai, yn wir, yn achosi mwy o broblemau iddynt.

Jonathan Morgan: Un her fawr sy'n ein

we face as a legislature is striking a balance in ensuring that we legislate in a way that gets things done, which often places duties on public bodies such as health bodies, local authorities and others. The difficulty with that—and this is where the balance needs to be struck—is in ensuring that, when we place responsibilities on organisations, we are able to match that with the flexibility to help those organisations to meet those obligations, or certainly not to penalise them unfairly for not being able to meet those obligations because of matters beyond their control. I am sure that the Welsh Local Government Association will say that resourcing is a huge issue for them, and if local authorities are unable to meet the targets because of resourcing issues it would be unfair for them to face the penalties set out by the Welsh Assembly Government. During the consideration of the proposed Measure at Stage 2, I made those points in committee, and the Minister for environment told the committee that she believed that the drafting of a protocol between the Welsh Assembly Government and the WLGA was:

‘the appropriate opportunity for the Assembly Government to consider any factors that have impacted on a local authority’s failure to meet the waste targets. That is the appropriate mechanism’.

4.30 p.m.

No evidence was provided as to why that was the appropriate mechanism, it was merely the Minister’s point of view and wish that this should not be enshrined in law, that we should not send the right message to local government that we would allow the waiver of penalties fitted within that particular remit of where resources were not sufficient. It was merely the Minister’s view that this should be dealt with by an ad hoc protocol that she would strike up with the Welsh Local Government Association. The WLGA is quite keen for this amendment to pass today and for it to be enshrined on the face of the proposed Measure, because it sets out clearly the view that we should not be putting these duties on organisations and we should not be

hwynebu fel deddfwrfa yw cael cydbwysedd o ran sicrhau ein bod yn deddfu mewn ffordd sy’n sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud, sy’n aml yn rhoi dyletswyddau ar ysgwyddau cyrff cyhoeddus fel cyrff iechyd, awdurdodau lleol a chyrff eraill. Yr anhawster gyda hynny—a dyma lle mae angen cael cydbwysedd—yw sicrhau, pan fyddwn yn rhoi cyfrifoldebau ar ysgwyddau sefydliadau, ein bod yn gallu cynnig hyblygrwydd ar gyfer hynny i helpu'r sefydliadau hynny i gyflawni'r rhwymedigaethau hynny, neu'n sicr peidio â'u cosbi'n annheg am beidio â gallu cyflawni'r rhwymedigaethau hynny oherwydd materion y tu hwnt i'w rheolaeth. Rwyf yn siŵr y bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dweud bod adnoddau yn broblem enfawr iddynt, ac os yw awdurdodau lleol yn methu â chyrraedd y targedau oherwydd problemau adnoddau, byddai'n annheg iddynt wynebu'r cosbau a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Wrth ystyried y Mesur arfaethedig yng Nghyfnod 2, gwneuthum y pwyntiau hynny yn y pwyllgor, a dywedodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd wrth y pwyllgor ei bod yn credu bod proses ddrafftio'r protocol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a CLILC

yn gyfle priodol i Lywodraeth y Cynulliad ystyried unrhyw ffactorau sydd wedi effeithio ar fethiant awdurdod lleol i gyrraedd y targedau gwastraff. Dyna'r mecanwaith priodol.

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth ynghylch pam mai dyna yw'r mecanwaith priodol, dim ond safbwynt y Gweinidog oedd hynny a'i dymuniad na ddylid cynnwys hyn mewn deddf, ac na ddylem anfon y neges gywir i lywodraeth leol y byddem yn caniatáu anwybyddu cosbau a bennwyd o fewn y cylch gwaith penodol hwnnw os nad oedd digon o adnoddau. Dim ond barn y Gweinidog oedd y dylid ymdrin â hyn â phrotocol ad hoc y byddai'n ei lunio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae CLILC yn bur awyddus i'r gwelliant hwn gael ei basio heddiw, ac iddo gael ei gynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig. Y rheswm am hynny yw oherwydd ei fod yn amlinellu'n glir y safbwynt na ddylem fod yn gosod y

penalising organisations for failing to meet these duties if there are reasons beyond their control as to why these obligations have not been met. The amendment to the proposed Measure that has been tabled by Angela is a fair one, and it is consistent with the attitude that many of us have taken over the past 11 and a half years as to the right balance between the way in which we legislate and the way in which public bodies can respond to that legislation.

Jane Davidson: We have to say exactly what your amendment proposes. It says that

‘Guidance issued pursuant to subsection [] may refer to the support and assistance available to local authorities in meeting the recycling, preparation for re-use and composting targets under section 3 and any waste targets under section 4(1)(a).’

That is all the amendment proposes. Under section 6A of the proposed Measure, local authorities must have regard to any guidance issued by Welsh Ministers in relation to sections 3 to 6 of the proposed Measure. That is, the waste target provisions, which cover the area identified in your amendment. The guidance would be able to cover a range of issues relating to the waste targets. Therefore, there is no need to have a specification of any particular factors such as those suggested in amendment 6.

I would like to make two further points. First, the 70 per cent target does not apply until 2025, which is 15 years away. The first target will be 52 per cent in 2012-13. A number of authorities are pitching around that level now, in 2010. We have been working with authorities over the past three years to take this agenda forward. The £190 million that Angela quoted from the WLGA is based on the 2007 Eunomia study and reflects the total system change costs of going from a 2006-07 baseline of around 30 per cent recycling to a 70 per cent recycling rate. We have worked with the WLGA to uprate those figures. The figures that we are all now using are based on the Eunomia study from 2010, which

dyletswyddau hyn ar ysgwyddau sefydliadau, ac na ddylem fod yn cosbi sefydliadau am fethu â chyflawni'r dyletswyddau hyn os oes rhesymau y tu hwnt i'w rheolaeth ynghylch pam nad yw'r rhwymedigaethau hyn wedi cael eu cyflawni. Mae'r gwelliant i'r Mesur arfaethedig sydd wedi cael ei gyflwyno gan Angela yn un teg, ac mae'n cyd-fynd ag agwedd llawer ohonom dros yr 11 mlynedd a hanner diwethaf ynghylch y cydbwysedd cywir rhwng y modd rydym yn deddfu a'r modd y gall cyrff cyhoeddus ymateb i'r ddeddfwriaeth honno.

Jane Davidson: Rhaid inni ddweud yn union beth y mae eich gwelliant yn ei gynnig. Dyma mae'n ei ddweud;

‘Caiff canllawiau a ddyroddir yn unol ag is-adran [] gyfeirio at y gefnogaeth a'r cymorth sydd ar gael i awdurdodau lleol o ran cyrraedd y targedau ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio o dan adran 3 ac unrhyw dargedau gwastraff o dan adran 4(1)(a).’

Dyna'r cyfan y mae'r gwelliant yn ei gynnig. O dan adran 6A y Mesur arfaethedig, rhaid i awdurdodau lleol ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag adrannau 3 i 6 y Mesur arfaethedig. Hynny yw, y darpariaethau targedau gwastraff, sy'n ymdrin â'r maes a nodir yn eich gwelliant. Byddai'r canllawiau'n gallu ymdrin ag ystod o faterion sy'n ymwneud â'r targedau gwastraff. Felly, nid oes angen cael manyleb o unrhyw ffactorau penodol fel y rheini a awgrymir yng ngwelliant 6.

Hoffwn wneud dau bwynt arall. Yn gyntaf, nid yw'r targed o 70 y cant yn berthnasol tan 2025, sydd 15 mlynedd i ffwrdd. Y targed cyntaf fydd 52 y cant yn 2012-13. Mae nifer o awdurdodau yn gosod targed sydd tua'r lefel honno yn awr, yn 2010. Rydym wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau dros y tair blynedd diwethaf i ddatblygu'r agenda hon. Mae'r £190 miliwn a ddyfynnwyd gan Angela—a amcangyfrifwyd gan CLILC—yn seiliedig ar astudiaeth Eunomia 2007, ac yn adlewyrchu holl gostau newid y system o waelodlin 2006-07 o gyfradd ailgylchu o tua 30 y cant i gyfradd ailgylchu o 70 y cant. Rydym wedi gweithio gyda CLILC i uwchraddio'r ffigurau hynny. Mae'r ffigurau

compared the cost of recycling material against the cost of sending that waste to landfill or energy from waste. That study indicates that, compared to the alternative treatment methods, recycling at the 70 per cent level will realise cost savings of between £38 million and £40 million, which is why 70 per cent became the target figure.

The Assembly Government already provides a range of support and assistance to local authorities to help them to achieve their recycling targets through the sustainable waste management grant and the regional capital access fund, for example. We also provide ongoing support, such as funding and organising conferences to provide guidance on best practice advice, we hold regular meetings with local authorities, and we provide day-to-day reactive support through phone calls and e-mails, as well as funding the development of the evidence base. I am confident that the Assembly Government of the future would want to continue that very close dialogue with local authorities that I am sure would be supported by Members here. Therefore, I ask Members to resist amendment 6.

Angela Burns: I would like to thank both Jonathan Morgan and you, Minister, for your contribution on this amendment. I regret the fact that you and the Government feel unable to support the amendment. I believe that the country is currently groaning under the weight of punitive penalties and red tape. I am deeply concerned that this will be used, maybe not now or even in the next year or two, but in future years, to punish local government for not achieving targets set by central Government that it does not have a hope of achieving because it simply does not have the resources at its disposal. This could be the strangulation or death of democracy, achieved by tying local authorities up and punishing them so much. I ask Members to consider supporting this amendment so that we can give some of this power from the centre and back to people, so that they can do what they need to do. It is also important that,

rydym i gyd yn eu defnyddio ar hyn o bryd yn seiliedig ar astudiaeth Eunomia o 2010, a oedd yn cymharu'r gost o ailgylchu deunyddiau â'r gost o anfon y gwastraff hwnnw i safleoedd tirlenwi neu i brosiectau troi gwastraff yn ynni. Mae'r astudiaeth honno yn dangos y bydd ailgylchu ar y lefel 70 y cant, o'i gymharu â'r dulliau amgen, yn sicrhau arbedion o rhwng £38 miliwn a £40 miliwn, a dyna pam y daeth 70 y cant yn ffigur targed.

Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn darparu ystod o gefnogaeth a chymorth i awdurdodau lleol i'w helpu i gyrraedd eu targedau ailgylchu drwy'r grant rheoli gwastraff cynaliadwy a'r gronfa mynediad i gyfalaf rhanbarthol, er enghraifft. Rydym hefyd yn darparu cefnogaeth barhaus, fel cyllid a threfnu cynadleddau i ddarparu canllawiau sy'n rhoi cyngor ar arferion gorau, rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ag awdurdodau lleol, ac rydym yn darparu cefnogaeth ymatebol o ddydd i ddydd drwy alwadau ffôn a negeseuon e-bost, yn ogystal â chyllido'r broses o ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth. Rwyf yn hyderus y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol yn dymuno parhau â'r berthynas agos honno ag awdurdodau lleol, ac rwyf yn siŵr y byddai'r Aelodau yma yn cefnogi hynny. Felly, rwyf yn gofyn i'r Aelodau wrthod gwelliant 6.

Angela Burns: Hoffwn ddiolch i Jonathan Morgan ac i chi, Weinidog, am eich cyfraniad at y gwelliant hwn. Mae'n drueni eich bod chi a'r Llywodraeth yn teimlo na allwch gefnogi'r gwelliant. Rwyf yn credu bod y wlad yn griddfan o dan bwysau cosbau a biwrocratiaeth ar hyn o bryd. Rwyf yn bryderus iawn y bydd hyn yn cael ei ddefnyddio—efallai nid yn awr na hyd yn oed yn y flwyddyn neu ddwy nesaf—ond yn y dyfodol, i gosbi llywodraeth leol am beidio â chyrraedd targedau a osodir gan y Llywodraeth ganolog nad oes ganddi obaith o'u cyrraedd oherwydd am nad oes ganddi, yn syml iawn, yr adnoddau i wneud hynny. Gallai hyn arwain at dagu biwrocratiaeth neu ddiwedd democratiaeth, drwy glymu awdurdodau lleol a'u cosbi cymaint. Gofynnaf i'r Aelodau ystyried cefnogi'r gwelliant hwn fel y gallwn dynnu rhywfaint o'r pŵer hwn oddi wrth y canol a'i roi'n ôl yn

when we ask people to do what the Minister, the Government or the Assembly wants them to do, we make sure that they are funded and guided properly so that they can deliver. We should do this instead of setting them impossible jobs in which they have no hope at all of achieving the right result.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 6. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

nwylo'r bobl, er mwyn iddynt allu gwneud yr hyn y mae angen iddynt ei wneud. Mae hefyd yn bwysig, pan fyddwn yn gofyn i bobl wneud yr hyn y mae'r Gweinidog, y Llywodraeth neu'r Cynulliad am iddynt ei wneud, ein bod yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu cyllido a'u harwain yn briodol er mwyn iddynt allu cyflawni. Dyna ddylem ei wneud yn hytrach na rhoi tasgau amhosibl iddynt nad oes ganddynt obaith o gwbl cael y canlyniad priodol.

The Presiding Officer: The question is that amendment 6 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 6: O blaid 16, Ymatal 1, Yn erbyn 31.
Amendment 6: For 16, Abstain 1, Against 31.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelod canlynol:
The following Member abstained:

Lloyd, Val

*Gwrthodwyd gwelliant 6.
Amendment 6 not agreed.*

Grŵp 5: Tirlenwi—Gorfodi (Gwelliannau 7 ac 8)
Group 5: Landfill—Enforcement (Amendments 7 and 8)

Y Llywydd: Galwaf ar Angela Burns i gynnig gwelliant 7 a siarad am y gwelliant arall yn y grŵp.

Angela Burns: I move amendment 7 in my name.

It gives me great pleasure to speak to amendments 7 and 8, concerning enforcement on landfill. The Minister has always said that it would seem sensible if the authority were to lay with Environment Agency Wales as the enforcement agency with regard to landfill bans. However, at Stage 2, she said that it was not appropriate to put restrictions into this proposed Measure, and that not specifying the enforcement agency would allow flexibility. Given the discussions within the Welsh Assembly Government over merging the environment bodies in Wales, I assume that this is why the Minister is reluctant to name the Environment Agency as the responsible agency. This is why we have added the comment ‘or such other’ to ‘the Environment Agency’, so that the matter can be taken forward.

At Stage 1, there was a committee recommendation that there should be clarity in this proposed Measure as to who would be responsible for the enforcement of landfill bans. At Stage 1, this was supported by all committee members, on a cross-party basis. I am very disappointed that, at Stage 2, Plaid Cymru and Labour did a u-turn and voted against this amendment. This amendment is very sensible. We need to have somebody in charge of making sure that this happens. My concern arises from the fact that this was a sound idea and a good amendment that was agreed by everybody, and the committee took a definitive view on it. I ask that Members present today go back to what the committee said, having listened to all of the evidence,

The Presiding Officer: I call on Angela Burns to move amendment 7 and to speak to the other amendment in the group.

Angela Burns: Cynigïaf welliant 7 yn enw i.

Mae'n bleser mawr cael siarad am welliannau 7 ac 8, sy'n ymwneud â gorfodi yng nghyswllt tirlenwi. Mae'r Gweinidog wedi dweud erioed y byddai'n synhwyrol pe byddai Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn gyfrifol am fod yn asiantaeth orfodi yng nghyswllt gwaharddiadau tirlenwi. Fodd bynnag, yng Nghyfnod 2, dywedodd nad oedd yn briodol cynnwys cyfyngiadau yn y Mesur arfaethedig hwn, ac y byddai peidio â nodi'r asiantaeth orfodi yn caniatáu hyblygrwydd. O ystyried y trafodaethau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch uno'r cyrff amgylcheddol yng Nghymru, rwyf yn tybio mai dyma pam y mae'r Gweinidog yn gyndyn o enwi Asiantaeth yr Amgylchedd fel yr asiantaeth gyfrifol. Dyma pam rydym wedi ychwanegu'r sylw ‘or such other’ at ‘Environment Agency’, er mwyn gallu bwrw ymlaen â'r mater.

Yng Nghyfnod 1, cafwyd argymhelliad pwyllgor y dylai'r Mesur arfaethedig hwn ei gwneud yn glir pwy fyddai'n gyfrifol am orfodi gwaharddiadau tirlenwi. Yng Nghyfnod 1, roedd holl aelodau'r pwyllgor yn cefnogi hyn, ar sail drawsbleidiol. Rwyf yn siomedig iawn bod Plaid Cymru a Llafur wedi gwneud tro pedol yng Nghyfnod 2 ac wedi pleidleisio yn erbyn y gwelliant hwn. Mae'r gwelliant hwn yn synhwyrol iawn. Mae angen inni gael rhywun yn gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae fy mhryder yn deillio o'r ffaith bod hwn yn syniad cadarn ac yn welliant da yr oedd pawb yn gytûn yn ei gylch, ac roedd gan y pwyllgor farn bendant arno. Gofynnaf i'r Aelodau sy'n bresennol heddiw ddychwelyd at yr hyn a ddywedodd y pwyllgor, ar ôl gwrando ar yr

and support this amendment.

Jonathan Morgan: People watching our legislative processes will be almost amused by some of the difficulties that we find ourselves in with this process. We went through Stage 1, which was extremely thorough. The committee took a huge amount of evidence, wrote its report and came to a consensual view regarding recommendations. In fact, with this particular report, we were unanimous on all of our recommendations. There were hardly any arguments. It was a pretty definitive result. As part of that, we recommended that the proposed Measure be amended to ensure that the enforcement authority for landfill should happen to be the Environment Agency. We did that because the suggestion was given to us in evidence, and we thought about it, discussed it and decided that it was a good idea. We therefore put it in our report. Labour and Plaid Members were happy to sign up to that particular recommendation.

We then got to Stage 2, when an amendment was tabled, at which point the party whip kicked in and the Government said, 'Well, we can't vote for that'. You then think to yourself, 'What's the point?' This process does seem to be a bit on the strange side. All I can say to members of the governing parties is that, perhaps, in future, at Stage 1, committees should have a good long think about the recommendations and if Members feel that there is any possibility that, when those recommendations are turned into amendments at Stage 2, they might be forced into reversing their position from supporting something at Stage 1 to voting against it at Stage 2, my advice would be not to back the recommendations at Stage 1. It would make it a lot easier from our perspective and from that of anyone outside looking in at this process. Anyone watching this will be asking themselves how on earth you can back a recommendation at Stage 1 and then fail to back it at Stage 2. It looks incredibly peculiar, and I think that Labour and Plaid Members ought to think very hard about that.

holl dystiolaeth, a chefnogi'r gwelliant hwn.

Jonathan Morgan: Bydd pobl sy'n gwyllo ein prosesau deddfwriaethol yn meddwl bod rhai o'r problemau sy'n ein hwynebu gyda'r broses hon yn ddigrif bron. Aethom drwy Gyfnod 1, a oedd yn hynod drylwyr. Derbyniodd y pwyllgor lawer o dystiolaeth, ysgrifennodd ei adroddiad, a daeth i benderfyniad cytûn ynghylch yr argymhellion. Yn wir, roeddem yn unfrydol ar bob un o'n hargymhellion gyda'r adroddiad arbennig hwn. Ni fu unrhyw ddadlau bron. Roedd yn ganlyniad pur bendant. Fel rhan o hynny, gwnaethom argymhell bod y Mesur arfaethedig yn cael ei ddiwygio er mwyn sicrhau mai Asiantaeth yr Amgylchedd fyddai'r awdurdod gorfodi ar gyfer tirlenwi. Gwnaethom hynny oherwydd inni gael yr awgrym yn ystod y sesiynau tystiolaeth. Gwnaethom feddwl am y peth, a thrafod y peth cyn penderfynu ei fod yn syniad da. Felly, gwnaethom ei gynnwys yn ein hadroddiad. Roedd Aelodau Llafur a Plaid yn fodlon ymrwymo i'r argymhelliad penodol hwnnw.

Yn dilyn hynny, cyrhaeddom Gyfnod 2, pan gafodd gwelliant ei gyflwyno. Ymunodd chwip y blaid â'r drafodaeth bryd hynny, a dywedodd y Llywodraeth na allent bleidleisio dros hynny. Mae hynny'n gwneud ichi ofyn i'ch hun, 'Beth yw'r pwynt?' Mae'r broses hon braidd yn rhyfedd. Y cyfan y gallaf ei ddweud wrth aelodau o'r pleidiau llywodraethu yw efallai y dylai pwyllgorau yn y dyfodol feddwl yn hir am yr argymhellion yng Nghyfnod 1. Hefyd os yw'r Aelodau'n teimlo y gallent gael eu gorfodi, pan fydd yr argymhellion hynny'n cael eu troi'n welliannau yng Nghyfnod 2, i fynd yn groes i'w safbwynt o gefnogi rhywbeth yng Nghyfnod 1 i bleidleisio yn ei erbyn yng Nghyfnod 2, fy nghyngor i fyddai peidio â chefnogi'r gwelliannau yng Nghyfnod 1. Byddai'n haws o lawer o'n safbwynt ni, ac o safbwynt unrhyw un o'r tu allan sy'n edrych ar y broses hon. Bydd unrhyw un sy'n gwyllo hyn yn gofyn i'w hunain sut ar y ddaear y gallwch gefnogi argymhelliad yng Nghyfnod 1, ac yna methu â'i gefnogi yng Nghyfnod 2. Mae'n edrych yn rhyfedd dros ben, a chredaf y dylai Aelodau Llafur a Plaid feddwl yn galed iawn am hynny.

4.40 p.m.

At Stage 2, the Minister said to us that the Government believed that the proposed Measure should provide flexibility with regard to the enforcement arrangements.

I ask the Minister why you need flexibility with regard to the enforcement arrangements. The Environment Agency Wales is the obvious body to have this role because it has the capacity and the expertise. I assume that it will take on this role—unless you can tell us this afternoon that there is another organisation in Wales that we have not identified that has equal capacity and expertise. If so, please tell us, because I am assuming that it will be the Environment Agency that will fulfil this role. If that is your intention, I do not see a problem stipulating this in the proposed Measure. It would provide clarity. Organisations would know who is responsible for the enforcement, and it backs up what you have already said, which is that, in all likelihood, it will be the Environment Agency undertaking this function. So, unless there is another body that I have not identified that is able to do this job, this amendment ought to pass this afternoon. It reflects what happened at Stage 1, it reflects the body of evidence that we collected, and, quite frankly, it is a sensible amendment to the proposed Measure.

Y Llywydd: Galwaf arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol.

Andrew R.T. Davies: Will you take an intervention?

Kirsty Williams: Me? [*Laughter.*]

The Presiding Officer: Order. The difficulty with interventions, particularly when people are sitting down, is that the Member may be out of time.

Kirsty Williams: Oh, Presiding Officer, people have been saying that I have been getting on so well with my Conservative colleagues, as well.

Perhaps I am being naive, but one would have thought that the process by which

Yng Nghyfnod 2, dywedodd y Gweinidog wrthym fod y Llywodraeth yn credu y dylai'r Mesur arfaethedig ddarparu hyblygrwydd o ran y trefniadau gorfodi.

Gofynnaf i'r Gweinidog pam y mae arnoch angen hyblygrwydd o ran y trefniadau gorfodi. Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yw'r corff amlwg i gael y rôl hon gan fod ganddi'r gallu a'r arbenigedd. Rwyf yn cymryd yn ganiataol y bydd yn ymgymryd â'r rôl hon—oni bai y gallwch ddweud wrthym y prynhawn yma fod sefydliad arall yng Nghymru nad ydym yn gwybod amdano a chanddo'r un gallu ac arbenigedd. Os felly, a fydddech cystal â dweud wrthym, oherwydd rwyf yn cymryd yn ganiataol mai Asiantaeth yr Amgylchedd fydd yn cyflawni'r rôl hon. Os dyna yw eich bwriad, nid wyf yn gweld problem nodi hyn yn y Mesur arfaethedig. Byddai'n rhoi eglurder. Byddai sefydliadau yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am orfodi, ac mae'n ategu'r hyn rydych eisoes wedi'i ddweud, sef mai Asiantaeth yr Amgylchedd fydd yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn fwy na thebyg. Felly, oni bai fod corff arall nad wyf yn gwybod amdano yn gallu gwneud y gwaith hwn, dylai'r gwelliant hwn gael ei basio'r prynhawn yma. Mae'n adlewyrchu'r hyn a ddigwyddodd yng Nghyfnod 1, mae'n adlewyrchu'r dystiolaeth a gasglwyd gennym ac, mewn gwirionedd, mae'n welliant synhwyrol i'r Mesur arfaethedig.

The Presiding Officer: I call the leader of the Liberal Democrats.

Andrew R.T. Davies: A wnewch dderbyn ymyriad?

Kirsty Williams: Fi? [*Chwerthin.*]

Y Llywydd: Trefn. Y broblem gydag ymyriadau, yn enwedig pan fydd pobl ar eu heistedd, yw y gall amser yr Aelod ddod i ben.

Kirsty Williams: O, Lywydd, mae pobl wedi bod yn dweud fy mod wedi bod yn cyddynnu mor dda gyda fy nghyd-Aelodau Ceidwadol hefyd.

Efallai fy mod yn naif, ond byddech wedi dychmygu bod proses llunio deddfwriaethau'r

legislation is made by this Government is that it begins by identifying a problem within our society that it feels needs to be tackled and then decides on the most appropriate way to tackle the problem before going on to decide how to ensure that measures it has provided for to tackle a problem actually happen. So, in this case, the Government has identified that we have all sorts of material that we do not want to go to landfill going to landfill. It has decided that the best way to stop this happening is to apply a system of landfill bans. Then, this afternoon, the Government is truly asking us to accept that it is not quite sure who is going to be responsible for ensuring that the stuff that we do not want to go to landfill does not go to landfill. I would suggest that it is scarcely credible for the Government to say that it does not know which organisation is going to be responsible for policing the legislation it is asking us to pass. In doing so, it is missing a vital part of the mechanism to ensure that its stated goal of stopping certain substances from going into landfill happens.

At Stage 1, the Minister had clearly not made up her mind who was going to be responsible for enforcing this piece of legislation. As I said, it was scarcely credible that if all this forethought had gone into tackling this problem the Minister really had not decided who was going to be responsible for policing it. It does not seem to make sense, but I was willing to give the Minister the benefit of the doubt at Stage 1. At Stage 2, the Minister came to the committee and said that she had pretty much decided that it would be the Environment Agency. If that is the case, I would agree with her that the Environment Agency or its successor body—because I appreciate that we are moving potentially to change the structures—is the perfect body to do this job. It therefore makes no sense not to have that body named on the face of the legislation. Why does the Minister require flexibility over the enforcement of this particular aspect? I have not heard an argument at Stage 1 or Stage 2 as to why the Minister needs that flexibility. It either will or will not be the Environment Agency or its successor body. It is not particularly difficult,

Llywodraeth hon yn dechrau drwy ganfod problem yn ein cymdeithas y mae'r Llywodraeth yn teimlo bod angen mynd i'r afael â hi, ac yna'n penderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o fynd i'r afael â'r broblem cyn penderfynu sut mae gwneud yn siŵr bod y mesurau y mae wedi'u darparu i fynd i'r afael â phroblem wir yn digwydd. Felly, yn yr achos hwn, mae'r Llywodraeth wedi nodi bod gennym bob math o ddeunyddiau nad oes arnom eisiau iddynt fynd i safleoedd tirlenwi yn mynd i safleoedd tirlenwi. Mae wedi penderfynu mai'r ffordd orau o atal hyn rhag digwydd yw rhoi system o waharddiadau tirlenwi ar waith. Yna, y prynhawn yma, mae'r Llywodraeth mewn difrif yn gofyn inni dderbyn nad yw'n hollol siŵr pwy fydd yn gyfrifol am sicrhau nad yw'r pethau nad oes arnom eisiau iddynt fynd i safleoedd tirlenwi yn mynd i safleoedd tirlenwi. Byddwn yn awgrymu nad yw prin yn gredadwy i'r Llywodraeth ddweud nad yw'n gwybod pa sefydliad sy'n mynd i fod yn gyfrifol am blismona'r ddeddfwriaeth y mae'n gofyn inni ei phasio. Wrth wneud hynny, mae'n hegor rhan hanfodol o'r mecanwaith i sicrhau bod ei nod benodol, o atal rhai sylweddau rhag mynd i safleoedd tirlenwi, yn digwydd.

Yng Nghyfnod 1, yn amlwg nid oedd y Gweinidog wedi penderfynu pwy fyddai'n mynd i fod yn gyfrifol am orfodi'r darn hwn o ddeddfwriaeth. Fel y dywedais, os oedd y Gweinidog wedi meddwl cymaint am sut mae mynd i'r afael â'r broblem hon, nid yw prin yn gredadwy nad oedd y Gweinidog wir wedi penderfynu pwy fyddai'n gyfrifol am blismona'r darn hwn o ddeddfwriaeth. Nid yw'n gwneud synnwyr, ond roeddwn yn fodlon meddwl y gorau o'r Gweinidog yng Nghyfnod 1. Yng Nghyfnod 2, daeth y Gweinidog i'r pwyllgor a dweud ei bod, fwy neu lai, wedi penderfynu mai Asiantaeth yr Amgylchedd fyddai'n gyfrifol am hyn. Os yw hynny'n wir, byddwn yn cytuno â hi mai Asiantaeth yr Amgylchedd neu ei chorff olynol—oherwydd rwyf yn sylweddoli ein bod, o bosibl, yn symud tuag at newid y strwythurau—yw'r corff perffaith i wneud y gwaith hwn. Felly, nid yw'n gwneud synnwyr o gwbl i beidio ag enwi'r corff hwnnw ar wyneb y ddeddfwriaeth. Pam mae'r Gweinidog angen hyblygrwydd yng nghyswllt gorfodi'r elfen benodol hon? Nid wyf wedi clywed dadl yng Nghyfnod 1 nac

and there is not too much room for manoeuvre; but if the Minister has in mind another organisation, let her get up and say so this afternoon, and let us test that decision and have that on the face of the proposed Measure. Enforcement will be critical if this piece of legislation is to be meaningful. Not putting it on the face of the legislation does this piece of legislation down and fundamentally weakens the principle, with which I agree, of landfill banning.

Jane Davidson: The Government maintains its view that we do not need to define the enforcement authority on the face of the proposed Measure. We think that it is better to put the enforcement authority in the regulations, in order to have a proper discussion about who is best placed to carry out the enforcement function. Members are suggesting today that we put on the face of the proposed Measure a proposition that has had no discussion with the potential enforcement authorities. We were not prepared to do that, which is why we would continue to propose that we consult in the normal way in the context of regulations, particularly since we are not yet at the stage of considering particular landfill bans or restrictions. We need to look at the potential landfill bans or restrictions in the context of the potential appropriate enforcement authority.

Kirsty Williams: It really is extraordinary. Having identified the issue that needs to be resolved—that you do not want certain stuff going into landfill—and when your officials have supposedly been working on this for months, are you truly saying that, in those discussions, you have not had a policy discussion with your own officials about who should enforce this? What is the point of having a ban if you have not figured out who will enforce it? You come to the Assembly at this late stage expecting us to pass the regulations to give you these powers having admitted that you have not even discussed

ynghylch 2 ynghylch pam mae'r Gweinidog angen yr hyblygrwydd hwnnw. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd—neu ei chorff olynol—naill ai yn gyfrifol am hynny, neu ddim yn gyfrifol am hynny. Nid yw'n anodd iawn, ac nid oes llawer o opsiynau; ond os oes gan y Gweinidog sefydliad arall mewn golwg, gadewch iddi godi a dweud hynny'r prynhawn yma, a gadewch inni brofi'r penderfyniad hwnnw a chael hynny ar wyneb y Mesur arfaethedig. Os yw'r darn hwn o ddeddfwriaeth yn mynd i olygu rhywbeth, bydd gorfodaeth yn hollbwysig. Mae peidio â'i gynnwys ar wyneb y ddeddfwriaeth yn gwneud cam â'r darn hwn o ddeddfwriaeth ac, yn y bôn, yn gwanhau'r egwyddor o wahardd tirlenwi—egwyddor rwyf yn cytuno â hi.

Jane Davidson: Mae'r Llywodraeth yn dal o'r farn nad oes angen inni ddiffinio'r awdurdod gorfodi ar wyneb y Mesur arfaethedig. Rydym yn meddwl ei bod yn well cynnwys yr awdurdod gorfodi yn y rheoliadau, er mwyn cael trafodaeth briodol ynghylch pwy sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r dyletswyddau gorfodi. Mae'r Aelodau'n awgrymu heddiw ein bod yn cynnwys cynnig ar wyneb y Mesur arfaethedig nad yw wedi cael ei drafod â'r awdurdodau gorfodi posibl o gwbl. Nid oeddem yn fodlon gwneud hynny, a dyna pam y byddem yn dal i gynnig ein bod yn ymgynghori yn y ffordd arferol yng nghydestun rheoliadau, yn enwedig gan nad ydym wedi dechrau ystyried cyfyngiadau neu waharddiadau tirlenwi penodol eto. Mae angen inni edrych ar y cyfyngiadau neu waharddiadau tirlenwi posibl yng nghydestun yr awdurdod gorfodi priodol posibl.

Kirsty Williams: Mae wir yn rhyfeddol. Ar ôl nodi'r broblem y mae angen ei datrys—nad oes arnoch eisiau i rai pethau fynd i safleoedd tirlenwi—a phan mae eich swyddogion wedi bod yn gweithio ar hyn ers misoedd yn ôl pob sôn, a ydych wir yn dweud nad ydych wedi cael trafodaeth polisi â'ch swyddogion eich hun yn ystod y trafodaethau hynny ynghylch pwy ddylai orfodi hyn? Beth yw pwrpas cael gwaharddiad os nad ydych wedi penderfynu pwy fydd yn ei orfodi? Rydych yn dod i'r Cynulliad yn hwyr fel hyn yn disgwyl inni basio'r rheoliadau i roi'r pwerau hyn ichi, ar ôl cyfaddef nad ydych hyd yn oed wedi

this with the Environment Agency. It is truly a staggering approach to how legislation is made. I would suggest—and I do not do so lightly—that that is hardly an advert for what we are hoping that the people of Wales will give us next year.

Jane Davidson: As I said at Stage 2, the Environment Agency is likely to be the enforcement authority, given its existing role in regulating landfill sites. However, I reiterate that this Government—unlike the Liberal Democrats—would consult formally on any proposition with all interested parties. We have not done that so we are not proposing an enforcement authority for which there has been no consultation.

There is a separate issue, which Jonathan brought up, that needs to be considered in the context of the legislative process. On how the legislative process currently operates, when a report from the committee comes forward to Government at Stage 1, there is no requirement or opportunity for the Government to respond to the committee on its views on the committee's proposition. I would hope that most Members would operate on the basis that, when the facts change, our views change. Therefore, there may well be occasions when a proposition that was agreed by a committee at Stage 1, given further information, particularly from Government legal advisers, changes at Stage 2. That happened on this occasion. However, the Counsel General is undertaking his own review into this process, and that is important.

4.50 p.m.

Jonathan Morgan: I am grateful to the Minister for giving way. Paragraph 377 of the committee's report says that the Environment Agency stated

'that they expected to act as the regulatory body for monitoring landfill bans'.

Paragraph 388 says that, when asked who would be responsible for providing the

trafod hyn ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae wir yn ffordd gwbl syfrdanol o fynd ati i wneud deddfwriaeth. Byddwn yn awgrymu—ac nid wyf yn gwneud hynny'n ysgafn—nad yw hynny'n hysbyseb da iawn ar gyfer yr hyn rydym yn gobeithio y bydd pobl Cymru yn ei roi i ni y flwyddyn nesaf.

Jane Davidson: Fel y dywedais yng Nghyfnod 2, Asiantaeth yr Amgylchedd fydd yr awdurdod gorfodi fwy na thebyg, o ystyried ei rôl bresennol yn rheoleiddio safleoedd tirlenwi. Fodd bynnag, ailadroddaf y byddai'r Llywodraeth hon—yn wahanol i'r Democratiaid Rhyddfrydol—yn ymgynghori'n ffurfiol ar unrhyw gynnig gyda phawb sy'n gysylltiedig â hynny. Nid ydym wedi gwneud hynny, felly nid ydym yn cynnig awdurdod gorfodi gan nad ydym wedi ymgynghori ynghylch hynny.

Ceir mater ar wahân, a godwyd gan Jonathan, ac y mae angen ei ystyried yng nghyd-destun y broses ddeddfu. O ran y modd y mae'r broses ddeddfu yn gweithredu ar hyn o bryd, pan fydd adroddiad gan y pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth yng Nghyfnod 1, nid oes rhaid i'r Llywodraeth ymateb i'r pwyllgor ynghylch ei barn ar gynnig y pwyllgor, ac nid yw'n cael cyfle i wneud hynny ychwaith. Byddwn yn gobeithio y byddai'r rhan fwyaf o Aelodau yn gweithredu ar y sail pan fydd y ffeithiau'n newid, bydd ein barn yn newid. Felly, mae'n ddigon posibl y bydd cynnig y mae pwyllgor wedi cytuno arno yng Nghyfnod 1, ar ôl cael gwybodaeth bellach—yn enwedig gan gynghorwyr cyfreithiol y Llywodraeth—yn newid yng Nghyfnod 2 weithiau. Mae hynny wedi digwydd y tro hwn. Fodd bynnag, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn cynnal ei adolygiad ei hun o'r broses hon, ac mae hynny'n bwysig.

Jonathan Morgan: Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ildio. Mae paragraff 377 yn adroddiad y pwyllgor yn dweud bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi datgan

eu bod yn disgwyl bod yn gorff rheoleiddio ar gyfer monitro gwaharddiadau tirlenwi.

Mae paragraff 388 yn dweud, pan ofynnwyd pwy fyddai'n gyfrifol am gyflawni'r rôl

monitoring and enforcement role in relation to landfill bans, the Minister stated

‘that it would seem sensible if the responsibility lay with the Environment Agency in Wales’.

It is clear cut in the evidence that we received, not just from Environment Agency and others, but also from you. However, you are now telling us—although you did not tell us at Stage 2—that, suddenly, some miraculous legal advice from John Griffiths’s department suggested that there was an issue with stipulating this in the proposed Measure. Could you indicate what that legal advice was, and why the proposed Measure could not be amended to reflect what organisation should be the enforcement authority?

Jane Davidson: That is not what I said. What I said was that the Government has not consulted with all of the stakeholders on the appropriate enforcement authority. I was happy to say to Members that, given the Environment Agency’s existing role in regulating landfills under the environmental permitting regime, it or its successor is likely to be the enforcement authority. This Government believes in consultation, which is not something that we are seeing from your counterparts in the UK Government at the moment. I hope that the bad habits of not consulting are not rubbing off on the opposition here. It is not a matter of whether the Government and the Environment Agency are content with the proposition; it is whether or not the consultation has gone out appropriately to all stakeholders. [Interruption.] Having someone from a sedentary position saying ‘Never mind consultation’ makes my case. I propose that we resist amendments 7 and 8. [Interruption.]

The Presiding Officer: Order. Angela Burns to respond to this debate. If anyone is to move anything, you will do that.

Angela Burns: I ask Members to reconsider their opposition to this amendment. I agree with consultation—consultation is a very good idea. On the other hand, the Minister’s

monitro a gorfodi mewn perthynas â gwaharddiadau tirlenwi, dywedodd y Gweinidog

byddai’n synhwyrol pe bai Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn gyfrifol am hynny.

Mae’n gwbl amlwg yn y dystiolaeth a gawsom, nid yn unig gan Asiantaeth yr Amgylchedd a chyrff eraill, ond gennych chithau hefyd. Fodd bynnag, rydych yn dweud wrthym yn awr—er na wnaethoch ddweud wrthym yng Nghyfnod 2—bod rhyw gyngor cyfreithiol gwyrthiol gan adran John Griffiths wedi awgrymu mwyaf sydyn bod problem gyda nodi hyn yn y Mesur arfaethedig. A allech ddweud beth oedd y cyngor cyfreithiol hwnnw, a pham na ellid diwygio'r Mesur arfaethedig i adlewyrchu pa sefydliad ddylai fod yn awdurdod gorfodi?

Jane Davidson: Nid dyna ddywedais i. Yr hyn a ddywedais oedd nad yw'r Llywodraeth wedi ymgynghori â'r holl randdeiliaid ynghylch yr awdurdod gorfodi priodol. Roeddwn yn fodlon dweud wrth yr Aelodau ei bod yn debygol mai Asiantaeth yr Amgylchedd neu ei holynydd fydd yr awdurdod gorfodi, o ystyried rôl bresennol Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio safleoedd tirlenwi o dan y system trwyddedu amgylcheddol. Mae'r Llywodraeth hon yn credu mewn ymgynghori, rhywbeth nad ydym yn ei weld gan eich aelodau cyfatebol yn Llywodraeth y DU ar hyn o bryd. Gobeithio nad yw'r arferion drwg o beidio ag ymgynghori yn dylanwadu ar yr wrthblaid yma. Nid a yw'r Llywodraeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn fodlon â'r cynnig sy'n bwysig; mae'n rhaid ymgynghori'n briodol â'r holl randdeiliaid. [Torri ar draws.] Mae cael rhywun sydd ar ei eistedd yn dweud ‘Peidiwch â phoeni am ymgynghori’ yn profi fy nadl. Rwyf yn cynnig ein bod yn gwrthwynebu gwelliannau 7 ac 8. [Torri ar draws.]

Y Llywydd: Trefn. Angela Burns i ymateb i'r ddadl hon. Os bydd unrhyw un am gynnig unrhyw beth, gwnewch hynny.

Angela Burns: Gofynnaf i'r Aelodau ailstyried eu gwrthwynebiad i'r gwelliant hwn. Rwyf yn cytuno ag ymgynghori—mae ymgynghori yn syniad da iawn. Ar y llaw

department has undertaken over 60 consultations in the space of two years. I fail to see the point of consulting on what is completely obvious. No other agency in Wales has the scope, breadth or depth to undertake the monitoring and enforcement of a landfill ban. Kirsty said that she was worried that we might think that she was naïve; I do not think that. I consider myself to be an outsider to the political world, and I simply look at what people out there would expect. They want simple laws, simply understood that have a good end, something that they know is achieving well and is not bound up in red tape and political speak. So, I do not think that you are being remotely naive, Kirsty.

Jonathan wondered what other agency could do this work; I do not think that there is one. However, my deep fear as to why this is not on the face of the proposed Measure is that there might be plans to create another agency to be the enforcer. I do not think that we should be passing legislation that would allow this, because we have enough agencies. We are only a small country of three million people; we do not need these levels of hierarchy, these endless quangos or these agencies, sub-agencies—heaven only knows what else we have—and all this red tape. This is dead simple and is a great idea: ‘Landfill ban—those guys over there, go and make it happen’. We should do that and we should pass this amendment.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 7. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, yr wyf yn galw pleidlais.

arall, mae adran y Gweinidog wedi cynnal dros 60 o ymgynghoriadau mewn cyfnod o ddwy flynedd. Ni allaf weld pwrpas ymgynghori ar rywbeth sy'n gwbl amlwg. Nid oes gan unrhyw asiantaeth arall yng Nghymru y cwmpas, yr hyd na'r lled i ymgymryd â'r gwaith o fonitro a gorfodi gwaharddiad tirlenwi. Dywedodd Kirsty ei bod yn poeni y byddem yn meddwl ei bod yn naïf; nid wyf yn meddwl hynny. Rwyf yn ystyried fy hun yn rhywun sydd y tu allan i'r byd gwleidyddol, ac rwyf yn edrych ar yr hyn y byddai pobl yn y byd mawr yn ei ddisgwyl. Mae arnynt eisiau deddfau syml, hawdd eu deall ac sy'n arwain at ganlyniad da, rhywbeth y maent yn gwybod sy'n llwyddo ac sydd ddim yn rhwym wrth fiwrocratiaeth a jargon gwleidyddol. Felly, nid wyf yn meddwl eich bod yn naïf o gwbl, Kirsty.

Roedd Jonathan yn meddwl tybed pa asiantaeth arall fyddai'n gallu gwneud y gwaith hwn; nid wyf yn meddwl bod asiantaeth arall. Fodd bynnag, fy ofn mawr ynghylch pam nad yw hyn ar wyneb y Mesur arfaethedig yw efallai fod cynlluniau i greu asiantaeth orfodi arall. Nid wyf yn credu y dylem fod yn pasio deddfwriaeth a fyddai'n caniatáu hyn, oherwydd mae gennym ddigon o asiantaethau. Rydym yn wlad fach o dair miliwn o bobl; nid oes arnom angen gymaint â hyn o hierarchaeth, y cwangos diddiwedd hyn na'r asiantaethau a'r is-asiantaethau hyn—duw a wŷr beth arall sydd gennym—na'r holl fiwrocratiaeth. Mae hyn yn gwbl syml ac yn syniad gwyh: ‘Y Gwaharddiad Tirlenwi—chi, draw fan acw, ewch ati i gyflawni hynny’. Dylem wneud hynny, a dylem basio'r gwelliant hwn.

The Presiding Officer: The question is that amendment 7 be agreed. Are there any objections? I see that there are. Therefore I call for a vote.

*Gwelliant 7: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 32.
Amendment 7: For 16, Abstain 0, Against 32.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff

Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Law, Trish
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 7.
Amendment 7 not agreed.*

Y Llywydd: Gan fod gwelliant 7 wedi ei wrthod, mae gwelliant 8 yn methu.

The Presiding Officer: As amendment 7 has not been agreed, amendment 8 falls.

*Methodd gwelliant 8.
Amendment 8 fell.*

Grŵp 6: Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle—Awdurdodau Gorfodi (Gwelliannau 9, 10 ac 11) Group 6: Site Waste Management Plans—Enforcement Authorities (Amendments 9, 10 and 11)

Y Llywydd: Symudwn at grŵp 6, sy'n ymwneud ag awdurdodau gorfodi ar gyfer cynlluniau rheoli gwastraff safle. Y prif welliant yw gwelliant 9.

The Presiding Officer: We move to group 6, dealing with enforcement authorities for site waste management plans. The lead amendment is amendment 9.

Angela Burns: I move amendment 9 in my name.

Angela Burns: Cynigïaf welliant 9 yn fy enw i.

I am pleased to be able to speak to amendments 9, 10 and 11, which all focus on the enforcement authorities for waste site management plans. During Stage 1, it was clear to the committee that local authorities should be the enforcement agency and that that needed to be clarified. This amendment allows for that clarification within the proposed Measure. The Minister would again

Rwyf yn falch o allu siarad am welliannau 9, 10 ac 11, sydd i gyd yn canolbwyntio ar yr awdurdodau gorfodi ar gyfer y cynlluniau rheoli gwastraff safle. Yn ystod Cyfnod 1, roedd yn amlwg i'r pwyllgor mai awdurdodau lleol ddylai fod yn asiantaeth orfodi, a bod angen gwneud hynny'n glir. Mae'r gwelliant hwn yn gwneud hynny'n glir yn y Mesur arfaethedig. Byddai'n well o lawer gan y

much rather leave things open, without adding any detail to the proposed Measure and allowing for changes to be made in the future. However, if the Welsh Assembly Government does not think that local authorities should be the enforcement agency, where does it honestly imagine that the responsibility will lie? My concern is that if we do not identify the local authorities, we are leaving this open for more centralisation and less localism.

In amendment 11, I have raised a specific point with regard to the national parks, because there may be occasions when consultation needs to take place with the national parks in addition to the county or county borough councils already named. To explain the reason for this, I can use an example from my local national park in Pembrokeshire where a large business in Tenby burnt down. In future, that kind of business would come under the proposed Measure. We need to be able to include the national parks in that decision-making process, because they would have to be able to pass that through in their area.

I am generally concerned about these three amendments, because the amount of issues on which the Minister still needs to consult and gather further information suggests that she is ill-prepared to bring the proposed Measure forward at this time. From the start, the proposed Measure has lacked detail, and these concerns have been raised time and again by the Welsh Conservatives. I ask Members to look at this carefully. It is not okay to say that, 'We are going to go out to consult', or to keep putting it off. We are here to do business, to pass laws and to ensure that things are kept simple, that there is a minimum of red tape and that legislation can be enacted properly. This is all covered in the most enormous amount of fudge. It is about time that that stopped, and it should stop with this proposed Measure.

Jonathan Morgan: During Stage 1, we took evidence from the Welsh Local Government Association, which said that it wanted further clarity as to how site waste management plans would be monitored and enforced. It

Gweinidog adael pethau'n ben agored eto, heb ychwanegu unrhyw fanylion at y Mesur arfaethedig a chaniatáu gwneud newidiadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, os nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn credu mai awdurdodau lleol fod yn asiantaeth orfodi, pwy mewn difrif calon mae'n meddwl fydd yn gyfrifol am hynny? Fy mhryder i yw os na fyddwn yn nodi'r awdurdodau lleol, rydym yn gadael hyn yn agored i ragor o ganoli a llai o leoliaeth.

Yng ngwelliant 11, rwyf wedi codi pwynt penodol ynghylch y parciau cenedlaethol, oherwydd mae'n bosibl y bydd angen ymgynghori â'r parciau cenedlaethol ar adegau, yn ogystal â'r cynghorau sir neu'r cynghorau bwrdeistref sirol sydd eisoes wedi'u henwi. I esbonio'r rheswm dros hyn, gallaf ddefnyddio enghraifft o fy mharc cenedlaethol lleol yn sir Benfro, pan losgodd busnes mawr yn Ninbych-y-pysgod i'r llawr. Yn y dyfodol, byddai'r math hwnnw o fusnes yn dod o dan y Mesur arfaethedig. Mae angen inni allu cynnwys y parciau cenedlaethol yn y broses honno o wneud penderfyniadau, gan y byddai'n rhaid iddynt allu pasio hynny yn eu hardaloedd hwy.

Rwyf yn pryderu'n gyffredinol am y tri gwelliant hyn, gan fod nifer y materion y mae'r Gweinidog angen ymgynghori arnynt a chasglu rhagor o wybodaeth amdanynt o hyd yn awgrymu nad yw wedi paratoi'n dda iawn i gyflwyno'r Mesur arfaethedig yn awr. Nid oes digon o fanylion wedi bod ar gael ynghylch y Mesur arfaethedig o'r dechrau, ac mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi codi hyn dro ar ôl tro. Gofynnaf i'r Aelodau edrych ar hyn yn ofalus. Nid yw'n iawn dweud, 'Rydym yn mynd i fynd ati i ymgynghori', na pharhau i'w ohirio. Rydym yma i wneud busnes, i basio deddfau ac i sicrhau bod pethau'n cael eu cadw'n syml, bod cyn lleied o fiwrocratiaeth â phosibl ac y gellir cyflwyno deddfwriaeth yn briodol. Mae hynny'n rhan o'r llanestr enfawr. Mae'n hen bryd i hynny ddod i ben, a dylai ddod i ben gyda'r Mesur arfaethedig hwn.

Jonathan Morgan: Yn ystod Cyfnod 1, cawsom dystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a ddywedodd fod arni eisiau mwy o eglurder ynghylch sut y byddai'r cynlluniau rheoli gwastraff safle yn

pointed out that the Environment Agency and local authorities having joint responsibility had caused significant confusion in England, stating that

‘there is a bit of a muddle over who does what’.

When the Minister gave evidence to the committee, she was very clear that it should either be local authorities or the Environment Agency. At least the Government was willing to narrow it down to one or the other. The committee again took a definitive view and concluded that we agreed that

‘the enforcement of a site waste management plan scheme in Wales should be undertaken by local authorities’.

We believed that they were best placed to undertake that function

‘because of their day to day involvement with the construction and demolition sector’.

Therefore, it is right for the proposed Measure to be amended in this way. The evidence was crystal clear that there should be clarity and the committee took a definitive view on that.

5.00 p.m.

With regard to amendment 11, we had not considered this at Stage 3. Having spoken to Angela Burns after the conclusion of Stage 1, I thought that we ought to consider this amendment for this afternoon because it would be appropriate to make clear reference to how local authorities are defined on the face of the proposed Measure. I am more than happy to support amendments 9 and 10, and the new amendment 11.

Kirsty Williams: The amendments in group 6 rehearse the arguments about the enforcement of regulations on landfill bans. The Minister has set great store by the need to do something about the waste arising from building sites. Once again, the principle is right but the National Assembly is being asked to pass legislation without clarity on who is responsible for monitoring it. If this

cael eu monitro a'u gorfodi. Dywedodd fod y ffaith bod Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol yn gyd-gyfrifol am hyn wedi achosi dryswch sylweddol yn Lloegr, gan nodi bod

ychedig o ddryswch ynghylch pwy sy'n gwneud beth.

Pan roddodd y Gweinidog dystiolaeth i'r pwyllgor, roedd yn bendant iawn mai naill ai'r awdurdodau lleol neu Asiantaeth yr Amgylchedd ddylai fod yn gyfrifol am hynny. O leiaf roedd y Llywodraeth yn fodlon ei gyfyngu i'r naill neu'r llall. Unwaith eto, roedd barn y pwyllgor yn bendant, a daeth i'r casgliad ein bod yn cytuno

mai awdurdodau lleol ddylai fod yn gorfodi cynllun rheoli gwastraff safle yng Nghymru.

Roeddem o'r farn mai nhw oedd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r swyddogaeth honno

oherwydd eu bod yn ymwneud â'r sector adeiladu a dymchwel o ddydd i ddydd.

Felly, mae'n iawn i'r Mesur arfaethedig gael ei ddiwygio fel hyn. Roedd y dystiolaeth yn gwbl glir y dylid cael eglurder, ac roedd barn y pwyllgor yn bendant ar hynny.

O ran gwelliant 11, nid oeddem wedi ystyried hyn yng Nghyfnod 3. Ar ôl siarad ag Angela Burns ar ôl i Gyfnod 1 ddod i ben, roeddw'n yn meddwl y dylem ystyried y gwelliant hwn y prynhawn yma oherwydd y byddai'n briodol cyfeirio'n glir at y modd y mae awdurdodau lleol yn cael eu diffinio ar wyneb y Mesur arfaethedig. Rwyf yn fwy na pharod i gefnogi gwelliannau 9 a 10 a'r gwelliant newydd, sef gwelliant 11.

Kirsty Williams: Mae'r gwelliannau yng ngrŵp 6 yn ailadrodd y dadleuon ynghylch gorfodi rheoliadau ar waharddiadau tirlenwi. Mae'r Gweinidog wedi rhoi pwys mawr ar yr angen i wneud rhywbeth am y gwastraff sy'n deillio o safleoedd adeiladu. Unwaith eto, mae'r egwyddor yn iawn, ond gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol basio deddfwriaeth heb eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am

policy had been clearly thought through from beginning to end, the Minister would be in a position to state this afternoon who will be responsible for enforcing this piece of the proposed Measure. In the previous debate, the Minister tried to hide behind the figleaf of consultation: she wanted to consult. Of course the Minister wants to consult. As we heard from Angela Burns, the Minister's department has an impressive record given the number of consultations that it has carried out in recent years.

Minister, if we are to do our job properly as a legislature, it is imperative that Government Ministers carry out their consultations and arrive at a policy position prior to bringing legislation before the National Assembly. Do not do half a job. Do not go for the headline-grabbing Measure. Introduce the legislation when you have taken the time and the trouble to think through the policy implications properly and arrive at a definite decision as regards who will be responsible for enforcing it. You have failed to do so again in this regard, just as you failed with regard to landfill. If that does not make a mockery of the process that we are going through, it at least points to a fundamental flaw in how this Government expects the National Assembly to act in relation to this proposed Measure. If you think that site waste management plans are important—and you obviously do, or you would not have put them in the legislation—I suggest that you should have gone to the time and trouble of working out who would be responsible for enforcing them before coming to the Chamber. You should have carried out the consultation before introducing the legislation and not tried to hide behind a lack of consultation to cover up the fact that you did not carry out the groundwork beforehand.

Jane Davidson: We are in similar territory although, this time, the committee's favoured option is not the Environment Agency but local authorities. When I appeared before the committee, I said that it could be either local authorities or the Environment Agency, but decisions about who is best placed to enforce

ei monitro. Pe baent wedi meddwl yn drylwyr am y polisi hwn ar ei hyd, byddai'r Gweinidog mewn sefyllfa i ddatgan y prynhawn yma pwy fydd yn gyfrifol am orfodi'r darn hwn o'r Mesur arfaethedig. Yn y ddatl flaenorol, ceisiodd y Gweinidog guddio y tu ôl i ymgynghori: roedd arni eisiau ymgynghori. Wrth gwrs mae ar y Gweinidog eisiau ymgynghori. Fel y clywsom gan Angela Burns, mae gan adran y Gweinidog record drawiadol o ran nifer yr ymgynghoriadau y mae wedi'u cynnal yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Weinidog, os ydym am wneud ein gwaith yn iawn fel deddfwrfa, mae'n hanfodol bod Gweinidogion y Llywodraeth yn cynnal eu hymgyngoriadau ac yn barod i wneud polisi cyn cyflwyno deddfwriaeth gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Os am wneud rhywbeth, gwnewch hynny'n iawn. Peidiwch â mynd am y Mesur sy'n cipio'r penawdau. Cyflwynwch y ddeddfwriaeth pan fyddwch wedi rhoi o'ch amser ac wedi mynd ati i ystyried y goblygiadau polisi'n briodol, a dod i benderfyniad pendant ynghylch pwy fydd yn gyfrifol am ei gorfodi. Rydych wedi methu â gwneud hynny eto yn hyn o beth, fel y gwnaethoch fethu yng nghyswllt tirlenwi. Os nad yw hynny'n gwneud y broses rydym yn ei dilyn yn destun sbort, mae o leiaf yn cyfeirio at ddiffyg sylfaenol yn y ffordd y mae'r Llywodraeth hon yn disgwyl i'r Cynulliad Cenedlaethol weithredu mewn perthynas â'r Mesur arfaethedig hwn. Os ydych yn meddwl bod cynlluniau rheoli gwastraff safle yn bwysig—ac mae'n amlwg eich bod, neu ni fyddech wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth—rwyf yn awgrymu y dylech fod wedi rhoi o'ch amser ac wedi mynd ati i feddwl pwy fyddai'n gyfrifol am eu gorfodi cyn dod i'r Siambr. Dylech fod wedi cynnal yr ymgynghoriad cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth, a pheidio â cheisio cuddio y tu ôl i ddiffyg ymgynghori i gelu'r ffaith nad oeddech wedi gwneud y gwaith caib a rhaw ymlaen llaw.

Jane Davidson: Rydym ar dir tebyg, er awdurdodau lleol yw hoff opsiwn y pwyllgor y tro hwn, yn hytrach nag Asiantaeth yr Amgylchedd. Pan wneuthum ymddangos gerbron y pwyllgor, dywedais y gallai naill ai awdurdodau lleol neu Asiantaeth yr Amgylchedd wneud hyn, ond bydd

the site waste management plan regulations will depend on the detail of the regime created by the regulations. That should be decided at the time of making the regulations, following detailed consultation. Therefore, we maintain our position that the proper time to have proper discussions on this is when the detailed regulations related to delivery are published. The proposed Measure will enable those regulations to be consulted on in due course.

On amendment 11 and the proposition to provide a definition of 'local authority' in section 12, it is wider than the existing definition under section 15(1), as it includes a 'National Park in Wales'. The amendment is technically unsatisfactory, as the reference should be to the 'national park authority'. It does not amend the definition of 'local authority' in section 15(1), however, which applies to the whole of the proposed Measure. As a consequence, if the amendment were carried, we would have two competing definitions of 'local authority' applying to section 12. The definition is not applied to section 14A, and so only county councils and county borough councils will be specifically required to be consulted on the regulations under section 12, and not national park authorities. Therefore, we cannot accept that amendment on technical grounds. I ask Members to reject these amendments.

Angela Burns: I take this opportunity to thank everyone who has spoken on this group and to share my disappointment that the Minister once again feels unable to support these amendments. I will not go through everything again, as that would be like *Groundhog Day*. At the end of the day, this proposed Measure has not been thought through, and the consultation that should have happened previously has been left until after the proposed Measure becomes law—a law that applies to the people of Wales. That is not a responsible way for us to take this forward.

I am prepared to accept what the Minister says about amendment 11 being technically

penderfyniadau ynghylch pwy sydd yn y sefyllfa orau i orfodi rheoliadau'r cynllun rheoli gwastraff safle yn dibynnu ar fanylion y system a fydd yn cael ei chreu gan y rheoliadau. Dylid penderfynu ar hynny pan wneir y rheoliadau, yn dilyn ymgynghoriad manwl. Felly, rydym yn parhau â'n safbwynt mai'r adeg briodol i gael trafodaethau priodol ynghylch hyn yw pan fydd y rheoliadau manwl sy'n gysylltiedig â chyflwyno yn cael eu cyhoeddi. Bydd y Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn bosibl i ymgynghori ar y rheoliadau hynny maes o law.

Mae'r Mesur arfaethedig sydd ger eich bron heddiw yn rhan hanfodol o'n strategaeth i ymgorffori mwy o arferion rheoli gwastraff mwy cynaliadwy ledled Cymru. Ein huchelgais, fel y nodir yng nghynllun datblygu cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad, yw sicrhau nad yw Cymru, o fewn cenedlaeth, ond yn defnyddio ei chyfran deg o adnoddau, a bod yr ôl troed ecolegol yn cael ei leihau i'r cyfartaledd adnoddau bydeang.

The proposed Measure will contribute towards that aim and the wider objectives set out in the Wales climate change strategy of reducing our carbon footprint. It is one of a number of tools that we are using to help to deliver our progressive and challenging programme for managing waste. The overarching waste strategy, 'Towards Zero Waste', sets out the long-term framework for waste management, and the overall aim is to take us to a zero-waste approach. The provisions in the proposed Measure will take us in that direction by placing a specific focus on ensuring that Wales becomes a high-recycling society by 2025.

Bydd y Mesur arfaethedig yn cyfrannu at y nod honno, a'r amcanion ehangach a amlinellir yn strategaeth Cymru ar y newid yn yr hinsawdd, i leihau ein hól troed carbon. Mae'n un o nifer o adnoddau rydym yn eu defnyddio i helpu i gyflawni ein rhaglen flaengar a heriol ar gyfer rheoli gwastraff. Mae'r strategaeth wastraff drosfwaol, 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', yn nodi'r fframwaith hirdymor ar gyfer rheoli gwastraff, a'r nod gyffredinol yw mabwysiadu ymagwedd dim gwastraff. Bydd y darpariaethau yn y Mesur arfaethedig yn ein harwain i'r cyfeiriad hwnnw drwy roi ffocws penodol ar sicrhau bod Cymru yn dod yn gymdeithas â chyfraddau uchel o ailgylchu erbyn 2025.

Along with delivering a more sustainable approach to waste management and improving local environmental quality, the

Ynghyd â darparu dull mwy cynaliadwy o reoli gwastraff a gwella ansawdd yr amgylchedd lleol, bydd y darpariaethau yn y

provisions in the proposed Measure will save money and create high-quality work in Wales by using valuable material resources contained in the waste system. Better management of our resources will result in financial and environmental benefits.

The proposed Measure has been subject to robust and constructive scrutiny at all stages, including today, and I would like to record my appreciation to those members and Chairs of the respective committees who have been involved in the detailed consideration of this proposed legislation. In particular, I am grateful for the work and contributions of Legislation Committee No. 4 and its Chair, Jenny Randerson AM. This scrutiny process has, in my view, resulted in a more effective proposed Measure.

In responding to the reports of the various Committees, we have made a number of improvements to the proposed Measure. We incorporated changes suggested by the Constitutional Affairs Committee to ensure that Ministers have a duty to consult local authorities on any draft regulations relating to the provision of Welsh targets. There is now an expectation that Welsh Ministers consult with local authorities, the Environment Agency and other parties on draft regulations relating to the provisions on Welsh waste targets. The Constitutional Affairs Committee also recommended that the proposed Measure should be amended to clarify that there is no ambiguity surrounding the level of penalty that may be applied for breaches of site waste management plan regulations. The proposed Measure has been amended to clarify that the usual restriction on criminal penalties under the Government of Wales Act 2006 will not apply in this instance other than in relation to regulation on fees and charges.

We were also able to support an amendment proposed by Jonathan Morgan at Stage 2 to require Welsh Ministers to consult on draft regulations on site waste management plans, and the proposed Measure has been amended accordingly.

In addition to these changes we have brought

Mesur arfaethedig yn arbed arian ac yn creu gwaith o ansawdd uchel yng Nghymru, drwy ddefnyddio adnoddau o ddeunyddiau gwerthfawr yn y system wastraff. Bydd gwell rheolaeth ar ein hadnoddau yn arwain at fanteision ariannol ac amgylcheddol.

Mae'r Mesur arfaethedig wedi bod yn destun gwaith craffu cadarn ac adeiladol yn ystod pob cyfnod, gan gynnwys heddiw, a hoffwn gofnodi fy ngwerthfawrogiad i'r aelodau hynny ac i Gadeiryddion y pwyllgorau perthnasol sydd wedi bod yn ymwneud â'r broses o ystyried y ddeddfwriaeth arfaethedig hon yn fanwl. Yn benodol, rwyf yn gwerthfawrogi gwaith a chyfraniadau Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 a'i Gadeirydd, Jenny Randerson AC. Mae'r broses graffu hon, yn fy marn i, wedi arwain at Fesur arfaethedig mwy effeithiol.

Wrth ymateb i adroddiadau'r gwahanol Bwyllgorau, rydym wedi gwella'r Mesur arfaethedig mewn sawl ffordd. Gwnaethom ymgorffori newidiadau a awgrymwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol i sicrhau bod dyletswydd ar Weinidogion i ymgynghori ag awdurdodau lleol ar unrhyw reoliadau drafft sy'n ymwneud â darparu targedau Cymru. Erbyn hyn, ceir disgwyliad y dylai Gweinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd a phartïon eraill ar reoliadau drafft sy'n ymwneud â'r darpariaethau ar gyfer targedau gwastraff Cymru. Argymhellodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol hefyd y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei ddiwygio i egluro nad oes unrhyw amwyster ynghylch lefel y gosb y gellir ei defnyddio am dorri amodau rheoliadau'r cynllun rheoli gwastraff safle. Mae'r Mesur arfaethedig wedi cael ei ddiwygio i egluro na fydd y cyfyngiad arferol ar gosbau troseddol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn berthnasol yn yr achos hwn, ac eithrio mewn perthynas â rheoliadau ffioedd a chostau.

Roeddem hefyd yn gallu cefnogi gwelliant a gynigiwyd gan Jonathan Morgan yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar reoliadau drafft ynghylch cynlluniau rheoli gwastraff safle, ac mae'r Mesur arfaethedig wedi cael ei ddiwygio yn unol â hynny.

Yn ychwanegol at y newidiadau hyn, rydym

forward two substantive amendments to the proposed Measure following the Stage 2 considerations. At Stage 2, we proposed an amendment to enable civil sanctions to be applied to breaches in site waste management plan regulations, thus providing the enforcement authority with greater flexibility regarding how to respond to breaches in regulations. At Stage 3 today, we propose the amendment to provide greater flexibility to the way in which regulations on single-use carrier bags can be applied as requested by the committee. This amendment was proposed following that discussion at Stage 2.

These changes, I hope, serve to demonstrate that we have listened carefully to the issues raised during the scrutiny process. We have reflected on the issues and we have, where appropriate, brought forward amendments to improve the proposed Measure. Subject to Assembly agreement today, the next stage of the process will be the formal approval of the proposed Measure by the Privy Council, which we hope will be obtained by the end of December.

We are currently working on the development of draft regulations and guidance in relation to the waste targets provision in the proposed Measure, and will consult widely on these before the end of the calendar year, prior to laying the draft regulations before the Assembly for consideration next year. I invite Assembly Members to support and to approve this important proposed Measure.

Angela Burns: I looked back at a few other Measures that have been passed by the Assembly to see what everyone said at Stage 4. It is almost always a matter of saying, 'Well done', 'Thank you for taking part' and 'Jolly good show'. Therefore, I say all of those things truthfully. It is always good to produce law; it is all part of us becoming a stronger nation in our own right. I hope that this does not sound churlish, as I do not normally do churlish—it is not part of my character—but I want everyone to take this to heart. I do not believe that the Welsh Assembly Government or the National Assembly will carry people with it on its road

wedi cyflwyno dau welliant sylweddol i'r Mesur arfaethedig yn dilyn ystyriaethau Cyfnod 2. Yng Nghyfnod 2, cynigiom welliant i alluogi defnyddio cosbau sifil am dorri amodau rheoliadau cynllun rheoli gwastraff safle, gan roi mwy o hyblygrwydd i'r awdurdod gorfodi o ran sut i ymateb i achosion o dorri amodau rheoliadau. Yng Nghyfnod 3 heddiw, rydym yn cynnig y gwelliant i ddarparu mwy o hyblygrwydd i'r ffordd y gellir defnyddio rheoliadau ar fagiâu siopa untro, yn unol â chais y pwyllgor. Cynigiwyd y gwelliant hwn yn dilyn y drafodaeth honno yng Nghyfnod 2.

Bydd y newidiadau hyn, gobeithio, yn dangos ein bod wedi gwrandao'n ofalus ar y materion a godwyd yn ystod y broses graffu. Rydym wedi pwysu a mesur y materion ac wedi cyflwyno gwelliannau i wella'r Mesur arfaethedig, lle bo hynny'n briodol. Yn amodol ar gytundeb y Cynulliad heddiw, cam nesaf y broses fydd cael cymeradwyaeth ffurfiol y Cyfrin Gyngor i'r Mesur arfaethedig, ac rydym yn gobeithio cael hynny erbyn diwedd mis Rhagfyr.

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar ddatblygu canllawiau a rheoliadau drafft yng nghyswllt y ddarpariaeth targedau gwastraff yn y Mesur arfaethedig, a byddwn yn ymgynghori'n eang ar y rhain cyn diwedd y flwyddyn galendr, ac yna'n gosod y rheoliadau drafft gerbron y Cynulliad i'w hystyried y flwyddyn nesaf. Rwyf yn gwahodd Aelodau'r Cynulliad i gefnogi ac i gymeradwyo'r Mesur arfaethedig pwysig hwn.

Angela Burns: Rwyf wedi edrych yn ôl ar rai Mesurau eraill sydd wedi cael eu pasio gan y Cynulliad, i weld beth ddywedodd pawb yng Nghyfnod 4. Mae bron bob tro'n fater o ddweud, 'Da iawn', 'Diolch ichi am gymryd rhan' a 'Gwaith da iawn'. Felly, rwyf yn dweud y pethau hynny i gyd yn onest. Mae bob amser yn dda creu deddf; mae hynny i gyd yn rhan o'n taith wrth inni ddod yn genedl gryfach yn ein haeddiant ein hunain. Gobeithio nad yw hyn yn swnio'n annifyr, gan nad wyf yn annifyr fel arfer—nid yw'n rhan o fy nghymeriad i—ond rwyf am i bawb gymryd hyn i galon. Nid wyf yn credu y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru

to further powers if we continue to map out legislation that, to some, appears to leave the serious thinking to a later date once competency is in place. To others, it seems to be little more than a Trojan horse intended to bring in further regulations at a later date without proper scrutiny. We have to get that right. We will go out to ask the people of Wales next year to give us more powers to make our nation stronger and to make the laws for our nation as we want. This does not apply particularly to this proposed Measure—it applies to other Measures that have gone before it—but I do not think that we do ourselves any favours as an Assembly, or as the Government, which leads on it. We need to up our game and just get better at this whole thing.

Forgive me, Presiding Officer, if I have overstepped the mark, but I feel that not enough people are prepared to stand up to say what is self-evidently the truth. We have to win hearts and minds out there. I would ask that we really think about this the next time that we go forward. [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. Nothing that you have said was disorderly at Stage 4, although, clearly, it is controversial. I will stop there.

Y cwestiwn yw a ddylid pasio'r Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru). A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, datganaf fod y Mesur arfaethedig wedi ei basio.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

5.40 p.m.

na'r Cynulliad Cenedlaethol yn denu pobl atynt ar eu taith i bwerau pellach os byddwn yn parhau i amlinellu deddfwriaeth sydd, ym marn rhai pobl, wedi gadael y gwaith meddwl go iawn tan yn ddiweddarach ar ôl sicrhau'r cymhwysedd. I bobl eraill, nid yw'n ymddangos yn llawer mwy na cheffyl Trojan, gyda'r bwriad o gyflwyno rhagor o reoliadau yn nes ymlaen heb graffu priodol. Rhaid inni gael hynny'n iawn. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn gofyn i bobl Cymru roi rhagor o bwerau inni i wneud ein cenedl yn gryfach, ac i wneud deddfau ar gyfer ein cenedl fel rydym yn dymuno. Nid yw hyn yn arbennig o berthnasol i'r Mesur arfaethedig hwn—mae'n berthnasol i Fesurau eraill blaenorol—ond nid wyf yn meddwl ein bod yn gwneud unrhyw les i'n hunain fel Cynulliad, nac fel y Llywodraeth, sy'n arwain y ffordd ar hyn. Mae angen inni dorchi llewys, a gwella ein ffordd o wneud hyn i gyd.

Maddeuwch imi, Lywydd, os wyf wedi mynd yn rhy bell, ond rwyf yn teimlo nad oes digon o bobl yn fodlon sefyll a dweud y gwir plaen. Rhaid inni ennill calonnau a meddyliau pobl. Gofynnaf inni feddwl am hyn o ddifrif y tro nesaf y byddwn yn symud ymlaen. [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Nid oes dim byd rydych wedi'i ddweud yn afreolaidd yng Nghyfnod 4, er ei fod yn amlwg yn ddadleuol. Dof i ben gyda hynny.

The question is that the Proposed Waste (Wales) Measure be passed. Are there any objections? I see that there are no objections. Therefore, in accordance with Standing Order No. 7.35, I declare that the proposed Measure is agreed.

Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.57 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Iechyd Meddwl (Cymru)
Stage 3 Standing Order No. 23.57 Debate on the Proposed Mental Health (Wales) Measure

Grŵp 1: Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol—Gofyniad Ieithyddol (Gwelliannau 7 a 6)

Group 1: Local Primary Mental Health Services—Linguistic Requirement (Amendments 7 and 6)

Y Llywydd: Mae'r grŵp cyntaf o welliannau yn ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd meddwl lleol yn unol â gofynion ieithyddol lleol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 7.

The Presiding Officer: The first group of amendments deals with the linguistic requirements of providing local mental health services. The lead amendment in this group is amendment 7.

Andrew R.T. Davies: I move amendment 7.

Andrew R.T. Davies: Cynigiau welliant 7.

I thank the Minister for holding meetings on the process leading up to Stage 3, which were very helpful. Some of the amendments that we have put before the Assembly have been considered at other stages, but the proposed Measure could be greatly improved if serious consideration was given to tightening up some of the areas that could be misinterpreted, and which may end up not delivering the sentiment that we wish for the proposed Measure.

Diolch i'r Gweinidog am gynnal cyfarfodydd ar y broses yn arwain at Gyfnod 3, a oedd yn ddefnyddiol iawn. Mae rhai o'r gwelliannau rydym wedi'u rhoi gerbron y Cynulliad wedi cael eu hystyried yn ystod cyfnodau eraill, ond gellid gwella'r Mesur arfaethedig yn sylweddol drwy wir ystyried tynhau rhai o'r elfennau y gellid eu camddechongli ac a allai, yn y pen draw, arwain at beidio â chyflawni'r bwriad rydym yn ei ddymuno ar gyfer y Mesur arfaethedig.

Amendments 7 and 6 call for mental health assessments and joint schemes for the provision of mental health services to consider the language needs of individual patients, and provide for the linguistic nature of a geographical area. I hope that Members who have talked about language issues over the last few weeks will look favourably upon the amendment. The Deputy Minister for Social Services has stated in the Chamber that having access to health and social services through the medium of Welsh is not just a matter of equality, but that it can also be crucial to the clinical assessment of the treatment. With that in mind, we hope that the Government will support amendments 7 and 6, which seek to confer this right on patients seeking redress via the proposed Measure. I hope that the Minister with her coalition partners in Government will support these amendments.

Mae gwelliannau 7 a 6 yn galw am asesiadau iechyd meddwl a chynlluniau ar y cyd er mwyn darparu gwasanaethau iechyd meddwl sy'n ystyried anghenion ieithyddol cleifion unigol, ac yn darparu ar gyfer natur ieithyddol ardal ddaearyddol. Rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau sydd wedi sôn am faterion ieithyddol yn ystod yr wythnosau diwethaf yn edrych yn ffafriol ar y gwelliant. Mae'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol wedi datgan yn y Siambr bod cael mynediad at wasanaethau iechyd a chymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy na dim ond mater o gydraddoldeb, a'i fod hefyd yn gallu bod yn hanfodol ar gyfer asesiad clinigol o'r driniaeth. Gyda hynny mewn cof, rydym yn gobeithio y bydd y Llywodraeth yn cefnogi gwelliannau 7 a 6, sy'n ceisio rhoi'r hawl hon i gleifion sy'n ceisio iawn drwy gyfrwng y Mesur arfaethedig. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog, â'i phartneriaid clymbleidiol yn y Llywodraeth, yn cefnogi'r gwelliannau hyn.

Helen Mary Jones: The Plaid Cymru group

Helen Mary Jones: Mae grŵp Plaid Cymru

supports the intention of these amendments, and believes that it is essential that people are able to receive services through their language of choice. That may be their first language or, in some situations, it may be their second language. We know that great wrongs have been done to individuals who have not been able to access mental health services through the medium of Welsh, and have suffered considerably as a result.

Our problem with this amendment, as it is worded, is that it refers to the linguistic needs of the area, not of the individual. What about the older person living in Cardiff—which might be a part of Wales where you would not expect, in geographical terms, a high level of need—who was originally a Welsh speaker and, suffering from Alzheimer's disease, has lost the ability to speak and understand English? This is based on more than one real case that has been brought to my attention. If we base the assessment of linguistic needs on areas rather than on individuals, it could still be the case that individuals would not be able to access the mental health services through the medium of Welsh that Andrew R.T. Davies is seeking to provide through this amendment. Similarly, a very young child living in Newport—

Andrew R.T. Davies: You used Cardiff as an example, but there are other linguistic needs in an area such as Cardiff, because of its ethnic diversity. So, the amendment does not only look at the Welsh aspect, hence the geographical aspect that needs to be considered when looking at the wider linguistic need of that area.

Helen Mary Jones: That is a point well made, but it could be a person whose first language was Urdu and who lived in Caernarfon. If it is based on geographical area, your individual need would not necessarily be met, although I take on board the point that you raise. The other example might be a very young child growing up in Monmouthshire or Newport whose mother tongue is Welsh, and who would not be able to access early years child and adolescent mental health services if that was not provided through the medium of Welsh.

yn cefnogi bwriad y gwelliannau hyn, ac yn credu ei bod yn hanfodol bod pobl yn gallu derbyn gwasanaethau drwy'r iaith o'u dewis. Efallai mai dyna yw eu hiaith gyntaf neu, mewn rhai sefyllfaoedd, efallai mai dyna yw eu hail iaith. Gwyddom fod unigolion nad ydynt wedi gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cael cam mawr, a'u bod wedi dioddef yn sylweddol o ganlyniad.

Ein problem gyda'r gwelliant hwn, fel y mae wedi'i eirio, yw ei fod yn cyfeirio at anghenion ieithyddol yr ardal, nid yr unigolyn. Beth am berson hŷn sy'n byw yng Nghaerdydd—rhan o Gymru lle na fydddech, o safbwynt daearyddol, yn disgwyl llawer o angen—a oedd yn siaradwr Cymraeg yn wreiddiol ac sydd, am ei fod yn dioddef o glefyd Alzheimer, wedi colli'r gallu i siarad a deall Saesneg? Mae hyn yn seiliedig ar fwy nag un achos go iawn sydd wedi dod i'm sylw. Os byddwn yn seilio'r asesiad o anghenion ieithyddol ar ardaloedd yn hytrach nag ar unigolion, byddai'n bosibl bod yr unigolion yn dal i fethu â chael mynediad at y gwasanaethau iechyd meddwl cyfrwng Cymraeg y mae Andrew R.T. Davies yn ceisio eu darparu drwy'r gwelliant hwn. Yn yr un modd, mae plentyn ifanc iawn sy'n byw yng Nghasnewydd—

Andrew R.T. Davies: Gwnaethoch ddefnyddio Caerdydd fel enghraifft, ond ceir anghenion ieithyddol eraill mewn ardal fel Caerdydd oherwydd ei hamrywiaeth ethnig. Felly, nid dim ond yr elfen Gymraeg y mae'r gwelliant hwn yn ei hystyried, a dyna pam y mae angen ystyried yr elfen ddaearyddol wrth edrych ar anghenion ieithyddol ehangach yr ardal honno.

Helen Mary Jones: Mae hynny'n bwynt da, ond gallai fod yn berson lle mai Wrddw yw ei iaith gyntaf ac sy'n byw yng Nghaernarfon. Os yw'n seiliedig ar ardal ddaearyddol, ni fyddai eich anghenion unigol yn cael eu bodloni o reidrwydd, ond rwyf yn derbyn y pwynt a godir gennych. Gallai'r enghraifft arall fod yn blentyn ifanc iawn sy'n cael ei fagu yn sir Fynwy neu Gasnewydd lle mai'r Gymraeg yw ei famiaith, ac na fyddai'n gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant a phobl ifanc pe na bai'r gwasanaethau

hynny'n cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

The proposed Measure is about an individual's right to receive treatment, and to move away from generalised packages of care that do not serve individual needs. I agree that it would have been positive to have something specific on the face of the proposed Measure that addressed the need to provide services through the medium of Welsh, and I take on board Andrew R.T. Davies's point about access to services through the medium of other languages, where that is necessary. We know that some people from ethnic minority groups present with quite high needs for mental health support. However, it seems a pity that we were not able to address these issues earlier. On the process, I would be interested to hear whether the Minister received any formal representations at earlier stages, for example, from the Welsh Language Board, asking for something to be placed on the face of the proposed Measure. I would be interested to know if the Minister has had any such discussions. I know that she and I, at a late stage, have discussed these issues privately. I accept that it is probably too late now to have an effective amendment to the proposed Measure, but can the Minister commit to ensuring, through statutory guidance, that services are available through the medium of Welsh to all service users who choose to receive them in Welsh and to ensure that those service users are proactively offered that service? People will often not ask if they are in great distress, but they should be proactively offered that service.

I would also be interested in hearing whether the Minister can implement in guidance the points that Andrew R.T. Davies rightly raised about people from ethnic minority communities. That guidance could also look at the ways in which health boards could co-operate to ensure that highly specialised services are available across health board boundaries through the medium of Welsh and potentially through other languages.

As a result of that particular drafting with regard to areas rather than individual needs,

Mae'r Mesur arfaethedig yn ymwneud â hawl unigolyn i gael triniaeth, ac i symud oddi wrth becynnau gofal cyffredinol nad ydynt yn diwallu anghenion unigol. Rwyf yn cytuno y byddai wedi bod yn beth da cael rhywbeth penodol ar wyneb y Mesur arfaethedig a oedd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac rwyf yn derbyn pwynt Andrew R.T. Davies ynghylch mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng ieithoedd eraill, lle byddai angen hynny. Gwyddom fod rhai pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig wir angen gwasanaethau cymorth iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae'n drueni nad oeddem yn gallu mynd i'r afael â'r materion hyn yn gynharach. O ran y broses, byddai gennyf ddiddordeb clywed a gafodd y Gweinidog unrhyw sylwadau ffurfiol yn ystod un o'r cyfnodau cynharach, gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, er enghraifft, yn gofyn am gynnwys rhywbeth ar wyneb y Mesur arfaethedig. Byddai gennyf ddiddordeb gwybod a yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau o'r fath. Gwn fy mod i a hithau, yn hwyr yn y broses, wedi trafod y materion hyn yn breifat. Rwyf yn derbyn ei bod yn rhy hwyr erbyn hyn mae'n siŵr i gael gwelliant effeithiol ar gyfer y Mesur arfaethedig, ond a all y Gweinidog ymrwymo i sicrhau, drwy ganllawiau statudol, bod gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n dewis eu derbyn yn Gymraeg, ac i sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw yn cael ei gynnig yn rhagweithiol i'r defnyddwyr gwasanaethau hynny? Yn aml, ni fydd pobl yn gofyn os ydynt mewn trallod mawr, ond dylid cynnig y gwasanaeth hwnnw iddynt yn rhagweithiol.

Byddai gennyf hefyd ddiddordeb clywed a all y Gweinidog weithredu, mewn canllawiau, y pwyntiau priodol a godwyd gan Andrew R.T. Davies am bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Gallai'r canllawiau hynny hefyd edrych ar y ffyrdd y gallai byrddau iechyd gydweithio i sicrhau bod gwasanaethau hynod arbenigol ar gael ar draws ffiniau byrddau iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg, a thrwy ieithoedd eraill o bosibl.

O ganlyniad i'r modd penodol y mae wedi'i ddrafftio o ran ardaloedd yn hytrach nag

we will not support these amendments, but I am grateful to the Conservative group for bringing them forward to enable us to have this debate today. I hope that the Minister will be able to give us those assurances, because I know that she fully intends for services to be available through the medium of Welsh and, where appropriate, minority ethnic languages.

Peter Black: I start by congratulating the Minister for listening to the sector and to the committee and amending the proposed Measure accordingly. The proposed Measure that is before us is much improved on the one that was originally presented to the legislation committee. For that reason, the Welsh Liberal Democrats will largely support the Government's position on the proposed Measure and on the amendments.

However, these two amendments are the exception. I think that Helen Mary Jones misunderstood the nature of the amendments and what they are seeking to amend in her criticism of them. These amendments, particularly amendment 7, seek to amend the provision for a scheme for the provision of local primary mental health support services rather than the treatment for individuals. It is therefore highly appropriate that, in drawing up a scheme for an area, you should identify the linguistic needs of that area and take account of them in drawing it up. Helen Mary is absolutely right on taking account of an individual's particular linguistic needs, but that is not the part of the proposed Measure that we are discussing here. Therefore, the amendments that are being put forward are not just appropriate, but crucial to ensure that the schemes that are drawn up take account of the linguistic variations in a particular area and not just Welsh, as Helen Mary and Andrew R.T. Davies have acknowledged, but the other languages that may well be spoken in that area. For that reason, the Welsh Liberal Democrats will support these two amendments.

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): It has been a pleasure to take this legislation through the National Assembly for Wales because of the

anghenion unigol, ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliannau hyn, ond rwyf yn ddiolchgar i grŵp y Ceidwadwyr am eu cyflwyno er mwyn ein galluogi i gael y ddatl hon heddiw. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu rhoi'r sicrwydd hwnnw inni, oherwydd gwn ei bod yn llwyr fwriadu i wasanaethau fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a, lle y bo'n berthnasol, drwy gyfrwng ieithoedd lleiafrifol ethnig.

Peter Black: Dechreuaf drwy longyfarch y Gweinidog am wrando ar y sector a'r pwyllgor, gan ddiwygio'r Mesur arfaethedig yn unol â hynny. Mae'r Mesur arfaethedig sydd ger ein bron yn well o lawer na'r un a gyflwynwyd yn wreiddiol i'r pwyllgor deddfwriaeth. Am y rheswm hwnnw, bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi safbwynt y Llywodraeth ar y Mesur arfaethedig a'r gwelliannau i raddau helaeth.

Fodd bynnag, y ddau welliant hyn yw'r eithriad. Credaf fod Helen Mary Jones, yn ei beirniadaeth ohonynt, wedi camddeall natur y gwelliannau a'r hyn y maent yn ceisio ei ddiwygio. Mae'r gwelliannau hyn, yn enwedig gwelliant 7, yn ceisio diwygio'r ddarpariaeth ar gyfer cynllun i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol, yn hytrach na'r driniaeth ar gyfer unigolion. Felly, mae'n briodol iawn y dylech, wrth lunio cynllun ar gyfer ardal, nodi anghenion ieithyddol yr ardal honno a'u hystyried wrth lunio'r cynllun. Mae Helen Mary yn llygad ei lle ynghylch ystyried anghenion ieithyddol penodol yr unigolyn, ond nid yw hynny'n rhan o'r Mesur arfaethedig rydym yn ei drafod yma. Felly, nid yn unig y mae'r gwelliannau sy'n cael eu cynnig yn briodol, maent hefyd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cynlluniau sy'n cael eu llunio yn ystyried yr amrywiadau ieithyddol mewn ardal benodol. Nid dim ond y Gymraeg, fel y mae Helen Mary ac Andrew R.T. Davies wedi'i gydnabod, ond yr ieithoedd eraill a allai fod yn cael eu siarad yn yr ardal honno. Am y rheswm hwnnw, bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r ddau welliant hyn.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Mae wedi bod yn bleser cael tywys y ddeddfwriaeth hon drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru

level of co-operation between the political parties, the level of the discussion and the involvement of the voluntary sector. In opposing these amendments today, the difference between us is not one of intent, but application. That is the only reason that I am opposing these amendments.

I understand that Members wish to ensure that services are available to those accessing mental health services in their language of choice, and, more importantly, of need. As such, I appreciate the spirit in which these amendments have been tabled. You referred to the comments of my Deputy Minister. It is not just about their linguistic requirements because it is crucial to their clinical assessment and treatment that they can use their language of choice. We must recognise that it can sometimes be disorientating for people in emotionally fraught situations not to be able to use their first language, whether it be Welsh or Urdu.

For that reason, I must refer to the Proposed Welsh Language (Wales) Measure, which is also currently before the Assembly. That proposed Measure will, among other matters, make provision about standards relating to the Welsh language. Those standards may include service delivery, policy making, operational matters, promotion and record keeping. The sophistication with which those standards can be applied for specific matters, such as mental health, and specific geographical areas will certainly move services forward for delivery in Welsh, where it is the language of an individual's needs or choice. That deals with the Welsh issues.

5.50 p.m.

Amendment 7 in the group would appear to enable local health boards and local authorities to take their own views on what would be reasonable as regards linguistic requirements, whereas the standards that we will set will be of a more independent nature. Therefore, it is important that I recognise the strong mechanisms built into the proposed

oherwydd y lefel o gydweithredu rhwng y pleidiau gwleidyddol, lefel y drafodaeth a chyfraniad y sector gwirfoddol. Wrth wrthwynebu'r gwelliannau hyn heddiw, nid y bwriad yw'r gwahaniaeth rhyngom, ond y ffordd o'u gweithredu. Dyna'r unig reswm rwyf yn gwrthwynebu'r gwelliannau hyn.

Rwyf yn deall bod yr Aelodau yn dymuno sicrhau bod gwasanaethau ar gael i'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau ieuchyd meddwl yn yr iaith o'u dewis ac, yn bwysicach, yn yr iaith y maent ei hangen. Oherwydd hynny, rwyf yn gwerthfawrogi'r ysbryd sydd wrth wraidd cyflwyno'r gwelliannau hyn. Gwnaethoch gyfeirio at sylwadau fy Nirprwy Weinidog. Nid dim ond eu gofynion ieithyddol sy'n bwysig, oherwydd mae'n hanfodol i'w triniaeth a'u hasesiad clinigol y gallant ddefnyddio'r iaith o'u dewis. Rhaid inni gydnabod y gall fod yn ddruslyd weithiau i bobl sydd mewn sefyllfaoedd emosiynol iawn i beidio â gallu defnyddio eu hiaith gyntaf, boed hynny'r iaith Gymraeg neu Wrddw.

Am y rheswm hwnnw, rhaid imi gyfeirio at Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), sydd hefyd gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd. Bydd y Mesur arfaethedig hwnnw, ymysg materion eraill, yn gwneud darpariaeth ynghylch safonau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Gall y safonau hynny gynnwys darparu gwasanaethau, llunio polisiau, materion gweithredol, hyrwyddo a chadw cofnodion. Bydd natur soffistigedig y dull o gymhwyso'r safonau hynny ar gyfer materion penodol, fel ieuchyd meddwl, ac ardaloedd daearyddol penodol, yn sicr yn datblygu gwasanaethau i'w darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, lle mai dyna yw dewis iaith unigolyn neu'r iaith y mae angen ei defnyddio. Mae hynny'n ymdrin â'r materion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Yn ôl pob golwg, byddai gwelliant 7 yn y grŵp yn galluogi byrddau ieuchyd lleol ac awdurdodau lleol i lunio eu barn eu hunain am yr hyn a fyddai'n rhesymol o ran gofynion ieithyddol, tra bydd natur fwy annibynnol i'r safonau y byddwn ni'n eu gosod. Felly, mae'n bwysig fy mod yn cydnabod y mecanweithiau cryf sydd wedi'u cynnwys ym

Welsh language Measure, but I also recognise the points made by Andrew R.T. Davies and Peter Black regarding other linguistic decisions.

I will briefly address some of the points made by Helen Mary. At no point have I received any formal correspondence from the Welsh Language Board on any of the Welsh language issues. The Deputy Minister has met the Welsh Language Board and this legislation has not been specifically raised with her during those meetings.

We have been discussing legislation in this area since October 2007, Jonathan, and these issues have not been formally raised with me. However, these matters will have to be dealt with, as far as I am concerned. It is important that I give you my personal commitment today to making improvements to ensure the provision of service in the language of an individual's need. Even if I cannot support these amendments, I will certainly be doing this through the codes of practice published under the proposed Measure, which will be statutory guidance and which have a clear legal weight. Local health boards and local authorities cannot disregard this guidance, and we will follow the requirements of the new section on codes of practice in the proposed Measure. Therefore, we will prepare a draft code or codes, as the case may be, and undertake a formal consultation process, which will take place over a 12-week period. You have my guarantee about the consultation process and what can go on in relation to guidance. I hope that the way that we have dealt with issues on which we have not necessarily agreed during the process of making this proposed Measure indicates my good faith in this matter. As I indicated at the beginning, the difference between us today is not one of intent but of application and I hope that the Chamber will accept my assurances on this, and I ask you to oppose the amendments.

Andrew R.T. Davies: I take on board the points that have been raised in relation to these amendments. We will be putting these amendments to a vote because, as touched upon by Peter Black, the amendments relate to creating a scheme that is relevant to the

Mesur arfaethedig y Gymraeg, ond rwyf hefyd yn cydnabod y pwyntiau a wnaed gan Andrew R.T. Davies a Peter Black ynghylch penderfyniadau ieithyddol eraill.

Rhoddaf sylw i rai o'r pwyntiau a wnaed gan Helen Mary. Nid wyf wedi cael unrhyw ohebiaeth ffurfiol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar unrhyw adeg ynghylch unrhyw un o'r materion yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi cael cyfarfod â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ac ni chafodd y ddeddfwriaeth hon ei chodi'n benodol â hi yn ystod y cyfarfodydd hynny.

Rydym wedi bod yn trafod deddfwriaeth yn y maes hwn ers mis Hydref 2007, Jonathan, ac nid yw'r materion hyn wedi cael eu codi'n ffurfiol gyda mi. Fodd bynnag, o'm safbwynt i, bydd rhaid ymdrin â'r materion hyn. Mae'n bwysig fy mod yn rhoi fy ymrwymiad personol ichi heddiw i wneud gwelliannau, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn yr iaith y mae unigolyn ei hangen. Hyd yn oed os na allaf gefnogi'r gwelliannau hyn, byddaf yn sicr yn gwneud hyn drwy'r codau ymarfer a gyhoeddir o dan y Mesur arfaethedig, a'r rheini'n ganllawiau statudol ac iddynt sylwedd cyfreithiol clir. Ni all byrddau iechyd lleol nac awdurdodau lleol ddiystyru'r canllaw hwn, a byddwn yn dilyn gofynion yr adran newydd ar godau ymarfer yn y Mesur arfaethedig. Felly, byddwn yn paratoi cod neu godau drafft, fel y bydd angen, ac yn cynnal proses ymgynghori ffurfiol dros gyfnod o 12 wythnos. Mae gennych fy sicrwydd am y broses ymgynghori a beth all ddigwydd yng nghyswllt canllawiau. Gobeithio y bydd y ffordd rydym wedi ymdrin â materion nad ydym, o reidrwydd, wedi cytuno arnynt yn ystod y broses o wneud y Mesur arfaethedig hwn yn dangos fy ewyllys da ar y mater hwn. Fel y dywedais ar y dechrau, nid bwriad yw'r gwahaniaeth rhyngom heddiw ond dull gweithredu, ac rwyf yn gobeithio y bydd y Siambr yn derbyn fy sicrwydd ar hyn, a gofynnaf ichi wrthwynebu'r gwelliannau.

Andrew R.T. Davies: Derbyniaf y pwyntiau sydd wedi cael eu codi mewn perthynas â'r gwelliannau hyn. Byddwn yn cynnal pleidlais ar y gwelliannau hyn oherwydd, fel y soniodd Peter Black, mae'r gwelliannau'n ymwneud â chreu cynllun sy'n berthnasol i'r ardal

local geographical area. You would be wrapping yourself in quite a small shroud in not voting for these amendments to protect someone's ability to access the service through the language that they need. When we looked into community mental health services, evidence suggested that the language problem was a massive issue affecting people's ability to access the appropriate services.

Darren Millar: Do you not think that it is astonishing that no amendment has been tabled by the Plaid Cymru group on this particular issue, given the importance of the language to Wales and the fact that, to be fair, many of the Plaid Cymru Members agree with what we are trying to achieve through these amendments?

Andrew R.T. Davies: The order paper and the amendments that are before Plenary speak for themselves and people will see that. I hear what the Minister is saying about the proposed Welsh language Measure, but it has not been approved yet, and we are dealing with legislation here that once agreed will be enacted. It is important that we consider this legislation here and now, rather than looking for another piece of legislation to address these issues in the future. That is why I hope that Members in Plenary this afternoon will look hard at these amendments and find favour with them, because they will dramatically improve people's ability to access services in their language of choice.

Y Llywydd: Yr wyf yn deall eich bod am symud i bleidlais ar welliant 7. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 7. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

ddaearyddol leol. Byddech yn lapio eich hun mewn byd eithaf bach wrth beidio â phleidleisio o blaid y gwelliannau hyn i warchod gallu rhywun i ddefnyddio'r gwasanaeth drwy gyfrwng yr iaith o'i ddewis. Pan edrychom ar wasanaethau iechyd meddwl cymunedol, roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod y broblem iaith yn broblem enfawr sy'n effeithio ar allu pobl i gael mynediad at y gwasanaethau priodol.

Darren Millar: Onid ydych yn meddwl ei fod yn rhyfeddol nad oes unrhyw welliant wedi'i gyflwyno gan grŵp Plaid Cymru ar y mater penodol hwn, o ystyried pwysigrwydd yr iaith i Gymru a'r ffaith bod, a bod yn deg, llawer o Aelodau Plaid Cymru yn cytuno â'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni drwy'r gwelliannau hyn?

Andrew R.T. Davies: Mae'r papur gorchymyn a'r gwelliannau sydd gerbron y Cyfarfod Llawn yn dweud y cyfan, a bydd pobl yn gweld hynny. Rwyf yn deall yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud am Fesur arfaethedig y Gymraeg, ond nid yw wedi cael ei gymeradwyo eto, ac rydym yn ymdrin â deddfwriaeth yma a fydd, pan gytunir arni, yn cael ei gweithredu. Mae'n bwysig ein bod yn ystyried y ddeddfwriaeth hon ar unwaith, yn hytrach na chwilio am ddarn arall o ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â'r materion hyn yn y dyfodol. Dyna pam rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau yn y Cyfarfod Llawn y prynhawn yma yn edrych yn fanwl ar y gwelliannau hyn ac yn eu cymeradwyo, gan y byddant wir yn gwella gallu pobl i gael mynediad at wasanaethau yn yr iaith o'u dewis.

The Presiding Officer: I understand that you wish to move to a vote on amendment 7. The question is that amendment 7 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 7: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 30.
Amendment 7: For 14, Abstain 0, Against 30.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff

Burnham, Eleanor
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd Amendment 7.
Amendment 7 not agreed.*

Y Llywydd: Gan fod gwelliant 7 wedi'i wrthod, mae gwelliant 6 yn methu.

The Presiding Officer: As amendment 7 was not agreed, amendment 6 falls.

*Methodd gwelliant 6.
Amendment 6 fell.*

Grŵp 2: Cynllunio Gofal a Thriniaeth (Gwelliannau 4, 3, 5) Group 2: Care and Treatment Planning (Amendments 4, 3, 5)

Y Llywydd: Galwaf ar Andrew R.T. Davies i gynnig gwelliant 4 a siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

The Presiding Officer: I call on Andrew R.T. Davies to move amendment 4 and to speak to the other amendments in the group.

Andrew R.T. Davies: I move amendment 4 in my name.

Andrew R.T. Davies: Cynigiau welliant 4 yn fy enw i.

Amendments 4, 3 and 5 in this group are on care planning and treatment. We believe that the content of care plans needs to be prescribed by the Minister in detail, not just left to local authorities. We appreciate that the Minister has been accommodating on this issue, giving assurances that the regulations produced will cover the eight life areas already prescribed under the Mental Health Act 1983, however, our concern is that a new Minister might not give this the same priority. At Stage 2, the Minister rejected our amendment on the basis that it could lead to a

Mae gwelliannau 4, 3 a 5 yn y grŵp hwn yn ymwneud â chynllunio gofal a thriniaeth. Rydym o'r farn bod angen i'r Gweinidog bennu cynnwys y cynlluniau gofal yn fanwl, ac nid dim ond gadael hynny i awdurdodau lleol. Rydym yn gwerthfawrogi bod y Gweinidog wedi bod yn hyblyg ar y mater hwn, gan roi sicrwydd y bydd y rheoliadau a gaiff eu llunio yn cwmpasu'r wyth elfen bywyd sydd eisoes wedi'u pennu o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Fodd bynnag, ein pryder ni yw na fyddai Gweinidog newydd yn rhoi'r un flaenoriaeth i hyn. Yng

tick-box approach to care planning, and we would therefore not strike the important balance between individualised care and good-quality care. That is something that we would all wish to avoid. In light of her comments, we have modified the amendments calling for care plans to include one or more and not to be limited to the life areas already prescribed under the Mental Health Act 1983. This would still give care co-ordinators and clinicians discretion over what our care plans should include while providing patients with a guarantee that most major issues will be focused on. This, we believe, would allow for the individual treatment and consideration of the patient's needs.

Amendment 3 has been retabled, acknowledging that there is a balance to be struck between allowing flexibility in the system for clinicians to decide what is best for patients, and for patients to be able to access services when necessary. At a Stage 2 committee, the Minister said that she had sympathy with this amendment, and indicated a willingness to look at the issue with her officials, but she feared that its adoption would detract from the quality of important codes of practice. Unfortunately, WAG has not tabled any amendments on this issue, and given that codes of practice will not be scrutinised in full until after the proposed Measure has been passed, we hope that the Minister, despite her reluctance to prescribe timescales on the face of the proposed Measure, will be true to her word in her support for the sentiment of the amendment and make an exception.

Following the concerns of Gofal Cymru that too much discretion is left to local health boards in section 2, amendment 5 places a requirement on Welsh Ministers to make provision by regulation for the form and content of care plans, and for the role of care co-ordinators in ensuring that local authorities provide access to certain services for patients. That is why we call on the Minister to support the amendments in this group to provide greater clarity to the patient as an individual, greater certainty for the

Nghyfnod 2, gwrthododd y Gweinidog ein gwelliant ar y sail y gallai arwain at ymagwedd ticio blwch wrth gynllunio gofal, ac felly ni fyddem yn cael y cydbwysedd pwysig rhwng gofal unigol a gofal o ansawdd da. Mae hynny'n rhywbeth y byddai pob un ohonom am ei osgoi. Yn sgîl ei sylwadau, rydym wedi addasu'r gwelliannau sy'n galw am i gynlluniau gofal gynnwys un elfen neu fwy, ac i beidio â bod yn gyfyngedig i'r elfennau bywyd sydd eisoes wedi'u pennu o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Byddai hyn yn dal i roi disgrisiwn i glinigwyr a chydlynwyr gofal ynghylch yr hyn y dylai ein cynlluniau gofal ei gynnwys, ac ar yr un pryd yn rhoi sicrwydd i gleifion y bydd y rhan fwyaf o'r prif faterion yn cael sylw. Byddai hyn, yn ein barn ni, yn caniatáu i anghenion y claf gael eu hystyried a'u trin yn unigol.

Mae gwelliant 3 wedi cael ei ailgyflwyno, gan gydnabod bod angen cael cydbwysedd rhwng caniatáu hyblygrwydd yn y system i glinigwyr benderfynu beth sydd orau i gleifion, a sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad at wasanaethau pan fo angen. Ym mhwyllgor Cyfnod 2, dywedodd y Gweinidog fod ganddi gydymdeimlad â'r gwelliant hwn, a mynegodd barodrwydd i edrych ar y mater gyda'i swyddogion, ond roedd yn ofni y byddai ei fabwysiadu yn amharu ar ansawdd codau ymarfer pwysig. Yn anffodus, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno unrhyw welliannau ar y mater hwn, ac o ystyried na fyddwn yn craffu'n llawn ar y codau ymarfer tan ar ôl i'r Mesur arfaethedig gael ei basio, rydym yn gobeithio y bydd y Gweinidog, er gwaethaf ei hamharodrwydd i bennu amserlenni ar wyneb y Mesur arfaethedig, yn cadw at ei gair o ran ei chefnogaeth i fwriad y gwelliant, ac yn gwneud eithriad.

Yn dilyn pryderon Gofal Cymru bod gormod o ddisgrisiwn yn cael ei adael i fyrddau iechyd lleol yn adran 2, mae gwelliant 5 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer ffurf a chynnwys cynlluniau gofal, ac ar gyfer rôl cydlynwyr gofal i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwneud yn siŵr bod cleifion yn gallu cael mynediad at rai gwasanaethau. Dyna pam rydym yn galw ar y Gweinidog i gefnogi'r gwelliannau yn y grŵp hwn er mwyn rhoi mwy o eglurder i'r claf fel

body that is providing the service, and, above all, to back up the sympathy that she showed with some of the amendments that were tabled in Stage 2—especially considering that she has not come forward with amendments of her own at this stage.

Helen Mary Jones: It is my understanding that the Minister will be able to support the redrafted amendment 4, tabled in the name of Andrew R.T. Davies, and I welcome that. It seems to me that it strikes the right balance by avoiding excessive prescription on the face of the proposed Measure, in that it does not say that every single care plan must address every single one of those issues, which, as Andrew R.T. Davies said, would fly in the face of the idea that these should be individual plans. By including these issues on the face of the proposed Measure, I hope that this legislation will go a long way to addressing the real concerns expressed by many organisations—Hafal, Gofal, Mind and others—that we risk going back to the days of care plans that address a narrowly defined medical need only, and do not address the wider social issues that we know are vital if patients with mental health issues are to be enabled to recover.

I trust, however, that the guidance will clarify that we will not find ourselves in a situation where, providing the care plan has addressed one of these, that is it, and it is regarded as adequate. I know that that is certainly not the intention of Andrew R.T. Davies in tabling the amendment, and neither would it be the Minister's intention. However, I trust that guidance will clarify that, although it is not necessary for all plans to address all these areas, social and practical concerns will always need to be addressed alongside purely medical needs. The Government has accepted the recovery model, which is all about looking at the patient as a whole person, taking all of their needs into account. I would suggest to the Minister that it will be necessary to say a bit more in the guidance about how those questions about social needs should be asked as the care plan is being

Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 1B.
Amendment 1B not agreed.*

Y Llywydd: Symudwn i waredu gwelliant 1C. Yr wyf yn gwahodd Andrew R.T. Davies i gynnig y gwelliant.

The Presiding Officer: We move to dispose of amendment 1C. I invite Andrew R.T. Davies to move the amendment.

Andrew R.T. Davies: I move amendment 1C in my name.

Andrew R.T. Davies: Cynigiau welliant 1C yn fy enw i.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1C. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

The Presiding Officer: The question is that amendment 1C be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, I call for a vote.

*Gwelliant 1C: O blaid 9, Ymatal 0, Yn erbyn 34.
Amendment 1C: For 9, Abstain 0, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 1C.
Amendment 1C not agreed.*

Y Llywydd: Symudwn i waredu gwelliant 1D. Yr wyf yn gwahodd Andrew R.T. Davies i gynnig y gwelliant.

Andrew R.T. Davies: I move amendment 1D in my name.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1D. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

The Presiding Officer: We move to dispose of amendment 1D. I invite Andrew R.T. Davies to move the amendment.

Andrew R.T. Davies: Cynigiau welliant 1D yn fy enw i.

The Presiding Officer: The question is that amendment 1D be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, I call for a vote.

*Gwelliant 1D: O blaid 9, Ymatal 0, Yn erbyn 34.
Amendment 1D: For 9, Abstain 0, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 1D.
Amendment 1D not agreed.*

Y Llywydd: Symudwn i waredu gwelliant 1. Yr wyf yn gwahodd y Gweinidog i gynnig y gwelliant.

Edwina Hart: I move amendment 1 in my name.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 1.
Amendment 1 agreed.*

The Presiding Officer: We move to dispose of amendment 1. I invite the Minister to move the amendment.

Edwina Hart: Cynigiau welliant 1 yn fy enw i.

The Presiding Officer: The question is that amendment 1 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 1 is therefore agreed.

Grŵp 4: Cyfeillion Achos (Gwelliant 2) Group 4: Case Friends (Amendment 2)

Andrew R.T. Davies: I move amendment 2 in my name.

Andrew R.T. Davies: Cynigiau welliant 2 yn fy enw i.

Perhaps when I managed to get agreement on amendment 4, I should have quit while I was ahead, as I have not had any such luck since then. *[Laughter.]* In all seriousness, advocacy plays an important part in giving confidence to patients in the mental health services realm. It is critical to have confidence in the advocate advocating for you. We note the Minister's argument that there is already a significant range of advocacy and befriending services available and welcome her pledge to support existing non-statutory services to grow. However, we believe that family members and close friends often understand the patient and their needs extremely well and that the patient should have the right to nominate a close friend or relative to act on their behalf if they wish. That is why I tabled amendment 2 this afternoon. I hope that Plenary will have confidence in the ability of family members and relatives to act, if that is the patient's wish, as an advocate for the patient, giving more confidence to patients in the process.

Peter Black: I think that the danger of this amendment is that you would create a second tier of advocacy in addition to the advocacy provided for in the proposed Measure. I was involved in the Stage 1 process for this particular Measure, and the evidence that we took from all the professionals who came before us was overwhelmingly that family members should not be involved as advocates for patients, that the advocate had to be someone independent and professional, and that that was the only way to ensure that the advocate remained detached from the affairs of the family and of the individual but interested enough to make sure that that person's interests were best protected. The advocacy provisions in this proposed Measure are long overdue and are welcome, but by creating another category of case friends, we would, in effect, be creating a second tier of advocates, which would act in conflict with the main provisions of this proposed Measure.

Although it is important and absolutely right that a patient should have confidence and know and trust the person who is acting on their behalf, you cannot always be certain that a member of the family will do that. That

Pan lwyddais i gael cytundeb ar welliant 4, efallai y dylwn fod wedi rhoi'r gorau iddi tra roeddwn yn llwyddo, gan nad wyf wedi cael unrhyw lwc o'r fath ers hynny. *[Chwerthin.]* O ddifrif, mae eiriolaeth yn bwysig er mwyn rhoi hyder i gleifion ym maes y gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'n hollbwysig bod gennych hyder yn yr eiriolwr sy'n eirioli drosoch. Rydym yn nodi dadl y Gweinidog bod ystod sylweddol o wasanaethau eirioli a chyfeillio eisoes ar gael, ac yn croesawu ei haddewid i gynorthwyo gwasanaethau anstatudol i ddatblygu. Fodd bynnag, rydym yn credu bod aelodau o'r teulu a ffrindiau agos yn aml yn deall y claf a'i anghenion yn arbennig o dda, ac y dylai'r claf gael yr hawl i enwebu perthynas neu ffrind agos i weithredu ar ei ran os yw'n dymuno. Dyna pam rwyf wedi cyflwyno gwelliant 2 y prynhawn yma. Gobeithio y bydd gan y Cyfarfod Llawn hyder yng ngallu aelodau'r teulu a pherthnasau i weithredu, os mai dyna yw dymuniad y claf, fel eiriolwr ar ran y claf, gan roi mwy o hyder i gleifion yn y broses.

Peter Black: Credaf mai perygl y gwelliant hwn yw y byddech yn creu ail haen o eiriolaeth yn ychwanegol at yr eiriolaeth a ddarperir yn y Mesur arfaethedig. Roeddwn yn rhan o broses Cyfnod 1 ar gyfer y Mesur penodol hwn, a'r dystiolaeth glir a gawsom gan yr holl weithwyr proffesiynol a ddaeth ger ein bron oedd na ddylai aelodau o'r teulu fod yn eiriolwyr ar ran cleifion, ei bod yn rhaid i'r eiriolwr fod yn rhywun annibynnol a phroffesiynol, ac mai dyna'r unig ffordd o sicrhau bod yr eiriolwr yn aros ar wahân i faterion y teulu a'r unigolyn, ond eto'n ddigon agos i wneud yn siŵr bod buddiannau'r person hwnnw yn cael eu diogelu yn y ffordd orau bosibl. Mae'r darpariaethau eirioli yn y Mesur arfaethedig hwn yn hirddisgwyliedig ac maent i'w croesawu, ond wrth greu categori arall o gyfeillion achos byddem, i bob pwrpas, yn creu ail haen o eiriolwyr, a fyddai'n mynd yn groes i brif ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig hwn.

Er ei bod yn bwysig ac yn gwbl briodol bod gan glaf hyder yn y person sy'n gweithredu ar ei ran, ei fod yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo, ni allwch fod yn sicr y bydd aelod o'r teulu yn gwneud hynny bob amser. Dyna

was the evidence given to the committee. Often, a family member who is acting on behalf of a patient may have other reasons for taking a particular course of action, which are not necessarily in the best interests of the patient. By creating this category of case friends, we would be muddying the water and confusing the issue. Therefore, I would prefer to stay with the provisions in the proposed Measure, where we have a clear and professional advocacy body to help patients who have mental health needs and to act on their behalf. That was very much consistent with all the evidence that we had from the professionals who came to the Stage 1 committee.

Edwina Hart: I have listened carefully to the reasons put forward by Andrew for this amendment, but I have heard nothing that will change my view since I last discussed the same amendment with the legislation committee members when it was tabled at Stage 2. The amendment was rejected by the legislation committee then, and, as a Government, we will be resisting it now.

As I said then, I do not believe that the case friend concept is one that will be appropriate for mental health service users. The case friend provisions, which were introduced by the Education (Wales) Measure 2009, are designed for very particular purposes, including enabling children to have someone to act on their behalf in any dealings that they may have at the special educational needs tribunal. During Stage 2, I said that I did not believe that such a model would be appropriate to provide help and support to individuals who have mental health problems. My view remains that support for such individuals is better provided by those specialised advocacy and befriending services that exist in Wales and that already provide a range of support to those individuals experiencing mental health problems.

I also said, when rejecting this amendment at Stage 2, that this Government is committed to ensure that such non-statutory services provided by mental health charities and service user organisations should continue to be developed and supported. The ongoing

oedd y dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor. Yn aml, efallai fod gan aelod o'r teulu sy'n gweithredu ar ran claf resymau eraill dros gymryd camau penodol, camau nad ydynt o reidrydd er budd y claf. Byddem yn drysu pethau wrth greu'r categori hwn o gyfeillion achos ac yn cymhlethu pethau. Felly, byddai'n well gennyf aros gyda'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig, lle mae gennym gorff eirioli clir a phroffesiynol i helpu cleifion sydd ag anghenion iechyd meddwl ac i weithredu ar eu rhan. Roedd hynny'n gyson iawn â'r holl dystiolaeth a gawsom gan y gweithwyr proffesiynol a ddaeth i bwyllgor Cyfnod 1.

Edwina Hart: Rwyf wedi gwrandao'n ofalus ar y rhesymau a roddwyd gan Andrew ynghylch y gwelliant hwn, ond nid wyf wedi clywed dim byd a fydd yn newid fy marn ers y tro diwethaf imi drafod yr un gwelliant ag aelodau'r pwyllgor ddeddfwriaeth pan gafodd ei gyflwyno yng Nghyfnod 2. Cafodd y gwelliant ei wrthod gan y pwyllgor deddfwriaeth bryd hynny ac, fel Llywodraeth, byddwn yn ei wrthod yn awr.

Fel y dywedais bryd hynny, nid wyf yn credu y byddai'r cysyniad cyfaill achos yn briodol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r darpariaethau cyfaill achos, a gyflwynwyd gan Fesur Addysg (Cymru) 2009, wedi cael eu cynllunio at ddibenion penodol iawn, gan gynnwys ei gwneud yn bosibl i blant gael rhywun i weithredu ar eu rhan mewn unrhyw achos yn y tribiwnlys anghenion addysgol arbennig. Yn ystod Cyfnod 2, dywedais nad oeddwn yn credu y byddai model o'r fath yn briodol i ddarparu cymorth a chefnogaeth i unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl. Fy marn i o hyd yw bod cymorth ar gyfer unigolion o'r fath yn cael ei ddarparu'n well gan y gwasanaethau eirioli a chyfeillio arbenigol hynny sy'n bodoli yng Nghymru, ac sydd eisoes yn darparu ystod o gefnogaeth i'r unigolion hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Wrth wrthod y gwelliant hwn yng Nghyfnod 2, dywedais hefyd fod y Llywodraeth hon wedi ymrwymo i sicrhau y dylai gwasanaethau anstatudol o'r fath, a ddarperir gan elusennau iechyd meddwl a sefydliadau defnyddwyr gwasanaeth, barhau i gael eu

growth, professionalisation, and embedding of independent advocacy has a key part to play in mental health services, which, to my mind, is the best way to achieve what this amendment seeks to do.

My other major concern with this amendment is that the case friend concept would allow relatives or others close to the individual who is accessing mental health services to act on their behalf. It is not an approach that I believe we should be adopting. Evidence submitted to the legislation committee at Stage 1 from independent mental health advocacy providers stated that such arrangements were fundamentally opposite to the principles of advocacy. We were informed that the independent mental health advocates work for the client and involves carers, friends and family only if that is what the client wishes. We were also warned that, on occasion, they may have an agenda that is different from that of the client or, in the worst case, may be part of the problem rather than the solution.

Therefore, in resisting this amendment once again, I do so not because we do not agree that help and support for individuals who have mental health problems are extremely important, because they most definitely are; I do so because I do not believe that the case friend model is appropriate for mental health services.

Andrew R.T. Davies: One thing that has been proven today is that the Liberal Democrats and the Conservatives do not always work in unison on certain aspects. I am looking forward to visiting many of my colleagues at Westminster, who will probably give me a tap on the back for that.

This amendment is all about extending the scope of advocacy to give patients the ability to identify a relative or family member who could have a better understanding of that individual to act as their advocate. That individual may have better confidence in that person, particularly if the individual is feeling vulnerable, which is most likely if accessing

datblygu a'u cefnogi. Mae gan dwf parhaus, proffesiynoldeb, a'r broses o wreiddio eiriolaeth annibynnol ran allweddol i'w chwarae mewn gwasanaethau iechyd meddwl a dyna, yn fy marn i, yw'r ffordd orau o gyflawni'r hyn y mae'r gwelliant hwn yn ceisio ei wneud.

Fy mhryder mawr arall gyda'r gwelliant hwn yw y byddai'r cysyniad cyfaill achos yn caniatáu i berthnasau, neu bobl eraill sy'n agos at yr unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, weithredu ar ei ran. Nid yw'n ddull y dylem fod yn ei fabwysiadu yn fy marn i. Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd gan ddarparwyr eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol i'r pwyllgor deddfwriaeth yng Nghyfnod 1 yn dweud bod trefniadau o'r fath, yn y bôn, yn gwrthddweud egwyddorion eiriolaeth. Dywedwyd wrthym bod eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol yn gweithio ar ran y cleient, ac ond yn cynnwys gofalgwyr, ffrindiau a theulu os dyna yw dymuniad y cleient. Cawsom ein rhybuddio hefyd efallai y bydd ganddynt, ar adegau, agenda wahanol i'r cleient neu, yn yr achos gwaethaf, efallai y byddant yn rhan o'r broblem yn hytrach na'r ateb.

Felly, wrth wrthwynebu'r gwelliant hwn unwaith eto, nid wyf yn gwneud hynny oherwydd nad ydym yn cytuno bod cymorth a chefnogaeth i unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl yn eithriadol o bwysig, oherwydd maent yn sicr yn bwysig; rwyf yn gwneud hynny oherwydd nid wyf yn credu bod y model cyfaill achos yn briodol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

Andrew R.T. Davies: Un peth sydd wedi cael ei brofi heddiw yw nad yw'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr bob amser yn gweithio ar y cyd ar rai agweddau. Rwyf yn edrych ymlaen at ymweld â nifer o'm cyd-Aelodau yn San Steffan, a fydd yn fy nghanmol am hynny mae'n siŵr.

Hanfod y gwelliant hwn yw ymestyn cwmpas eiriolaeth er mwyn i gleifion allu dewis perthynas neu aelod o'r teulu sydd, o bosibl, yn deall yr unigolyn hwnnw'n well i weithredu ar ei ran. Mae'n bosibl y bydd gan yr unigolyn hwnnw fwy o hyder yn y person hwnnw, yn enwedig os yw'r unigolyn yn teimlo'n agored i niwed, sy'n debygol os yw'n

the help provided by mental health services. I believe that this amendment would provide that scope. I hear what the Minister says about widening the scope of services, but, in itself, that is not an assurance in relation to advocacy and the role of advocacy for patients seeking help via the Proposed Mental Health (Wales) Measure that we have before us. That is why I have moved the amendment.

6.30 p.m.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw a dylid derbyn gwelliant 2. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, galwaf am bleidlais.

cael help gan y gwasanaethau iechyd meddwl. Rwyf yn credu y byddai'r gwelliant hwn yn darparu'r cwmpas hwnnw. Rwyf yn deall yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud am ehangu cwmpas gwasanaethau, ond nid yw hynny yn ddo'i hun yn rhoi sicrwydd mewn perthynas ag eiriolaeth a rôl eiriolaeth ar gyfer cleifion sy'n ceisio cymorth drwy gyfrwng y Mesur Arfaethedig ynghylch Iechyd Meddwl (Cymru) sydd ger ein bron. Dyna pam rwyf wedi cynnig y gwelliant.

The Presiding Officer: The question is that amendment 2 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, I call for a vote.

*Gwelliant 2: O blaid 8, Ymatal 0, Yn erbyn 35.
Amendment 2: For 8, Abstain 0, Against 35.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Ramsay, Nick

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 2.
Amendment 2 not agreed.*

Y Llywydd: Mae hynny'n dod â ni at ddiwedd ystyriaeth Cyfnod 3 o'r Mesur Arfaethedig Iechyd Meddwl (Cymru), o bosibl un o'r Mesurau arfaethedig pwysicaf yr ydym wedi'u pasio hyd yn hyn fel Cynulliad. Datganaf y bernir bod pob adran ac Atodlen i'r Mesur arfaethedig wedi eu derbyn. Dyna ddiwedd ein trafodion Cyfnod 3.

The Presiding Officer: That brings us to the end of our Stage 3 consideration of the Proposed Mental Health (Wales) Measure, which may well be one of the most important proposed Measures that we have passed yet. I declare that all sections and Schedules to the proposed Measure are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings.

**Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.58 i Gymeradwyo'r Mesur Arfaethedig ynghylch Iechyd Meddwl (Cymru)
Stage 4 Standing Order No. 23.58 Motion to Approve the Proposed Mental Health (Wales) Measure**

Cynnig

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 23.58, yn cymeradwyo'r Mesur Arfaethedig ynghylch Iechyd Meddwl (Cymru).

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): I move the motion.

Like you, Presiding Officer, I think that this proposed Measure is a significant piece of legislation, and will introduce a sea change in the way that mental health services are accessed and delivered. It will lead to an improvement in the timeliness and availability of services for those individuals experiencing mental health problems in Wales, and, as such, we hope, will lead in the longer term to a reduction in the numbers of individuals requiring specialist or in-patient services, or potentially detention under the Mental Health Act 1983.

As has been customary on these occasions, although I see that Angela is not here, I thank members of Legislation Committee No. 3, who undertook the detailed scrutiny of this proposed Measure. Their thoroughness and diligence has resulted in a proposed Measure that is comprehensive and fit for purpose. The manner in which their consideration was

Motion

The National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 23.58, approves the Proposed Mental Health (Wales) Measure.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Cynigiau y cynnig.

Rwyf fi, fel chithau Lywydd, yn credu bod y Mesur arfaethedig hwn yn ddarn arwyddocaol o ddeddfwriaeth, ac y bydd yn newid yn sylweddol y modd y mae gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu defnyddio a'u darparu. Bydd yn arwain at wella amseroldeb ac argaeledd gwasanaethau ar gyfer yr unigolion hynny yng Nghymru sydd â phroblemau iechyd meddwl. Fel y cyfryw, rydym yn gobeithio y bydd hynny'n arwain, yn y tymor hwy, at leihau nifer yr unigolion sydd angen gwasanaethau arbenigol neu wasanaethau cleifion mewnol, neu a allai fod angen gwasanaeth cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Fel sydd wedi bod yn arferol ar yr achlysuron hyn, er fy mod yn gweld nad yw Angela yma, hoffwn ddiolch i aelodau Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 a fu'n craffu'n fanwl ar y Mesur arfaethedig hwn. Mae eu gwaith trylwyr a'u hymroddiad wedi arwain at Fesur arfaethedig sy'n gynhwysfawr ac yn addas i'r diben. Roedd y modd yr aethant ati i ystyried

undertaken was exemplary, and it has been a pleasure to work with them in taking this legislation through. Politics is by nature a confrontational business, but the consideration of this proposed Measure has always been undertaken in a positive and constructive spirit. It has never been subject to attempts at political point-scoring or grandstanding, and I thank all Members for their considered and mature contributions to this process. I particularly wish to express my thanks to Dr Dai Lloyd, the Chair of the legislation committee, for the first-rate way in which he has undertaken his role throughout. My appreciation also extends to the Assembly Commission staff who worked behind the scenes with my officials in a professional and co-operative manner to ensure that the requirements of Standing Orders and the legislative process were met successfully. I would also particularly like to thank Jonathan Morgan, the Member who proposed the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (No. 6) Order 2008 (Relating to the Provision of Mental Health Services), which enabled us to bring forward this proposed Measure. Throughout our dealings he has been supportive, pragmatic and patient, and I have been left in no doubt as to his commitment to improving services for those with mental health problems. In addition to the legislation committee, I extend my gratitude to the Chairs and members of the Finance Committee and Constitutional Affairs Committee, who also brought their considerable expertise to bear on the proposed Measure during the scrutiny process. The contribution of all these committees, and the recommendations that they made in relation to this proposed Measure, have resulted in a piece of legislation that I am sure that we can all now support. Finally, I also want to pass on my appreciation to all the stakeholders, both organisations and individuals, who have contributed their time and energy to helping us to develop and refine this proposed Measure. Their engagement, expertise and, at times, challenge, have been of enormous value to us in creating a piece of legislation that I believe will genuinely improve the services that we are able to offer to those who experience mental health problems in Wales.

yn rhagorol, ac mae wedi bod yn bleser gweithio gyda hwy ar daith y ddeddfwriaeth hon. Mae gwleidyddiaeth yn faes o wrthdaro yn ôl ei natur, ond mae'r Mesur arfaethedig hwn bob amser wedi cael ei ystyried mewn ysbryd cadarnhaol ac adeiladol. Nid yw erioed wedi cael ei ddefnyddio i sgorio pwyntiau gwleidyddol nac i gael sylw ffafriol, a hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau ystyriol ac aeddfed at y broses hon. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y pwyllgor deddfwriaeth, am y ffordd wych y mae wedi ymgymryd â'i rôl drwy gydol y broses. Hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad i staff Comisiwn y Cynulliad hefyd a fu'n gweithio y tu ôl i'r llenni gyda'm swyddogion, a hynny mewn modd proffesiynol a chydweithredol i sicrhau bod gofynion y Rheolau Sefydlog a'r broses ddeddfu yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus. Hoffwn hefyd ddiolch yn arbennig i Jonathan Morgan, yr Aelod a gynigiodd Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 6) 2008 (Ynghylch Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl), a oedd yn ein galluogi i gyflwyno'r Mesur arfaethedig hwn. Drwy gydol y broses, mae wedi bod yn gefnogol, yn bragmatig ac yn amyneddgar, ac rwyf wedi bod yn gwbl sicr o'i ymrwymiad i wella gwasanaethau ar gyfer y rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl. Yn ychwanegol at y pwyllgor deddfwriaeth, rwyf yn mynegi fy niolch i'r Cadeiryddion ac i aelodau'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, sydd hefyd wedi cyfrannu eu harbenigedd sylweddol at y Mesur arfaethedig yn ystod y broses graffu. Mae cyfraniad yr holl bwyllgorau hyn, a'r argymhellion a wnaethant mewn perthynas â'r Mesur arfaethedig hwn, wedi arwain at ddarn o ddeddfwriaeth rwyf yn siŵr y gall pob un ohonom ei gefnogi erbyn hyn. Yn olaf, hoffwn hefyd fynegi fy ngwerthfawrogiad i'r holl randdeiliaid, sefydliadau ac unigolion, sydd wedi rhoi eu hamser a'u hegni i'n helpu i ddatblygu ac i fireinio'r Mesur arfaethedig hwn. Mae eu hymrwymiad, eu harbenigedd ac, ar adegau, eu her, wedi bod o werth mawr wrth inni fynd ati i greu darn o ddeddfwriaeth rwyf yn credu a fydd wir yn gwella'r gwasanaethau rydym yn gallu eu cynnig i'r rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru.

We have already discussed those areas where the Government is making or accepting final amendments to the proposed Measure, and I would like now to remind Members of some of the other key suggestions that we have taken on board as a result of scrutiny. We have expanded the scope of Parts 1 and 2 so that they will apply to individuals of all ages, in response to concerns that certain hard-to-reach and vulnerable groups might be excluded unintentionally from the primary care provisions of Part 1. We have also included regulation-making powers that will enable us to expand entitlement to primary care assessments to individuals not registered with general practitioners, and, by the same token, we have made amendments to Part 2 of the proposed Measure to make it clear that care planning and co-ordination provisions also apply in relation to individuals who wish to or are unable to engage with secondary mental health services.

In relation to Part 3, we made changes that clarify that children discharged from secondary services who have reached the age of 18 during the qualifying period will be entitled to a reassessment, provided that they meet all the eligibility criteria. Importantly, in relation to independent mental health advocacy, in Part 4 of the proposed Measure, we have added the qualifying patient to the list of those who can request IMHA. We have removed sections 135 and 136 from the description of qualifying compulsory patients in response to concerns raised by a number of witnesses to the legislation committee, and we have also added a new, clearer definition of qualifying informal patients to this part of the proposed Measure. In addition, we now have powers to introduce codes of practice to support the measures to which professionals will be expected to have regard rather than the guidance-making powers included originally.

I am sure that Members will agree that those changes have significantly improved this legislation. There is now much for us to do in ensuring that the proposed Measure's provisions are implemented across Wales.

Rydym eisoes wedi trafod yr elfennau hynny lle mae'r Llywodraeth yn gwneud, neu'n derbyn, gwelliannau terfynol i'r Mesur arfaethedig, a hoffwn atgoffa'r Aelodau yn awr o rai o'r awgrymiadau allweddol eraill rydym wedi'u derbyn o ganlyniad i'r broses graffu. Rydym wedi ehangu cwmpas Rhannau 1 a 2 er mwyn eu gwneud yn berthnasol i unigolion o bob oed, mewn ymateb i bryderon y gallai rhai grwpiau agored i niwed ac anodd eu cyrraedd gael eu heithrio'n anfwriadol o ddarpariaethau gofal sylfaenol Rhan 1. Rydym hefyd wedi cynnwys pwerau i wneud rheoliadau a fydd yn ein galluogi i ehangu'r hawl i unigolion nad ydynt wedi cofrestru ag ymarferwyr cyffredinol gael asesiadau gofal sylfaenol. Yn yr un modd, rydym wedi gwneud gwelliannau i Ran 2 o'r Mesur arfaethedig i'w gwneud yn glir bod darpariaethau cynllunio a chydlynu gofal hefyd yn berthnasol mewn perthynas ag unigolion sy'n dymuno, neu'n methu, ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

Mewn perthynas â Rhan 3, gwnaethom newidiadau sy'n egluro y bydd gan blant sy'n cael eu rhyddhau o wasanaethau eilaidd, ac sydd wedi cyrraedd 18 oed yn ystod y cyfnod cymhwys, hawl i gael ailasesiad, ar yr amod eu bod yn bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd. Mewn perthynas ag eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol, yn Rhan 4 o'r Mesur arfaethedig, rydym wedi ychwanegu claf cymwys at y rhestr o'r rheini a all wneud cais am Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol, ac mae hynny'n bwysig. Rydym wedi dileu adrannau 135 a 136 o'r disgrifiad o gleifion gorfodol cymwys mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan nifer o dystion wrth y pwyllgor deddfwriaeth, ac rydym hefyd wedi ychwanegu diffiniad newydd a chliriach o gleifion anffurfiol cymwys at y rhan hon o'r Mesur arfaethedig. Hefyd, mae gennym bwerau yn awr i gyflwyno codau ymarfer i ategu'r mesurau y bydd disgwyl i weithwyr proffesiynol eu hystyried, yn hytrach na'r pwerau i wneud canllawiau a gafodd eu cynnwys yn wreiddiol.

Rwyf yn siŵr y bydd yr Aelodau'n cytuno bod y newidiadau hynny wedi gwella'r ddeddfwriaeth hon yn sylweddol. Mae gennym lawer i'w wneud yn awr er mwyn sicrhau bod darpariaethau'r Mesur

Members will see consultations beginning on the first wave of subordinate legislation shortly. We have already appointed the all-Wales primary mental health lead to begin work on Part 1 of the proposed Measure, and we will continue to work closely with services to build capacity, facilities and expertise over the coming years to ensure that the proposed Measure's policies are implemented successfully. This proposed Measure has wide-ranging support from mental health charities, service user groups and professional bodies. There is also much goodwill towards it from the parties in the Chamber. With that in mind, I invite Members to support and approve the proposed Measure.

Andrew R.T. Davies: It is a pleasure to stand up on behalf of the Welsh Conservatives and offer our support at Stage 4 for the proposed Measure. I congratulate the Minister on the way that she has undertaken the negotiations and discussions, as she highlighted, with interested organisations and with political parties in the Senedd, over the development of the proposed Measure during the various Stages. Today, we see a greatly improved and more robust proposed Measure than the one that started the process at Stage 1. While there was criticism earlier in the afternoon over the legislative process in this institution, this proposed Measure can be held up as a model to show what can be achieved when there is a consensus on improving service delivery.

We need to remember that passing the legislation today does not mean the end of the story by a long shot. The Minister's closing remarks about implementation, in particular, are a crucial consideration, because, as politicians, we owe it to the people who will look to the proposed Measure for service delivery to ensure that the services are on the ground. That will ultimately mean that it is not necessary to go to law for redress. Hopefully, that is the last course of action, because we all know how long and bogged-down that process can be. However, I commend everyone involved in the proposed

arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith ledled Cymru. Bydd yr Aelodau'n gweld ymgynghoriadau'n dechrau ar y don gyntaf o is-ddeddfwriaethau yn fuan. Rydym eisoes wedi penodi arweinydd iechyd meddwl sylfaenol Cymru gyfan a fydd yn dechrau gweithio ar Ran 1 o'r Mesur arfaethedig, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda gwasanaethau i ddatblygu gallu, cyfleusterau ac arbenigedd dros y blynyddoedd nesaf er mwyn sicrhau bod polisiau'r Mesur arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Ceir cefnogaeth eang i'r Mesur arfaethedig hwn gan elusennau iechyd meddwl, grwpiau defnyddwyr gwasanaethau a chyrff proffesiynol. Ceir llawer o ewyllys da tuag ato gan y pleidiau yn y Siambr hefyd. Gyda hynny mewn golwg, rwyf yn gwahodd yr Aelodau i gefnogi ac i gymeradwyo'r Mesur arfaethedig.

Andrew R.T. Davies: Mae'n bleser cael sefyll ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, a chynnig ein cefnogaeth yng Nghyfnod 4 i'r Mesur arfaethedig. Hoffwn longyfarch y Gweinidog ar y modd y mae wedi cynnal y negodiadau a'r trafodaethau, fel y dywedodd, gyda sefydliadau â diddordeb a chyda phleidiau gwleidyddol yn y Senedd, ynghylch datblygu'r Mesur arfaethedig yn ystod y gwahanol Gyfnodau. Heddiw, rydym yn gweld Mesur arfaethedig llawer gwell a chadarnach na'r un a ddechreuodd y broses yng Nghyfnod 1. Er y bu beirmiadaeth yn gynharach yn y prynhawn ynghylch y broses ddeddfu yn y sefydliad hwn, gellir defnyddio'r Mesur arfaethedig hwn fel enghraifft berffaith i ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan geir consensws i wella darpariaeth gwasanaethau.

Mae angen inni gofio nad pasio'r ddeddfwriaeth heddiw yw diwedd y stori o bell ffordd. Mae sylwadau clo'r Gweinidog ynghylch gweithredu hyn, yn arbennig, yn ystyriaeth hanfodol, oherwydd mae gennym ni, fel gwleidyddion, ddyletsywydd i'r bobl a fydd yn troi at y Mesur arfaethedig yng nghyswllt darparu gwasanaethau i sicrhau bod y gwasanaethau ar gael ar lawr gwlad. Yn y pen draw, bydd hynny'n golygu nad oes angen mynd i gyfraith ar gyfer gwneud iawn. Dyna yw'r opsiwn olaf, gobeithio, gan ein bod i gyd yn gwybod pa mor hirfaith a llafurus y gall y broses honno fod. Fodd

Measure, particularly my colleague Jonathan Morgan, who tabled the initial LCO. I hope that we can move forward from this stage to improve mental health services in Wales significantly, which I am sure is the desire of everyone in this institution and all of the people involved.

Peter Black: I want to make the simple point that the proposed Measure that is now in front of us and which will soon become law is a good example of what can be achieved through devolution and working together in the Assembly. It has been a consensual process, from Jonathan Morgan's LCO—and Jonathan should take credit for that—to the way that the Minister has worked with all parties to deliver the proposed Measure. The only regret is that we had to go to Westminster to ask for the powers in the first place. We have been talking for the best part of 10 years about having a mental health provision for Wales that is markedly different from that in England, and we have finally achieved that. When we campaign for the vote on 3 March, we need to tell people that this is a good example of what the Assembly can achieve if parties work together and if we are given the powers to do it.

The Presiding Officer: The last word goes to Jonathan Morgan.

Jonathan Morgan: I am delighted to be able to say a few words in support of the proposed Measure as it reaches Stage 4. For a number of years, many of us argued that, with the right legislative competence, the Assembly could reform mental health services in Wales and lead the rest of the UK in improving them. This legislation is the culmination of more than three years of hard work. It offers new opportunities to patients, it lays a new emphasis on statutory bodies working together, and it gives those people in Wales who live with the consequences of mental ill health the certainty of our commitment. Having taken forward the legislative competence Order to devolve the powers necessary for this proposed Measure, I am delighted at the cross-party agreement that was reached.

bynag, hoffwn ganmol pawb a fu'n ymwneud â'r Mesur arfaethedig, yn enwedig fy nghyd-Weinidog, Jonathan Morgan, a gyflwynodd yr LCO gwreiddiol. Gobeithio y gallwn symud ymlaen o'r cyfnod hwn i wella gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru yn sylweddol, sy'n ddymuniad gan bawb yn y sefydliad hwn rwyf yn siŵr, a phawb sy'n gysylltiedig â hyn.

Peter Black: Rwyf am wneud y pwynt syml bod y Mesur arfaethedig sydd ger ein bron yn awr ac a fydd yn dod yn gyfraith yn fuan, yn enghraifft dda o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy ddatganoli a gweithio gyda'n gilydd yn y Cynulliad. Mae wedi bod yn broses gydsyniol, o LCO Jonathan Morgan—a dylai Jonathan gael clod am hynny—i'r modd y mae'r Gweinidog wedi gweithio gyda phob plaid i gyflwyno'r Mesur arfaethedig. Yr unig beth negyddol yw y bu'n rhaid inni fynd i San Steffan i ofyn am y pwerau yn y lle cyntaf. Rydym wedi bod yn sôn ers bron i 10 mlynedd am gael darpariaeth iechyd meddwl i Gymru sy'n dra gwahanol i'r un yn Lloegr, ac rydym wedi cyflawni hynny o'r diwedd. Pan fyddwn yn ymgyrchu dros y bleidlais ar 3 Mawrth, mae angen inni ddweud wrth bobl bod hyn yn enghraifft dda o'r hyn y gall y Cynulliad ei gyflawni os bydd pleidiau yn gweithio gyda'i gilydd ac os byddwn yn cael y pwerau i wneud hynny.

Y Llywydd: Jonathan Morgan sydd â'r gair olaf.

Jonathan Morgan: Mae'n bleser gennyf ddweud ychydig o eiriau o blaid y Mesur arfaethedig wrth iddo gyrraedd Cyfnod 4. Am flynyddoedd lawer, bu llawer ohonom yn dadlau y gallai'r Cynulliad, gyda'r gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol priodol, ddiwygio gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru ac arwain y ffordd i weddill y DU eu gwella. Y ddeddfwriaeth hon yw penllanw dros dair blynedd o waith caled. Mae'n cynnig cyfleoedd newydd i gleifion, mae'n rhoi pwyslais newydd ar gyrff statudol i weithio gyda'i gilydd, ac mae'n sicrhau ein hymrwymiad i'r bobl hynny yng Nghymru sy'n byw gyda chanlyniadau salwch meddwl. A minnau wedi cyflwyno'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol i ddatganoli'r pwerau sy'n angenrheidiol ar gyfer y Mesur arfaethedig hwn, rwyf yn falch iawn o'r

cytundeb trawsbleidiol.

6.40 p.m.

However, beyond this important legislation, the significant challenge associated with the problems of stigma needs to be tackled. As an Assembly, we need to be bold enough to point out that mental ill health can affect anyone in Wales or the United Kingdom, regardless of who they are. Mental ill health knows no boundaries. I was talking to a constituent yesterday who told me that he did not understand how society viewed mental illness until he had developed such an illness. His most telling remark was that, with a physical illness, you tend to get a lot of sympathy and understanding and you often get a 'Get Well' card, but, with a mental illness, our societal view is quite different and there was no 'Get Well' card for him. That sums up the challenge that we face as a nation. If the one in four, or perhaps one in three, members of the population who are experiencing such challenges need to know that we are on their side, this legislation is proof of our commitment.

I congratulate the Minister and her department, and all the Members who have persevered with this ambitious change. I firmly believe that this legislation is the start of a great reform in our nation. We should not underestimate the power of the changes that it will bring for the people of Wales.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw a ddylid pasio Mesur Arfaethedig Iechyd Meddwl (Cymru). A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, yr wyf yn datgan bod y Mesur arfaethedig wedi ei dderbyn. Yr wyf yn diolch i chi i gyd.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Y Llywydd: Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

Fodd bynnag, y tu hwnt i'r ddeddfwriaeth bwysig hon, mae angen mynd i'r afael â'r her sylweddol sy'n gysylltiedig â phroblemau stigma o hyd. Fel Cynulliad, mae angen inni fod yn ddigon eofn i ddweud y gall iechyd meddwl effeithio ar unrhyw un yng Nghymru neu yn y Deyrnas Unedig, ni waeth pwy ydynt. Nid oes ffiniau i iechyd meddwl. Roeddwn yn siarad ag etholwr ddoe a ddywedodd wrthyf nad oedd yn deall barn cymdeithas am salwch meddwl, nes iddo gael salwch o'r fath ei hun. Ei sylw mwyaf grymus oedd eich bod yn tueddu i gael llawer o gydymdeimlad gyda salwch corfforol a bod pobl yn ei ddeall, a'ch bod yn aml yn cael cerdyn 'Brysiwch Wella', ond bod barn ein cymdeithas yn dra gwahanol tuag at salwch meddwl, ac nid oedd cerdyn 'Brysiwch Wella' ar ei gyfer ef. Mae hynny'n crynhoi'r her rydym yn ei hwynebu fel cenedl. Os yw'r un o bob pedwar, neu efallai'r un o bob tri, aelod o'r boblogaeth sy'n wynebu heriau o'r fath angen gwybod ein bod ar eu hochr hwy, mae'r ddeddfwriaeth hon yn brawf o'n hymrwymiad.

Hoffwn longyfarch y Gweinidog a'i hadran, a'r holl Aelodau sydd wedi dyfalbarhau â'r newid uchelgeisiol hwn. Rwyf yn credu'n gryf mai'r ddeddfwriaeth hon fydd dechrau newid mawr yn ein cenedl. Ni ddylem danbriso grym y newidiadau y bydd yn ei gynnig i bobl Cymru.

The Presiding Officer: The question is whether the Proposed Mental Health (Wales) Measure be passed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, therefore, I declare that the proposed Measure is agreed. I thank you all.

The Presiding Officer: That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.41 p.m.
The meeting ended at 6.41 p.m.*

Aelodau a'u Pleidiau

Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
German, Veronica (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Irene (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Law, Trish (Annibynnol – Independent)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lloyd, Val (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)